# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 29/04/2014

Cynnwys Contents

Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Datganiad: Cysoni Cymorth Cyflogaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU
Statement: Welsh and UK Government Alignment of Employment Support

Cymeradwyo Drafft y 'Cynllun Hawliau Plant 2014' o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
The Approval of the Draft 'Children's Rights Scheme 2014' under the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011

Cynigion ar gyfer Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020
Proposals for the Wales Rural Development Programme 2014-2020

Dadl: Ail Adroddiad Comisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru
Debate: The Second Report of the Silk Commission on Devolution in Wales

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Tlodi Tanwydd yn Nelyn

### Fuel Poverty in Delyn

13:30

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn Nelyn? OAQ(4)1625(FM)*

*1. Will the First Minister provide an update on how the Welsh Government is helping to tackle fuel poverty in Delyn? OAQ(4)1625(FM)*

13:30

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Our energy efficiency programme that includes Nest and Arbed is tackling fuel poverty by improving the energy efficiency of households across Wales, including, of course, in Delyn.

Mae ein rhaglen effeithlonrwydd ynni sy'n cynnwys Nyth ac Arbed yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd trwy wella effeithlonrwydd ynni aelwydydd ledled Cymru, gan gynnwys, wrth gwrs, yn Nelyn.

13:30 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I am really heartened to hear about the Welsh Government's work to help people trapped in fuel poverty. However, it is essential that local authorities also keep a focus on households who are suffering in this way. For example, Flintshire County Council, working with Wales and West Utilities, has secured money for loans that will enable around 600 private households in Mostyn in my constituency to connect to the gas main. Based on today's prices, that will secure a saving of around £774 per year, per household. The loans will be either at nominal or low interest, depending on the criteria. So, First Minister, will you join me in congratulating the authority on being proactive in this very important area?

Diolch yn fawr. Mae'n galonogol iawn clywed am waith Llywodraeth Cymru i helpu pobl sy'n gaeth i dlodi tanwydd. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol hefyd yn canolbwyntio ar deuluoedd sy'n dioddef yn hyn o beth. Er enghraifft, mae Cyngor Sir y Fflint, gan weithio gyda Wales and West Utilities, wedi sicrhau arian ar gyfer benthyciadau a fydd yn galluogi tua 600 o gartrefi preifat ym Mostyn yn fy etholaeth i i gysylltu â'r brif bibell nwy. Yn seiliedig ar brisiau heddiw, bydd hynny'n sicrhau arbediad o tua £774 y flwyddyn, i bob aelwyd. Bydd y benthyciadau hyn ar gyfradd llog nominal neu isel, yn dibynnu ar y meini prawf. Felly, Brif Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch yr awdurdod ar fod yn rhagweithiol yn y maes pwysig iawn hwn?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. I understand that the scheme will provide for 233 council-owned properties to be connected to the gas main free of charge. It will also offer private home owners a nominal or low-interest loan to join up. I very much welcome the scheme and congratulate all those involved in taking it forward.

Gwnaf. Rwy'n deall y bydd y cynllun yn darparu ar gyfer 233 o gartrefi sy'n eiddo i'r cyngor i gael eu cysylltu â'r prif gyflenwad nwy am ddim. Bydd hefyd yn cynnig benthyciad â llog nominal neu isel i berchnogion tai preifat ymuno. Rwy'n croesawu'r cynllun yn fawr iawn ac yn llongyfarch pawb sy'n gysylltiedig â'i ddatblygu.

13:31 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Flintshire affordable warmth scheme, which clearly works successfully with Flintshire council, was the idea of the North Wales Energy Advice Centre. It said that the qualifying criterion is that the client be vulnerable in any way, rather than simply based on benefit eligibility. How, therefore, do you respond to the recommendation in the 2014 UK fuel poverty monitor that there is no current action plan for eradicating fuel poverty in Wales and that the Welsh Government should outline how it intends to prioritise vulnerable households?

Syniad Canolfan Cyngor Effeithlonrwydd Ynni Gogledd Cymru oedd cynllun cynhesrwydd fforddiadwy Sir y Fflint, sydd yn amlwg yn gweithio'n llwyddiannus gyda Chyngor Sir y Fflint. Dywedodd mai'r maen prawf cymhwyso yw bod y cleient yn agored i niwed mewn unrhyw ffordd, yn hytrach na'i fod yn seiliedig ar gymhwysedd ar gyfer budd-daliadau yn unig. Sut, felly, ydych chi'n ymateb i'r argymhelliad ym monitor tlodi tanwydd 2014 y DU nad oes unrhyw gynllun gweithredu cyfredol ar gyfer cael gwared ar dlodi tanwydd yng Nghymru ac y dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y mae'n bwriadu blaenoriaethu aelwydydd sy'n agored i niwed?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is a clear nonsense. We know that we have a number of schemes to deal with fuel poverty deal—Nest and Arbed being two of them. However, I do very much welcome the Member's praise for a Labour council and its initiative in ensuring that fuel poverty is tackled within Flintshire.

Lol yw hynny'n amlwg. Rydym yn gwybod bod gennym nifer o gynlluniau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd—mae Nyth ac Arbed yn ddau ohonynt. Fodd bynnag, rwy'n croesawu'n fawr iawn canmoliaeth yr Aelod o gyngor Llafur a'i fenter i sicrhau yr eir i'r afael â thlodi tanwydd yn Sir y Fflint.

## Mwyngloddio

## Mineral Extraction

13:32 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fwyngloddio ym maes glo de Cymru? OAQ(4)1608(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on mineral extraction in the south Wales coalfield? OAQ(4)1608(FM)*

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

The acceptability of minerals extraction in the coalfield should be assessed in accordance with the appropriate local development plan, national planning policy on minerals contained in 'Minerals Planning Policy Wales', the minerals technical advice notes and any other relevant material considerations.

Dylid asesu pa mor dderbyniol yw mwyngloddio yn y maes glo yn unol â'r cynllun datblygu lleol priodol, polisi cynllunio cenedlaethol ar fwynau sydd wedi eu cynnwys ym 'Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru', y nodiadau cyngor technegol ar fwynau ac unrhyw ystyriaethau materol perthnasol eraill.

13:33 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, First Minister. You will understand the dismay of local residents and campaigners after it emerged that Glamorgan Power, having spent years getting rid of the previous application, now intends to submit a fresh application to opencast at Varteg Hill? The community there now faces another period of uncertainty. One of the most worrying aspects of the previous application was that the planning inspector seemed to pay scant regard to 'Minerals Technical Advice Note 2: Coal', and it was only thanks to the good sense of the Minister, Carl Sargeant, that the application was overturned. First Minister, the details of this latest plan are not yet clear, but what more can you do to ensure that planning inspectors abide by the MTAN 2 guidance, which was, after all, unanimously backed by Assembly Members in this Chamber?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Byddwch yn deall siom trigolion lleol ac ymgyrchwyr ar ôl iddi ddod yn amlwg bod Glamorgan Power, ar ôl treulio blynyddoedd yn cael gwared ar y cais blaenorol, bellach yn bwriadu cyflwyno cais newydd i gloddio glo brig ym Mynydd Farteg? Mae'r gymuned yno yn wynebu cyfnod arall o ansicrwydd nawr. Un o'r agweddau mwyaf pryderus ar y cais blaenorol oedd ei bod yn ymddangos nad oedd yr arolygydd cynllunio yn talu fawr o sylw i 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo', a dim ond oherwydd doethineb y Gweinidog, Carl Sargeant, y cafodd y cais ei wrthdroi. Brif Weinidog, nid yw manylion y cynllun diweddaraf hwn yn eglur eto, ond beth arall allwch chi ei wneud i sicrhau bod arolygwyr cynllunio yn cydymffurfio â chanllawiau MTAN 2, a gafodd, wedi'r cyfan, ei gefnogi'n unfrydol gan Aelodau'r Cynulliad yn y Siambr hon?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Indeed. Without commenting on an individual application—and the Member will understand why I cannot do that—the whole basis of the planning system is that it is for both local authorities and planning inspectors to take into account buffer zone policy and its application in any given case and to accord it appropriate weight in decision making. However, the MTAN is there to be observed and given appropriate weight to. I understand that, where there is a fresh application, that leads to a period of uncertainty, but the planning system enables applicants to make more than one application. However, that does not change the fact that, with regard to the MTAN and 'Minerals Planning Policy Wales', we expect the guidance contained in both those documents to be followed by inspectors.

Yn wir. Heb wneud sylwadau ar gais unigol—a bydd yr Aelod yn deall pam na allaf wneud hynny—sail gyfan y system gynllunio yw ei bod yn fater i awdurdodau lleol ac arolygwyr cynllunio gymryd polisi clustogfeydd i ystyriaeth, a'i ddefnyddio mewn unrhyw achos penodol ac i roi pwys priodol iddo wrth wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae'r MTAN yno i gael ei arsylwi ac i roi pwys priodol iddo. Rwy'n deall, pan geir cais newydd, bod hynny'n arwain at gyfnod o ansicrwydd, ond mae'r system gynllunio yn galluogi ymgeiswyr i wneud mwy nag un cais. Fodd bynnag, nid yw hynny'n newid y ffaith, o ran yr MTAN a 'Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru', ein bod yn disgwyl i'r canllawiau yn y ddwy ddogfen hynny gael eu dilyn gan arolygwyr.

13:34 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Although I appreciate, First Minister, that you cannot comment on specific applications, you will be aware of public concern both in Varteg and also in the Upper Rhymney Valley about applications of this kind. Will you write to local authorities reinforcing your Government's support for a 500m-buffer zone at the very least?

Er fy mod yn gwerthfawrogi, Brif Weinidog, na allwch wneud sylwadau ar geisiadau penodol, byddwch yn ymwybodol o'r pryder cyhoeddus yn y Farteg a hefyd yng Nghwm Rhymni Uchaf am geisiadau o'r fath. A wnewch chi ysgrifennu at awdurdodau lleol yn atgyfnerthu cefnogaeth eich Llywodraeth i glustogfa o 500m o leiaf?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

There is no question that the 500m-buffer zone is contained in the planning guidance, and, as I said, that must be given appropriate weight with any planning application regarding opencast mining, particularly, but also with regard to any minerals extraction applications.

Nid oes unrhyw amheuaeth bod y glustogfa 500m wedi ei chynnwys yn y canllawiau cynllunio, ac, fel y dywedais, mae'n rhaid rhoi pwys priodol i hynny o ran unrhyw gais cynllunio ar gyfer cloddio glo brig, yn enwedig, ond hefyd o ran unrhyw geisiadau mwyngloddio.

13:35 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, opencast mining can leave many areas in a poor state, following the extraction of the mineral, and basically earn a profit for that extraction company. What action is the Welsh Government taking to ensure that restoration schemes for opencast sites—which are part of the original planning application process—are monitored, are adequately funded by the companies, and that amendments are made, if necessary, to ensure that that funding is there, so that they can be acted upon following the completion of the works at the site? This would alleviate the terrible environmental scenarios that we are seeing today in areas such as Parc Slip in my constituency, and which actually borders your constituency and the constituency of Ogmore.

Brif Weinidog, gall cloddio glo brig adael llawer o ardaloedd mewn cyflwr gwael, ar ôl mwyngloddio, a gwneud elw i'r cwmni mwyngloddio hwnnw yn y bôn. Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod cynlluniau adfer ar gyfer safleoedd glo brig—sy'n rhan o'r broses cais cynllunio wreiddiol—yn cael eu monitro, eu hariannu'n ddigonol gan y cwmnïau, a bod diwygiadau'n cael eu gwneud, os oes angen, er mwyn sicrhau bod y cyllid yno, fel y gellir gweithredu arnynt ar ôl cwblhau'r gwaith ar y safle? Byddai hyn yn lliniaru'r sefyllfaoedd amgylcheddol ofnadwy yr ydym ni'n eu gweld heddiw mewn ardaloedd fel Parc Slip yn fy etholaeth i, ac sy'n ffinio â'ch etholaeth chi ac etholaeth Ogwr, mewn gwirionedd.

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The national planning policy position is that, when putting forward proposals for opencast coal working, operators and landowners should ensure that sufficient finance is set aside to enable them to meet restoration and aftercare obligations. The difficulty, of course, is that when we talk about permissions that were given in the 1990s, as a result of the privatisation of opencast coal mining, the bonds that were required to provide full restoration were not sufficient, and that was the view of the Government of the day. He will know, as I do in my role as a constituency Member, that the problem that exists at Parc Slip is the lack of money to pay for restoration at this stage, because of what was done some 20 years ago.

Y safbwynt polisi cynllunio cenedlaethol, wrth gyflwyno cynigion ar gyfer gwaith glo brig, yw y dylai gweithredwyr a thirfeddianwyr sicrhau bod digon o gyllid yn cael ei neilltuo i'w galluogi i fodloni ymrwymiadau adfer ac ôl-ofal. Yr anhawster, wrth gwrs, yw pan fyddwn yn sôn am ganiatadau a roddwyd yn y 1990au, o ganlyniad i breifateiddio cloddio glo brig, nid oedd y bondiau a oedd eu hangen i ddarparu adferiad llawn yn ddigonol, a dyna oedd safbwynt y Llywodraeth ar y pryd. Bydd ef yn gwybod, fel yr wyf innau yn fy swyddogaeth fel Aelod etholaeth, mai'r broblem sy'n bodoli ym Mharc Slip yw'r diffyg arian i dalu am waith adfer ar hyn o bryd, oherwydd yr hyn a wnaed tua 20 mlynedd yn ôl.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the leaders. I call first this afternoon the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan yr arweinwyr. Galwaf ar arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood yn gyntaf y prynhawn yma.

13:36 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Diolch, Lywydd. The First Minister's party leader has sought to belatedly enter the debate on the misuse of zero-hours contracts. Now, I found it particularly interesting that he cited the social care sector as an example of their inappropriate use. In the light of this, will the First Minister now commit to backing future Plaid Cymru amendments to ban the misuse of zero-hours contracts, especially in the provision of public services?

Diolch, Lywydd. Mae arweinydd plaid y Prif Weinidog wedi ceisio ymuno'n hwyr â'r ddadl ar gamddefnyddio contractau dim oriau. Roedd yn arbennig o ddiddorol i mi iddo nodi'r sector gofal cymdeithasol fel enghraifft o'u defnydd amhriodol. Yng ngoleuni hyn, a wnaiff y Prif Weinidog ymrwymo nawr i gefnogi gwelliannau Plaid Cymru yn y dyfodol i wahardd y camddefnydd o gontractau dim oriau, yn enwedig yn y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I can assure the leader of Plaid Cymru that I do not have a party leader, in the sense of being the leader of the Welsh party, any more than Elfyn Llwyd is the leader of Plaid Cymru because of the fact that he is the spokesperson for Plaid Cymru in Westminster.

Gallaf sicrhau arweinydd Plaid Cymru nad oes gennyf arweinydd plaid, yn yr ystyr o fod yn arweinydd y blaid yng Nghymru, ddim mwy nag y mae Elfyn Llwyd yn arweinydd Plaid Cymru oherwydd y ffaith mai ef yw llefarydd Plaid Cymru yn San Steffan.

She and I are on the same page in this regard; there is no difference in terms of our viewpoint. The difficulty that we had with the Social Services and Well-being (Wales) Bill was the issue of competence—we were not prepared to risk the entire Bill over an issue where it was not clear that we had legislative competence. We do not believe that that was a responsible way of doing it. However, when it comes to the approach to zero-hours contracts, she and I are very much on the same page.

Mae hi a minnau o'r un farn yn hyn o beth; nid oes unrhyw wahaniaeth o ran ein safbwynt. Yr anhawster a gawsom gyda'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) oedd y mater o gymhwysedd—nid oeddem yn barod i beryglu'r Bil cyfan dros fater lle nad oedd hi'n eglur bod gennym gymhwysedd deddfwriaethol. Nid ydym yn credu bod hynny'n ffordd gyfrifol o'i wneud. Fodd bynnag, pan ddaw at yr agwedd at gontractau dim oriau, mae hi a minnau yn sicr o'r un safbwynt.

13:37

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, on the matter of zero-hours contracts, the First Minister is determined to divert attention to phantom legal pitfalls. He claims that he is powerless to act on zero-hours contracts. I would like the First Minister to explain why he disputes your ruling, Presiding Officer, that Plaid Cymru amendments on zero-hours contracts through local authority commissioning are, indeed, in competence and in order.

Lywydd, ar y mater o gontractau dim oriau, mae'r Prif Weinidog yn benderfynol o ddargyfeirio sylw at broblemau cyfreithiol nad ydynt yn bodoli. Mae'n honni nad oes ganddo unrhyw bŵer i weithredu ar gontractau dim oriau. Hoffwn i'r Prif Weinidog esbonio pam mae'n anghytuno â'ch dyfarniad, Lywydd, bod gwelliannau Plaid Cymru ar gontractau dim oriau trwy gomisiynu awdurdodau lleol yn gymwys ac mewn trefn, yn wir.

13:38

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The competence is not clear. The competence is not clear for the simple fact that it is not clear whether this would be part of the field of social services or the field of employment. Now, there is no easy answer to this, as we know, of course, because the Agricultural Sector (Wales) Bill has gone to the Supreme Court. We were not prepared as a Government to risk this Bill—the Social Services and Well-being (Wales) Bill—going to the Supreme Court, and possibly losing the entire Bill for the sake of one amendment. That said, however, if there are other ways of ensuring—as we want to move forward with this, and I am sure that she does as well—that zero-hours contracts become a thing of the past, we are of course prepared to do that, without jeopardising a substantial piece of legislation.

Nid yw'r cymhwysedd yn eglur. Nid yw'r cymhwysedd yn eglur oherwydd y ffaith syml nad yw'n eglur a fyddai hyn yn rhan o faes gwasanaethau cymdeithasol neu faes cyflogaeth. Nid oes ateb hawdd i hyn, fel y gwyddom, wrth gwrs, oherwydd mae'r Bil Sector Amaethyddol (Cymru) wedi mynd i'r Goruchaf Lys. Nid oeddem yn barod fel Llywodraeth i gymryd y risg y byddai'r Bil hwn—Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru)—yn mynd i'r Goruchaf Llys, ac o bosibl colli'r Bil cyfan er mwyn un gwelliant. Wedi dweud hynny, fodd bynnag, os oes ffyrdd eraill o sicrhau—gan ein bod eisiau symud ymlaen â hyn, ac rwy'n siŵr ei bod hithau hefyd—bod contractau dim oriau yn cael eu diddymu, rydym ni, wrth gwrs, yn barod i wneud hynny, heb beryglu darn sylweddol o ddeddfwriaeth.

13:38

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Presiding Officer may have a view on that, and our amendments were specifically in relation to local authority commissioning. Now, if there is compelling legal advice on zero-hours contracts and this Assembly's competence in relation to them, will he agree to publish that legal advice in full? However, is it not the case that, rather than fight for the rights of exploited workers in the Supreme Court, if need be, the Labour First Minister of Wales would prefer to vote with the Tories against Plaid Cymru on the issue of zero-hours contracts, because that is what has happened here, in this Chamber, on three separate occasions?

Efallai y bydd gan y Llywydd farn ar hynny, ac roedd ein gwelliannau'n ymwneud yn benodol â chomisiynu awdurdod lleol. Os oes cyngor cyfreithiol pendant ar gontractau dim oriau a chymhwysedd y Cynulliad hwn mewn perthynas â nhw, a yw'n fodlon cytuno i gyhoeddi'r cyngor cyfreithiol hwnnw'n llawn? Fodd bynnag, onid yw'n wir, yn hytrach nag ymladd yn y Goruchaf Lys dros hawliau gweithwyr y camfanteisir arnynt, os oes angen, y byddai'n well gan Brif Weinidog Cymru bleidleisio gyda'r Toriaid yn erbyn Plaid Cymru ar y mater o gontractau dim oriau, oherwydd dyna sydd wedi digwydd yma, yn y Siambr hon, ar dri gwahanol achlysur?

13:39

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The leader of Plaid Cymru will not help workers on zero-hours contracts by running headlong into a brick wall, which is something that she clearly wishes to do. She and I are in the same position with regard to zero-hours contracts, but what we were not prepared to do was to take a piece of legislation that had taken up the time of this Assembly for many, many hours, and jeopardise it. I do not believe that that is responsible government, and I believe that there are others on her benches who take the same view.

Ni fydd arweinydd Plaid Cymru yn helpu gweithwyr ar gontractau dim oriau trwy redeg yn syth i mewn i wal frics, sy'n rhywbeth y mae'n amlwg yn dymuno ei wneud. Mae ganddi hi a minnau'r un safbwynt o ran contractau dim oriau, ond yr hyn nad oeddem yn barod i'w wneud oedd cymryd darn o ddeddfwriaeth a oedd wedi cymryd amser y Cynulliad hwn am oriau lawer, a'i roi mewn perygl. Nid wyf yn credu bod hynny'n llywodraethu cyfrifol, ac rwy'n credu bod pobl eraill ar ei meinciau sydd o'r un farn.

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:40 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, in your Government's delivery plan for the critically ill, you say that critical care units should run at an average bed occupancy of around 65% to 70%. However, last year, all units in Wales reported rates of bed occupancy greater than 80%, and many often operating beyond 100%. Could you tell the Chamber what improvements have been made in bed occupancy rates in our critical care units since the delivery plan was published by your Government?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, yng nghynllun cyflawni eich Llywodraeth ar gyfer y difrifol wael, rydych chi'n dweud y dylai unedau gofal critigol weithredu ar y sail bod 65% i 70% o'u gwelyau yn llawn ar gyfartaledd. Fodd bynnag, y llynedd, adroddodd pob uned yng Nghymru bod cyfraddau'r gwelyau llawn yn uwch na 80%, ac roedd llawer yn aml yn gweithredu y tu hwnt i 100%. A allech chi ddweud wrth y Siambr pa welliannau sydd wedi eu gwneud i gyfraddau gwelyau llawn yn ein hunedau gofal critigol ers cyhoeddi'r cynllun cyflawni gan eich Llywodraeth?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I can point to the fact that, over the course of the winter, there was no winter crisis, as was suggested would happen. Local health boards dealt with the issues that arose over the winter. They made proper preparations and they were in a position to ensure that critical care beds were available in order to deal with the situation. That is an improvement on what happened the winter before.

Gallaf dynnu sylw at y ffaith, yn ystod y gaeaf, nad oedd unrhyw argyfwng gaeaf, fel yr awgrymwyd a fyddai'n digwydd. Ymdriniodd byrddau iechyd lleol â'r problemau a gododd yn ystod y gaeaf. Gwnaethant baratoadau priodol ac roedden nhw mewn sefyllfa i sicrhau bod gwelyau gofal critigol ar gael er mwyn ymdrin â'r sefyllfa. Mae hynny'n welliant ar yr hyn a ddigwyddodd y gaeaf cynt.

13:41 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

However, First Minister, only yesterday, the Royal College of Anaesthetists warned that a lack of critical care beds was forcing clinicians to either choose cancelling operations for patients, including cancer patients, or opt to proceed with surgery without the appropriate critical care bed.

Fodd bynnag, Brif Weinidog, ddoe ddiwethaf, rhybuddiodd Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion bod diffyg gwelyau gofal critigol yn gorfodi clinigwyr i ddewis canslo llawdriniaethau i gleifion, gan gynnwys cleifion canser, neu ddewis bwrw ymlaen â llawdriniaeth heb y gwely gofal critigol priodol.

You said that local health boards should have published annual reports for the critically ill by March 2014. Could you confirm to the Chamber that all local health boards have published those annual reports and are available to the public?

Dywedasoch y dylai byrddau iechyd lleol fod wedi cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gyfer y difrifol wael erbyn mis Mawrth 2014. A allech chi gadarnhau i'r Siambr bod pob bwrdd iechyd lleol wedi cyhoeddi'r adroddiadau blynyddol hynny a'u bod ar gael i'r cyhoedd?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I would expect those reports to be published by now, of course, given the date, and I would expect them to be made available to the public.

Byddwn yn disgwyl i'r adroddiadau hynny fod wedi eu cyhoeddi erbyn hyn, wrth gwrs, o ystyried y dyddiad, a byddwn yn disgwyl iddynt gael eu rhoi ar gael i'r cyhoedd.

13:41 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. Perhaps you could check whether that is actually the case. It does not seem to me that the local health boards, certainly on their websites, have those documents available to the public.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Efallai y gallech chi gadarnhau a yw hynny'n wir mewn gwirionedd. Nid yw'n ymddangos i mi bod y dogfennau hynny ar gael i'r cyhoedd gan y byrddau iechyd lleol, yn sicr nid ar eu gwefannau.

First Minister, in the same delivery plan, you promised that improvements would be seen when there was better throughput through the whole hospital system, but we have seen a 19% reduction in the number of hospital beds over the last 10 years, and the British Medical Association has warned of a bed crisis. The most recent figures on delayed transfers of care—delayed discharges—show no improvement and remain stubbornly high. When will you stop reducing the number of beds in our district general hospitals and when can we hope to see an improvement in delayed transfers of care?

Brif Weinidog, yn yr un cynllun cyflawni, addawsoch y gwelid gwelliannau pan fyddai gwell trwybwn drwy'r system ysbytai gyfan, ond rydym ni wedi gweld gostyngiad o 19% i nifer y gwelyau ysbyty dros y 10 mlynedd diwethaf, ac mae Cymdeithas Feddygol Prydain wedi rhybuddio y bydd argyfwng gwelyau. Nid yw'r ffigurau diweddaraf ar oedi wrth drosglwyddo gofal—achosion o ryddhau wedi eu hoedi—yn dangos unrhyw welliant ac maen nhw'n parhau i fod yn ystyfnig o uchel. Pryd wnewch chi roi'r gorau i leihau nifer y gwelyau yn ein hysbytai cyffredinol dosbarth a phryd allwn ni obeithio gweld gwelliant o ran oedi wrth drosglwyddo gofal?

13:42

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

While it is correct to say that the number of beds has dropped over 10 years, that has been true in all parts of the UK, and there have been reasons for that, which include, for example, the fact that people now get treatment outside of hospitals for certain conditions, for which they needed hospital treatment before. She mentions delayed transfers of care, and they are, to my knowledge, at a 10-year low in Wales, whereas in England they have seen a spike in delayed transfers of care. So, yes, while delayed transfers of care remain for some individuals—and they must be reduced, that much is true—we are nevertheless seeing an improvement that is historically very high as far as Wales is concerned.

Er ei bod yn gywir i ddweud bod nifer y gwelyau wedi gostwng dros 10 mlynedd, mae hynny wedi bod yn wir ym mhob rhan o'r DU, a bu rhesymau am hynny, gan gynnwys, er enghraifft, y ffaith fod pobl bellach yn cael triniaeth y tu allan i ysbytai ar gyfer cyflyrau penodol, pan yr oedd angen triniaeth ysbyty arnynt cynt. Mae hi'n sôn am oediadau wrth drosglwyddo gofal, ac maen nhw, hyd y gwn, ar eu lefel isaf ers 10 mlynedd yng Nghymru, ond bu cynnydd sylwedddol yn yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn Lloegr. Felly, iawn, tra bod oedi wrth drosglwyddo gofal yn parhau i rai unigolion—ac mae'n rhaid eu gostwng, mae cymaint â hynny'n wir—rydym ni'n gweld gwelliant serch hynny, sydd yn hanesyddol uchel iawn cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn.

13:43

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finally, I call the leader of the opposition, Andrew R. T. Davies.

Yn olaf, galwaf ar arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:43

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

First Minister, is it still the goal of the Welsh Government to get the PISA rankings for Wales in the top 20% by 2015?

Brif Weinidog, ai nod Llywodraeth Cymru o hyd yw cael y graddau PISA ar gyfer Cymru yn yr 20% uchaf erbyn 2015?

13:43

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We want to see an improvement in PISA rankings, and that is what we expect to see with the improvements that we have put in place.

Rydym ni eisiau gweld gwelliant yn y graddau PISA, a dyna'r hyn yr ydym ni'n disgwyl ei weld gyda'r gwelliannau rydym ni wedi eu rhoi ar waith.

13:43

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not sure whether that was confirmation that that goal is still an aspiration central to Government thinking or not. However, how can people have confidence that you will be able to lift the rankings of Wales in that league table when a recent report clearly identified that there was a lack of long-term vision from the Welsh Government, that implementation from Welsh Government Ministers was weak and that teachers were overwhelmed with the constant reform agenda that is at the heart of what your Government is seeking to do? So, how can you correlate the improvements that we all want to see in education here in Wales with that independent report highlighting the failures of your Government and successive Labour Governments?

Nid wyf yn siŵr a oedd hynna'n gadarnhad bod y nod yn dal i fod yn ddyhead canolog i syniadau'r Llywodraeth ai peidio. Fodd bynnag, sut all pobl fod yn hyderus y byddwch chi'n gallu gwella safle Cymru yn y tabl cynghrair hwnnw pan nododd adroddiad diweddar yn eglur bod diffyg gweledigaeth hirdymor gan Lywodraeth Cymru, bod gweithredu gan Weinidogion Llywodraeth Cymru yn wan a bod athrawon yn cael eu llethu gan yr agenda diwygio cyson sydd wrth wraidd yr hyn mae eich Llywodraeth yn ceisio ei wneud? Felly, sut allwch chi gyfateb y gwelliannau yr ydym ni i gyd eisiau eu gweld mewn addysg yma yng Nghymru gyda'r adroddiad annibynnol hwnnw sy'n amlygu methiannau eich Llywodraeth a Llywodraethau Llafur olynol?

13:44

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

First of all, the report he refers to, I believe, is seven years old. Secondly, I do not believe that he has seen it. He has not, because I know that the alleged report that was given to the BBC was only summary and conclusions—and selectively—and not the report itself. He is perfectly welcome to see the report, of course, as are all Members, but if he could confirm that he has actually seen the report and draw on whichever part of the report he wishes to draw on, then, of course, I will be more than happy to answer his questions in that regard.

Yn gyntaf oll, mae'r adroddiad y mae'n cyfeirio ato, rwy'n credu, yn saith mlwydd oed. Yn ail, nid wyf yn credu ei fod wedi ei weld. Nid yw wedi ei weld, gan fy mod yn gwybod mai dim ond crynodeb a chasgliadau—a'r rheini'n rhai dethol—oedd yr adroddiad honedig a roddwyd i'r BBC, ac nid yr adroddiad ei hun. Mae croeso iddo weld yr adroddiad, wrth gwrs, fel y mae croeso i bob Aelod, ond pe gallai gadarnhau ei fod wedi gweld yr adroddiad mewn gwirionedd a thynnu sylw at ba bynnag ran o'r adroddiad y mae'n dymuno tynnu sylw ati, yna, wrth gwrs, byddaf yn fwy na bodlon i ateb ei gwestiynau yn hynny o beth.

However, I remind him that we have seen school spending increasing in Wales; we have seen school building carrying on in Wales when this has been cut in England; and we have seen many of the recommendations that were in that report being put in place by this Government.

Fodd bynnag, rwy'n ei atgoffa ein bod wedi gweld gwariant ysgolion yn cynyddu yng Nghymru; rydym ni wedi gweld gwaith adeiladu ysgolion yn parhau yng Nghymru pan mae hyn wedi cael ei dorri yn Lloegr; ac rydym ni wedi gweld llawer o'r argymhellion a oedd yn yr adroddiad hwnnw yn cael eu rhoi ar waith gan y Llywodraeth hon.

13:44

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

I am completely dumbfounded by that. The report that I referred to was your own Government-commissioned report by the Organisation for Economic Co-operation and Development that was released just before Easter. It is in the public domain; it is there for everyone to see; and it was an independent appraisal commissioned by the former Minister for education of the failings of the Welsh education system. I quote again to you, First Minister. It said that the Labour Welsh Government 'lacks a long-term vision', that the implementation by Labour Ministers was 'weak', and that teachers were 'overwhelmed' by constant reform.

Mae hynna'n fy syfrdanu'n llwyr. Yr adroddiad yr oeddwn yn cyfeirio ato yw eich adroddiad eich hun a gomisiynwyd gan y Llywodraeth gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a gyhoeddwyd ychydig cyn y Pasg. Mae ar gael i'r cyhoedd; mae yno i bawb ei weld; ac roedd yn werthusiad annibynnol a gomisiynwyd gan y cyn-Weinidog addysg o ddiffygion system addysg Cymru. Dyfynnaf eto i chi, Brif Weinidog. Roedd yn dweud bod gan Lywodraeth Cymru 'ddiffyg gweledigaeth hirdymor', bod y gweithredu gan Weinidogion Llafur yn 'wan', a bod yn athrawon wedi eu 'llethu' gan y diwygio cyson.

You then refer to a report that your Government has sat on since 2007. We know that there has been a damning indictment of failure on education delivery by your Government and successive Labour Governments. You are unable to give us any indication of where you want to see our rankings in 2015. Is it any wonder that there is a bunker mentality at the heart of your Government and that your eyes are shut with regard to education? What do you want for Welsh education? Do you want to reform and improve or do you want to carry on as you always have done?

Fe wnaethoch wedyn gyfeirio at adroddiad y mae eich Llywodraeth chi wedi ei gadw'n dawel ers 2007. Rydym yn gwybod y bu beirniadaeth ddamniol o fethiant o ran darpariaeth addysg gan eich Llywodraeth chi a Llywodraethau Llafur olynol. Nid ydych chi'n gallu rhoi unrhyw syniad i ni o ble rydych chi eisiau gweld ein graddau yn 2015. A yw'n unrhyw syndod bod meddylfryd byncer wrth wraidd eich Llywodraeth, a bod eich llygaid ar gau o ran addysg? Beth ydych chi ei eisiau ar gyfer addysg yng Nghymru? A ydych chi eisiau diwygio a gwella neu a ydych chi eisiau parhau fel yr ydych chi wedi ei wneud erioed?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

When the leader of the opposition is caught out he thinks that, by speaking for a long time and shouting, he can avoid the fact that he has been caught out; we know that. Given what his party is doing in England with the endless weekly reforms being implemented there, he is on weak ground. He has not seen the report. That is what we now know. He has not seen that report. He is drawing on a piece of paper that he is reading from and not from the report itself, and so he is drawing from a report that he has not in fact himself seen. That much is a fact. He does not know what the report contains. He does not know what recommendations have been taken up by the Welsh Government. All he knows is what he has read in the media. Nevertheless, he does tell us, of course, that he is dumbfounded. It does not take much. It does not take much—we know that; we have seen it many, many times in this Chamber. I noted today that, at his press conference, he said that he is not a career politician. I applaud that point of view. [Laughter.] He is not a career politician; he can go back to a business whenever he wants to. May I say that we on these benches would like nothing more than to see him stay until at least April 2016?

Pan gaiff arweinydd yr wrthblaid ei ddal, mae'n credu, trwy siarad am amser maith a gweiddi, y gall osgoi'r ffaith ei fod wedi cael ei ddal; rydym ni'n gwybod hynny. O ystyried yr hyn y mae ei blaid ef yn ei wneud yn Lloegr gyda'r diwygiadau wythnosol diddiwedd sy'n cael eu gweithredu yno, mae ar dir sigledig. Nid yw wedi gweld yr adroddiad. Rydym ni'n gwybod hynny bellach. Nid yw wedi gweld yr adroddiad hwnnw. Mae'n defnyddio darn o bapur y mae'n darllen oddi arno ac nid o'r adroddiad ei hun, ac felly mae'n defnyddio adroddiad nad yw ef ei hun wedi ei weld mewn gwirionedd. Mae cymaint â hynny'n ffaith. Nid yw'n gwybod yr hyn y mae'r adroddiad yn ei gynnwys. Nid yw'n gwybod pa argymhellion y mae Llywodraeth Cymru wedi eu dilyn. Y cwbl mae'n ei wybod yw'r hyn y mae wedi ei ddarllen yn y cyfryngau. Serch hynny, mae'n dweud wrthym, wrth gwrs, ei fod wedi ei syfrdanu. Nid yw'n cymryd llawer. Nid yw'n cymryd llawer—rydym ni'n gwybod hynny; rydym ni wedi ei weld lawer, lawer gwaith yn y Siambr hon. Sylwais heddiw, yn ei gynhadledd i'r wasg, iddo ddweud nad yw'n wleidydd gyrfa. Rwy'n cymeradwyo'r safbwynt hwnnw. [Chwerthin.] Nid yw'n wleidydd gyrfa; gall fynd yn ôl i fusnes pa bryd bynnag y mae'n dymuno. A gaf fi ddweud y byddem ni ar y meinciau hyn yn hoffi dim yn fwy na'i weld yn aros tan o leiaf fis Ebrill 2016?

## Cynlluniau Gwaredu Daearegol

## Geological Disposal Programmes

13:47 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar gynlluniau gwaredu daearegol yng Nghymru? OAQ(4)1621(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's policy on geological disposal programmes in Wales? OAQ(4)1621(FM)*

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Ers 2008, polisi Llywodraeth Cymru yw peidio â chefnogi na gwrthwynebu gwaredu daearegol ar gyfer gwastraff ymbelydrol actifedd uwch. Fodd bynnag, heddiw mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi lansio galwad am dystiolaeth sy'n gwahodd safbwyntiau er mwyn gallu penderfynu a oes angen adolygu'r polisi ynglŷn â gwaredu gwastraff o'r fath. Ond, yn hanesyddol, mae gwastraff o'r fath wedi mynd i Sellafield, ac nid oes arwydd y bydd hynny'n newid yn y dyfodol.

Since 2008, Welsh Government policy has been to neither support nor oppose geological disposal for higher-activity radioactive waste. However, the Minister for Natural Resources and Food has today launched a call for evidence, seeking views as to whether the policy for disposal of HAW should be reviewed. However, historically, such waste has gone to Sellafield and there is no sign that this will change in future.

13:48 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf i ddiolch ichi am y datganiad a wnaethpwyd yn gynharach heddiw? Fel y cawsom ar ddeall, nid oes gan y Llywodraeth farn o blaid nac yn erbyn gwaredu daearegol hyd yma. Mae hynny'n siom i bobl Ynys Môn. Fodd bynnag, croesawaf y ffaith bod adolygiad o bosibl ar y gweill. Rwy'n gwahodd y Prif Weinidog, o ystyried y farn glir yn Ynys Môn yn erbyn claddfa o'r fath ar yr ynys, i ddweud y bydd bellach yn gwbl glir yn ei gefnogaeth i ymgyrch yn erbyn unrhyw gladdfa o'r fath, i fewnforio deunydd ymbelydrol i Ynys Môn yn y dyfodol.

May I thank you for the statement made earlier today? As we understand it, the Government has no view in favour or against geological disposal. That is a disappointment for the people of Anglesey. However, I welcome the fact that there is a review possibly in the pipeline. I invite the First Minister, given the clear views in Anglesey against such disposal on the island, to say that he will now be entirely clear in his support for a campaign against any disposal of that sort, which would import radioactive material to Anglesey in future.

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nid ydym o blaid mewnforio unrhyw wastraff i Gymru. Nid ydym o blaid claddu unrhyw wastraff o'r fath. Rydym am sicrhau parhad y sefyllfa sydd wedi bodoli hyd yn hyn, sef bod y gwastraff yn mynd i Sellafield. Nid yw'n fwriad gennym newid hynny, a dyna farn Llywodraeth y DU hefyd, o'r hyn y gallwn ei weld.

We are not in favour of any importing of waste into Wales. We are not in favour of any burial of such waste. We want to ensure that the position that has existed so far continues, namely that the waste goes to Sellafield. We do not intend to change that, and neither does the UK Government from what we can see.

Senedd.tv Fideo Video

13:49 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Even though the Welsh Government has decided to reserve the powers over geological disposal facilities, should a community in Wales wish to express an interest in hosting a GDF, would it still make that expression to you, which would then compel you to consider your policy position, or would it direct that interest to the UK Government?

Er bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cadw'r pwerau dros gyfleusterau gwaredu daearegol, pe byddai cymuned yng Nghymru yn dymuno mynegi diddordeb mewn cynnal GDF, a fyddai'n dal i fynegi hynny i chi, a fyddai wedyn yn eich gorfodi i ystyried eich safbwynt o ran polisi, neu a fyddai'n cyfeirio'r diddordeb hwnnw at Lywodraeth y DU?

Senedd.tv Fideo Video

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I know not of any community in Wales that is volunteering to accept waste of this kind but the policy up until now—and I hope that it remains this way—has always been that, where communities wish to accept the waste, as the communities around Sellafield have done, that should continue to be the case.

Nid wyf yn gwybod am unrhyw gymuned yng Nghymru sy'n gwirfoddoli i dderbyn gwastraff o'r math hwn ond y polisi hyd yn hyn—ac rwy'n gobeithio y bydd yn parhau fel hyn—fu bob amser, pan fo cymunedau eisiau derbyn y gwastraff, fel y mae'r cymunedau o amgylch Sellafield wedi ei wneud, dylai hynny barhau i fod yn wir.

Senedd.tv Fideo Video

## Lleoliadau Cloddio Glo Brig

## Opencast Mining Locations

13:49 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Prif Weinidog egluro polisi Llywodraeth Cymru o ran lleoliadau cloddio glo brig yng Nghymru? OAQ(4)1623(FM)*

*4. Will the First Minister clarify the Welsh Government's policy towards opencast mining locations in Wales? OAQ(4)1623(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

In answer to the Member's question, I can refer him to previous answers I have given this afternoon, particularly with regard to 'Minerals Planning Policy Wales' and MTAN 2.

I ateb cwestiwn yr Aelod, gallaf ei gyfeirio at atebion blaenorol yr wyf i wedi eu rhoi brynhawn heddiw, yn enwedig o ran 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru' a MTAN 2.

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

If the Nant Llesg opencast mining operation in the Rhymney valley goes ahead, and I oppose it, a number of companies in the area have already said that they will relocate. We know that jobs are needed in the Heads of the Valleys area, but do you think that it is right to put the promise of relatively few and short-term opencast mining jobs above the enormous environmental cost that would be the result of opencast mining? We, the people of the communities of Nant Llesg, Varteg and Llwydcoed, have paid the price of coal. Do you agree that we need protection by law?

Os bydd gweithrediadau cloddio glo brig Nant Llesg yng nghwm Rhymni yn mynd yn ei flaen, ac rwy'n ei wrthwynebu, mae nifer o gwmnïau yn yr ardal eisoes wedi dweud y byddant yn adleoli. Rydym ni'n gwybod bod angen swyddi yn ardal Blaenau'r Cymoedd, ond a ydych chi'n credu ei bod yn iawn rhoi'r addewid o swyddi cloddio glo brig cymharol brin a byrdymor o flaen y gost amgylcheddol enfawr a fyddai'n deillio o gloddio glo brig? Rydym ni, pobl cymunedau Nant Llesg, y Farteg a Llwydcoed, wedi talu pris glo. A ydych chi'n cytuno bod angen i ni gael ein hamddiffyn gan y gyfraith?

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

The Member will understand that I cannot comment on any individual planning application, but I reiterate the fact that the buffer zone exists within the MTAN and within 'Minerals Planning Policy Wales'.

Bydd yr Aelod yn deall na allaf wneud sylwadau ar unrhyw gais cynllunio unigol, ond rwy'n ailadrodd y ffaith fod y glustogfa'n bodoli o fewn y MTAN ac o fewn 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru'.

13:50 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, when I sat on the Petitions Committee in the last Assembly, we dealt with many petitions in relation to opencast mining and the planning process. Your Government is bringing forward a new planning Bill. Has your Government given any consideration to making more robust the procedures that enable members of the public and interested parties to contribute to the decision-making process around these applications? One of the big things that I come across time and again is the disconnect that many people feel that they have from the decision-making process on such applications.

Brif Weinidog, pan roeddwn i'n eistedd ar y Pwyllgor Deisebau yn y Cynulliad diwethaf, fe wnaethom ni ymdrin â llawer o ddeisebau yn ymwneud â chloddio glo brig a'r broses gynllunio. Mae eich Llywodraeth yn cyflwyno Bil cynllunio newydd. A yw eich Llywodraeth wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i roi mwy o gadernid i'r gweithdrefnau sy'n galluogi aelodau o'r cyhoedd a phartïon â buddiant i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau ynghylch y ceisiadau hyn? Un o'r pethau mawr rwyf fi'n eu gweld dro ar ôl tro yw'r datgysylltiad y mae llawer o bobl yn ei deimlo oddi wrth y broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau o'r fath.

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

There are always calls, and I have heard them before, that buffer zones should, for example, be put into law. The difficulty with that is: where does it end? Do you end up with no planning policy and everything contained in a Bill, in which case there is no flexibility, or do you carry on with the situation where the planning system is set up by law, but planning policy and guidance are done through MTANs and through TANs? That is what we have to wrestle with. The difficulty with suggesting, for example—he did not suggest this, but it has been suggested before—that you introduce a buffer zone in law, particularly with regard to opencast mining, is why not do it for everything else? Why pick on only one particular area? Of course, that opens up the debate as to what the balance is between policy and law. In Scotland, for example, we know that even though there was, if I remember rightly, a wider buffer zone, there were still successful planning applications for opencast mining within the buffer zone; it is not quite what it appears to be on occasion. I believe that the approach that we have taken, historically, as a Government is the right one, namely to put in place a buffer zone, rather than the approach that has been taken in England by Governments of different parties, where, instead of having a physical buffer zone, there have been a number of criteria that have to be met. We do not think that that is the right approach, and we believe that the buffer-some approach is the correct one.

Ceir galw bob amser, ac rwyf i wedi eu clywed o'r blaen, y dylai clustogfeydd, er enghraifft, gael eu cynnwys yn y gyfraith. Yr anhawster gyda hynny yw: ble mae'n dod i ben? A fyddwch chi'n canfod eich hun mewn sefyllfa lle nad oes unrhyw bolisi cynllunio a phopeth wedi ei gynnwys mewn Bil, gan olygu nad oes unrhyw hyblygrwydd, neu a ydych chi'n parhau â'r sefyllfa lle mae'r system gynllunio wedi ei sefydlu gan y gyfraith, ond bod polisi a chanllawiau cynllunio yn cael eu cyflwyno trwy MTANau a thrwy TANau? Dyna'r hyn y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael ag ef. Yr anhawster gydag awgrymu, er enghraifft—ni awgrymodd hyn, ond mae wedi cael ei awgrymu o'r blaen—eich bod yn cyflwyno clustogfa yn y gyfraith, yn enwedig o ran cloddio glo brig, yw pam nid gwneud hynny ar gyfer popeth arall? Pam pigo ar un maes penodol yn unig? Wrth gwrs, mae hynny'n creu'r ddadl o ran yr hyn yw'r cydbwysedd rhwng polisi a chyfraith. Yn yr Alban, er enghraifft, rydym yn gwybod, er bod clustogfa ehangach, os rwy'n cofio'n iawn, roedd ceisiadau cynllunio llwyddiannus yn parhau ar gyfer cloddio glo brig o fewn y glustogfa; nid yw' union yr hyn y mae'n ymddangos i fod ar adegau. Rwy'n credu mai'r dull rydym ni wedi ei fabwysiadu, yn hanesyddol, fel Llywodraeth yw'r un cywir, sef sefydlu clustogfa, yn hytrach na'r dull a gymerwyd yn Lloegr gan Lywodraethau o wahanol bleidiau, pryd, yn hytrach na chael clustogfa ffisegol, y bu nifer o feini prawf y bu'n rhaid eu bodloni. Nid ydym yn credu mai dyna'r dull cywir, ac rydym ni'n credu mai'r dull clustogfa yw'r un cywir.

13:52 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, it was my privilege to accept an invitation to speak at the rally last week of the united Valleys action group at Ystrad Mynach with regard to the particular application that was referenced earlier by Lindsay Whittle AM. One issue that was brought up by some of the activists at that event was the alleged practice of some operators within the opencast sector of dipping into community funds so as to top up their own legal war chests to fight challenges brought by the community that those funds were intended to compensate. If that was borne out to be true, First Minister, would you condemn such a practice and, secondly, would you undertake to strengthen the guidance around the governance of such community funds in the future so as to avoid such dangers?

Brif Weinidog, roedd yn fraint i mi dderbyn gwahoddiad i siarad yn rali grŵp gweithredu unedig y Cymoedd yr wythnos diwethaf yn Ystrad Mynach o ran y cais penodol y cyfeiriwyd ato’n gynharach gan Lindsay Whittle AC. Un mater a godwyd gan rai a gymerodd ran yn y digwyddiad hwnnw oedd arfer honedig rhai gweithredwyr yn y sector glo brig o fanteisio ar gronfeydd cymunedol er mwyn ychwanegu at eu cronfeydd cyfreithiol eu hunain i ymladd heriau a ddygwyd gan y gymuned y bwriadwyd y cronfeydd hynny i’w digolledu. Pe byddai hynny'n cael ei gadarnhau i fod yn wir, Brif Weinidog, a fyddech chi’n condemnio arfer o'r fath ac, yn ail, a fyddech chi'n ymgymryd â chryfhau'r canllawiau yn ymwneud â llywodraethu cronfeydd cymunedol o'r fath yn y dyfodol er mwyn osgoi peryglon o'r fath?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is a serious point that the Member raises. If he could write to me with further detail—if he wishes, he could pass that detail on confidentially—I would be willing to consider the points that he has made.

Mae'n bwynt difrifol y mae'r Aelod yn ei godi. Pe gallai ysgrifennu ataf gyda manylion pellach—os yw'n dymuno, gallai gyfleu’r manylion hynny’n gyfrinachol—byddwn yn fodlon ystyried y pwyntiau y mae wedi eu gwneud.

13:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have reached question 6, which is to be asked by Mohammad Asghar.

Rydym wedi cyrraedd cwestiwn 6, a fydd yn cael ei ofyn gan Mohammad Asghar.

### Gwasanaethau ar gyfer Pobl Sy’n Dioddef o Ddementia

### Services for Dementia Sufferers

13:53 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa gamau a gymerir gan Lywodraeth Cymru yn 2014 i wella gwasanaethau ar gyfer pobl sy’n dioddef o ddementia yng Nghymru? OAQ(4)1609(FM)*

*5. What action will the Welsh Government take in 2014 to improve services for dementia sufferers in Wales? OAQ(4)1609(FM)*

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I believe that this is question 5, Llywydd, rather than question 6.

Rwy’n credu mai cwestiwn 5 yw hwn, Lywydd, yn hytrach na chwestiwn 6.

13:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I beg your pardon; it is question 5, but it is still Mohammad Asghar.

Mae’n ddrwg gennyf; cwestiwn 5 yw e, ond Mohammad Asghar sy’n ei ofyn beth bynnag.

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

‘Together for Mental Health’ sets out the steps being taken to further improve dementia services. Our focus is on improving rates of diagnosis, raising awareness and increasing access to information and support. We will continue to work to improve standards in primary care, in district general hospital settings and, of course, within community services.

Mae 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yn nodi'r camau sy'n cael eu cymryd i wella gwasanaethau dementia ymhellach. Rydym yn canolbwyntio ar wella cyfraddau diagnosis, codi ymwybyddiaeth a chynyddu mynediad at wybodaeth a chymorth. Byddwn yn parhau i weithio i wella safonau mewn gofal sylfaenol, mewn ysbytai cyffredinol dosbarth ac, wrth gwrs, mewn gwasanaethau cymunedol.

13:54 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, First Minister, for the reply. A recent review by Care and Social Services Inspectorate Wales found that dementia services across Wales were not sustainable. It found significant gaps in planning and provision of prevention and early intervention services, while services for carers varied, and were underdeveloped in some areas. What action will the Welsh Government take to address these issues and to improve services for dementia sufferers in Wales?

Diolch yn fawr iawn, Brif Weinidog, am yr ateb. Canfu adolygiad diweddar gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru nad yw gwasanaethau dementia ledled Cymru yn gynaliadwy. Canfu fylchau sylweddol o ran cynllunio a darparu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar, tra bod gwasanaethau i ofalwyr yn amrywio, ac nad oeddent wedi eu datblygu'n ddigonol mewn rhai ardaloedd. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn ac i wella gwasanaethau i'r rhai sy'n dioddef o ddementia yng Nghymru?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I would refer the Member to the dementia friends initiative that was launched in January by the Minister. It was the Alzheimer's Society's initiative. It is funded by Welsh Government and it is designed to increase wider understanding to augment advocacy services and to roll out training for those delivering care. The aim, of course, is to bring the issue of dementia to the forefront of people's minds in communities across Wales. That initiative, of course, is another example of our commitment to providing a dementia-friendly Wales.

Byddwn yn cyfeirio'r Aelod at y fenter ffrindiau dementia a gafodd ei lansio gan y Gweinidog ym mis Ionawr. Menter Cymdeithas Clefyd Alzheimer oedd hon. Fe'i hariennir gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi ei chynllunio i gynyddu dealltwriaeth ehangach i wella gwasanaethau eiriolaeth ac i gyflwyno hyfforddiant i'r rheini sy'n darparu gofal. Y nod, wrth gwrs, yw dod â'r mater o ddementia i flaen meddyliau pobl mewn cymunedau ledled Cymru. Mae'r fenter honno, wrth gwrs, yn enghraifft arall o'n hymrwymiad i ddarparu Cymru sy'n ystyriol o ddementia.

13:55 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I was pleased to go along to the launch of the dementia friends initiative along with colleagues from across the Chamber, and I certainly commend this initiative. The approach of trying to turn all communities into dementia-friendly communities is valuable, particularly given the fact that we know that two thirds of people with dementia live in the community rather than in a care setting. While welcoming the support for the initiative in terms of funding from the Welsh Government, will you personally commit to supporting this initiative and leading on this through the Welsh Government as we seek to turn Wales into a dementia-friendly country?

Brif Weinidog, roeddwn i'n falch o fynd i lansiad menter ffrindiau dementia gyda chydweithwyr o bob rhan o'r Siambr, ac rwy'n sicr yn cymeradwyo'r fenter hon. Mae'r ymdriniaeth o geisio troi pob cymuned i mewn i gymunedau sy'n ystyriol o ddementia yn werthfawr, yn enwedig o ystyried y ffaith ein bod yn gwybod bod traean o'r bobl â dementia yn byw yn y gymuned yn hytrach na mewn lleoliad gofal. Er fy mod yn croesawu'r gefnogaeth i'r fenter o ran cyllid gan Lywodraeth Cymru, a wnewch chi ymrwymo'n bersonol i gefnogi'r fenter hon ac arwain ar hyn trwy Lywodraeth Cymru wrth i ni geisio troi Cymru yn wlad sy'n ystyriol o ddementia?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I can say to the Member that dementia friends does have my support, and that of the Government, of course, in that regard. Dementia friends will help us to realise a more compassionate society and, in turn, give confidence to those with dementia and their families and carers. We know that, by increasing public awareness, we can help to ensure that those with dementia are treated in the least restrictive and most understanding way possible. It is for that reason that we also support the appeal that the Alzheimer's Society has made for 4,000 volunteers to come forward to participate.

Gallaf ddweud wrth yr Aelod fy mod i'n cefnogi ffrindiau dementia, ac felly hefyd y Llywodraeth, wrth gwrs, yn hynny o beth. Bydd ffrindiau dementia yn ein helpu i wireddu cymdeithas fwy trugarog ac, yn ei dro, yn rhoi hyder i'r rhai â dementia a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Rydym yn gwybod, trwy gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd, y gallwn helpu i sicrhau bod y rhai â dementia yn cael eu trin yn y ffordd leiaf cyfyngol ag â'r mwyaf o ddealltwriaeth â phosibl. Am y rheswm hwnnw rydym ni hefyd yn cefnogi'r apêl y mae Cymdeithas Clefyd Alzheimer wedi ei gwneud i 4,000 o wirfoddolwyr gynnig eu hunain i gymryd rhan.

13:56 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, Wales has the lowest diagnosis rates for dementia in the UK, at 38.8%. In other parts of the UK, there is a target for diagnosis. A diagnosis is crucially important as it is often the key that unlocks both statutory and non-statutory services and support for the individual and their carers and families. Could you outline what specific steps the Welsh Government is taking to improve the diagnosis rate in Wales?

Brif Weinidog, Cymru sydd â'r cyfraddau diagnosis isaf ar gyfer dementia yn y DU, sef 38.8%. Ceir targed ar gyfer diagnosis mewn rhannau eraill o'r DU. Mae diagnosis yn hanfodol bwysig gan mai dyma'r allwedd sy'n datgloi gwasanaethau a chefnogaeth statudol ac anstatudol yn aml i'r unigolyn a'i ofalwyr a'i deulu. A allech chi amlinellu pa gamau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella'r gyfradd diagnosis yng Nghymru?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We are confident that the Wales mental health in primary care network primary care training module and the use of intelligent targets will help us to realise real progress in 2014. There is work to be done, and the Member is correct in pointing that out. There will be a forthcoming Public Health Wales audit on the capacity and activities of memory assessment services, which will help us to identify where those improvements are needed. Those measures, together with the impact of the 2010 Measure and the continued use of the Alzheimer's Society's cognitive assessment toolkit, will help us to improve performance this year. Of that, we are confident.

Gallaf. Rydym yn hyderus y bydd modiwl hyfforddiant gofal sylfaenol iechyd meddwl Cymru yn y rhwydwaith gofal sylfaenol a'r defnydd o dargedau deallus yn ein helpu i wneud gwir gynnydd yn 2014. Mae gwaith i'w wneud o hyd, ac mae'r Aelod yn iawn wrth dynnu sylw at hynny. Bydd archwiliad Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei gynnal ar allu a gweithgareddau gwasanaethau asesu cof, a fydd yn ein helpu i nodi lle mae angen y gwelliannau hynny. Bydd y mesurau hynny, ynghyd ag effaith Mesur 2010 a'r defnydd parhaus o becyn cymorth asesu gwybyddol Cymdeithas Clefyd Alzheimer, yn ein helpu i wella perfformiad eleni. Rydym ni'n hyderus o hynny.

13:57 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, a chain of care homes operating across Wales plans to offer CCTV in residents' rooms to help stop abuse, neglect and theft by staff. On the one hand, it could prevent abuse, but, equally, I am quite uneasy about filming intimate care procedures or filming people who are unable to give their own consent to that. What is the Welsh Government's approach and will you provide guidance?

Brif Weinidog, mae cadwyn o gartrefi gofal sy'n gweithredu ar draws Cymru yn bwriadu cynnig teledu cylch cyfyng yn ystafelloedd preswylwyr i helpu i roi terfyn ar gamdriniaeth, esgeulustod a dwyn gan aelodau staff. Ar y naill law, gallai atal cam-drin, ond, i'r un graddau, rwy'n eithaf anghyfforddus ynglŷn â ffilmio gweithdrefnau gofal personol neu ffilmio pobl nad ydynt yn gallu rhoi eu caniatâd eu hunain ar gyfer hynny. Beth yw agwedd Llywodraeth Cymru ac a fyddwch chi'n darparu canllawiau?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I do appreciate the concerns. Care and Social Services Inspectorate Wales will be meeting with the care home operators next week to discuss how they plan to address the concerns that you raise. The inspectorate will want to understand what full consideration has been given to this proposal, particularly the difficulty of filming when someone is receiving intimate care and the impact on their dignity. I think that that needs to be resolved fully before such an initiative is taken forward. That meeting will be important next week.

Rwyf yn gwerthfawrogi'r pryderon. Bydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn cyfarfod gyda gweithredwyr y cartrefi gofal yr wythnos nesaf i drafod sut maen nhw'n bwriadu mynd i'r afael â'r pryderon yr ydych chi'n eu codi. Bydd yr arolygiaeth eisiau deall pa ystyriaeth lawn a roddwyd i'r cynnig hwn, yn enwedig yr anhawster o ffilmio pan fydd rhywun yn derbyn gofal personol a'r effaith ar ei urddas. Rwy'n meddwl bod angen datrys hynny'n llawn cyn bwrw ymlaen â menter o'r fath. Bydd y cyfarfod hwnnw'n bwysig yr wythnos nesaf.

## Targedau ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd

## National Health Service Targets

13:58 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd tuag at gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd? OAQ(4)1612(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on progress towards meeting Welsh Government targets for the NHS? OAQ(4)1612(FM)*

13:58 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rydym yn parhau i wneud cynnydd ar y rhan fwyaf o dargedau'r gwasanaeth iechyd. Rwy'n siŵr y bydd yr Aelod yn croesawu'r buddsoddiad yn ysbyty Bronglais ynglŷn â'r adran argyfyngau newydd, yr adran famolaeth newydd, a'r adran newydd ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau meddygon teulu.

We continue to make progress on the majority of national health service targets. I am sure that the Member will welcome the investment in Bronglais hospital on the new accident and emergency department, the new maternity department and the new department for out-of-hours GP services.

13:59 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, mae 95% o gleifion yn yr Alban yn cael sgan MRI o fewn chwe wythnos, tra bod 98% o gleifion yn Lloegr yn cael hynny. Fodd bynnag, dim ond 56% o gleifion yng Nghymru sy'n cael sgan MRI o fewn chwe wythnos, a dim ond 76% sy'n cael sgan MRI o fewn 12 wythnos. Mae'n siŵr eich bod yn cytuno bod y perfformiad hwnnw'n cymharu'n annerbyniol i ni yng Nghymru. Yn eich barn chi, pam bod yr Alban a Lloegr yn llwyddo i ddarparu sganiau o fewn chwe wythnos ar gyfer dros 95% o'u cleifion, tra bo Cymru yn darparu sganiau MRI ar gyfer dim ond 56% o'n cleifion o fewn chwe wythnos?

First Minister, 95% of patients in Scotland receive an MRI scan within six weeks, while 98% of patients in England do so. However, only 56% of Welsh patients get MRI scans within six weeks, and only 76% get an MRI scan within 12 weeks. I am sure that you agree that such performance compares unacceptably for us in Wales. In your opinion, why are Scotland and England succeeding to provide scans within six weeks for over 95% of their patients, while Wales manages to provide MRI scans for only 56% of our patients within six weeks?

13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Mae'r ffigurau hynny yn gywir, wrth gwrs. Mae sgôp yno, felly, i wella'r sefyllfa. Fodd bynnag, mae yna feysydd lle'r ydym yn gwneud yn well na'r Alban neu Loegr, sef cancr, wrth gwrs, lle mae'r sefyllfa yng Nghymru llawer yn well na'r sefyllfa yn Lloegr. Mae'n wir i ddweud, yn ôl adroddiad Nuffield, nad oes yna lot fawr o wahaniaeth rhwng gwasanaethau iechyd Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hwnnw'n adroddiad 'objective' sy'n dangos beth yw'r sefyllfa. Mae'n siom fawr na chroesawodd yr Aelod y buddsoddiad mawr sydd wedi cael ei wneud yn ysbyty Bronglais.

Those figures are correct, of course. There is scope, therefore, to improve the situation. However, there are areas where we are doing better than Scotland or England, in terms of cancer, for example, where the situation in Wales is much better than in England. It is true to say, according to the Nuffield report, that there is not much difference between the health services in Wales, England, Scotland and Northern Ireland. That is an objective report that shows the situation. It is a big disappointment that the Member has not welcomed the substantial investment made in Bronglais hospital.

14:00 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, rwyf am symud ymlaen i sganiau CT yn y gogledd, lle mae safonau'r Llywodraeth wedi'u seilio ar darged o ryw wyth wythnos. Dros y Pasg, cefais sgwrs â chlaf a fu gofyn iddo aros am 14 wythnos am sgan CT. Yn ogystal, awgrymwyd i'r claf y byddai'r sgan ar gael iddo yn breifat pe byddai'n barod i dalu £350. A yw hynny'n dderbyniol o fewn y gwasanaeth iechyd cenedlaethol?

First Minister, I want to move on to CT scans in north Wales, where Government standards seek a target of around eight weeks. Over Easter, I had a conversation with a patient who was asked to wait for 14 weeks for a CT scan. It had also been suggested to the patient that the scan would be available privately if he were willing to pay £350. Is that acceptable within the national health service?

14:01 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Mae'n anodd iawn, wrth gwrs, imi roi barn ar sefyllfa unigolyn heb wybod y manylion yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, mae croeso i'r Aelod ysgrifennu ataf gyda'r manylion fel y gallwn ystyried sefyllfa'r unigolyn hwnnw.

It is very difficult, of course, for me to give a view on the situation of an individual without knowing the full details. However, the Member is welcome to write to me with the details so that we can consider the situation of that individual.

### Adfywio Canol Trefi

### Regenerating Town Centres

14:01 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*7. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch Llywodraeth Cymru o ran adfywio canol trefi? OAQ(4)1620(FM)*

*7. Will the First Minister provide an update on Welsh Government activity to regenerate town centres? OAQ(4)1620(FM)*

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae ein polisi ar gyfer adfywio canol trefi Cymru wedi ei nodi yn y fframwaith 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'. Rydym hefyd yn darparu cymorth i ardaloedd gwella busnes ac yn datblygu cronfa benthyciadau canol trefi. Yn ystod yr hydref eleni, byddwn yn arwain ymgyrch cefnogi'r stryd fawr, ymysg camau gweithredu eraill.

Our 'Vibrant and Viable Places' framework sets the policy for the regeneration of town centres in Wales. We are also providing business improvement district support and developing a town centre loan fund. We will lead a high street support campaign this autumn, among other actions.

14:01 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf yn falch i glywed y newyddion hynny, ac rwyf yn siŵr y caiff yr arian hwnnw ei ddefnyddio yn y gymuned. Yr hyn sy'n fy mecso i, wrth gerdded drwy ganol tref Llanelli, yw nifer yr unedau gwag sydd yno, gan gynnwys rhai sydd uwchben y siopau. A oes modd inni ddefnyddio'r arian hwn i droi'r lleoedd gwag hyn i mewn i fflatiau, fel sy'n digwydd mewn trefi eraill yng Nghymru?

I am pleased to hear that update, and I am sure that those funds will be used within our communities. What concerns me, in walking through Llanelli town centre, is that there are so many vacant units, including some above shop fronts. Could we use this funding to turn those vacant spaces into flats, as happens in other towns in Wales?

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae yna gyfarfod y prynhawn yma, rwy'n deall, rhwng swyddogion o bob awdurdod lleol, gan gynnwys sir Gâr, er mwyn ystyried 'criteria' y buddsoddiad hwn. Mae hwn yn brosiect sydd wedi'i ddodi allan fel prosiect a allai ddod o fewn y cynllun hwn. Rwyf yn siŵr y bydd y mater hwn yn cael ei ystyried y prynhawn yma, yn ystod y cyfarfod a soniais amdano.

There is a meeting this afternoon, I understand, between officials from every local authority, including Carmarthenshire, in order to consider the criteria for this investment. This is a project that has been set out as a project that could come within this scheme. I am sure that this matter will be considered this afternoon, during the meeting that I mentioned.

14:02 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Last week, we all welcomed the welcome news that a £13 million investment could take place in Ebbw Vale town centre. Such regeneration is obviously welcome to us all. Would the First Minister join me in supporting the proposed Circuit of Wales racetrack, which would not only regenerate Ebbw Vale, but also the surrounding boroughs, for years to come?

Yr wythnos diwethaf, croesawodd pob un ohonom ni'r newyddion da y gellid cael buddsoddiad o £13 miliwn yng nghanol tref Glynebwy. Yn amlwg rydym ni i gyd yn croesawu adfywio o'r fath. A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i gefnogi trac rasio arfaethedig Cylchffordd Cymru, a fyddai nid yn unig yn adfywio Glynebwy, ond hefyd y bwrdeistrefi cyfagos, am flynyddoedd i ddod?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Again, the Member will know that I am in some difficulty over commenting on this, given the potential proposals for re-registration of common land. Nevertheless, I am aware of the full circumstances surrounding the application.

Unwaith eto, bydd yr Aelod yn gwybod fy mod i mewn cryn anhawster o ran gwneud sylwadau ar hyn, o ystyried y cynigion posibl ar gyfer ail-gofrestru tir comin. Serch hynny, rwy'n ymwybodol o'r amgylchiadau llawn o amgylch y cais.

14:03 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, a wnewch chi gytuno â mi bod y £0.5 miliwn sydd newydd fynd i Blas Llanelly yn uniongyrchol o gronfeydd Ewrop yn dangos gwerth aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd i ni, yma yng Nghymru? Hefyd, ym mhen arall tref Llanelli, beth all y Llywodraeth ei wneud i wella gorsaf Llanelli, sy'n edrych yn simpil ac yn dila iawn ar hyn o bryd, mae'n rhaid imi ddweud, o gofio fod yr Eisteddfod ar fin dod i'r ardal?

First Minister, would you agree with me that the £0.5 million that has just been provided to Llanelly House directly from European funds shows the value of membership of the European Union for us here in Wales? Further, at the other end of the town of Llanelli, what can the Welsh Government do to improve Llanelli station, which looks in a very poor state at present, given that the Eisteddfod is about to visit the area?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

O ran yr orsaf, nid ni sy'n berchen ar yr orsaf. Nid oes cais wedi dod o'm blaenau ar hyn o bryd ynglŷn â gwella'r orsaf, ond deallaf y pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud. Ynglŷn â Phlas Llanelly, ni fyddai'r £555,000 wedi bod yno pe na bawn yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd. Mae hynny'n dangos, unwaith eto, beth yw gwerth ein haelodaeth i bobl Cymru.

In terms of the station, we do not own the station. A request has not come before us at the moment about improving the station, but I understand the point that the Member is making. In terms of Llanelly House, the £555,000 would not have been there except for the fact that we are members of the European Union. It shows once more the worth of our membership to the people of Wales.

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

First Minister, business rates continue to be a critical issue for town centre businesses. We know that in places like Newport, where there has been a catastrophic decline in occupancy and therefore rental values, the decision to delay the revaluation for business rates, which could have brought down business rates quite considerably, has been met with dismay, obviously. What assessment have you made of the impact that that delay is going to have on town centre businesses in Wales, and how can we make the rating system in future more responsive to these kinds of changing circumstances?

Brif Weinidog, mae ardrethi busnes yn parhau i fod yn fater allweddol i fusnesau canol tref. Rydym yn gwybod mewn lleoedd fel Casnewydd, lle bu gostyngiad trychinebus mewn deiliadaeth a gwerthoedd rhentu felly, y bu siom, yn amlwg, yn dilyn y penderfyniad o ohirio'r ailbrisio ar gyfer ardrethi busnes, a allai fod wedi gostwng ardrethi busnes yn dra sylweddol. Pa asesiad ydych chi wedi ei wneud o'r effaith y mae'r gohiriad hwnnw yn mynd i'w gael ar fusnesau canol tref yng Nghymru, a sut allwn ni wneud y system ardrethu yn y dyfodol yn fwy ymatebol i'r mathau hyn o amgylchiadau sy'n newid?

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We look forward, of course, to business rates being fully devolved; they are not yet. We know that the UK Government supports their devolution, and we trust that this will happen sooner rather than later.

Rydym yn edrych ymlaen, wrth gwrs, at ardrethi busnes yn cael eu datganoli'n llawn; nid ydynt hyd yn hyn. Rydym yn gwybod bod Llywodraeth y DU yn cefnogi eu datganoli, a hyderwn y bydd hyn yn digwydd cyn bo hir.

Senedd.tv Fideo Video

## Hygyrchedd Lleoliadau Chwaraeon i Bobl Anabl

## Disabled Access to Sporting Venues

14:05 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

*8. Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o hygyrchedd lleoliadau chwaraeon yng Nghymru i bobl anabl? OAQ(4)1614(FM)*

*8. What assessment has the First Minister made of disabled access to sporting venues in Wales? OAQ(4)1614(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We work with the providers of sporting venues and we support the provision of appropriate disability access to those venues across Wales, although, of course, ultimate responsibility for this provision rests with the owners of the venues.

Rydym yn gweithio gyda darparwyr lleoliadau chwaraeon ac rydym yn cefnogi'r ddarpariaeth o fynediad priodol i bobl anabl i'r lleoliadau hynny ledled Cymru, er, wrth gwrs, perchnogion y lleoliadau hyn sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth hon yn y pen draw.

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that, First Minister. I do know that the governing bodies have responsibility, but, having travelled across Wales in support of a team you all know I support—I will mention it: Rhyl FC, which is now in the top six of the Welsh Premier League—I have been dismayed to find that disabled facilities vary across sporting venues, and that goes for rugby fields as well. Often, disabled people are left, not to sit with the travelling fans, but to sit on their own. Where we have segregation, because there are some people who cannot get along with everybody else—I do not know why, but there are—disabled people are often left and can be quite vulnerable. What can the Government do to talk to governing bodies about how they make sure that disabled people who want to just spectate can be made safe, while also feeling part of the travelling team or the home team that they want to support?

Diolch yn fawr iawn am hynny, Brif Weinidog. Rwyf yn gwybod bod gan y cyrff llywodraethu gyfrifoldeb, ond, ar ôl teithio i bob cwr o Gymru i gefnogi tîm rydych chi i gyd yn gwybod fy mod yn ei gefnogi—mi wnaf ei grybwyll: CPD y Rhyl, sydd bellach yn chwech uchaf Uwch Gynghrair Cymru—cefais fy siomi o ganfod bod cyfleusterau i bobl anabl yn amrywio mewn gwahanol leoliadau chwaraeon, ac mae hynny'n wir am gaeau rygbi hefyd. Yn aml, caiff pobl anabl eu gadael, nid i eistedd gyda'r cefnogwyr sy'n teithio, ond i eistedd ar eu pennau eu hunain. Lle mae gennym wahanu, oherwydd bod rhai pobl na allant gyd-dynnu â phawb arall—nid wyf yn gwybod pam, ond mae hynny'n digwydd—mae pobl anabl yn aml yn cael eu gadael, a gallant fod yn eithaf agored i niwed. Beth all y Llywodraeth ei wneud i siarad â chyrff llywodraethu am y ffordd y maen nhw'n gwneud yn siŵr y gellir gwneud pobl anabl, sydd ddim ond eisiau gwylio, yn ddiogel, gan hefyd deimlo'n rhan o'r tîm oddi cartref neu'r tîm cartref y maen nhw eisiau ei gefnogi?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I can say to the Member that Level Playing Field, formerly the National Association of Disabled Supporters, has undertaken an audit of all Welsh Premier League stadiums on behalf of the Football Association of Wales throughout this season. The FAW is awaiting the results of that audit. I know that the FAW itself encourages all domestic league clubs to undertake a review of their own procedures with regard to the level of service provided for spectators with disabilities, but I can say that the Minister for Culture and Sport is soon to meet with the FAW. I will ask him to raise your concerns with the FAW, and I shall ensure that those concerns are also conveyed to the Welsh Rugby Union.

Gallaf ddweud wrth yr Aelod bod Lefel Playing Field, Cymdeithas Genedlaethol y Cefnogwyr Anabl gynt, wedi cynnal archwiliad o holl feysydd Uwch Gynghrair Cymru ar ran Cymdeithas Bêl-droed Cymru trwy gydol y tymor hwn. Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn disgwyl canlyniadau'r archwiliad hwnnw. Gwn fod Cymdeithas Bêl-droed Cymru ei hun yn annog holl glybiau cynghreiriau domestig i gynnal adolygiad o'u gweithdrefnau eu hunain o ran lefel y gwasanaeth a ddarperir ar gyfer gwylwyr ag anableddau, ond gallaf ddweud y bydd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon yn cyfarfod â Chymdeithas Bêl-droed Cymru yn fuan. Byddaf yn gofyn iddo godi eich pryderon gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru, a byddaf yn sicrhau bod y pryderon hynny hefyd yn cael eu cyfleu i Undeb Rygbi Cymru.

14:06 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I should have realised that this question was a chance for Ann Jones to get in a well-earned plug for Rhyl FC.

Dylwn fod wedi sylweddoli bod y cwestiwn hwn yn gyfle i Ann Jones roi hysbyseb haeddiannol i CPD y Rhyl.

First Minister, you have just mentioned the Level Playing Field organisation that has done a lot of work in this area to try to increase disabled access to sporting venues. Actually, the two Welsh clubs currently in the Premier League came out very well in a recent report on disabled access, but that sort of disabled access success is not mirrored lower down the league pyramid, or, indeed, in other sporting venues. I would be grateful if, following on from your answer to Ann Jones, you could tell us what you are going to do to try to spread that good practice, which some football clubs in Wales are doing, to other areas of sporting life.

Brif Weinidog, rydych chi newydd grybwyll y sefydliad Level Playing Field sydd wedi gwneud llawer o waith yn y maes hwn i geisio cynyddu mynediad at leoliadau chwaraeon i bobl anabl. A dweud y gwir, canmolwyd y ddau glwb o Gymru sydd yn Uwch Gynghrair Lloegr ar hyn o bryd mewn adroddiad diweddar ar fynediad i bobl anabl, ond nid yw'r math hwnnw o lwyddiant o ran mynediad i'r anabl yn cael ei adlewyrchu yn is i lawr pyramid y gynghrair, nac, yn wir, mewn lleoliadau chwaraeon eraill. Byddwn yn ddiolchgar, yn dilyn ymlaen o'ch ateb i Ann Jones, pe gallech chi ddweud wrthym beth yr ydych chi'n mynd i'w wneud i geisio lledaenu'r arfer da hwnnw, y mae rhai clybiau pêl-droed yng Nghymru yn ei ymarfer, i rannau eraill o fywyd chwaraeon.

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I believe that I answered the Member's question in the answer I gave to Ann Jones. He refers to Cardiff City Stadium and Liberty Stadium; they are fairly new stadiums, so it would be expected that they should have the best facilities possible for disabled spectators, but, of course, not every stadium is that new. We are waiting to see the result of the audit that is being carried out on behalf of the FAW, and I have mentioned, of course, the meeting that the Minister will be having in due course.

Rwy'n credu fy mod i wedi ateb y cwestiwn yr Aelod yn yr ateb a roddais i Ann Jones. Mae'n cyfeirio at Stadiwm Dinas Caerdydd a Stadiwm Liberty; maen nhw'n feysydd eithaf newydd, felly byddai disgwyl iddynt fod â'r cyfleusterau gorau posibl ar gyfer gwylwyr anabl, ond, wrth gwrs, nid yw pob stadiwm mor newydd â hynny. Rydym ni'n aros i weld canlyniad yr archwiliad sy'n cael ei gynnal ar ran Cymdeithas Bêl-droed Cymru, ac rwyf wedi crybwyll, wrth gwrs, y cyfarfod y bydd y Gweinidog yn ei gael maes o law.

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

What consideration is the Welsh Government prepared to give to assisting local authorities to provide special changing room facilities for disabled people using leisure centres?

Pa ystyriaeth mae Llywodraeth Cymru yn barod i'w rhoi i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu cyfleusterau ystafelloedd newid arbennig ar gyfer pobl anabl sy'n defnyddio canolfannau hamdden?

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that the first thing to understand is the extent of the issue, as there are some local authorities that have newer facilities than others. It is important that local authorities do have an understanding of the adequacy of the changing facilities that they have within their own boundaries. Then, of course, it might be possible to see what might be done to assist.

Rwy'n credu mai'r peth cyntaf i'w ddeall yw maint y broblem, gan fod rhai awdurdodau lleol sydd â chyfleusterau mwy newydd nag eraill. Mae'n bwysig bod gan awdurdodau lleol ddealltwriaeth o addasrwydd y cyfleusterau newid sydd ganddynt o fewn eu ffiniau eu hunain. Yna, wrth gwrs, gallai fod yn bosibl gweld beth ellid ei wneud i gynorthwyo.

Senedd.tv Fideo Video

### Diogelu'r Gymraeg fel Iaith Gymunedol

### Safeguarding Welsh as a Community Language

14:08 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd yn ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddiogelu'r Gymraeg fel iaith gymunedol? OAQ(4)1617(FM)*

*9. Will the First Minister make a statement on the progress of the Welsh Government's efforts to safeguard Welsh as a community language? OAQ(4)1617(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ystod o weithgareddau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a'i diogelu fel iaith gymunedol. Byddaf yn cyflwyno datganiad polisi i'r Cynulliad a fydd yn ymateb i brif ganfyddiadau adolygiadau diweddar yn y maes ac yn cynnig sail gweithredu dros y tair blynedd nesaf.

The Welsh Government undertakes a range of activities to increase the use of the Welsh language and to safeguard the language as a community language. I will present a policy statement to the Assembly that will respond to the main findings of recent reviews in this area and offer foundations for implementation over the next three years.

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Yn y Gynhadledd Fawr y gwnaethoch ei galw yn Aberystwyth, un o'r prif ganfyddiadau oedd bod symudoledd yn ffactor bwysig yn y dirywiad yn nifer yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith bob dydd. O edrych ar gynlluniau a pholisi'r Llywodraeth, rydym yn sylwi nad yw'r TAN 20 newydd, mewn gwirionedd, yn newid fawr ddim ar yr hen TAN 20. Nid oes dim cyfarwyddyd pellach wedi dod fel yr addawyd i ddangos sut y mae'r TAN i fod i gael ei weithredu, ac nid oes cyfeiriad at y Gymraeg ychwaith yn y Bil drafft cynllunio arfaethedig. Beth yw bwriad y Llywodraeth, felly, i ymateb i'r canlyniad hwn o'r Gynhadledd Fawr y gwnaethoch chi eich hun ei galw ynghyd?

In the 'Cynhadledd Fawr' that you assembled in Aberystwyth, one of the main findings was that population movement is an important factor in the decline in the number of areas where the Welsh language is the language of day-to-day communication. In looking at the Government's policies and plans, we note that the new TAN 20 does not change hardly anything in terms of what was previously in place under TAN 20. There has been no further guidance, although that was promised, in order to demonstrate how that TAN is to be implemented, and there is no reference to the Welsh language in the proposed draft planning Bill. What is the Government's intention, therefore, in responding to this outcome of the 'Cynhadledd Fawr' that you yourself called?

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae gwaith wedi cael ei wneud i sicrhau bod asesiad cyson ar gael i bob awdurdod lleol i'w ddefnyddio. Mae enghreifftiau da lle mae hyn wedi digwydd yn barod—er enghraifft, yng Ngwynedd. O ran y pwynt a wnaeth yr Aelod ynglŷn â'r Bil cynllunio, rwy'n agored i unrhyw beth a allai gryfhau sefyllfa'r iaith Gymraeg mewn perthynas â'r system gynllunio. Rhaid ystyried ym mha ffordd y byddai sôn am yr iaith Gymraeg yn y Bil ei hun yn gwneud gwahaniaeth. Mae hwnnw'n rhywbeth y gallwn ei ystyried yn y dyfodol.

Work has been done to ensure that a consistent assessment is available to each local authority to use. There are good examples where this has happened already—for example, in Gwynedd. In terms of the point that the Member made regarding the planning Bill, I am open to anything that could be done to strengthen the position of the Welsh language in terms of the planning system. What would need to be considered is in which way talking about the Welsh language in the Bill itself would make a difference. That is something that we could consider in the future.

14:10 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n croesawu'r gwaith sydd wedi cael ei wneud yn sir Gâr, o dan arweiniad Llafur, gan y grŵp trawsbleidiol gweithredol ar y cyfrifiad. Mae'r cyngor llawn wedi derbyn yr adroddiad ac rwy'n gobeithio eich bod chi, fel yr wyf i, yn edrych ymlaen at ei weld yn cael ei wireddu.

I welcome the work that has been done in Carmarthenshire, which is Labour-led, by the cross-party executive group on the census. The full council has now accepted the report and I hope that you are looking forward, as I am, to seeing it being delivered.

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Ydw, rwy'n edrych ymlaen at hynny achos mae'n bwysig dros ben bod Cyngor Sir Gâr yn chwarae rôl allweddol o ran sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg yn y sir ac rwy'n hapus dros ben taw'r sir ei hun sydd wedi symud hyn ymlaen. Fel y dywedoch, mae'n awr wedi derbyn yr adroddiad ei hun, ond beth sy'n bwysig dros ben yw bod yr adroddiad yn cael ei weithredu er mwyn sicrhau bod y problemau yr ydym wedi eu gweld ym mhob rhan o sir Gâr, yn fy marn i, yn cael eu lleihau dros y ddegawd nesaf a'n bod yn gweld yr iaith yn tyfu—nid yn unig o ran y nifer sy'n siarad Cymraeg, ond defnydd yr iaith Gymraeg yn yr hen gymunedau glofaol yn enwedig.

Yes, I am looking forward to that because it is extremely important that Carmarthenshire County Council plays a key role in ensuring the future of the Welsh language in the county and I am very happy that the county itself has moved this forward. As you have said, it has now accepted the report itself, but what is extremely important is that the report is implemented in order to ensure that the problems that we have seen in every part of Carmarthenshire, in my opinion, are reduced in the next decade and that we see the Welsh language growing—not only in terms of the numbers of Welsh speakers, but also the use of the Welsh language in the old mining communities especially.

14:11 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mewn ymateb i adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar gymunedau sy'n siarad Cymraeg, fel Llywodraeth rydych yn dweud y byddwch yn ystyried cronfa arbennig i gefnogi cymunedau Cymraeg, ochr yn ochr ag addasu'r ffordd yr ydych yn ariannu mentrau iaith. A allwch ddweud wrthym pryd y byddwch chi, fel Llywodraeth, yn gwneud penderfyniad terfynol ynglŷn ag a fydd cronfa arbennig yn cael ei sefydlu?

First Minister, in response to the task and finish group on Welsh-speaking communities, as a Government you say that you will consider a designated fund to support Welsh-speaking communities, along with making changes to the way that you fund the 'mentrau iaith'. Can you tell us when you, as a Government, will make a final decision as to whether such a fund will be established?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Bydd hynny'n rhan o'r datganiad a fydd yn cael ei wneud gennyf i yn y Cynulliad.

That will be part of the statement that will be made by me in the National Assembly.

### Gwasanaethau Cynghori Rheng Flaen

### Front-Line Advice Services

14:12 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau cynghori rheng flaen? OAQ(4)1610(FM)*

*10. Will the First Minister make a statement on the provision of front-line advice services? OAQ(4)1610(FM)*

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Further funding of £1 million is available this year for front-line advice services that offer help with welfare benefits, debt and money management and discrimination advice. Not-for-profit advice providers, many of which have seen their budgets cut, can apply for this grant to help them to continue to provide services.

Mae cyllid pellach o £1 filiwn ar gael eleni ar gyfer gwasanaethau cynghori rheng flaen sy'n cynnig help gyda budd-daliadau lles, dyled a chyngor ar reoli arian a gwahaniaethu. Gall darparwyr cyngor dielw, llawer ohonynt wedi gweld eu cyllidebau wedi eu torri, wneud cais am y grant hwn i'w helpu i barhau i ddarparu gwasanaethau.

14:12 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very pleased to hear that and, of course, I welcome the announcement of the extra £1 million fund. I recently did some work with the Bevan Foundation to examine the effects of spending cuts and benefit changes on women and their families in the Ystradgynlais area. One of the clear messages of that research was the importance of face-to-face and over-the-phone advice. I want to ask, Minister, whether there might be any more money for free debt services next year, when pay-day lenders will also have to pay the Financial Conduct Authority levy.

Rwy'n falch iawn o glywed hynny ac, wrth gwrs, rwy'n croesawu cyhoeddiad y gronfa ychwanegol o £1 filiwn. Gwnes rywfaint o waith gyda Sefydliad Bevan yn ddiweddar i archwilio effeithiau toriadau mewn gwariant a newidiadau i fudd-daliadau ar fenywod a'u teuluoedd yn ardal Ystradgynlais. Un o negeseuon eglur y gwaith ymchwil hwnnw oedd pwysigrwydd cyngor wyneb-yn-wyneb a dros y ffôn. Hoffwn ofyn, Weinidog, a allai mwy o arian fod ar gael ar gyfer gwasanaethau dyled am ddim y flwyddyn nesaf, pan fydd yn rhaid i fenthycwyr diwrnod cyflog dalu ardoll yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol hefyd.

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I assure the Member that independent and not-for-profit organisations that can demonstrate that they have measures in place to quality assure the advice that they provide will be able to apply for the fund. For example, citizens advice bureaux, including the one in Powys, which was awarded a share of the funding in 2013-14, will have the opportunity, along with other advice providers that have had their funding cut, to apply for the funding, as long as they meet the eligibility criteria.

Rwy'n sicrhau'r Aelod y gall sefydliadau annibynnol a dielw sy'n gallu dangos bod ganddynt fesurau ar waith i sicrhau ansawdd y cyngor maen nhw'n ei ddarparu yn cael gwneud cais ar gyfer y gronfa. Er enghraifft, bydd cyfle i ganolfannau cyngor ar bopeth, gan gynnwys yr un ym Mhowys, a dderbyniodd gyfran o'r cyllid yn 2013-14, ynghyd â darparwyr cyngor eraill y mae eu cyllid wedi ei dorri, wneud cais am y cyllid, cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf cymhwyso.

14:13 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, access to front-line health advice services is vital in rural areas. The latest rural observatory report highlights the difficulties that those living in rural areas have in accessing health advice in their immediate community. This is most obvious in dentistry, where 84% of rural communities do not have access to a locally based dentist. What does your Government plan to do to increase dental services in rural areas?

Brif Weinidog, mae mynediad at wasanaethau cyngor iechyd rheng flaen yn hanfodol mewn ardaloedd gwledig. Mae adroddiad diweddaraf yr arsyllfa wledig yn tynnu sylw at yr anawsterau y mae'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn eu cael o ran cael gafael ar gyngor iechyd yn eu cymuned leol. Mae hyn fwyaf amlwg mewn deintyddiaeth, lle nad oes gan 84% o gymunedau gwledig fynediad at ddeintydd lleol. Beth mae eich Llywodraeth yn bwriadu ei wneud i gynyddu gwasanaethau deintyddol mewn ardaloedd gwledig?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It depends what she means by 'a locally based dentist'. There are dentists in rural areas. There was a time when it was difficult to access an NHS dentist in many parts of Wales, but that is an issue that seems to have diminished greatly over time. Services are available to people in rural areas as they are in urban areas.

Mae'n dibynnu ar yr hyn mae hi'n ei olygu wrth 'ddeintydd lleol'. Ceir deintyddion mewn ardaloedd gwledig. Roedd adeg pan roedd yn anodd cael mynediad at ddeintydd y GIG mewn sawl rhan o Gymru, ond mae hwnnw'n fater y mae'n ymddangos sydd wedi lleihau'n helaeth dros amser. Mae gwasanaethau ar gael i bobl mewn ardaloedd gwledig fel ag y maen nhw mewn ardaloedd trefol.

14:14 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, would you consider developing a bedroom tax appeals strategy to assist tenants in their plight?

Brif Weinidog, a fyddech chi'n ystyried datblygu strategaeth apeliadau treth ystafell wely i gynorthwyo tenantiaid sy'n dioddef?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I do not know what a bedroom tax appeals strategy is. Of course, if the Member could provide me with information on that, I would be more than happy. I am more than happy, of course, to condemn the bedroom tax, as I have done before. If the Member is suggesting that an appeal fund should be put in place, then that is something that we would be perfectly willing to consider, but in terms of an appeals strategy—. Well, anyway, I invite the Member to provide further details to see what we can do in order to move forward with our shared aim of condemning the bedroom tax.

Nid wyf yn gwybod beth yw strategaeth apeliadau treth ystafell wely. Wrth gwrs, pe gallai'r Aelod roi gwybodaeth i mi am hynny, byddwn yn fwy na bodlon. Rwy’n fwy na bodlon, wrth gwrs, i gondemnio'r dreth ystafell wely, fel yr wyf wedi ei wneud o'r blaen. Os yw'r Aelod yn awgrymu y dylid sefydlu cronfa apêl, yna mae hynny'n rhywbeth y byddem yn berffaith barod i’w ystyried, ond o ran strategaeth apeliadau—. Wel, beth bynnag, rwy’n gwahodd yr Aelod i ddarparu manylion pellach i weld beth allwn ni ei wneud i symud ymlaen â'n nod cyffredin o gondemnio’r dreth ystafell wely.

Senedd.tv Fideo Video

14:15

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have one change to report to this week’s business. There are no questions for answer by the Counsel General this week. Timings tomorrow have been adjusted accordingly. Business for the next three weeks is as shown in the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.

Mae gennyf un newid i'w adrodd i fusnes yr wythnos hon. Nid oes unrhyw gwestiynau i'w hateb gan y Cwnsler Cyffredinol yr wythnos hon. Mae amseroedd yfory wedi eu haddasu yn unol â hynny. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y’i dangosir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:16 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for two statements: first, on education programmes in Wales to discourage young people from going down the route of criminality by making informed choices and encouraging good citizenship. You will be aware of the ‘Justice in a Day’ events across north Wales in recent weeks and months, run jointly between the police and community trust and Clwyd Theatr Cymru, with professional actors working with young people aged 14 and 15 from schools through drama on issues such as youth assault, peer pressure, underage drinking, use of social media, and how to tackle those. A statement on this would be welcome. My last recollection of a reference to this was in the substance misuse strategy, when the Welsh Government was highlighting the work of South Wales Police going into schools in a uniformed capacity, but the power of this is that it is a partnership with the police, but delivered by actors in an interactive environment with no uniforms present.

Galwaf am ddau ddatganiad: yn gyntaf, ar raglenni addysg yng Nghymru i atal pobl ifanc rhag dechrau troseddu trwy wneud dewisiadau cytbwys ac annog dinasyddiaeth dda. Byddwch yn ymwybodol o'r digwyddiadau 'Cyfiawnder mewn Diwrnod' ar draws gogledd Cymru yn ystod yr wythnosau a'r misoedd diwethaf, a gafodd eu rhedeg ar y cyd rhwng ymddiriedolaeth yr heddlu a’r gymuned a Theatr Cymru Clwyd, gydag actorion proffesiynol yn gweithio gyda phobl ifanc 14 a 15 oed o ysgolion trwy ddrama ar faterion fel ymosodiad ieuenctid, pwysau gan gyfoedion, yfed dan oed, defnyddio cyfryngau cymdeithasol, a sut i fynd i'r afael â’r rheini. Byddwn yn croesawu datganiad ar hyn. Fy atgof diwethaf o gyfeiriad at hyn oedd yn y strategaeth camddefnyddio sylweddau, pan roedd Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at waith Heddlu De Cymru yn mynd i mewn i ysgolion mewn lifrai, ond pŵer hyn yw ei fod yn bartneriaeth gyda'r heddlu, ond a ddarperir gan actorion mewn amgylchedd rhyngweithiol heb unrhyw lifrai’n bresennol.

Secondly and finally, could I call for a statement on the substance misuse peer monitoring scheme? During recess, Members received a letter from the Minister for Health and Social Services confirming that the scheme had ended at the end of March this year, but his officials have been working closely with the Welsh European Funding Office and the six third-sector providers, seeking a further extension to September, when, hopefully, a new scheme may kick in. We learned that the European Court of Audit produced a report for or to the Welsh Government on 7 March, which raised issues that

Yn ail ac yn olaf, a gaf i alw am ddatganiad ar y cynllun monitro cymheiriaid camddefnyddio sylweddau? Yn ystod y toriad, derbyniodd yr Aelodau lythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadarnhau bod y cynllun wedi dod i ben ddiwedd mis Mawrth eleni, ond mae ei swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r chwe darparwr trydydd sector, yn gofyn am estyniad pellach hyd at fis Medi, pan obeithir y bydd cynllun newydd yn cychwyn. Canfuom fod Llys Archwilwyr Ewrop wedi cynhyrchu adroddiad ar gyfer neu i Lywodraeth Cymru ar 7 Mawrth, a gododd faterion a oedd

‘were both new to the Welsh European Funding Office and the peer mentoring project team’.

yn newydd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a thîm y prosiect mentora cymheiriaid.

However, the drug and alcohol charities that have been delivering the scheme in Wales advise that the cessation of the service is a severe blow for health, substance misuse and criminal justice in Wales, despite having worked extensively and hard to push for continued provision pending the next funding round from the autumn.

Fodd bynnag, mae'r elusennau cyffuriau ac alcohol sydd wedi bod yn darparu'r cynllun yng Nghymru yn dweud bod terfynu'r gwasanaeth yn ergyd ddifrifol i iechyd, camddefnyddio sylweddau a chyfiawnder troseddol yng Nghymru, er eu bod wedi gweithio'n helaeth ac yn galed i wthio am ddarpariaeth barhaus tan y rownd ariannu nesaf yn yr hydref.

'The inescapable impediment centres on queries concerning Welsh European Funding Office and Welsh Government audit of the scheme. We are comfortable, for clarity, that we have fulfilled our obligations in this regard.'

Mae'r rhwystr anorfod yn canolbwyntio ar ymholiadau yn ymwneud â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ac archwiliad Llywodraeth Cymru o'r cynllun. Rydym yn gyfforddus, er eglurder, ein bod wedi bodloni ein rhwymedigaethau yn hyn o beth.

Could we have a statement to this Chamber accordingly?

A allem ni gael datganiad i'r Siambr hon yn unol â hynny?

14:18 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am aware of many educational programmes that are being undertaken right across Wales with young people to prevent them entering the criminal justice system. Just last week I visited South Wales Fire and Rescue Service and its Project Bernie, which works with young people in that way. I am sure that the Minister for education can look at that as part of the curriculum review.

Rwy'n ymwybodol o lawer o raglenni addysgol sy'n cael eu cynnal ledled Cymru gyda phobl ifanc i'w hatal rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol. Dim ond yr wythnos diwethaf, ymwelais â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'i Brosiect Bernie, sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn y ffordd honno. Rwy'n siŵr y gall y Gweinidog addysg ystyried hynny yn rhan o'r adolygiad o'r cwricwlwm.

On your second question, around substance misuse, as you said, the Minister for Health and Social Services informed Members over the Easter recess that his officials were undertaking a piece of work and would report by the end of September.

O ran eich ail gwestiwn, yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, fel y dywedasoch, hysbysodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr Aelodau yn ystod toriad y Pasg bod ei swyddogion yn gwneud darn o waith ac y byddai'n adrodd yn ôl erbyn diwedd mis Medi.

14:19 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would welcome a statement from the Welsh Government following a change in the UK law that means that it is now legal for people to test themselves for HIV at home and to read the result at home. The first kits are due to be on the market towards the end of this year, or the beginning of next year, I understand, and this is good news because it might increase diagnosis, but I am keen to know the Welsh Government's approach to ensuring that people who do decide to diagnose themselves at home have access to all the professional advice and support that they would need.

Byddwn yn croesawu datganiad gan Lywodraeth Cymru yn dilyn newid i gyfraith y DU sy'n golygu ei bod bellach yn gyfreithlon i bobl brofi eu hunain ar gyfer HIV gartref ac i ddarllen y canlyniad gartref. Disgwylir i'r pecynnau cyntaf fod ar y farchnad tuag at ddiwedd y flwyddyn hon neu ddechrau'r flwyddyn nesaf, rwy'n deall, ac mae hyn yn newyddion da gan y gallai gynyddu diagnosis, ond rwy'n awyddus i wybod beth yw dull Llywodraeth Cymru o sicrhau bod pobl sy'n penderfynu gwneud diagnosis eu hunain gartref yn cael mynediad at yr holl gyngor a chefnogaeth broffesiynol y byddai eu hangen arnynt.

14:19 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that is a very important point. As you say, the law changed on 6 April 2014, and that does make self-testing kits available. I do think it will increase options for people in the way they are tested. We know that there are possibly up to about 25,000 people who live in the UK with HIV and are undiagnosed. I think it is important to recognise that the self-test kit will not replace clinic-based testing. I think that it is also important to note that a self-test result that is reactive—that is, positive—does not mean that a person definitely has HIV. The guidance and information following such a self-test result is that they should then have a clinical test performed so that they can know what the outcome is.

Rwy'n credu bod hwnna'n bwynt pwysig iawn. Fel y dywedwch, newidiodd y gyfraith ar 6 Ebrill 2014, ac mae hynny'n golygu bod pecynnau hunan-brofi ar gael. Rwyf yn credu y bydd yn cynyddu dewisiadau i bobl o ran y ffordd y maen nhw'n cael eu profi. Rydym yn gwybod bod o bosibl hyd at tua 25,000 o bobl sy'n byw gyda HIV yn y DU nad ydynt wedi cael diagnosis eto. Rwy'n credu ei bod yn bwysig cydnabod na fydd y pecyn hunan-brofi yn disodli profion mewn clinigau. Rwy'n credu ei bod hefyd yn bwysig nodi nad yw canlyniad hunan-brofi sy'n adweithiol—hynny yw, positif—yn golygu bod gan unigolyn HIV yn bendant. Y canllawiau a'r wybodaeth yn dilyn canlyniad hunan-brofi o'r fath yw y dylent gael prawf clinigol wedyn fel y gallant wybod beth yw'r canlyniad.

14:20 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf ddweud wrth y Gweinidog dros fusnes pa mor siomedig yr wyf nad wyf yn cael cyfle i ofyn fy cwestiwn arferol i'r Cwnsler Cyffredinol, gan fod gwrthdaro o ran digwyddiadau yr wythnos hon? A gaf ofyn yn benodol i'r Gweinidog edrych ar ddau beth? Yn gyntaf, nid oes datganiad wedi bod heddiw ar ddarn o waith ymchwil pwysig sydd wedi cael ei gyhoeddi gan y Llywodraeth ynglŷn â sgiliau a'r iaith Gymraeg. Mae datganiad i'r wasg wedi bod, Lywydd, ond nid datganiad i'r Siambr hon, a hoffwn ofyn pam nad oes datganiad gan Weinidog wedi cael ei wneud, fel bod modd i Aelodau gael gweld yr ymchwil yn uniongyrchol.

May I tell the Minister for business how disappointed I am that I will not have my usual opportunity to ask my normal question to the Counsel General tomorrow, as there is a clash of events this week? Could I ask the Minister to look specifically at two things? First of all, there has been no statement today on an important piece of research published by the Government on skills and the Welsh language. There has been a press release, Presiding Officer, but no statement to this Chamber, and I would like to ask why there is no statement to be made by a Minister so that Members can actually have a direct look at that research.

Yr ail beth yr hoffwn ei ofyn i'r Gweinidog yw ynglŷn â rôl y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru. Mae'n siŵr bod y Gweinidog yn ymwybodol bod plaid wedi cael ei chaniatáu i gofrestru yng Nghymru gyda disgrifiad sy'n cyfeirio at lofruddiaeth erchyll a ddigwyddodd ar strydoedd Llundain, a bod modd i'r disgrifiad hwnnw arwain at densiwn y tu fewn i rai o'n cymunedau. Rwy'n siomedig iawn bod hynny wedi digwydd yng Nghymru. Rwy'n siomedig bod y Comisiwn Etholiadol wedi caniatáu i hynny ddigwydd, ac rwy'n meddwl y dylai cadeirydd y comisiwn sefyll i lawr yn unswydd, oherwydd nid dyma'r tro cyntaf i'r Comisiwn Etholiadol wneud camgymeriad dybryd ynglŷn â'r cyngor y mae'n ei roi i ymgeiswyr yng Nghymru. Fodd bynnag, yn benodol, a yw'n fwriad yn awr gan y Llywodraeth i godi'r mater hwn yn uniongyrchol gyda'r comisiwn a chodi'r mater gyda Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, sydd, yn ôl beth yr wyf yn ei ddeall, yn gyfrifol am oruchwylio gwaith y Comisiwn Etholiadol, nid dim ond yn Lloegr ond yng Nghymru, hefyd?

The second thing that I would like to ask the Minister is on the role of the Electoral Commission in Wales. I am sure that the Minister will be aware that a party was allowed to register in Wales with a description that makes reference to the appalling murder that happened on the streets of London, and that that description could lead to tension within some of our communities. I am extremely disappointed that that happened in Wales. I am disappointed that the Electoral Commission allowed that to happen, and I do think that the chair of the commission should stand down immediately, because this is not the first time that the Electoral Commission has made a terrible error in terms of the advice that it provides to candidates in Wales. However, specifically, is it now the Government's intention to raise this issue directly with the commission and to raise the issue with the Speaker of the House of Commons, who, as I understand it, is responsible for overseeing the work of the Electoral Commission, not just in England but also in Wales?

14:22 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Counsel General was also very disappointed that you withdrew your question, for very legitimate reasons.

Roedd y Cwnsler Cyffredinol hefyd yn siomedig iawn eich bod wedi tynnu eich cwestiwn yn ôl, am resymau dilys iawn.

In relation to your first point, regarding the research in relation to skills and the Welsh language, I will ask the Minister to make a written statement.

O ran eich pwynt cyntaf, ynghylch yr ymchwil i sgiliau a'r Gymraeg, gofynnaf i'r Gweinidog wneud datganiad ysgrifenedig.

In relation to Britain First, I think that you are absolutely right—it is absolutely appalling that this tiny political party should use the tragic events of a year ago in this way. I was made aware of it at the weekend; I had conversations with my officials. Obviously, this is a UK Government issue. However, it is only Wales that is going to be affected. I can reassure Members that I have already written to Greg Clark, the Cabinet Office Minister responsible, putting forward my views that something should be done as soon as possible. I think, most importantly, it is so hurtful for the family of the late Lee Rigby. We are not sure what can be done in such a short timescale. However, again, my officials met with Cabinet Office officials yesterday to offer any help that we can give. Obviously, the chair of the Electoral Commission has admitted that this should not happen. The fault lies with her organisation, and I think that she has to consider whether this is down to a failure of corporate management and obviously consider her position accordingly.

O ran Britain First, rwyf yn meddwl eich bod yn llygad eich lle—mae'n gwbl warthus bod y blaid wleidyddol fechan iawn hon yn defnyddio'r digwyddiadau trasig a welwyd flwyddyn yn ôl yn y modd hwn. Cefais wybod am hyn dros y penwythnos; cefais sgyrsiau â'm swyddogion. Wrth gwrs, mater i Lywodraeth y DU yw hwn. Fodd bynnag, dim ond ar Gymru y bydd yn effeithio. Gallaf sicrhau'r Aelodau fy mod eisoes wedi ysgrifennu at Greg Clark, y Gweinidog yn Swyddfa'r Cabinet â chyfrifoldeb, i ddweud fy mod o'r farn y dylid gwneud rhywbeth cyn gynted ag y bo modd. Yn fy marn i, yn bwysicaf oll, mae hyn mor greulon i deulu'r diweddar Lee Rigby. Nid ydym yn siŵr beth y gellir ei wneud mewn amser mor fyr. Fodd bynnag, unwaith eto, cyfarfu fy swyddogion â swyddogion Swyddfa'r Cabinet ddoe i gynnig unrhyw gymorth y gallwn ei roi. Wrth gwrs, mae cadeirydd y Comisiwn Etholiadol wedi cyfaddef na ddylai hyn ddigwydd. Bai ei sefydliad hi yw hyn, a chredaf fod yn rhaid iddi ystyried ai methiant o ran rheoli corfforaethol sydd wedi achosi hyn, ac wrth gwrs bydd yn rhaid iddi ystyried ei sefyllfa'n unol â hynny.

14:23 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to request an update, leader of the house, from you or the Minister for Natural Resources and Food regarding the proposed changes to the dog breeding regulations. These have been some time in the gestation, and I think that it is fair to say that there is quite a lot of concern across Wales among organisations, particularly dog welfare organisations, to have clarity on the matter. I have been seeking advice from the Minister on this, and I think that it would be useful if that could be brought forward in the near future.

Hoffwn ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf, arweinydd y tŷ, gennych chi neu'r Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau bridio cŵn. Mae'r rhain wedi bod yn yr arfaeth ers peth amser, a chredaf ei bod yn deg dweud bod cryn dipyn o awydd ledled Cymru ymhlith sefydliadau, yn enwedig sefydliadau lles cŵn, i gael eglurder ar y mater. Rwyf wedi bod yn ceisio cyngor gan y Gweinidog am hyn, ac rwyf yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol pe gellid cyflwyno hynny yn y dyfodol agos.

14:24 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister will be bringing forward further information on this before the summer recess.

Bydd y Gweinidog yn cyflwyno rhagor o wybodaeth am hyn cyn toriad yr haf.

14:24 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you will know that, in England, there is a cancer drugs fund that is available for those who cannot obtain drugs under the NHS, which allows them to argue that they fall within certain criteria. There is very detailed information set out by the cancer drugs fund as to the circumstances that have to exist in order for the applications to be successful.

Weinidog, byddwch yn gwybod, yn Lloegr, fod cronfa cyffuriau canser ar gael i bobl nad ydynt yn gallu cael cyffuriau o dan y GIG, sy'n caniatáu iddynt ddadlau eu bod yn bodloni meini prawf penodol. Mae’r gronfa cyffuriau canser wedi nodi gwybodaeth fanwl iawn am yr amgylchiadau angenrheidiol er mwyn i'r ceisiadau fod yn llwyddiannus.

Of course, here in Wales, that is a much more ad hoc process, and the patients have to make out an exceptional case, but there does not seem to be any kind of guidance available in the way that there is for the cancer drugs fund. I am sure that you will be aware of constituents in your own constituency in Wrexham, who have also written to me about concerns that they have been told that they have to go over the border to England because there has not been a single approval of treatment of a particular cancer drug in Wales since that drug has been available. I would like to call for a statement from the Minister as to the criteria that the health board should publish to ensure that there is transparency and consistency of decision making in these exceptional case circumstances. After all, this is an NHS that we hope is available and has support for people in the very worst times of their life, and being told to move over the border when you are facing the last moments of your lifetime, effectively, is not an acceptable response from the Welsh NHS.

Wrth gwrs, yma yng Nghymru, mae hynny'n broses lawer mwy ad hoc, ac mae’n rhaid i gleifion gyflwyno achos eithriadol, ond nid yw'n ymddangos bod unrhyw fath o ganllawiau ar gael fel sydd ar gyfer y gronfa cyffuriau canser. Rwyf yn siŵr y byddwch yn gwybod am etholwyr yn eich etholaeth chi yn Wrecsam, sydd hefyd wedi ysgrifennu ataf i am bryderon eu bod wedi clywed bod yn rhaid iddynt fynd dros y ffin i Loegr oherwydd na chafwyd yr un gymeradwyaeth i driniaeth cyffur canser penodol yng Nghymru ers i’r cyffur hwnnw fod ar gael. Hoffwn alw am ddatganiad gan y Gweinidog ynghylch y meini prawf y dylai'r bwrdd iechyd eu cyhoeddi i sicrhau y ceir tryloywder a chysondeb wrth wneud penderfyniadau yn amgylchiadau’r achosion eithriadol hyn. Wedi'r cyfan, rydym yn gobeithio bod y GIG hwn ar gael i roi cymorth i bobl ar yr adegau gwaethaf un yn eu bywydau, ac nid yw dweud wrth bobl, i bob diben, fod yn rhaid iddynt symud dros y ffin pan fyddant yn wynebu munudau olaf eu hoes yn ymateb derbyniol gan y GIG yng Nghymru.

14:26 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government takes the view that a cancer drugs fund is not needed. There are no drugs available in England that are not available in Wales. Where do you stop? Do you have a drugs fund for multiple sclerosis? Do you have a drugs fund for Parkinson’s disease? Every drug is available. The criteria are there. Every clinician can apply to that panel to have those drugs for their patient.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen cronfa cyffuriau canser. Nid oes dim cyffuriau ar gael yn Lloegr nad ydynt ar gael yng Nghymru. Beth yw pen draw hyn? A fydd cronfa gyffuriau ar gyfer sglerosis ymledol? A fydd cronfa gyffuriau ar gyfer clefyd Parkinson? Mae pob cyffur ar gael. Mae'r meini prawf yno. Gall pob clinigwr wneud cais i'r panel hwnnw i gael y cyffuriau hynny i’w gleifion.

14:26 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Could I ask for a Government statement to update Members on the latest situation at the Murco refinery in Milford Haven? Over the Easter recess, on 11 April in fact, the Minister announced the establishment of a special taskforce to help to secure the future of that refinery. That is very welcome and well supported in the Milford Haven area, where there are over 400 jobs in the plant alone and 1,200 jobs potentially at risk in the wider community. So, could I ask the Minister for an update report on what progress has been made so far, as soon as that is possible?

A gaf i ofyn am ddatganiad gan y Llywodraeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y sefyllfa ddiweddaraf ym mhurfa Murco yn Aberdaugleddau? Dros doriad y Pasg, ar 11 Ebrill yn wir, cyhoeddodd y Gweinidog y byddai tasglu arbennig yn cael ei sefydlu i helpu i sicrhau dyfodol y burfa honno. Mae hynny i'w groesawu'n fawr ac mae pobl ardal Aberdaugleddau'n sicr o'i blaid; mae dros 400 o swyddi yn y ffatri ei hun a 1,200 o swyddi a allai fod mewn perygl yn y gymuned ehangach. Felly, a gaf i ofyn i'r Gweinidog am adroddiad diweddaru ar y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma, cyn gynted ag y bo'n bosibl?

Senedd.tv Fideo Video

14:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

As you stated, the Minister for the Economy, Science and Transport has established a taskforce to support the company in maintaining the future of the refinery operations at the site. The taskforce is led by Lord Nick Bourne, chair of the Milford Haven enterprise zone board, and the membership of the group includes representation from the UK Government. The Minister will update Members as appropriate.

Fel y dywedasoch, mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi sefydlu tasglu i gynorthwyo'r cwmni i sicrhau dyfodol gweithrediadau'r burfa ar y safle. Yr Arglwydd Nick Bourne, cadeirydd bwrdd ardal fenter Aberdaugleddau, yw arweinydd y tasglu ac ymhlith aelodau'r grŵp y mae cynrychiolwyr o Lywodraeth y DU. Bydd y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau fel y bo'n briodol.

Senedd.tv Fideo Video

14:27 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Minister, could I ask for two statements, please? The first one is in relation to the data security breach at three Welsh councils in relation to the electoral role data. I am interested in what contact the Government has had with those councils where they have been in touch with other councils, many of which share the same software, to find out if this is happening elsewhere in Wales. I would be interested if the Minister could give us a written statement on that particular issue.

Weinidog, a gaf i ofyn am ddau ddatganiad, os gwelwch yn dda? Mae'r cyntaf yn ymwneud â thanseilio diogelwch data mewn tri o gynghorau yng Nghymru o safbwynt data'r gofrestr etholiadol. Hoffwn gael gwybod pa gyswllt a fu rhwng y Llywodraeth a'r cynghorau hynny lle maent wedi bod mewn cysylltiad â chynghorau eraill, a llawer ohonynt yn rhannu'r un feddalwedd, i weld a yw hyn yn digwydd mewn mannau eraill yng Nghymru. Hoffwn i'r Gweinidog roi datganiad ysgrifenedig inni am y mater penodol hwnnw.

I would also like an oral statement on the decision to give a £3 million invest-to-save loan to the proposal to merge the control rooms of Mid and West Wales Fire and Rescue Service and the South Wales Fire and Rescue Service, which is causing some concern in my region and elsewhere in Wales, particularly in terms of access to Welsh-language services but also in terms of back up and familiarity with the huge area that that control room will take. I think it would be useful to have an opportunity to be able to question Ministers on what rationale was put in place to give that loan.

Hoffwn hefyd gael datganiad llafar am y penderfyniad i roi benthyciad buddsoddi-i-arbed o £3 miliwn i'r cynnig i uno ystafelloedd rheoli Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin a Chanolbarth Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, sy'n achosi rhywfaint o bryder yn fy rhanbarth i ac mewn mannau eraill yng Nghymru, yn enwedig o ran y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael, ond hefyd o ran gallu ategol a chynefindra ac ardal enfawr yr ystafell reoli honno. Rwyf yn credu y byddai'n ddefnyddiol cael cyfle i holi'r Gweinidogion am y sail resymegol a oedd yn sail i roi'r benthyciad hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

14:28 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

In relation to your first question regarding the data security breach, that is work that is currently being undertaken, and I am happy to update Members at the most appropriate time. In relation to the invest-to-save funding, I have just today signed a letter to the Member. Several other Members have raised this with me, and I will be very happy to share that information.

O ran eich cwestiwn cyntaf am danseilio diogelwch data, mae hwnnw'n waith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, ac rwyf yn fwy na bodlon rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar yr adeg fwyaf priodol. O ran y cyllid buddsoddi-i-arbed, rwyf wedi llofnodi llythyr at yr Aelod heddiw. Mae nifer o Aelodau eraill wedi codi hyn â mi, a byddaf yn hapus iawn i rannu'r wybodaeth honno.

Senedd.tv Fideo Video

14:29 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Leader of the house, could I endorse the comments made by Simon Thomas in his earlier remarks, and also seek a point of clarification? You said that you had written to the Westminster Government. As I understand it, the Electoral Commission is accountable to the Speaker and the House of Commons. Can you clarify whether you have engaged with the Speaker in making your views known?

Arweinydd y tŷ, a gaf i ategu’r sylwadau a wnaeth Simon Thomas yn ei sylwadau cynharach, a hefyd geisio eglurhad? Dywedasoch eich bod wedi ysgrifennu at Lywodraeth San Steffan. Yn ôl a ddeallaf, mae'r Comisiwn Etholiadol yn atebol i'r Llefarydd a Thŷ'r Cyffredin. A allwch egluro a ydych wedi cysylltu â’r Llefarydd i gyflwyno eich sylwadau?

However, the substantive point that I want to raise with you today is this: is it possible to have a statement from the Minister for transport in relation to the Coryton roundabout? In fairness to the Minister, she has been very gracious in some of the answers that she has given to me about traffic management around the improvements that have been made around the Coryton roundabout, but there was an accident on 29 March that caused traffic chaos in that area and, as I am led to believe, there is a real issue around the management of the traffic lights system. Anyone familiar with that roundabout knows that there is an inordinate amount of traffic lights on every junction, which is causing widespread congestion because of people jumping the lights and being in the way of through traffic and blocking traffic movement. So, if a statement could be forthcoming from the Minister on traffic management on that vital arterial route into Cardiff, and onto the M4, I would be most grateful.

Fodd bynnag, dyma’r pwynt sylweddol yr wyf am ei godi gyda chi heddiw: a yw'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog trafnidiaeth ynglŷn â chylchfan Coryton? Er tegwch i'r Gweinidog, mae rhai o'r atebion y mae wedi’u rhoi imi am reoli traffig o ran y gwelliannau sydd wedi'u gwneud o gwmpas cylchfan Coryton wedi bod yn raslon iawn, ond bu damwain ar 29 Mawrth a achosodd anhrefn traffig yn yr ardal honno ac, yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae problem wirioneddol o ran rheoli’r system goleuadau traffig. Bydd unrhyw un sy’n gyfarwydd â'r gylchfan yn gwybod bod gormod o lawer o oleuadau traffig ar bob cyffordd, sy'n achosi tagfeydd difrifol oherwydd bod pobl yn neidio’r goleuadau a’u bod yn rhwystro traffig trwodd ac yn atal traffig rhag symud. Felly, pe gallem gael datganiad gan y Gweinidog am reoli traffig ar y ffordd brifwythiennol hanfodol honno i mewn i Gaerdydd, ac i’r M4, byddwn yn ddiolchgar iawn.

14:30 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Minister will issue a written statement on the traffic management at the Coryton roundabout.

Bydd y Gweinidog yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig am reoli traffig ar gylchfan Coryton.

In relation to the Electoral Commission, I wrote to Greg Clark because he is the UK elections Minister. He has subsequently written to the Speaker because he is responsible for looking at that within his role. I have made our views very clear to Greg Clark. As I mentioned in my answer to Simon Thomas, we are the only country that this is going to affect and we are horrified that this has happened; it is a truly shameful position.

O ran y Comisiwn Etholiadol, ysgrifennais at Greg Clark oherwydd mai ef yw Gweinidog etholiadau'r DU. Mae yntau wedi ysgrifennu at y Llefarydd oherwydd ei fod yn gyfrifol am edrych ar hynny fel rhan o’i swyddogaeth. Rwyf wedi mynegi ein barn yn glir iawn wrth Greg Clark. Fel y dywedais yn fy ateb i Simon Thomas, ni yw'r unig wlad y bydd hyn yn effeithio arni, ac rydym wedi’n harswydo bod hyn wedi digwydd; mae'n sefyllfa wirioneddol gywilyddus.

14:31 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Weinidog, mae sylw wedi’i wneud prynhawn yma yn barod am adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar addysg yng Nghymru. Nid oes unrhyw beth yn yr amserlen ar hyn o fewn y tair wythnos nesaf. A wnaiff y Llywodraeth ystyried naill ai datganiad neu gyfle inni drafod cynnwys yr adroddiad yn y Senedd er mwyn inni ddysgu gwersi ar gyfer y dyfodol?

Minister, a comment has been made this afternoon already on the Organisation for Economic Co-operation and Development’s report on education in Wales. There is nothing in the timetable on this within the next three weeks. Will the Government consider either a statement or an opportunity for us to discuss the content of the report in the Senedd so that we can learn lessons for the future?

14:31 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Member will be aware that there have been issues around standards and performance in schools in recent years and that is why we have put in place a rigorous reform agenda. We did, as a Government, welcome the recent report that, as you say, we commissioned, and its main thrust was that Wales should keep its focus on the long-term and sustained school improvement strategy and that is what we are doing.

Bydd yr Aelod yn ymwybodol bod rhai materion wedi codi ynghylch safonau a pherfformiad mewn ysgolion yn y blynyddoedd diwethaf, a dyna pam yr ydym wedi sefydlu agenda ddiwygio drylwyr. Roeddem, fel Llywodraeth, yn croesawu'r adroddiad diweddar, a gomisiynwyd, fel y dywedasoch, gennym ni, a’i brif bwyslais oedd y dylai Cymru barhau i ganolbwyntio ar y strategaeth gwella ysgolion hirdymor a chynaliadwy a dyna’r hyn yr ydym yn ei wneud.

14:32 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I rise for the third time to draw your attention to incidents of arson. You will be well aware of the number of grassland fires just recently in the last few weeks, particularly the fire at Caldicott School. The recent dry period has seen our fire and services answer over 500 calls to tackle grass fires, many of which were actually cases of arson. As we are only in the early part of the summer, clearly something needs to be done at this period. How are you going to get the message across that arson is not a victimless crime, that it sometimes causes substantial damage to property, and often to wildlife, and that it places our fire service personnel and the arsonists themselves in some danger? Can we have a statement on the measures being taken to deliver this message?

Weinidog, rwyf yn codi am y trydydd tro i dynnu eich sylw at achosion o losgi bwriadol. Byddwch yn gwybod yn iawn am nifer o danau glaswelltir diweddar dros yr wythnosau diwethaf, yn enwedig y tân yn Ysgol Caldicott. Yn ystod y cyfnod sych diweddar, mae ein gwasanaethau tân wedi ateb dros 500 o alwadau i frwydro tanau glaswellt, a llawer ohonynt mewn gwirionedd yn achosion o losgi bwriadol. Gan mai megis dechrau y mae'r haf, yn amlwg mae angen gwneud rhywbeth yn awr. Sut ydych chi'n mynd i gyfleu'r neges nad yw llosgi bwriadol yn drosedd heb ddioddefwyr, ei fod weithiau'n achosi difrod sylweddol i eiddo, ac yn aml i fywyd gwyllt, a'i fod yn peri cryn berygl i bersonél y gwasanaeth tân a'r llosgwyr eu hunain? A gawn ni ddatganiad am y camau sy'n cael eu cymryd i gyfleu'r neges hon?

14:32 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are working very closely with the fire and rescue authorities. You may have heard me mention in an earlier answer that just last week I took part in Project Bernie, which is a South Wales Fire and Rescue Service project that works with young children aged nine, 10 and 11 who have been identified as being on the cusp of offending. When I was at Maesteg fire station, I was told that the figure for grass fires, for instance, in the first quarter of this year had dropped significantly. I think that it was about 150 instead of the 450 in the comparable quarter of last year. However, we have experienced a high volume of grass fires over the Easter period, which, apparently, is a particularly bad time for them. So, we will continue to promote projects such as Project Bernie, and the Phoenix Project, which you are aware of, to try to get that message out that lighting grass fires is arson, and that any arson obviously has serious consequences.

Rydym yn cydweithio'n agos iawn â'r awdurdodau tân ac achub. Efallai ichi fy nghlywed yn dweud mewn ateb cynharach fy mod, dim ond yr wythnos diwethaf, wedi cymryd rhan ym Mhrosiect Bernie, sef prosiect gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru sy'n gweithio gyda phlant ifanc 9, 10 ac 11 oed sydd wedi cael eu nodi fel rhai sydd ar drothwy troseddu. Pan oeddwn yng ngorsaf dân Maesteg, dywedwyd wrthyf fod nifer y tanau glaswellt, er enghraifft, yn chwarter cyntaf eleni wedi gostwng yn sylweddol. Credaf mai tua 150 a fu o gymharu â 450 yn yr un chwarter y llynedd. Fodd bynnag, rydym wedi gweld nifer mawr o danau glaswellt dros y Pasg, sydd, mae'n debyg, yn gyfnod arbennig o wael yn hyn o beth. Felly, byddwn yn parhau i hyrwyddo prosiectau megis Prosiect Bernie, a'r Prosiect Phoenix, yr ydych yn gwybod amdano, i geisio cyfleu'r neges honno mai llosgi bwriadol yw cynnau tanau glaswellt, a bod canlyniadau difrifol i unrhyw losgi bwriadol, yn amlwg.

14:34

# Datganiad: Cysoni Cymorth Cyflogaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU

# Statement: Welsh and UK Government Alignment of Employment Support

Senedd.tv Fideo Video

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

I am grateful for this opportunity to highlight the work currently being undertaken between the Welsh Government and the UK Government to better align employment and skills services to support jobseekers in Wales. As a substantial policy area devolved to the Welsh Government, skills have a major impact on both the economic and social wellbeing of Wales. Together with policy action to support the employability of individuals, skills provide a strong lever for tackling poverty and strengthening the creation of jobs and growth. However, one of the key challenges we face is the fact that employment policy remains within the ambit of central Government. In order to be fully effective, we must clearly take action to join up our devolved responsibilities with those that remain at a national Government level. Over recent months, we have seen a number of high-profile commentaries in the press around the opportunities that are available to unemployed people in Wales, and the perceived disparity between Welsh Government and UK Government actions, in particular linked to the Department for Work and Pension's flagship employment scheme, the Work Programme.

Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle hwn i dynnu sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i alinio gwasanaethau cyflogaeth a sgiliau'n well er mwyn cynorthwyo ceiswyr gwaith yng Nghymru. Fel maes polisi sylweddol sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, mae sgiliau'n cael effaith fawr ar les economaidd a chymdeithasol Cymru. Ynghyd â llunio polisi i wella cyflogadwyedd unigolion, mae sgiliau'n offeryn cryf ar gyfer trechu tlodi a chryfhau'r broses o greu swyddi a thwf. Fodd bynnag, un o'r heriau allweddol sy'n ein hwynebu yw'r ffaith bod polisi cyflogaeth yn parhau i fod o fewn cwmpas Llywodraeth ganolog. Er mwyn bod yn gwbl effeithiol, rhaid inni gymryd camau clir i gydgysylltu ein cyfrifoldebau datganoledig â'r rhai sy'n dal i fod ar lefel y Llywodraeth genedlaethol. Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi gweld nifer o sylwadau uchel eu proffil yn y wasg ynglŷn â'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ddi-waith yng Nghymru, a'r gwahaniaeth tybiedig rhwng camau gweithredu Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn enwedig o ran cynllun cyflogaeth blaenllaw'r Adran Gwaith a Phensiynau, y Rhaglen Waith.

Early evidence suggests that the Work Programme performance in Wales has experienced some challenges in providing the levels of support that individuals need for employment. In November 2013, the Welsh Affairs Committee published a report into the operation of the Work Programme in Wales, and made several recommendations that will require active collaboration between the DWP and the Welsh Government. These relate primarily to current Welsh Government policy in respect of Work Programme participants accessing Welsh Government and European social fund-funded skills provision. There are some clear challenges here that require detailed exploration, not least the need to demonstrate added value, and to ensure that there is no overlap or duplication in funding coming into the system from different Governments.

Mae tystiolaeth gynnar yn awgrymu bod perfformiad y Rhaglen Waith yng Nghymru wedi wynebu rhai heriau o ran darparu lefel y cymorth sydd ei angen ar unigolion o ran cyflogaeth. Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cymreig adroddiad ar weithredu'r Rhaglen Waith yng Nghymru, a gwnaeth nifer o argymhellion a fydd yn golygu bod angen cydweithio gweithredol rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â pholisi Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd o ran mynediad y rhai sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Waith at ddarpariaeth sgiliau a ariennir gan gronfa gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Mae rhai heriau clir yma y mae angen eu harchwilio'n fanwl, yn enwedig yr angen i ddangos gwerth ychwanegol, ac i sicrhau nad oes dim gorgyffwrdd na dyblygu o ran cyllid sy'n dod i mewn i'r system o wahanol Lywodraethau.

However, we cannot ignore the fact that we have a common aim with the DWP to support those seeking work, and to fulfil their ambition of gaining sustained employment. We want to ensure that jobseekers in Wales have access to the widest range of help available, and we want to work with the DWP to simplify access to respective employment and skills programmes. In November last year, I met with Esther McVey, the UK Minister of State for Employment, to discuss the support and access to skills training that is being offered to Welsh jobseekers. During this meeting, an agreement was made to look at practical solutions to enable this, including the creation of a senior level working group to take the agenda forward—the employment working group: Wales. This working group is jointly chaired by the DWP and the Welsh Government's Department for Education and Skills. Its remit is to take forward the recommendations arising from the Welsh Affairs Committee's report on the Work Programme, and any other issues that require closer collaboration between the two Governments to ensure better alignment of employment policy.

Fodd bynnag, ni allwn anwybyddu'r ffaith fod gennym nod yn gyffredin â'r Adran Gwaith a Phensiynau, sef cynorthwyo pobl sy'n chwilio am waith, a gwireddu eu huchelgais o gael cyflogaeth gynaliadwy. Rydym am sicrhau bod yr ystod ehangaf bosibl o gymorth ar gael i geiswyr gwaith yng Nghymru, ac rydym yn awyddus i gydweithio â'r Adran Gwaith a Phensiynau i'w gwneud yn haws manteisio ar raglenni cyflogaeth a sgiliau y naill a'r llall. Ym mis Tachwedd y llynedd, cwrddais ag Esther McVey, Gweinidog Gwladol y DU dros Gyflogaeth, i drafod y cymorth a'r mynediad at hyfforddiant sgiliau sy'n cael eu cynnig i geiswyr gwaith yng Nghymru. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, cytunwyd i edrych ar atebion ymarferol er mwyn caniatáu hyn, gan gynnwys creu gweithgor ar lefel uwch i fwrw ymlaen â'r agenda—gweithgor cyflogaeth: Cymru. Cadeirir y gweithgor hwn ar y cyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Ei gylch gwaith yw bwrw ymlaen â'r argymhellion a oedd yn deillio o adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig ar y Rhaglen Waith, ac unrhyw faterion eraill lle mae angen cydweithio agosach rhwng y ddwy Lywodraeth i sicrhau y caiff polisi cyflogaeth ei gysoni'n well.

With specific regard to the Work Programme, there are a number of key actions currently being progressed through the working group. These include: the Welsh Government putting systems in place to ensure that Work Programme participants are able to access apprenticeship opportunities as a valid employment outcome; the DWP agreeing to provide further information to Welsh Government officials on the likely demand for essential skills provision, and more information on the type of essential skills support being provided by the Work Programme; the DWP undertaking further analysis with Work Programme providers to identify the nature of any unmet demand, which can be considered by Welsh Government officials in the development of future skills delivery arrangements; and the Welsh Government working with the DWP to explore potential solutions relating to access for exiting Work Programme participants to other core Welsh Government schemes, such as Jobs Growth Wales.

Gyda golwg benodol ar y Rhaglen Waith, mae nifer o gamau gweithredu allweddol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd drwy'r gweithgor. Mae'r rhain yn cynnwys: rhoi systemau ar waith gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y rhai sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Waith yn gallu cael cyfleoedd prentisiaeth fel canlyniad cyflogaeth dilys; cytundeb gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i roi rhagor o wybodaeth i swyddogion Llywodraeth Cymru am y galw tebygol am ddarpariaeth sgiliau hanfodol, a mwy o wybodaeth am y math o gymorth sgiliau hanfodol y mae'r Rhaglen Waith yn ei ddarparu; cynnal dadansoddiadau pellach gan yr Adran Gwaith a Phensiynau gyda darparwyr y Rhaglen Waith i nodi natur unrhyw alw sydd heb ei fodloni, y gall swyddogion Llywodraeth Cymru ei ystyried wrth ddatblygu trefniadau cyflwyno sgiliau yn y dyfodol; a chydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau i archwilio atebion posibl o ran mynediad i'r rhai sy'n gadael y Rhaglen Waith at gynlluniau craidd eraill Llywodraeth Cymru, megis Twf Swyddi Cymru.

Aside from the Work Programme issues, there are a number of areas where the Welsh Government and the DWP are already working together with common purpose to understand and mitigate the particular challenges that are faced by those accessing the labour market in Wales. I have already referred to the devolved/non-devolved nature of the relationship between the two Governments. In view of this, there will always remain differences between the operation of the benefits system, and the actions that support people seeking work in Wales. One particular issue relates to the conditionality regime, which is an inherent part of the benefits system—an individual claims financial support from the state with the expectation, in the majority of cases, that individuals will undertake specific actions to improve their chances of moving into sustained employment.

Ar wahân i'r materion yn ymwneud â’r Rhaglen Waith, mae nifer o feysydd lle mae Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau eisoes yn cydweithio â phwrpas cyffredin i ddeall a lliniaru’r heriau penodol a wynebir gan y rhai sy'n dod i’r farchnad lafur yng Nghymru. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at natur ddatganoledig/heb ei datganoli y berthynas rhwng y ddwy Lywodraeth. Yng ngoleuni hyn, bydd gwahaniaethau’n parhau rhwng gweithrediad y system fudd-daliadau, a'r camau sy'n cynorthwyo pobl sy'n chwilio am waith yng Nghymru. Mae un mater penodol yn ymwneud â'r drefn amodoldeb, sy'n rhan annatod o'r system fudd-daliadau—mae unigolyn yn hawlio cymorth ariannol gan y wladwriaeth gan ddisgwyl, gan amlaf, y bydd unigolion yn cymryd camau penodol i wella ei siawns o gael cyflogaeth gynaliadwy.

While it is acknowledged that there needs to be an emphasis on certain conditions of entitlement within the benefits system, the Welsh Government has always had reservations around the application of benefit sanctions, where individuals may not have been able to comply with those conditions. The Welsh Government position on skills conditionality was formally approved by Cabinet in November 2011. Our policy has been to prevent mandation onto Welsh Government funded provision, pending further evidence from the DWP to support any change in approach. As a result, the DWP introduced its own skills provision in Wales, Skills for Work (Wales), through which it would test the conditionality regime and seek to provide the Welsh Government with the necessary evidence. The programme started in 2012, ran until January 2014, and the first set of statistics was published at the end of November 2013, followed by a more detailed report of findings in December.

Er ein bod yn cydnabod bod angen rhoi pwyslais ar rai amodau penodol ynglŷn â hawl o fewn y system fudd-daliadau, mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi bod yn amheus ynglŷn â defnyddio sancsiynau budd-daliadau, pan na fydd unigolion wedi gallu cydymffurfio â'r amodau hynny. Cafodd safbwynt Llywodraeth Cymru ar amodoldeb sgiliau ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2011. Ein polisi fu atal mandadu ar y ddarpariaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru, hyd nes y ceir rhagor o dystiolaeth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i gyfiawnhau unrhyw newid i’r dull gweithredu. O ganlyniad, cyflwynodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ei darpariaeth sgiliau ei hun yng Nghymru, Sgiliau ar gyfer Gwaith (Cymru), lle y byddai’n profi'r drefn amodoldeb ac yn ceisio rhoi’r dystiolaeth angenrheidiol i Lywodraeth Cymru. Dechreuodd y rhaglen yn 2012, a phara tan fis Ionawr 2014, a chyhoeddwyd y gyfres gyntaf o ystadegau ddiwedd mis Tachwedd 2013, ac yna adroddiad mwy manwl ar y canfyddiadau ym mis Rhagfyr.

Following the publication of the report, we have been considering the rationale for reviewing the Welsh Government’s position on skills conditionality. We felt that the evidence presented did not go far enough to convince us to change the current position and I have therefore agreed to a project that will test mandation onto Welsh Government skills provision for jobseekers with a basic skills need. The trial commenced this month and will run for one year until March 2015, following which a definitive decision will be made regarding the Welsh Government’s position on mandation onto skills support.

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, rydym wedi bod yn ystyried y sail resymegol ar gyfer adolygu safbwynt Llywodraeth Cymru ar amodoldeb sgiliau. Roeddem o’r farn nad oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn mynd yn ddigon pell i’n darbwyllo i newid y sefyllfa fel ag y mae, ac felly rwyf wedi cytuno ar brosiect a fydd yn profi mandadu ar ddarpariaeth sgiliau Llywodraeth Cymru i geiswyr gwaith a chanddynt angen sgiliau sylfaenol. Dechreuodd y cynllun treialu’r mis hwn a bydd yn para blwyddyn tan fis Mawrth 2015, ac ar ôl hynny, gwneir penderfyniad terfynol ynglŷn â safbwynt Llywodraeth Cymru ar fandadu ar gymorth sgiliau.

Further to these specific actions, the Welsh Government continues to develop and refine our response to the challenges facing the skills system as we aim to move towards a better integrated and more responsive system that offers better value for the limited resources available to us. This is not only our responsibility but a joint one across the whole skills system, whether it is nationally led or more regionally or locally focused. Our recently published skills policy statement and its accompanying implementation plan, which will be launched in July, along with our ongoing developments to establish programmes that provide relevant, flexible and cost-effective support to both businesses and individuals, are all testament to this joint ambition. Our ongoing relationship with the DWP as one of our key partners is vital if we are to realise this ambition, and I look forward to continuing our collaboration on this challenging agenda.

Yn ogystal â’r camau penodol hyn, mae Llywodraeth Cymru’n parhau i ddatblygu a mireinio ein hymateb i'r heriau sy'n wynebu'r system sgiliau wrth inni anelu i symud tuag at system fwy integredig a mwy ymatebol sy'n cynnig gwell gwerth am yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael inni. Nid dim ond ein cyfrifoldeb ni yw hynny, ond un a rennir ar draws y system sgiliau gyfan, p’un a yw'n cael ei arwain yn genedlaethol neu â mwy o bwyslais rhanbarthol neu leol. Mae ein datganiad polisi sgiliau a gyhoeddwyd yn ddiweddar a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, a gaiff ei lansio ym mis Gorffennaf, ynghyd â'n datblygiadau parhaus i sefydlu rhaglenni sy'n darparu cymorth perthnasol, hyblyg a chost-effeithiol i fusnesau ac unigolion, i gyd yn tystio i’r uchelgais cyffredin hwn. Mae ein perthynas barhaus â'r Adran Gwaith a Phensiynau fel un o'n partneriaid allweddol yn hanfodol os ydym am wireddu'r uchelgais hwn, ac edrychaf ymlaen at barhau i gydweithio ar yr agenda heriol hon.

14:41 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Clearly, I have to welcome this statement, having called for it last March—and you responded positively on that occasion. I then referred to the need, in particular, for Jobs Growth Wales and the UK Work Programme to complement each other and to collaborate and be accessible together. I will come back to that point, as I note that your statement does not make that full commitment today.

Wrth gwrs, rhaid imi groesawu'r datganiad hwn, ar ôl galw amdano fis Mawrth diwethaf—ac roedd eich ymateb yn gadarnhaol ar yr achlysur hwnnw. Yna cyfeiriais at yr angen, yn arbennig, i Twf Swyddi Cymru a Rhaglen Waith y DU ategu ei gilydd a chydweithio a bod yn hygyrch gyda'i gilydd. Dof yn ôl at y pwynt hwnnw, gan fy mod yn nodi nad yw eich datganiad yn gwneud yr ymrwymiad llawn hwnnw heddiw.

We know that, last November, the Welsh Affairs Committee report on the Work Programme in Wales called on the UK and Welsh Governments to work collaboratively to secure access to skills training, and you have indicated that there has been dialogue with Esther McVey since that point. The concern was that people on the Work Programme in Wales have been denied access to Welsh Government schemes funded by the European social fund and that they are, in fact, still being denied it three years after the Work Programme was launched in Wales as well as the rest of the UK.

Rydym yn gwybod bod adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig fis Tachwedd diwethaf ar y Rhaglen Waith yng Nghymru wedi galw ar Lywodraethau’r DU a Chymru i gydweithio i sicrhau mynediad at hyfforddiant sgiliau, ac rydych wedi dweud y bu trafod ag Esther McVey ers hynny. Y pryder oedd y gwrthodwyd mynediad i gynlluniau Llywodraeth Cymru a ariennir gan gronfa gymdeithasol Ewrop i bobl ar y Rhaglen Waith yng Nghymru a'u bod, mewn gwirionedd, yn dal i gael eu gwrthod dair blynedd ar ôl i’r Rhaglen Waith gael ei lansio yng Nghymru yn ogystal â gweddill y DU.

You state that early evidence suggests that Work Programme performance in Wales has experienced some challenges in providing the levels of support individuals need for employment. Do you, therefore, welcome the news that 26,000 of the 80,000 referrals to the Work Programme during the three years have now moved into jobs? This is the third year of what was a two-year programme, with referrals being for those furthest from the workplace of all ages and figures show that the performance target for 18 to 24-year-olds has been massively exceeded and the target for the over-25s has, once again, been significantly exceeded. I hope that we will all recognise that as being good news.

Rydych yn dweud bod tystiolaeth gynnar yn awgrymu bod perfformiad y Rhaglen Waith yng Nghymru wedi wynebu rhai heriau o ran darparu’r lefelau o gymorth sydd eu hangen ar unigolion ar gyfer cyflogaeth. A ydych, felly, yn croesawu'r newyddion bod 26,000 o'r 80,000 o atgyfeiriadau i'r Rhaglen Waith yn ystod y tair blynedd bellach wedi cael swyddi? Dyma drydedd flwyddyn yr hyn a oedd yn rhaglen ddwy flynedd, yn gwneud atgyfeiriadau i’r rhai o bob oed sydd bellaf oddi wrth y gweithle ac mae’r ffigurau'n dangos y rhagorwyd ar y targed perfformiad ar gyfer pobl 18 i 24 mlwydd oed o bell ffordd ac y rhagorwyd ar y targed ar gyfer rhai dros 25 oed, unwaith eto, yn hawdd. Rwyf yn gobeithio y byddwn i gyd yn cydnabod bod hynny'n newyddion da.

We very much welcome your announcement that the Welsh Government is putting systems in place to ensure that Work Programme participants can access apprenticeship opportunities as a valid employment outcome. We know that Work Programme providers have been calling for this consistently throughout the three-year period; it is good news, especially where overall apprenticeship participation in Wales fell between 2007 and 13 by 2.4%, but increased by 107.4% in England. I know that there is better news among younger people, before you say so, but we have to look at the whole cohort of people who can benefit.

Rydym yn croesawu'n fawr iawn eich cyhoeddiad bod Llywodraeth Cymru’n rhoi systemau ar waith i sicrhau y gall y rhai sy’n cymryd rhan yn y Rhaglen Waith fanteisio ar gyfleoedd prentisiaeth fel canlyniad cyflogaeth dilys. Rydym yn gwybod bod darparwyr y Rhaglen Waith wedi bod yn galw am hyn yn gyson drwy gydol y tair blynedd; mae'n newyddion da, yn enwedig ac ystyried bod cyfranogiad cyffredinol mewn prentisiaethau yng Nghymru rhwng 2007 a 13 wedi gostwng 2.4%, ond wedi cynyddu 107.4% yn Lloegr. Gwn fod newyddion gwell ymhlith pobl iau, cyn ichi ddweud hynny, ond rhaid inni edrych ar y garfan gyfan a all elwa.

You said that you are working with the DWP to explore potential solutions relating to access for exiting Work Programme participants to other core Government programmes, such as Jobs Growth Wales. How would you respond to the young woman who contacted me on the Thursday before Good Friday, who we did refer to your office, and we thank you for the efforts it made, even though we had circumvented the route? However, the rules prevented you or me from being able to help her. She had been required to go on the Work Programme and to apply for jobs, but she had not been able to access either of the jobs she was offered, because both required Jobs Growth Wales support. By 4 p.m. on the day before Good Friday, she was told by the latest employer that she had lost the job; it had gone to another person because she could not secure Jobs Growth Wales support. Would you agree that we should be helping young people like that young woman in north-east Wales and bending the system in any way possible to prevent that from happening again?

Dywedasoch eich bod yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i archwilio atebion posibl o ran mynediad i'r rhai sy'n gadael y Rhaglen Waith at raglenni craidd eraill y Llywodraeth, megis Twf Swyddi Cymru. Sut y byddech yn ymateb i'r fenyw ifanc a gysylltodd â mi y dydd Iau cyn dydd Gwener y Groglith, y gwnaethom ei chyfeirio at eich swyddfa, a diolchwn ichi am ymdrechion eich swyddfa, er ein bod wedi gwyro oddi wrth y llwybr? Fodd bynnag, roedd y rheolau'n eich atal chi a mi rhag gallu ei helpu. Roedd wedi gorfod mynd ar y Rhaglen Waith ac ymgeisio am swyddi, ond nid oedd wedi gallu cymryd y naill na'r llall o'r swyddi a gynigiwyd iddi, oherwydd bod y ddwy'n mynnu cefnogaeth Twf Swyddi Cymru. Erbyn 4 p.m. ar y diwrnod cyn dydd Gwener y Groglith, dywedodd y cyflogwr diweddaraf wrthi ei bod wedi colli'r swydd; roedd wedi ei rhoi i rywun arall gan na allai hi sicrhau cefnogaeth Twf Swyddi Cymru. A fyddech yn cytuno y dylem fod yn helpu pobl ifanc fel y fenyw ifanc honno yn y gogledd-ddwyrain ac yn plygu'r system mewn unrhyw ffordd bosibl i atal hynny rhag digwydd eto?

Finally, if I may refer to the Lift programme, we know that the Welsh Government made a written statement during recess on the scheme, which focuses on people who have spent more than six months out of work or training and face greater barriers, and that you were considering the possibility of an additional area in north-east Wales. Ironically, that was roughly during the same week as when the universal credit was launched at Shotton in north-east Wales, with support tailored to the individual and steps needed to move closer to work agreed with it. So, how will you ensure that your Lift programme and other programmes complement rather than replicate the universal credit, the Work Programme and the Help to Work scheme? I understand that providers for this in Wales are due to be announced today.

Yn olaf, os caf gyfeirio at y rhaglen Esgyn, rydym yn gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud datganiad ysgrifenedig yn ystod y toriad am y cynllun, sy'n canolbwyntio ar bobl sydd wedi treulio mwy na chwe mis yn ddi-waith neu heb hyfforddiant ac sy'n wynebu rhwystrau mwy, a'ch bod yn ystyried y posibilrwydd o greu ardal ychwanegol yn y gogledd-ddwyrain. Yn eironig, roedd hynny tua'r un wythnos ag y lansiwyd y credyd cynhwysol yn Shotton yn y gogledd-ddwyrain, gyda chymorth wedi'i deilwra i'r unigolyn a chytuno ar y camau sydd eu hangen i symud yn agosach at waith. Felly, sut y byddwch yn sicrhau bod eich rhaglen Esgyn a rhaglenni eraill yn ategu'r credyd cynhwysol, y Rhaglen Waith a'r cynllun Helpu i Weithio, yn hytrach na'u dyblygu? Rwyf ar ddeall y caiff darparwyr hyn yng Nghymru eu cyhoeddi heddiw.

14:46

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for North Wales for his contribution. First of all, on Jobs Growth Wales and the Work Programme, I have seen Conservatives describe the performance of the Work Programme as being 'impressive'. I would not agree with that; I think that that is like saying that the acceleration of an Austin Allegro is rapid. I would contend that those participating in Jobs Growth Wales have a far better chance of success in maintaining lasting employment. I fully support the Welsh Affairs Committee in its view that young people should be allowed to exit the Work Programme and to access Jobs Growth Wales opportunities. It rests with the DWP to allow young people to exit the Work Programme without sanctions, and I look forward to progress being made swiftly in this area.

Diolch i Aelod Gogledd Cymru am ei gyfraniad. Yn gyntaf oll, ynghylch Twf Swyddi Cymru a'r Rhaglen Waith, rwyf wedi gweld y Ceidwadwyr yn dweud bod perfformiad y Rhaglen Waith yn 'drawiadol'. Ni fyddwn yn cytuno â hynny; rwyf yn meddwl bod hynny fel dweud bod cyflymiad Austin Allegro yn gyflym. Byddwn yn dadlau bod gan bobl sy'n cymryd rhan yn Twf Swyddi Cymru well siawns o lawer o lwyddo i aros mewn gwaith yn barhaol. Rwyf yn llwyr gefnogi barn y Pwyllgor Materion Cymreig y dylai fod gan bobl ifanc hawl i adael y Rhaglen Waith a manteisio ar gyfleoedd Twf Swyddi Cymru. Lle'r Adran Gwaith a Phensiynau yw galluogi pobl ifanc i adael y Rhaglen Waith heb sancsiynau, ac edrychaf ymlaen at weld cynnydd yn digwydd yn gyflym yn y maes hwn.

The recent press articles in north Wales about Lucy Halfpenny, the constituent of Sandy Mewies and a young person who is on the Work Programme, highlight the injustice of the current position. I would like to quote what she had to say. She said:

Mae'r erthyglau diweddar yn y wasg yn y gogledd ynghylch Lucy Halfpenny, sy'n un o etholwyr Sandy Mewies ac yn berson ifanc sydd ar y Rhaglen Waith, yn tynnu sylw at anghyfiawnder y sefyllfa bresennol. Hoffwn ddyfynnu'r hyn a oedd ganddi i'w ddweud. Dywedodd:

‘I had no choice but to go on the Work Programme. If I hadn’t, they would have stopped my benefits. In essence, being on the Work Programme has stopped me getting a job. I’ve got a position but they’re keeping me on the dole. I have asked the DWP to relax the inflexibility of the Work Programme and allow young people to exit without sanctions to get meaningful jobs in Jobs Growth Wales.’

Doedd gen i ddim dewis ond mynd ar y Rhaglen Waith. Pe na bawn wedi gwneud hynny, byddent wedi atal fy mudd-daliadau. Yn y bôn, mae bod ar y Rhaglen Waith wedi fy atal rhag cael swydd. Mae gen i swydd ond maent yn fy nghadw ar y clwt. Rydw i wedi gofyn i'r Adran Gwaith a Phensiynau lacio anhyblygrwydd y Rhaglen Waith a chaniatáu i bobl ifanc adael heb sancsiynau i gael swyddi ystyrlon o fewn Twf Swyddi Cymru.

Turning to contractual arrangements for the Work Programme, it operates a black box delivery model. This means that activities are not specified, and so we are unable to determine at this moment where added value can be demonstrated for ESF purposes. This was one of the primary reasons for forming the joint board to look at exactly what is being offered via the black box contractual arrangements. At the moment, it has not been possible to rule out duplication of provision through the member states’ employment programmes, which we know is prohibited under ESF arrangements.

A throi at drefniadau cytundebol y Rhaglen Waith, mae'n gweithredu model darparu blwch du. Mae hyn yn golygu nad yw gweithgareddau’n cael eu nodi, felly ni allwn bennu ar hyn o bryd ble y gellir dangos gwerth ychwanegol at ddibenion Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Dyma un o'r prif resymau dros ffurfio’r bwrdd ar y cyd i edrych ar beth yn union sy'n cael ei gynnig drwy gyfrwng y trefniadau cytundebol blwch du. Ar hyn o bryd, nid yw wedi bod yn bosibl diystyru dyblygu darpariaeth drwy raglenni cyflogaeth yr aelod-wladwriaethau; rydym yn gwybod bod trefniadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn gwahardd hynny.

Turning to the Lift programme, the Lift programme is already operating, I believe, in five out of the eight cluster areas where it will be operating. There is an implementation board, which will be considering all of the factors involved in that programme and making sure that we have a joined-up approach across Government, which is one of the two main themes of the Lift programme.

A throi at y rhaglen Esgyn, mae'r rhaglen Esgyn eisoes ar waith, rwyf yn credu, mewn pump o'r wyth ardal glwstwr lle y caiff ei gweithredu. Mae bwrdd gweithredu, a fydd yn ystyried yr holl ffactorau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen honno ac yn gwneud yn siŵr bod gennym ddull cydgysylltiedig ar draws y Llywodraeth, sy'n un o ddwy brif thema'r rhaglen Esgyn.

14:48 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i’r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad heddiw. Mae’n amlwg o’r datganiad fod nifer o broblemau ac anawsterau yn dal i fodoli yn y cydlyniant rhwng yr hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud a’r hyn y mae’r Llywodraeth yn ei wneud yn San Steffan. Mae hynny yn siomedig iawn. Nid wyf eisiau bwrw’r bai y naill ffordd neu’r llall yma—rwyf am weld beth yw’r problemau a sut y gallwn eu datrys, achos mae’n amlwg bod angen gweld y defnydd gorau o arian cyhoeddus yn y fan hon, ond mae hefyd angen gweld pobl ifanc a phobl o bob oed yng Nghymru sydd yn ddi-waith yn cael y cyfle gorau i gyfoethogi eu sgiliau ac i symud ymlaen i waith parhaol.

I thank the Deputy Minister for his statement this afternoon. It is clear from the statement that there a number of problems and difficulties remain in the co-ordination between what the Government here in Wales is doing and what the Government in Westminster is doing. That is very disappointing. I do not want to blame one side or the other—I want to see what the problems are and how we can resolve those problems, because we clearly need to see best use of public funds being made here. We also need to ensure that young people and, indeed, people of all ages in Wales who are unemployed have the best opportunity to improve and enhance those skills and to move to permanent employment.

Yn y cyd-destun hwnnw, nid wyf yn meddwl bod llawer o obaith eto yn natganiad y Dirprwy Weinidog, gan ei fod yn ailadrodd yr hyn a gafodd ei ganfod yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig y llynedd. Roedd rhai o argymhellion y pwyllgor hwnnw am gael ei datrys erbyn mis Chwefror eleni os wyf yn cofio’n iawn, ac mae’n amlwg fod y problemau yn dal i fod yno.

In that context, I do not think that there is a great deal of hope in the Deputy Minister’s statement, as it reiterates what was found in the report produced by the Welsh Affairs Committee last year. Some of the recommendations of that committee should have been resolved by February of this year if I remember correctly, and it is clear that those problems still exist.

14:50 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No.

Na.

14:50 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, rwy’n gobeithio y cawn ni ateb gan y Dirprwy Weinidog yn awr.

Well, I hope that we will receive a response from the Deputy Minister in a few moments’ time.

Mae’n rhaid imi gydweld â’r Dirprwy Weinidog ynglŷn â’r Rhaglen Waith. Dywedodd y Pwyllgor Materion Cymreig yn glir fod y Rhaglen Waith yng Nghymru yn darparu canran isaf y bobl sy’n cael cyflogaeth barhaol ym Mhrydain Fawr. Felly, nid yw’n llwyddo yng Nghymru i’r graddau y dylai, ac mae’n amlwg, felly, fod angen gwell cydlyniant rhwng yr hyn y mae’r Rhaglen Waith yn ei wneud a’r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud.

I have to agree with the Deputy Minister on the Work Programme. The Welsh Affairs Committee stated clearly that the Work Programme in Wales was providing the lowest percentage of people who actually find permanent employment in the UK. So, it is not succeeding in Wales to the degree that it should, and it is clear, therefore, that we need better co-ordination between what the Work Programme is doing and what the Welsh Government is doing.

Mae dau gwestiwn penodol yn codi yn sgîl hynny. Mae’r cwestiwn cyntaf yn ymwneud â mynediad pobl sydd ar y Rhaglen Waith at gynlluniau ESF. Mae’r Dirprwy Weinidog newydd gyfeirio at hyn, ond mae’n rhaid imi ofyn eto amdano oherwydd mae’n defnyddio, os caf i ddweud, jargon wrth sôn am y ‘black box funding’ a phethau felly. Nid wyf i’n gwybod beth yw hynny, ac nid wyf yn gwybod a fydd unrhyw un arall sy’n gwylio—os oes rhywun arall yn gwylio—yn gwybod beth yw hynny. Felly, a wnaiff e plîs esbonio beth yn union yw’r broblem sy’n rhwystro pobl sydd ar y Rhaglen Waith yng Nghymru rhag cael mynediad at gynlluniau ESF a fyddai’n cyfoethogi eu sgiliau? Ble mae’r rhwystrau?

I have two specific questions arising from that. The first concerns access for people on the Work Programme to European social fund programmes. The Deputy Minister has just referred to this, but I have to ask him about it again because he is, if I may say so, using a great deal of jargon in talking about ‘black box funding’ and so on. I do not know what that is and I do not know whether there is anyone watching—if there is anyone watching—who knows what that means. So, could he please explain exactly what the problem is that precludes people on the Work Programme in Wales from accessing ESF schemes that would enhance their skills? Where are the barriers to that?

Mae’r ail gwestiwn sy’n codi yn ymwneud â Twf Swyddi Cymru a’r ffaith ei bod yn ymddangos i mi, ar hyn o bryd, nad yw hi’n bosibl i rywud symud yn ddisymwth o’r Rhaglen Waith i Dwf Swyddi Cymru. Rwy’n derbyn bod y Llywodraeth am i hynny ddigwydd, ac rwy’n cymryd taw rhywbeth yn ymwneud â’r rheolau a’r posibiliad o gosbau yn y system fudd-daliadau sy’n rhwystro hynny. Felly, hoffwn gael rhagor o fanylion ynglŷn â sut y gallwn ni ddatrys hynny ac ai datrys hynny yw un o dasgau penodol y gweithgor yr oedd yn sôn amdano ac sydd wedi’i sefydlu rhyngddo ef ac Esther McVey. Hoffwn wybod bod honno’n dasg benodol i’r gweithgor hwnnw.

The second question arising concerns Jobs Growth Wales and the fact that it appears that, at present, it is not possible for someone to move immediately from the Work Programme to Jobs Growth Wales. I accept that the Government wants to see that happening and I assume that there is some problem in terms of the rules and regulations regarding penalties within the benefits system that precludes that from happening. Therefore, I would like greater detail on how we can resolve those problems and whether the resolution of that problem is one of the specific tasks of the working group he mentioned that has been established between him and Esther McVey. I would like to know that that is a particular task for that group.

Mae fy nghwestiwn olaf yn ymwneud â gorfodaeth. Dywedodd y Dirprwy Weinidog yn ei ddatganiad nad yw polisi’r Llywodraeth wedi newid o ran gorfodaeth yn y system—y ‘mandatory approach’—sef bod cosbau yn dilyn yng nghyd-destun budd-daliadau. Nid yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio’r dull hwnnw. Wedi dweud hynny, os wyf wedi deall hyn yn iawn, mae’r hyn yr ydych wedi’i gyhoeddi, Ddirprwy Weinidog, yn rhaglen beilot a fydd yn caniatáu i orfodaeth ddigwydd yn y system ac yn caniatáu i gosbau gael eu defnyddio os na fydd pobl yn symud o’r Rhaglen Waith i’r rhaglen beilot ar sgiliau sylfaenol yr ydych chi wedi’i sefydlu heddiw. Hynny yw, os bydd pobl yn gwrthod, fe fydd cosbau yn y system fudd-daliadau. Os yw hynny’n wir, a wnewch chi ddweud hynny, achos dyma fydd y tro cyntaf i Lywodraeth Cymru gytuno i wneud hynny?

My final question is on enforcement. The Deputy Minister said in his statement that the Government policy has not changed in terms of the mandatory approach within this system, namely that there will be penalties in terms of benefits. The Welsh Government has not adopted that approach. Having said that, if I understand it correctly, what you have announced today, Deputy Minister, is a pilot programme that will allow enforcement within the system and for penalties to be imposed if people do not move from the Work Programme to the pilot scheme on basic skills that you have announced today. That means that, if people refuse, there will be penalties within the benefits system. If that is the case, will you make that clear, because this will be the first time that the Welsh Government has agreed to take that approach?

14:53 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank Simon Thomas for his questions. First of all, with regard to the committee's recommendations on having actions in place by February, those related to arrangements to address the problems raised in the recommendations, which we have done through the creation of the joint board, and also to answer the needs of those who would otherwise have been benefiting from Skills That Work for Wales, which has now ended and which, of course, is Work Ready within Wales. This brings me to the question of conditionality. We may not always agree, thank goodness. However, you do often agree with your cousins in Scotland, and I can tell you that the approach being adopted for the pilot scheme follows precisely the approach that was adopted by the SNP Government in Scotland. Now, here—and this is the critical point—as in Scotland, providers will be instructed not to supply the Department for Work and Pensions or Jobcentre Plus with early leaver information that could then lead to people having their benefits removed. Sanctions will not be applied through DWP and JCP having information offered by providers. Instead, they will need to collect information from claimants themselves. Experience—and, indeed, I had a meeting with the Minister in Scotland to discuss this very point—shows that claimants do not self-declare reasons that could then lead to sanctions on their benefits—[Interruption.]—

Hoffwn ddiolch i Simon Thomas am ei gwestiynau. Yn gyntaf oll, o ran argymhellion y pwyllgor ynghylch rhoi camau gweithredu ar waith erbyn mis Chwefror, roedd y rheini'n ymwneud â threfniadau i ddatrys y problemau a godwyd yn yr argymhellion, sy'n rhywbeth yr ydym wedi ei wneud drwy greu'r bwrdd ar y cyd, a hefyd i fodloni anghenion pobl a fyddai fel arall wedi elwa o Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, sydd bellach wedi dod i ben; wrth gwrs, Barod am Waith ydyw yng Nghymru. Mae hyn yn dod â mi at gwestiwn amodoldeb. Efallai nad ydym bob amser yn cytuno, diolch byth. Fodd bynnag, rydych yn aml yn cytuno â'ch cefndryd yn yr Alban, a gallaf ddweud wrthych fod y dull sy'n cael ei fabwysiadu ar gyfer y cynllun peilot yn dilyn yn union yr un ymagwedd ag a fabwysiadwyd gan Lywodraeth SNP yr Alban. Yn awr, yma—a dyma'r pwynt allweddol—fel yn yr Alban, bydd darparwyr yn cael eu cyfarwyddo i beidio â rhoi gwybodaeth ymadael yn gynnar i'r Adran Gwaith a Phensiynau na'r Ganolfan Byd Gwaith a allai wedyn arwain at ddileu budd-daliadau pobl. Ni fydd sancsiynau'n cael eu rhoi ar waith oherwydd bod darparwyr wedi rhoi gwybodaeth i'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith. Yn lle hynny, bydd angen iddynt gasglu gwybodaeth oddi wrth yr hawlwyr eu hunain. Mae profiad—ac, yn wir, cefais gyfarfod â'r Gweinidog yn yr Alban i drafod yr union bwynt hwn—yn dangos nad yw hawlwyr yn hunan-ddatgan rhesymau a allai wedyn arwain at sancsiynau ar eu budd-daliadau—[Torri ar draws.]—

14:54 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course not—

Wrth gwrs nad ydynt—

14:54 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And there is my answer. Therefore, the sanctions issue is resolved. The programme has commenced, as I said, this month in two jobcentres in Swansea and Carmarthen, with full roll-out in May. After March 2015, we will be able to reach a definitive decision on whether to commence it on a full-time basis. In terms of the black box, this is essentially the intelligence we need in order to be confident that the skills support offered via UK Government support is not duplicating what we could be offering with the support of EU money—[Interruption.] This is a very simple case. I would not wish—perhaps you would—to see European-funded programmes halted in Wales, and, certainly, the benefits issue is something that is being looked at by the joint board.

A dyna yw fy ateb. Felly, mae mater sancsiynau wedi ei ddatrys. Mae'r rhaglen wedi dechrau, fel y dywedais, y mis hwn mewn dwy ganolfan waith yn Abertawe a Chaerfyrddin, a chaiff ei chyflwyno'n llawn ym mis Mai. Ar ôl mis Mawrth 2015, byddwn yn gallu gwneud penderfyniad terfynol ynglŷn ag a ddylid ei chychwyn yn llawn-amser. O ran y blwch du, yn ei hanfod, dyma'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i fod yn ffyddiog nad yw'r cymorth sgiliau a gynigir drwy Lywodraeth y DU yn dyblygu'r hyn y gallem fod yn ei gynnig gyda chymorth arian yr UE—[Torri ar draws.] Mae hwn yn achos syml iawn. Ni hoffwn—efallai yr hoffech chi—weld rhaglenni a ariennir gan Ewrop yn dod i ben yng Nghymru, ac, yn sicr, mae mater budd-daliadau'n rhywbeth sy'n cael ei ystyried gan y bwrdd ar y cyd.

14:55 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank the Deputy Minister for his statement and for the supporting documents. I think that, in particular, the Welsh Affairs Committee report in the autumn highlighted a number of issues that I think we would all be concerned about. I welcome the fact that steps are being taken to work more effectively together.

Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad ac am y dogfennau ategol. Rwyf yn meddwl bod adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig yn yr hydref, yn arbennig, yn tynnu sylw at nifer o faterion yr wyf yn credu y byddai pob un ohonom yn bryderus yn eu cylch. Rwyf yn croesawu'r ffaith bod camau'n cael eu cymryd i gydweithio'n fwy effeithiol.

As regards the Work Programme, I think that the Deputy Minister is absolutely right to be concerned that outcomes here in Wales are the worst of any region or nation in Great Britain, regardless of whether or not they are following the same ESF funding rules. I think that this is especially important in Wales, though, where we know that we have a particular issue with long-term economic inactivity and particular problems with long-term youth unemployment, for example. As the Work Programme, unlike other jobseeker support programmes that we may have had in the past, actively incentivises the contracted providers to work with those jobseekers who face the most significant challenges to gaining employment, it is very different to a number of programmes that are delivered here in Wales that make no such effort to target their support at those who find the most difficulty in getting work. I think that the aim, which is one that we would all agree is worth while, is to make sure that the support that is available is targeted at the most disengaged and to make sure that we are not leaving a generation of people behind, simply because they were difficult to help in the first place.

O ran y Rhaglen Waith, credaf fod y Dirprwy Weinidog yn llygad ei le i bryderu mai'r canlyniadau yma yng Nghymru yw'r gwaethaf yn unrhyw ranbarth neu genedl ym Mhrydain Fawr, p'un a ydynt yn dilyn yr un rheolau o ran arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop ai peidio. Credaf fod hyn yn arbennig o bwysig yng Nghymru, fodd bynnag, lle y gwyddom fod gennym broblem benodol o ran anweithgarwch economaidd hirdymor a phroblemau penodol o ran diweithdra hirdymor ymhlith pobl ifanc, er enghraifft. Gan fod y Rhaglen Waith, yn wahanol i raglenni cymorth ceiswyr gwaith eraill y gallem fod wedi'u gweld yn y gorffennol, yn mynd ati i gymell y darparwyr dan gontract i weithio gyda'r ceiswyr gwaith hynny sy'n wynebu'r heriau mwyaf sylweddol i gael gwaith, mae'n wahanol iawn i nifer o raglenni sy'n cael eu darparu yma yng Nghymru nad ydynt yn gwneud dim ymdrech o'r fath i dargedu eu cymorth at y rheini sy'n ei chael hi fwyaf anodd i gael gwaith. Credaf mai'r nod, sy'n un y byddem i gyd yn cytuno ei fod yn werth chweil, yw gwneud yn siŵr bod y cymorth sydd ar gael yn cael ei dargedu at y rhai sydd wedi'u dieithrio fwyaf a gwneud yn siŵr nad ydym yn gadael cenhedlaeth o bobl ar ôl, dim ond oherwydd ei bod yn anodd eu helpu yn y lle cyntaf.

One of the biggest issues identified in that report, as you are well aware, Deputy Minister, and which you have talked about, is the issue of compatibility between UK Government and Welsh Government schemes and access from one to the other, with participants in the Work Programme not able to access ESF-funded programmes. However, may I ask you to clarify what exactly the compatibility problem is? There is a discrepancy, I would suggest, Deputy Minister, between your answer to Mark Isherwood just now, and the evidence that the Welsh Government provided to the Welsh Affairs Committee. You have just stated that the main problem was the DWP's rules on whether or not there would be benefit sanctions. However, to quote from the committee report:

Un o'r problemau mwyaf a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw, fel y gwyddoch yn iawn, Ddirprwy Weinidog, ac yr ydych wedi sôn amdano, yw mater cydnawsedd rhwng cynlluniau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a mynediad o un i'r llall; nid yw'r rhai sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Waith yn gallu manteisio ar raglenni a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Fodd bynnag, a gaf i ofyn ichi egluro beth yn union yw'r broblem cydnawsedd? Mae anghysondeb, byddwn yn awgrymu, Ddirprwy Weinidog, rhwng yr ateb yr ydych newydd ei roi i Mark Isherwood, a'r dystiolaeth a roddodd Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Materion Cymreig. Rydych newydd ddweud mai'r brif broblem oedd rheolau'r Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch a fyddai sancsiynau budd-daliadau ai peidio. Fodd bynnag, a dyfynnu o adroddiad y pwyllgor:

'The Welsh Government's Welsh European Funding Office determined that Work Programme participants would not be allowed to access other courses funded by European Social Funds (ESF) because it constituted double-funding under EU rules. As a result, all ESF-funded courses in Wales are unavailable to Work Programme participants, including if the jobseeker was taking the course prior to referral onto the Work Programme.'

Penderfynodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru Llywodraeth Cymru na fyddai'r rhai sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Waith yn cael dilyn cyrsiau eraill a ariennir gan Gronfeydd Cymdeithasol Ewrop (ESF) gan fod hynny'n gyfystyr ag ariannu dwbl o dan reolau'r UE. O ganlyniad, nid oes dim o'r cyrsiau a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yng Nghymru ar gael i gyfranogwyr y Rhaglen Waith, gan gynnwys cyrsiau yr oedd y ceisiwr gwaith yn eu dilyn cyn cael ei atgyfeirio i'r Rhaglen Waith.'

Further in that report, the Employment Related Services Association, the trade body representing providers, also says,

Hefyd yn yr adroddiad hwnnw, mae'r Gymdeithas Gwasanaethau sy'n Gysylltiedig â Chyflogaeth, y corff masnach sy'n cynrychioli darparwyr, yn dweud,

'"the fact that the Welsh Government took a political decision not to allow ESF funding to be used" hindered the effectiveness of the Work Programme in Wales.'

roedd y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad gwleidyddol i beidio â chaniatáu i gyllid ESF gael ei ddefnyddio yn llesteirio effeithiolrwydd y Rhaglen Waith yng Nghymru.

I wonder if, perhaps, you can respond to that and tell us what exactly the compatibility issue is. Is it the DWP rules or is it the ESF funding problem that you said that it was in the Welsh Affairs Committee report?

Tybed a allwch ymateb i hynny a dweud wrthym beth yn union yw'r mater cydnawsedd. Ai rheolau'r Adran Gwaith a Phensiynau ynteu ai'r broblem ariannu ESF fel y dywedasoch yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig?

You say that you are working with the DWP on this issue. Can you tell us, please, what actions have been taken or have been agreed to date to overcome this barrier, because this is a significant barrier and it is stopping people from accessing support that might otherwise be available to them? We all want Jobs Growth Wales to be open to everyone and not to be barred to those who already face significant and acknowledged barriers. Are you confident that you can overcome this barrier and make sure that people are able to access both streams of support? If you cannot resolve this compatibility issue, what actions are you going to take to provide targeted support for those jobseekers who face the biggest challenges? With the best will in the world, while Jobs Growth Wales is providing people with job placements, it is not targeted in any way at people who have been unemployed for a period of time or who are lone parents. It is, by definition—because it is an open job application process—providing opportunities for the ones who face the fewest barriers in getting a job in the open marketplace. We need to know what you are going to do for the ones who face the most barriers in getting those jobs.

Rydych yn dweud eich bod yn cydweithio â'r Adran Gwaith a Phensiynau ar y mater hwn. A allwch ddweud wrthym, os gwelwch yn dda, pa gamau sydd wedi eu cymryd neu y cytunwyd arnynt hyd yma i oresgyn y rhwystr hwn, oherwydd mae'n rhwystr sylweddol ac mae'n atal pobl rhag cael cymorth a allai fod ar gael iddynt fel arall? Rydym i gyd am i Twf Swyddi Cymru fod ar gael i bawb ac nid wedi'i wahardd i bobl sydd eisoes yn wynebu rhwystrau cydnabyddedig sylweddol. A ydych yn hyderus y gallwch oresgyn y rhwystr hwn a gwneud yn siŵr bod y ddwy ffrwd o gymorth ar gael i bobl? Os na allwch ddatrys y mater cydnawsedd hwn, pa gamau ydych chi'n mynd i'w cymryd i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i'r ceiswyr gwaith hynny sy'n wynebu'r heriau mwyaf? Gyda phob ewyllys da, er bod Twf Swyddi Cymru'n rhoi lleoliadau gwaith i bobl, nid yw wedi'i dargedu mewn unrhyw ffordd at bobl sydd wedi bod yn ddi-waith ers peth amser neu at bobl sy'n rhieni sengl. Mae, drwy ddiffiniad—oherwydd ei bod yn broses agored o ymgeisio am swyddi—yn darparu cyfleoedd i'r bobl hynny sy'n wynebu'r rhwystrau lleiaf o ran cael swydd yn y farchnad agored. Mae angen inni wybod beth yr ydych yn mynd i'w wneud dros y bobl sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf o ran cael y swyddi hynny.

14:59

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to thank Eluned Parrott for her questions. First of all, on the issue of those people who are, as you said, most disengaged and the hardest to reach, perhaps you did not notice that we had the Moving Forward project launch, which is specifically for care leavers, young people in the care system and young people who have offended—[Interruption.] Yes, in Wales—it was launched for some of the hardest to reach people in our society. Perhaps you did not notice that we have committed 5,000 jobs for people in workless households, and perhaps you did not notice that we have also committed 700 Jobs Growth Wales positions for Communities First clusters. This Government is making sure that every hand of opportunity reaches out to people in the hardest to reach areas. We are helping people who live in the most deprived areas. We are not abandoning people at all, unlike the Tory-Lib Dem Government at Westminster.

Hoffwn ddiolch i Eluned Parrott am ei chwestiynau. Yn gyntaf oll, ynglŷn â'r bobl hynny sydd, fel y dywedasoch, wedi ymddieithrio fwyaf ac sydd fwyaf anodd eu cyrraedd, efallai na sylwasoch ein bod wedi lansio'r prosiect Symud Ymlaen, sy'n benodol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, pobl ifanc yn y system ofal a phobl ifanc sydd wedi troseddu—[Torri ar draws.] Ie, yng Nghymru—cafodd ei lansio ar gyfer rhai o'r bobl anoddaf eu cyrraedd yn ein cymdeithas. Efallai na sylwasoch ein bod wedi addo 5,000 o swyddi i bobl mewn aelwydydd di-waith, ac efallai na sylwasoch ein bod hefyd wedi addo 700 o swyddi Twf Swyddi Cymru i glystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r Llywodraeth hon yn gwneud yn siŵr bod pob cyfle ar gael i'r bobl yn yr ardaloedd mwyaf anodd eu cyrraedd. Rydym yn helpu pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Nid ydym yn cefnu ar bobl o gwbl, yn wahanol i Lywodraeth y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan.

In terms of ESF funding and sanctions, I think that you are confusing two different issues there. You are mixing up exit from the Work Programme and having benefit sanctions with the duplication of EU money. I am not sure whether you are suggesting that we put at risk EU compliance, but I can tell you that the advice that we have had time and again from WEFO suggests that we should certainly not be putting at risk our programmes by double-funding skills training opportunities.

O ran cyllid ESF a sancsiynau, rwyf yn meddwl eich bod yn drysu rhwng dau fater gwahanol. Rydych yn cymysgu gadael y Rhaglen Waith a sancsiynau budd-daliadau â dyblygu arian yr UE. Nid wyf yn siŵr a ydych yn awgrymu ein bod yn peryglu ein cydymffurfiad â'r UE, ond gallaf ddweud wrthych fod y cyngor a gawsom dro ar ôl tro gan WEFO yn sicr yn awgrymu na ddylem fod yn peryglu ein rhaglenni drwy dalu ddwywaith am gyfleoedd hyfforddi sgiliau.

15:01 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am also grateful to the Deputy Minister for his statement today. Picking up the previous theme, the Welsh Affairs Committee's report said that the Work Programme's efforts to incentivise providers to support jobseekers with the most severe barriers to employment was a worthy ambition and significant challenge, but it concluded that the programme's success in this respect is yet to be proven. I wonder what the Deputy Minister's assessment is of how well that scheme is working for those people who are farthest from the workplace. The committee was particularly concerned that lone parents were struggling to find sustained employment through the Work Programme in Wales, compared to other areas of Great Britain. It recommended that the two providers operating in Wales ensure that both they and their sub-contractors have some specific measures in place to support lone parents. What is your assessment, Deputy Minister, of how successful that has been? How does Jobs Growth Wales compare in terms of supporting lone parents into work? Indeed, do you even collect that kind of information?

Rwyf innau hefyd ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad heddiw. A pharhau â'r thema flaenorol, roedd adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig yn dweud bod ymdrechion y Rhaglen Waith i gymell darparwyr i gefnogi ceiswyr gwaith sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf difrifol i gyflogaeth yn uchelgais teilwng ac yn her sylweddol, ond daeth i'r casgliad nad yw llwyddiant y rhaglen yn hyn o beth wedi'i brofi eto. Tybed beth yw asesiad y Dirprwy Weinidog o ba mor dda y mae'r cynllun hwnnw'n gweithio i'r bobl hynny sydd bellaf oddi wrth y gweithle. Roedd y pwyllgor yn arbennig o bryderus bod rhieni sengl yn ei chael yn anodd dod o hyd i gyflogaeth barhaus drwy'r Rhaglen Waith yng Nghymru, o gymharu ag ardaloedd eraill ym Mhrydain Fawr. Argymhellodd fod y ddau ddarparwr sy'n gweithredu yng Nghymru'n sicrhau eu bod hwy a'u hisgontractwyr yn rhoi mesurau penodol ar waith i helpu rhieni sengl. Beth yw eich asesiad, Ddirprwy Weinidog, o ba mor llwyddiannus y bu hynny? Sut y mae Twf Swyddi Cymru yn cymharu o ran cynorthwyo rhieni sengl i gael gwaith? Yn wir, a ydych hyd yn oed yn casglu'r math hwnnw o wybodaeth?

In April of this year, the Department for Work and Pensions launched the best practice group, which was formed to help organisations delivering the Work Programme find the best ways of helping the tens of thousands of former incapacity benefit claimants—people claiming ESA, ex-offenders and other harder-to-reach people—back into employment and of helping them to overcome those issues that are keeping them from getting a job. Do you have a view on how successful that has been? Has the Welsh Government or Welsh providers been included in that piece of work?

Ym mis Ebrill eleni, lansiodd yr Adran Gwaith a Phensiynau'r grŵp arfer gorau, a ffurfiwyd i helpu sefydliadau sy'n cyflwyno'r Rhaglen Waith i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o helpu'r degau o filoedd o bobl a arferai hawlio budd-dal analluogrwydd—pobl sy'n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, cyn- droseddwyr a phobl eraill sy'n fwy anodd eu cyrraedd—yn ôl i fyd gwaith a'u helpu i oresgyn y materion hynny sy'n eu hatal rhag cael swydd. A oes gennych farn am ba mor llwyddiannus y bu hynny? A gafodd Llywodraeth Cymru neu ddarparwyr Cymru eu cynnwys yn y darn hwnnw o waith?

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:02.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:02.*

**Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

The committee also recommended that the DWP consult on whether the time frame for the Work Programme should be extended for specific categories of claimant, because participants leaving the scheme unemployed after two years will be some of those with the most severe barriers to employment requiring the most intensive help. Do you share my disappointment that the UK Government did not agree to consider some extra support for those people who need it most? What role can the Welsh Government's Lift programme, or other initiatives, play in helping these particular individuals into work?

Argymhellodd y pwyllgor hefyd y dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau ymgynghori ynghylch a ddylid estyn amserlen y Rhaglen Waith ar gyfer categorïau penodol o hawlwyr, oherwydd y bydd y rhai sy'n gadael y cynllun yn ddi-waith ar ôl dwy flynedd ymysg y rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf difrifol i gyflogaeth ac y mae angen y cymorth mwyaf dwys arnynt. A ydych yn rhannu fy siom na chytunodd Llywodraeth y DU i ystyried rhywfaint o gymorth ychwanegol i'r bobl hynny sydd ei angen fwyaf? Pa ran y gall rhaglen Esgyn Llywodraeth Cymru, neu fentrau eraill, ei chwarae wrth helpu'r unigolion penodol hyn i gael gwaith?

Finally, the Work Programme providers have noticed a growth in temporary employment and zero-hour contracts, which can mean that they have to support participants into more than one job to claim a job outcome for that person. What impact is this having on the performance of the scheme in Wales, and for the outcomes for Welsh participants?

Yn olaf, mae darparwyr y Rhaglen Waith wedi sylwi ar dwf mewn cyflogaeth dros dro a chontractau dim oriau, a all olygu bod yn rhaid iddynt gynorthwyo cyfranogwyr i gael mwy nag un swydd er mwyn hawlio canlyniad swydd ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Pa effaith y mae hyn yn ei chael ar berfformiad y cynllun yng Nghymru, ac ar y canlyniadau i gyfranogwyr yng Nghymru?

15:03

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Rebecca Evans for her questions, raising a number of very serious matters. First of all, in terms of the issue of extending support for people who need it, I do share the Member's disappointment. I think that the very poor performance of the Work Programme is particularly damaging for those who are also the most vulnerable people in society. Indeed, an interesting report produced by the Scottish Government illustrated how those who are most vulnerable and disadvantaged, such as lone parents, are less likely to secure work through the Work Programme. I do think that there should be better incentives—absolutely—and more intensive help, just as the committee report itself urges. Instead, however, the UK Government has decided to bolt onto the Work Programme a new scheme—Help to Work—for people who are exiting the Work Programme unsuccessfully for two years. I do wish the scheme well—obviously—but I do fear that people who have already spent two years on the Work Programme and have not achieved a successful outcome might effectively be going from the frying pan into the fire. Instead, I would have preferred the Government to have heeded the advice of the committee and offer additional assistance during the process of the Work Programme.

Diolch i Rebecca Evans am ei chwestiynau; mae'n codi nifer o faterion difrifol iawn. Yn gyntaf oll, o ran estyn cymorth i bobl sydd ei angen, rwyf yn rhannu siom yr Aelod. Credaf fod perfformiad gwael iawn y Rhaglen Waith yn arbennig o niweidiol i'r bobl hynny sydd hefyd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Yn wir, mae adroddiad diddorol a gynhyrchwyd gan Lywodraeth yr Alban yn dangos sut y mae'r bobl sydd fwyaf agored i niwed a'r mwyaf difreintiedig, megis rhieni sengl, yn llai tebygol o gael gwaith drwy'r Rhaglen Waith. Credaf y dylai fod gwell cymhellion—yn sicr—a chymorth mwy dwys, yn union fel y mae adroddiad y pwyllgor ei hun yn ei annog. Yn hytrach na gwneud hynny, fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu ychwanegu cynllun newydd at y Rhaglen Waith—Help i Weithio—i bobl sy'n gadael y Rhaglen Waith yn aflwyddiannus am ddwy flynedd. Rwyf yn dymuno'n dda i'r cynllun—wrth gwrs—ond rwyf yn ofni y gallai pobl sydd eisoes wedi treulio dwy flynedd ar y Rhaglen Waith heb gyflawni canlyniad llwyddiannus i bob diben fod yn neidio o'r badell ffrio i'r tân. Yn lle hynny, byddai'n well gennyf pe bai'r Llywodraeth wedi gwrando ar gyngor y pwyllgor a chynnig cymorth ychwanegol yn ystod proses y Rhaglen Waith.

Also, the UK Government would do well to replicate the success of some of the Welsh Government's projects. I rather worry that arrogance is blinding the UK Government. Instead, it should take notice of good practice here in Wales. For example, our Work Ready scheme shows a 35% success rate. Traineeships are now in excess of 60%, in terms of the success rate. Jobs Growth Wales now shows a success rate of over 80%. In terms of the Lift programme and tackling workless households, these programmes are already under way, and I look forward to seeing positive results from them too.

Hefyd, byddai'n dda o beth i Lywodraeth y DU ddyblygu llwyddiant rhai o brosiectau Llywodraeth Cymru. Rwyf yn poeni braidd fod trahauster yn dallu Llywodraeth y DU. Yn hytrach, dylai sylwi ar yr arfer da yma yng Nghymru. Er enghraifft, mae ein cynllun Barod am Waith yn dangos cyfradd llwyddiant o 35%. Mae cyfradd llwyddiant lleoliadau dan hyfforddiant bellach dros 60%. Mae cyfradd llwyddiant Twf Swyddi Cymru bellach dros 80%. O ran y rhaglen Esgyn ac ymdrin ag aelwydydd di-waith, mae'r rhaglenni hyn eisoes ar y gweill, ac edrychaf ymlaen at weld canlyniadau cadarnhaol yn eu sgil hefyd.

Finally, in terms of temporary employment arrangements and zero-hour contracts, the inflexible nature of the Work Programme is undermining positive outcomes for people and is, in many ways, pushing people even further away from the jobs market. Zero-hour contracts certainly run against the inflexibility, and here is the irony: we have a Government that operates an inflexible Work Programme but supports the flexibility of zero-hours contracts, which undermine the Work Programme. However, I very much look forward to a UK Labour Government cracking down on zero-hour contracts and helping people who wish to work and who are able to work.

Yn olaf, o ran trefniadau cyflogaeth dros dro a chontractau dim oriau, mae natur anhyblyg y Rhaglen Waith yn tanseilio canlyniadau cadarnhaol i bobl ac, mewn sawl ffordd, mae'n gwthio pobl yn bellach fyth oddi wrth y farchnad swyddi. Mae contractau dim oriau'n sicr yn rhedeg yn erbyn yr anhyblygrwydd, a dyma'r eironi: mae gennym Lywodraeth sy'n gweithredu Rhaglen Waith anhyblyg ond sydd o blaid hyblygrwydd contractau dim oriau, sy'n tanseilio'r Rhaglen Waith. Fodd bynnag, edrychaf ymlaen yn fawr at weld Llywodraeth Lafur y DU yn ymdrin yn llym â chontractau dim oriau ac yn helpu pobl sydd am weithio ac sy'n gallu gweithio.

# Cymeradwyo Drafft y 'Cynllun Hawliau Plant 2014' o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones, a gwelliannau 2 a 3 yn enw Aled Roberts.*

# The Approval of the Draft 'Children's Rights Scheme 2014' under the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones, and amendments 2 and 3 in the name of Aled Roberts.*

15:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion—Jeff Cuthbert.

Galwaf ar y Gweinidog dros Gymunedau a Mynd i'r Afael â Thlodi i symud y cynnig-Jeff Cuthbert.

Cynnig NDM5489 Lesley Griffiths

Motion NDM5489 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 3(6) o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, yn cymeradwyo’r drafft o Gynllun Hawliau Plant 2014 a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 22 Ebrill 2014.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with section 3(6) of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, approves the draft Children's Rights Scheme 2014 laid before the Assembly on 22 April 2014.

15:06

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Thank you for the opportunity to share with Assembly Members the revised children’s rights scheme and seek the Chamber’s approval. The intention of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 is to secure positive outcomes for children and young people in Wales by creating a culture within Government that respects and upholds children’s rights. It forms a critical element of what is referred to by the United Nations as the progressive realisation of children’s rights. It further provides a clear statement that, in Wales, children and young people have rights, and that they are full citizens within our nation, with a stake in our society, now and in the future.

Diolch ichi am y cyfle i rannu’r cynllun hawliau plant diwygiedig ag Aelodau’r Cynulliad ac i ofyn am gymeradwyaeth y Siambr. Bwriad Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yw sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc yng Nghymru trwy greu diwylliant o fewn y Llywodraeth sy'n parchu ac yn cynnal hawliau plant. Mae'n elfen hanfodol o'r hyn y mae’r Cenhedloedd Unedig yn ei alw’n wireddu hawliau plant fesul cam. Yn ogystal, mae'n ddatganiad clir bod gan blant a phobl ifanc yng Nghymru hawliau, a'u bod yn ddinasyddion llawn o fewn ein cenedl, a chanddynt ran yn ein cymdeithas, yn awr ac yn y dyfodol.

The Welsh Government has continually pushed the child rights agenda forward, and May 2014 sees another important step, when Welsh Ministers will be obliged by law to have due regard to the UNCRC when undertaking any of our functions. This duty is pervasive, bold and ambitious. External stakeholders have responded positively to the Measure, offering suggestions and comments with a clear rights focus. There are many examples of officials utilising opportunities to engage with stakeholders in discussions about children’s rights and children’s rights impact assessments, which have led to improved policy making. In developing our approach to mental health, for instance, Welsh Government significantly strengthened the children’s components of the final strategy, ‘Together for Mental Health’, in particular through embedding the UNCRC throughout the document and the priorities for action that we subsequently included for delivery in our delivery plan.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gyrru’r agenda hawliau plant yn ei blaen yn gyson, ac ym mis Mai 2014 cymerir cam pwysig arall, pan fydd hi’n ofynnol yn ôl y gyfraith i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn wrth gyflawni unrhyw un o'n swyddogaethau. Mae'r ddyletswydd hon yn hollbresennol, yn feiddgar ac yn uchelgeisiol. Mae rhanddeiliaid allanol wedi ymateb yn gadarnhaol i'r Mesur, gan gynnig awgrymiadau a sylwadau â phwyslais clir ar hawliau. Mae llawer o enghreifftiau lle mae swyddogion wedi manteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn trafodaethau ynglŷn â hawliau plant ac asesiadau o’r effaith ar hawliau plant, sydd wedi arwain at lunio polisïau gwell. Wrth ddatblygu ymagwedd Llywodraeth Cymru at iechyd meddwl, er enghraifft, cryfhawyd yn sylweddol y rhannau sy’n ymdrin â phlant yn y strategaeth derfynol, 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl', yn benodol drwy ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn drwy'r ddogfen, yn ogystal â’r blaenoriaethau o ran gweithredu a gynhwyswyd yn ddiweddarach yn ein cynllun cyflenwi.

Another example of the Measure having a direct impact was seen in the last legislative stages of the groundbreaking Human Transplantation (Wales) Act 2013, where reconsideration led to amendments to give greater effect to the UNCRC. The Welsh Government stated its position that competent children should be afforded the choice of appointing a representative to express consent to organ donation.

Gwelwyd enghraifft arall o effaith uniongyrchol y Mesur yng nghamau deddfwriaethol olaf Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, deddf a oedd yn torri tir newydd, lle'r arweiniodd ailystyried at ddiwygiadau er mwyn cryfhau effaith Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod o’r farn y dylai plant cymwys gael dewis penodi cynrychiolydd i roi caniatâd i roi organau.

An indirect impact was seen in the scrutiny of the Active Travel (Wales) Act 2013. As a result of the child rights impact assessment process, a policy gap was identified within another ministerial portfolio, and the Welsh Government is now working to develop new statutory guidance on the safety of walked routes to school that places an increased emphasis on safeguarding, as well as taking account of the views of children and young people. This is exactly the kind of organic and evolutionary process that was envisaged for the Measure, where culture and behaviour that pay due regard to the UNCRC lead to real change.

Gwelwyd effaith anuniongyrchol wrth graffu ar Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. O ganlyniad i'r broses o asesu'r effaith ar hawliau plant, nodwyd bwlch polisi mewn portffolio gweinidogol arall, ac mae Llywodraeth Cymru bellach yn datblygu canllawiau statudol newydd ynglŷn â diogelwch llwybrau cerdded i'r ysgol sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ddiogelu, yn ogystal ag ystyried barn plant a phobl ifanc. Dyma'n union y math o broses organig ac esblygol a ragwelwyd ar gyfer y Mesur, lle mae diwylliant ac ymddygiad sy'n rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn arwain at newid gwirioneddol.

So, why have we revised the children's rights scheme? It is because we felt that we needed to revisit the practical arrangements that are in place to enable appropriate consideration and weight to the UNCRC, and to ensure compliance with the extended duty from May 2014. In revisiting the scheme, the consultation process has been robust and engaging, with close to 50 responses received. A number of working groups were facilitated, with children and young people, the Children's Commissioner for Wales and other appropriate people and experts in the field of children's rights. In addition to the formal consultation process, consideration has been given in particular to: feedback on the content of the first compliance report; the Children and Young People Committee's scrutiny of the Measure, and, in particular, the submissions by the Children's Commissioner for Wales and the UNCRC monitoring group; internal feedback from Welsh Government staff, and an internal audit, following the introduction of the Measure; and detailed discussion from a policy seminar organised by the Welsh Government in which expert stakeholders advised on how to further improve the implementation of the Measure and on the revision of the scheme. We have responded to the feedback from stakeholders, both inside and outside Welsh Government. Members will, I am sure, have noted the considerable changes and noteworthy commitments that have been made as a result of the consultative process.

Pam, felly, ydym ni wedi diwygio'r cynllun hawliau plant? Oherwydd ein bod o'r farn bod angen inni edrych eto ar y trefniadau ymarferol sydd ar waith i roi ystyriaeth a phwys priodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac i sicrhau y cydymffurfir â'r ddyletswydd estynedig o fis Mai 2014. Wrth ailystyried y cynllun, bu'r broses ymgynghori'n un gadarn a lwyddodd i ddenu bron i 50 o ymatebion. Hwyluswyd nifer o weithgorau, gan cynnwys plant a phobl ifanc, Comisiynydd Plant Cymru a phobl briodol eraill ynghyd ag arbenigwyr ym maes hawliau plant. Yn ogystal â'r broses ymgynghori ffurfiol, rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol: adborth ar gynnwys yr adroddiad cydymffurfio cyntaf; craffu gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y Mesur, ac, yn benodol, cyflwyniadau Comisiynydd Plant Cymru a grŵp monitro Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; adborth mewnol gan staff Llywodraeth Cymru ac archwiliad mewnol yn sgil cyflwyno'r Mesur; a thrafodaeth fanwl mewn seminar polisi a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru lle y cafwyd cyngor gan randdeiliaid arbenigol ar sut i roi'r Mesur ar waith yn well a hefyd ar adolygu'r cynllun. Rydym wedi ymateb i'r adborth gan randdeiliaid, y tu mewn a'r tu allan i Lywodraeth Cymru. Bydd Aelodau, yr wyf yn siŵr, wedi nodi'r newidiadau sylweddol a'r ymrwymiadau gwerth chweil a wnaed o ganlyniad i'r broses ymgynghori hon.

I believe that the children's rights scheme that I am introducing today establishes robust processes to ensure that Welsh Ministers act in compliance with their duty under section 1 of the Measure, the due regard duty, and that it provides transparency about the processes that are being followed. It enables Welsh Government staff to support the Welsh Ministers to comply with the duty, and it provides information on how the Welsh Ministers may be held to account in complying with the due regard duty. It is, indeed, a much strengthened scheme, with robust structures and clear arrangements by which Assembly Members and all interested parties will be able to hold Ministers to account. Now, while I lead on the implementation of the Measure, the duty is on all Ministers. I must place on record an acknowledgement of the support that Ministers across all portfolios have expressed in agreeing the arrangements in this scheme. It sets out a clear process to assist Ministers and staff in having due regard for the UNCRC, and this is supported by a number of resources and tools that have been developed.

Credaf fod y cynllun hawliau plant yr wyf yn ei gyflwyno heddiw yn sefydlu gweithdrefnau cadarn i sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n gweithredu'n unol â'u dyletswydd yn ôl adran 1 o'r Mesur, y ddyletswydd i roi sylw dyledus, a'i fod yn darparu tryloywder ynglŷn â'r gweithdrefnau sy'n cael eu dilyn. Mae'n galluogi staff Llywodraeth Cymru i gefnogi Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â'r ddyletswydd, ac mae'n darparu gwybodaeth ynglŷn â sut y gellir dwyn Gweinidogion Cymru i gyfrif o ran cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus. Mae hwn yn gynllun cryfach o lawer, â strwythurau cadarn a threfniadau clir a fydd yn galluogi Aelodau'r Cynulliad a phawb sydd â diddordeb i ddwyn Gweinidogion i gyfrif. Er mai fi sy'n arwain y gwaith o weithredu'r Mesur, mae'n ddyletswydd ar y Gweinidogion i gyd. Mae'n rhaid imi roi ar gofnod fy nghydnabyddiaeth i'r gefnogaeth a leisiwyd gan Weinidogion ar draws pob portffolio wrth gytuno ar drefniadau'r cynllun hwn. Mae'n nodi proses glir i gynorthwyo Gweinidogion a staff i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, law yn llaw â nifer o adnoddau ac offer sydd wedi eu datblygu.

The process can range from thinking about the impact of decisions on children in the course of day-to-day work activity, through to the formal application of a children's rights impact assessment, or CRIA, accompanied by a record of the outcomes and decisions. The CRIA process has an increased emphasis on analysing the impact that decisions have on children and young people, and it provides the evidence that children's rights are being analysed and considered with appropriate rigour in the work of the Welsh Government. All Welsh Ministers have agreed to make CRIAs publicly available. All CRIAs undertaken on legislation will be published; this is also the case for subordinate legislation, which includes, for example, regulations made under primary legislation.

Gall y broses amrywio o feddwl am effaith penderfyniadau ar blant wrth eu gweithgareddau beunyddiol, i gynnal asesiad ffurfiol o'r effaith ar hawliau plant, neu CRIA, ynghyd â chofnod o'r canlyniadau a'r penderfyniadau. Mae'r broses CRIA yn rhoi mwy o bwyslais ar ddadansoddi'r effaith a gaiff penderfyniadau ar blant a phobl ifanc, ac mae'n darparu tystiolaeth bod hawliau plant yn cael eu dadansoddi a'u hystyried yn briodol drylwyr yng ngwaith Llywodraeth Cymru. Mae holl Weinidogion Cymru wedi cytuno i sicrhau bod asesiadau CRIA ar gael i'r cyhoedd. Bydd yr holl asesiadau CRIA a gynhelir ar gyfer deddfwriaeth yn cael eu cyhoeddi; mae hyn yn wir hefyd am is-ddeddfwriaeth, sy'n cynnwys, er enghraifft, y rheoliadau a wneir o dan ddeddfwriaeth sylfaenol.

For non-legislative decisions, all completed CRIAs will be listed on the Welsh Government website and will be made available upon request. This is a significant step that affords transparency in an important element of the implementation of the Measure, and it is a direct response to the general consensus of stakeholders. So, I am sure that it will be very well received. Another significant commitment involves cutting down the compliance reporting period to two and a half years, as was suggested in opposition amendments during the passing of the first scheme, thus giving Welsh Government Plenary time to discuss the compliance report and an opportunity to reflect on the implementation and effectiveness of the arrangements, as set out in this scheme.

Ar gyfer penderfyniadau anneddfwriaethol, rhestrir yr holl asesiadau CRIA a gwblheir ar wefan Llywodraeth Cymru a bydd modd gwneud cais i'w gweld. Mae hwn yn gam pwysig sy'n cynnig tryloywder mewn elfen bwysig o weithredu'r Mesur, ac mae'n ymateb uniongyrchol i gonsensws cyffredinol y rhanddeiliaid. Felly, rwyf yn siŵr y bydd yn cael derbyniad da. Mae ymrwymiad arwyddocaol arall yn golygu cwtogi'r cyfnod adrodd ar gydymffurfio i ddwy flynedd a hanner, fel yr awgrymwyd yng ngwelliannau'r gwrthbleidiau wrth basio'r cynllun cyntaf, gan roi amser i Lywodraeth Cymru drafod yr adroddiad cydymffurfio mewn Cyfarfod Llawn a chyfle i fyfyrio ar weithrediad ac effeithiolrwydd y trefniadau, fel y nodir yn y cynllun hwn.

The scheme further states what will be included in the compliance report, including the training available, an overview of the developments, the number of CRIAs undertaken, the effectiveness of the CRIA process and the activities relating to promoting knowledge and understanding of the UNCRC. The investment and commitment to the training of officials through the UNCRC training strategy will assist in the effective application of the due regard duty. Over 2,000 officials across Welsh Government have already undertaken UNCRC training in a variety of formats.

Mae'r cynllun yn nodi hefyd yr hyn a fydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad cydymffurfio, gan gynnwys yr hyfforddiant sydd ar gael, trosolwg o'r datblygiadau, nifer yr asesiadau CRIA a gynhaliwyd, effeithiolrwydd y broses CRIA a'r gweithgareddau sy'n hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Bydd y buddsoddiad a'r ymrwymiad i hyfforddi swyddogion drwy strategaeth hyfforddi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn help i roi'r ddyletswydd sylw dyledus ar waith. Mae dros 2,000 o swyddogion ledled Llywodraeth Cymru eisoes wedi cael hyfforddiant Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar amryw o ffurfiau.

The training has now been updated in line with the new duty and the arrangements as set out in the scheme. It is essential that we establish arrangements that strike the right balance and that the process reflects the intention of the Measure in properly identifying the impact of a decision or action by a Minister on children and young people, without creating a disproportionate administrative burden. Having said that, I also want to make it clear that these arrangements are being put in place to ensure improved decision making and better policy. It is not simply a compliance process, but a positive impact that we all want to see on children and young people's lives.

Mae'r hyfforddiant bellach wedi'i ddiweddaru'n unol â'r ddyletswydd newydd a'r trefniadau a nodir yn y cynllun. Mae'n hollbwysig ein bod yn sefydlu trefniadau sy'n taro'r cydbwysedd cywir a bod y broses yn adlewyrchu bwriad y Mesur o ran nodi'n gywir effaith penderfyniad neu weithred gan Weinidog ar blant a phobl ifanc, heb greu baich gweinyddol gormodol. Wedi dweud hynny, rwyf hefyd am ei gwneud yn glir bod y trefniadau hyn yn cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau gwell penderfyniadau a gwell polisïau. Nid proses o gydymffurfio yn unig mo hyn, ond effaith gadarnhaol ar fywydau plant a phobl ifanc, sy'n rhywbeth yr ydym i gyd am ei weld yn digwydd.

15:16

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the three amendments to the motion and I call on Jocelyn Davies to move amendment 1, tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi datganiad y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, sydd wedi'i gynnwys yn atodiad 3 i Gynllun Hawliau Plant 2014, bod y rhwymedigaeth i roi'r brif ystyriaeth i fuddiannau gorau'r plentyn yn ymestyn hefyd at gymeradwyo cyllidebau, gan fod gofyn mabwysiadu safbwynt sy'n canolbwyntio ar fuddiannau gorau'r plentyn wrth eu paratoi a'u datblygu er mwyn iddynt fod yn sensitif i hawliau plant.*

*Notes the Committee on the Rights of the Child's statement, included in annex 3 to the Children's Rights Scheme 2014, that the obligation to take the child's best interests as a primary consideration 'extends also to the approval of budgets, the preparation and development of which require the adoption of a best-interests-of-the-child perspective for it to be child-rights sensitive'.*

15:16 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendment 1.

Cynigiaf welliant 1.

Placing a rights-based approach at the heart of Government policy making is vital in protecting and promoting the rights of children. Incorporating the United Nations Convention on the Rights for the Child into the law in Wales is a commitment to making sure that our children grow up in a society that cares for and nurtures them. Of course, rights on paper without the corresponding responsibilities and actions are as good as meaningless. As the second stage of the legislation comes into effect, I want to see action taken to put it into practice; otherwise this legislation will be no more than a token, empty gesture. I was pleased to hear that the Welsh Government is now publishing the CRIAs on its website.

Mae gosod ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau wrth wraidd dulliau llunio polisïau'r Llywodraeth yn hanfodol er mwyn gwarchod a hyrwyddo hawliau plant. Mae ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn y gyfraith yng Nghymru'n ymrwymiad i sicrhau bod ein plant yn tyfu i fyny mewn cymdeithas sy'n gofalu amdanynt ac yn eu meithrin. Wrth gwrs, nid yw hawliau ar bapur yn golygu dim heb y cyfrifoldebau a'r camau gweithredu sy'n mynd law yn llaw â hwy. Wrth i ail gam y ddeddfwriaeth ddod i rym, dymunaf ei gweld yn cael ei roi ar waith; fel arall, ni fydd y ddeddfwriaeth hon yn ddim byd mwy na symbol, yn ystum gwag. Rwyf yn falch o glywed bod Llywodraeth Cymru bellach yn cyhoeddi'r asesiadau CRIA ar ei gwefan.

A key issue that I have been disappointed not to see the Government taking action on is the ban on the smacking of children. Those present here will know that the Committee on the Rights of the Child has recommended that corporal punishment in the family should be banned in the UK and we, in Wales, should be at the forefront of that. This is an issue that I felt undecided and uncomfortable about when I first started thinking about it. I have to admit that I smacked my son when he was small, but I would be shocked if he now smacked his children—in fact, he does not and I have to say that he is a better parent for it. Times have changed and the culture has moved on and I think that it is time for us to take a stand to say that this is no longer acceptable.

Un mater allweddol y bu'n destun siom i mi nad yw'r Llywodraeth wedi gweithredu arno yw'r gwaharddiad ar smacio plant. Bydd y rhai sy'n bresennol yma'n gwybod bod y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn wedi argymell y dylid gwahardd cosbi corfforol yn y teulu yn y DU a dylem ni, yng Nghymru, fod ar flaen y gad yn hynny o beth. Roeddwn yn teimlo'n ansicr ac yn anghyfforddus ynglŷn â'r mater hwn pan ddechreuais feddwl amdano gyntaf. Mae'n rhaid imi gyfaddef fy mod wedi smacio fy mab pan oedd yn fach, ond byddai'n gryn ysgytwad imi petai ef yn awr yn smacio ei blant—nid yw'n gwneud hynny, ac mae'n well rhiant o'r herwydd. Mae'r oes wedi newid ac mae'r diwylliant wedi symud ymlaen a chredaf ei bod yn bryd inni wneud safiad a dweud nad yw hyn yn dderbyniol bellach.

Anyway, I do not think that smacking is an effective punishment for children because it seems that it has to be repeated many times and it runs the risk of contributing to a culture of violence, which we should be working against. After all, it is illegal to hit a fellow adult or to beat your pets. Children have a right to the same level of protection and we do the wrong thing if we continue to teach children to hit those who do things that they do not like. It is disheartening that, despite being able to take action on this, the Government is yet to do so. I hope that as Welsh Ministers have a duty to give due regard to children's rights, we will see them doing the right thing soon, and then children will be closer to becoming the full citizens of Wales that the Minister mentioned.

Beth bynnag, nid wyf yn credu bod smacio yn gosb effeithiol i blant oherwydd ymddengys bod yn rhaid iddo gael ei ailadrodd sawl gwaith ac mae perygl y bydd yn cyfrannu at ddiwylliant o drais, a dylem fod yn gweithredu yn erbyn hynny. Wedi'r cyfan, mae'n anghyfreithlon taro oedolyn arall neu guro eich anifeiliaid anwes. Mae gan blant hawl i gael eu gwarchod yn yr un modd a byddwn yn gwneud y peth anghywir os parhawn i ddysgu plant i daro'r rhai sy'n gwneud pethau nad ydynt yn eu hoffi. Mae'n ddigalon nad yw'r Llywodraeth wedi gweithredu ar hyn eto, er bod ganddi'r gallu i wneud hynny. Gobeithiaf y byddwn yn gweld Gweinidogion Cymru yn gwneud y peth iawn yn fuan gan ei bod yn ddyletswydd arnynt i roi sylw dyledus i hawliau plant, ac yna bydd plant yn nes at fod y dinasyddion llawn yng Nghymru, fel y crybwyllodd y Gweinidog yn gynharach.

Additionally, as welfare cuts continue to affect some of the most vulnerable children in our society, as austerity measures chip away at vital services for children across the country, the Government must remember its commitment to children's rights and ensure that all children are protected. Resources need to be in place to raise children out of poverty and to help the most vulnerable groups. The lack of data on vulnerable groups of children like disabled children, children from minority backgrounds and Gypsy and Traveller children cannot be used as an excuse for their increasing invisibility in policy and service provision. I am pleased to hear about the positive impacts that the Minister outlined earlier on.

Hefyd, wrth i doriadau lles barhau i effeithio ar rai o'r plant mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, wrth i fesurau darbodaeth erydu gwasanaethau hanfodol i blant ledled y wlad, rhaid i'r Llywodraeth gofio ei hymrwymiad i hawliau plant a sicrhau bod pob plentyn yn cael ei warchod. Mae angen i adnoddau fod ar gael i godi plant allan o dlodi ac i helpu'r grwpiau mwyaf agored i niwed. Mae'r diffyg data ynglŷn â grwpiau o blant sy'n agored i niwed megis plant anabl, plant o gefndiroedd lleiafrifol a phlant Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei ddefnyddio fel esgus dros y diffyg sylw cynyddol iddynt mewn polisïau ac wrth ddarparu gwasanaethau. Rwyf yn falch o glywed am yr effeithiau cadarnhaol a amlinellwyd gan y Gweinidog yn gynharach.

Finally, without accountability, rights remain no more than words on a page, and the Government needs to ensure that there is transparency, and that clear procedures are in place, to scrutinise compliance with the UN convention. This also means engaging with children so that they can contribute to discussions on issues affecting them. We will be supporting the Minister's scheme before us today, but I hope that we can do better by children in the future.

Yn olaf, heb atebolrwydd, bydd hawliau'n parhau i fod yn ddim mwy na geiriau ar dudalen, ac mae angen i'r Llywodraeth sicrhau bod tryloywder, a bod gweithdrefnau clir wedi eu sefydlu, i graffu ar gydymffurfio â chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig. Mae hyn hefyd yn golygu ymgysylltu â phlant fel y gallant gyfrannu at drafodaethau ar faterion sy'n effeithio arnynt. Byddwn yn cefnogi cynllun y Gweinidog sydd ger ein bron heddiw, ond gobeithiaf y gallwn wneud yn well dros blant yn y dyfodol.

15:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Aled Roberts to move amendments 2 and 3, tabled in his name.

Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliannau 2 a 3, a gyflwynwyd yn ei enw.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn gresynu wrth y diffyg cyfeiriad at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn deddfwriaeth ddiweddar, fel Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i danlinellu ymrwymiad Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn drwy gynnwys cyfeiriad at 'sylw dyledus' ar wyneb unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol a fyddai'n effeithio ar blant.*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Add as new point at end of motion:*

*Regrets the lack of reference to the United Nations Convention on the Rights of the Child in recent legislation, such as the School Standards & Organisation (Wales) Act 2013, as recommended by the Children and Young People Committee, and calls on the Welsh Government to underline Wales's commitment to the UNCRC by including reference to 'due regard' on the face of any future legislation which would affect children.*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi Adroddiad Interim Corff Anllywodraethol Cymru 2013 'Hawliau Nawr, Hawliau Heddiw: A yw Hawliau Plant yn Realaeth yng Nghymru?' ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod prosesau monitro effeithiol ar waith er mwyn sicrhau 'gweithredu unedig i leihau'r bwlch o ran gweithredu rhwng rhethreg polisi cenedlaethol a chyflenwi lleol'.*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Add as new point at end of motion:*

*Notes the 2013 Wales NGO Interim Report 'Rights Here, Right Now: Are Children's Rights a Reality in Wales?' and calls on the Welsh Government to ensure effective monitoring mechanisms are in place in order to deliver 'concerted action in reducing the implementation gap between national policy rhetoric and local delivery'.*

15:20

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Cynigiaf welliannau 2 a 3 yn fy enw i.

I move amendments 2 and 3 in my name.

Rwyf hefyd yn ategu’r hyn a ddywedodd Jocelyn Davies. Nid wyf yn meddwl bod llawer o bobl o fewn y Cynulliad hwn na fyddai’n croesawu’r ffaith bod y Llywodraeth yn 2011 wedi rhoi hawliau plant yn rhan annatod o ddeddfu o ran y Senedd hon, ond hwyrach ei bod yn amser inni ystyried a yw’r camau ymlaen wedi bod mor fawr ag yr oedd rhai pobl yn disgwyl iddynt fod wrth basio’r Mesur hwnnw yn 2011. Rwy’n meddwl ei bod yn glir erbyn hyn bod angen i’r Llywodraeth—. Rydym ni, fel aelodau’r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, wedi derbyn tystiolaeth gan dyst ar ôl tyst sy’n dweud wrthym y dylai’r Llywodraeth fod yn gwneud datganiad clir ar wyneb pob Bil bod y ddeddfwriaeth honno sy’n cael ei rhoi gerbron y Senedd yn derbyn bod y confensiwn hwn yn rhan annatod o’r ddeddfwriaeth, a bod disgwyl, wrth i swyddogion ac asiantaethau eraill weithredu’r Ddeddf, iddynt dderbyn bod yn rhaid gwneud hynny a derbyn hawliau plant fel rhan annatod ohono.

I also support what Jocelyn Davies has said. I do not think that there are many people within this Assembly who would not welcome the fact that the Government in 2011 included children's rights as an integral part of legislating by this Senedd, but perhaps it is time for us to consider whether the steps taken have been as great as some people were expecting them to be when they passed that Measure in 2011. I think that it is clear by now that there is a need for the Government—. We, as members of the Children, Young People and Education Committee, have received evidence from witness after witness telling us that the Government should make a clear statement on the face of every Bill that the legislation that is being brought before the Senedd accepts that this convention is an integral part of that legislation, and that, as officials and other agencies implement the Act, they accept that that has to be done and that children's rights are an integral part of it.

Rwy’n meddwl bod angen inni ystyried a yw’r Llywodraeth wedi gweithredu yn union fel y mae’r Gweinidog wedi awgrymu, oherwydd yr oedd adroddiad gan asiantaethau yn ystod 2013, ‘Rights Here, Rights Now’, a oedd yn awgrymu nad yw’r camau wedi bod cystal o ran gweithredu ar lawr gwlad. Mae hefyd yn gofyn a yw’r monitro a oedd yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru o’r ffordd yr oedd y ddeddfwriaeth honno yn cael ei gweithredu yn ddigonol. Felly, rwy’n croesawu’r ffaith bod y Gweinidog wedi cymryd camau heddiw i adolygu’r Mesur, ac hwyrach i’n cymryd ni gam ymhellach ymlaen, ond rwy’n gofyn iddo ystyried a yw’r ffordd y mae’r Llywodraeth a gweision sifil wedi bod yn gweithredu hyd yn hyn yn ddigonol.

I think that we need to consider whether the Government operated exactly as the Minister has suggested, because there was a report from agencies during 2013, 'Rights Here, Rights Now', that suggested that the steps taken have not been as good in terms of implementation on a grass-roots level. It also asks whether the monitoring that was being undertaken by the Welsh Government of the way in which that legislation was being implemented was sufficient. Therefore, I welcome the fact that the Minister has taken steps today to review the Measure, and it may take us a step further forward, but I ask him to consider whether the way in which the Government and civil servants have been operating so far is adequate.

Nid oes un lliw gwyrdd yn yr adroddiad ei hun o ran gweithredu ar ran y Llywodraeth. Mae’r adroddiad yn dweud nad oedd un cyfnod yn ystod y chwe blynedd diwethaf pan ddangosodd y Llywodraeth ei bod wedi symud ymlaen o ran gweithredu, ac wedi symud ymlaen mewn ffordd ardderchog, o’r lle y mae’r asiantaethau hynny yn sefyll. Rwy’n croesawu’r ffaith bod y Gweinidog wedi dweud y prynhawn yma y bydd yn sicrhau bod gwefan y Llywodraeth yn dangos bod yr asesiadau hyn yn cael eu gwneud. Roeddwn i dros y penwythnos yn ceisio gweld faint o achosion sydd yna lle mae’r asesiadau wedi cael eu gwneud erbyn hyn ac mae’n rhaid imi ddweud yr oedd yn anodd iawn i ddod o hyd i’r wybodaeth honno ar wefan y Llywodraeth.

There is not one green colour within the report itself in terms of implementation by the Government. The report says that there was not one period of time during the last six years when the Government showed that it had moved forward in terms of implementation, and had moved forward in an excellent way, from the position of those agencies. I welcome the fact that the Minister has said this afternoon that he will ensure that the Government’s website shows that these assessments are being undertaken. Over the weekend, I was trying to see how many cases there are where the assessments have been undertaken by now and I have to say that it was very difficult to find that information on the Government’s website.

Wrth ystyried y ddeddfwriaeth yr ydym wedi bod yn ei thrafod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hon, roedd diffyg o ran y Llywodraeth yn cynnwys yr asesiadau hyn—y CRIAs—o fewn y memorandwm esboniadol ar gyfer Bil addysg (Cymru) a hefyd y Bil safonau ysgolion, er ei bod wedi cynnwys yr asesiad o ran y Bil gwasanaethau cymdeithasol. Felly, hoffwn ofyn i’r Gweinidog, wrth gau, pa broses y bydd yn ei chymryd wrth ystyried mai ef sy’n bennaf gyfrifol am sicrhau bod Gweinidogion eraill yn cydymffurfio â’r drefn i gydlynu’r ffaith bod yr asesiadau hynny yn cael eu cwblhau cyn i’r Bil gael ei osod o flaen y Senedd. Hefyd, hoffwn ofyn iddo, wrth ystyried mai llywodraeth leol fydd yn gyfrifol yn bennaf am lawer iawn o’r meysydd yr ydym yn sôn amdanynt, a fydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cydlynu’r ffordd y mae llywodraeth leol ac asiantaethau eraill yn cydymffurfio â’r Mesur, os yw hwn yn cael ei basio heddiw.

In considering the legislation that we have been discussing during this past year, there was a deficiency on the Government’s part in terms of including these assessments—the CRIAs—within the explanatory memorandum for the education (Wales) Bill and also the school standards Bill, although it included the assessment in the social services Bill. Therefore, I would like to ask the Minister, in closing, what process he will use, considering that he is mainly responsible for ensuring that other Ministers comply with the process to co-ordinate the fact that those assessments are completed before the Bill is laid before the Senedd. Also, I would like to ask him, bearing in mind that local government will be responsible in the main for many of the areas that we are discussing, whether the Welsh Government will also co-ordinate the way in which local government and other agencies will comply with the Measure, if this is passed today.

15:25 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am pleased that, in his ministerial foreword to the scheme, the Minister talks about the aim of the children's rights Measure being cultural change as well as fostering better understanding and awareness. I think that there are wide implications for how our society operates as a result of our commitment to children's rights, as well as the mechanical and important details about how impact assessments work, for example.

Rwyf yn falch bod y Gweinidog, yn ei ragair gweinidogol i'r cynllun, yn dweud mai nod y Mesur hawliau plant yw newid diwylliant yn ogystal â meithrin gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth. Credaf fod goblygiadau mawr i'r modd y mae ein cymdeithas yn gweithredu yn sgil ein hymrwymiad i hawliau plant, yn ogystal â'r manylion mecanyddol a phwysig am y ffordd y mae asesiadau o effaith yn gweithio, er enghraifft.

It was interesting to read Play Wales's latest magazine, which I am sure that many of you have read, particularly the editorial, which refers to the fact that, when the UK last gave evidence to the UN Committee on the Rights of the Child in Geneva, it was reported that one of the committee members asked, 'Could you explain why it is that, in the UK, you dislike your children so much?' I think that that is a reflection of an idea that, here in the UK, we do not nurture and welcome our children, sometimes, in the way that other European countries appear to do.

Roedd yn ddiddorol darllen cylchgrawn diweddaraf Chwarae Cymru, ac rwyf yn siŵr bod llawer ohonoch chithau wedi ei ddarllen hefyd, yn enwedig yr erthygl olygyddol, sy'n cyfeirio at y ffaith bod un o aelodau'r pwyllgor, pan roddodd y DU dystiolaeth ddiwethaf i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Ngenefa, yn ôl pob sôn wedi gofyn, 'A allwch chi esbonio pam nad ydych yn hoffi eich plant yn y DU?'. Credaf fod hynny'n adlewyrchiad o'r syniad nad ydym yn meithrin ac yn croesawu ein plant yma yn y DU, weithiau, yn y ffordd yr ymddengys bod gwledydd Ewropeaidd eraill yn ei wneud.

This was part of a discussion about youth offending and how the UK media reports it, how we portray young people in the media and how they are, generally, often seen as a problem and not seen for the huge contribution that they make to society. This perception certainly needs to change, and I think that what we are doing in Wales, with the children's rights scheme and the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, is to try to give children an integral part in society. So, in everything that we look at and in every action that we take, whether through laws or policy changes by the Government, children are integral to that progress, and their views, and the impact on children, are taken on board.

Roedd hyn yn rhan o drafodaeth am droseddu ymhlith ieuenctid a'r ffordd y mae'r cyfryngau yn y DU yn ei ddarlunio, y ffordd yr ydym yn portreadu pobl ifanc yn y cyfryngau a'r ffordd y gwelir hwy yn aml fel problem, yn gyffredinol, ac na welir y cyfraniad enfawr a wnânt i gymdeithas. Yn sicr mae angen i'r canfyddiad hwn newid, a chredaf fod yr hyn yr ydym yn ei wneud yng Nghymru, gyda chynllun hawliau plant a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, yn ceisio gwneud plant yn rhan annatod o'r gymdeithas. Felly, ym mhopeth yr edrychwn arno ac ym mhob cam a gymerwn, boed hynny drwy gyfreithiau neu newidiadau polisi gan y Llywodraeth, mae plant yn rhan annatod o'r cynnydd hwnnw, ac mae eu safbwyntiau, a'r effaith ar blant, yn cael eu hystyried.

It is hard to think of any issues that do not affect children. The Minister has referred to the ways that the laws on organ donation and mental health, and the Active Travel (Wales) Act 2013, have taken into account the views of children and the impact of that legislation on children. There are many other policy decisions that we make that also impact on children that do not seem so immediate. I think that infrastructure projects, for example, have a huge impact on children. Where we build our roads and how accessible we make cities and towns to children to make them feel that they have a part to play in a city's life are tremendously important.

Mae'n anodd meddwl am faterion nad ydynt yn effeithio ar blant. Mae'r Gweinidog wedi cyfeirio at y modd y mae'r cyfreithiau ar roi organau ac iechyd meddwl, a Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, wedi ystyried barn plant ac effaith y ddeddfwriaeth honno ar blant. Mae llawer o benderfyniadau polisi eraill a wnawn hefyd yn effeithio ar blant er nad yw'r effeithiau'n ymddangos mor uniongyrchol. Credaf fod prosiectau seilwaith, er enghraifft, yn cael effaith enfawr ar blant. Mae lle'r ydym yn adeiladu ein ffyrdd a pha mor hygyrch y gwnawn drefi a dinasoedd i blant, er mwyn gwneud iddynt deimlo bod ganddynt ran i'w chwarae ym mywyd y ddinas, yn aruthrol o bwysig.

I know that we have a long way to go, and some of the Members who have already spoken have raised some of those issues. I share Jocelyn Davies's views about the smacking issue, and I know that we have a long way to go in terms of child poverty and working with disabled children. However, I think that we have the basis, with this Measure and the assessment, to make real progress. I agree that this scheme represents progress, and I think that it is an improvement on the present scheme. I also support the conclusion of the Wales UNCRC monitoring group that it is a great step forward that we are now publishing the children's rights impact assessments—that we will be able to see them on the website and see why decisions have been made. This will encourage greater transparency and accountability, and it will make scrutiny by Assembly committees and outside bodies much more effective.

Gwn fod gennym ffordd bell i fynd, ac mae rhai o'r Aelodau sydd eisoes wedi siarad wedi codi rhai o'r materion hynny. Rwyf yn rhannu barn Jocelyn Davies ynglŷn â smacio, a gwn fod gennym ffordd bell i fynd o ran tlodi plant a gweithio gyda phlant anabl. Fodd bynnag, credaf fod gennym sylfaen, gyda'r Mesur hwn a'r asesu, i wneud cynnydd gwirioneddol. Cytunaf fod y cynllun hwn yn arwydd o gynnydd, a chredaf ei fod yn well na'r cynllun presennol. Rwyf hefyd yn cefnogi casgliad grŵp monitro Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru fod y ffaith ein bod bellach yn cyhoeddi'r asesiadau o'r effaith ar hawliau plant yn gam mawr ymlaen —ac y byddwn yn gallu eu gweld ar y wefan a gweld pam y cafodd penderfyniadau eu gwneud. Bydd hyn yn annog mwy o dryloywder ac atebolrwydd, a bydd yn gwneud craffu gan bwyllgorau'r Cynulliad a chyrff allanol yn fwy effeithiol o lawer.

Of course, the Minister and other Members have referred to the CRIAs, and the fact that they will be available to be used and will be publicly available. I want the Minister to confirm that putting the six-step tool in the annex means that this could be amended in future without having to wait for the scheme itself to be revised, because I think that that is very important. This is all very new work, and we will, obviously, gain expertise and experience in promoting children's rights and doing impact assessments as we go along. It is very important that we see all of this as not just setting up a scheme and that is it, but that we work on it as it progresses.

Wrth gwrs, mae'r Gweinidog ac Aelodau eraill wedi cyfeirio at yr asesiadau CRIA, a'r ffaith y byddant ar gael i'w defnyddio ac ar gael i'r cyhoedd. Rwyf am i'r Gweinidog gadarnhau bod rhoi offeryn chwe cham yn yr atodiad yn golygu y gallai hyn gael ei newid yn y dyfodol heb orfod aros i'r cynllun ei hun gael ei adolygu, oherwydd credaf fod hynny'n bwysig iawn. Mae hyn i gyd yn waith newydd iawn, ac yn amlwg byddwn yn magu arbenigedd a phrofiad o ran hyrwyddo hawliau plant a gwneud asesiadau o effaith wrth inni fynd yn ein blaenau. Mae'n bwysig iawn ein bod yn gweld hyn i gyd nid dim ond fel sefydlu cynllun, a dyna ni, ond ein bod yn gweithio arno wrth iddo fynd yn ei flaen.

Finally, I wonder whether the Minister has had the opportunity to look at the UNICEF child rights toolkit, which is certainly worth looking at. It is done very much from an international perspective, but it emphasises that there is no such thing as a child-neutral policy. Whether intended or not, every policy, positively or negatively, affects the lives of children. I think that is what we need to bear in mind in all the work that we do in this Assembly, in all the laws that we make and in all the policy decisions that we make.

Yn olaf, tybed a yw'r Gweinidog wedi cael cyfle i edrych ar becyn cymorth hawliau plant UNICEF, sy'n sicr yn werth ei ddarllen. Fe'i lluniwyd o safbwynt rhyngwladol wrth gwrs, ond mae'n pwysleisio nad oes y fath beth â pholisi nad yw'n cael effaith ar blant. Pa un ai'n fwriadol neu beidio, mae pob polisi, yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn effeithio ar fywydau plant. Credaf mai dyna'r hyn y mae ei angen inni ei gofio yn yr holl waith a wnawn yn y Cynulliad hwn, yn yr holl ddeddfau a wnawn ac yn yr holl benderfyniadau polisi a wnawn.

15:30

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It has only been a few days since the scheme was laid before the Assembly and I appreciate why it was laid now, in order to predate the 1 May deadline for the full implementation of the 2011 Measure. However, it is a bit of a shame in one way that it has taken into account the views of the United Nations Committee on the Rights of the Child as of 2008. The UK is due to submit its next compliance report on this to the UN committee this year and I was just wondering, Minister, how long it might take for the UN to publish its view on that report. It will give us an indication, if you can help us with that, as to when we might be coming back to look at yet another revised scheme.

Dim ond ychydig ddyddiau sydd ers i'r cynllun gael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad ac rwyf yn deall pam y cafodd ei gyflwyno yn awr, er mwyn rhagddyddio'r dyddiad cau ar 1 Mai ar gyfer gweithredu Mesur 2011 yn llawn. Fodd bynnag, mae'n drueni braidd ei fod wedi ystyried barn Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel ag yr oedd yn 2008. Bydd y DU yn cyflwyno ei hadroddiad cydymffurfio nesaf ar hyn i bwyllgor y Cenhedloedd Unedig eleni ac roeddwn yn meddwl tybed pa mor hir y gallai gymryd i'r Cenhedloedd Unedig gyhoeddi eu barn ar yr adroddiad hwnnw, Weinidog. Os gallwch ein helpu gyda hynny, bydd yn rhoi syniad inni ynghylch pryd y byddwn yn dod yn ôl i edrych ar gynllun diwygiedig arall eto.

It is pleasing, in the current scheme, to see the emphasis on ongoing training for Ministers and staff being placed right at the beginning of the scheme. I think that we as Assembly Members may want to be mindful that we do not fall behind in terms of developing our own knowledge and expertise either, bearing in mind our commitment as an Assembly to the rights of the child and our duty to scrutinise. On that point, I was particularly pleased to see that the Welsh Government has chosen to prepare compliance reports more frequently than originally envisaged by the Measure. That should assist us with the scrutiny, as long as those reports are of good quality, and, of course, easy to find. As the due regard commitment will shortly apply to any functions of Welsh Ministers, that means that we as Assembly Members will have to be more vigilant. The first amendment to the debate today, which we will be supporting, reminds us that the due regard test needs to be applied to budgets. I will be interested to see how next year's budget equality impact assessments take this on board. According to this year's assessments, the biggest impact on cuts to the heritage budget, for example, was felt by children and young people, and yet the cuts happened anyway. I wonder whether we will see the influence of the due regard principle more clearly in next year's budget equality assessments, and whether the scheme itself is helpful in assisting Ministers to balance competing considerations.

Mae'n braf, yn y cynllun presennol, gweld y pwyslais ar hyfforddiant parhaus i Weinidogion a staff yn cael ei osod ar ddechrau'r cynllun. Credaf efallai fod angen i ni, Aelodau'r Cynulliad, sicrhau nad ydym ar ei hôl hi o ran datblygu ein gwybodaeth a'n harbenigedd ein hunain chwaith, ac ystyried ein hymrwymiad fel Cynulliad i hawliau'r plentyn a'n dyletswydd i graffu. Ar y pwynt hwnnw, roeddwn yn arbennig o falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi dewis paratoi adroddiadau cydymffurfio yn amlach na'r hyn a fwriedid yn wreiddiol yn y Mesur. Dylai hynny ein cynorthwyo â'r gwaith craffu, cyhyd ag y bo'r adroddiadau hynny o ansawdd da, ac, wrth gwrs, yn hawdd dod o hyd iddynt. Bydd yr ymrwymiad sylw dyledus yn berthnasol cyn hir i holl swyddogaethau Gweinidogion Cymru, ac mae hynny'n golygu y bydd yn rhaid i ni fel Aelodau'r Cynulliad fod yn fwy gwyliadwrus. Mae'r gwelliant cyntaf i'r ddadl heddiw, y byddwn yn ei gefnogi, yn ein hatgoffa bod angen cynnal y prawf sylw dyledus ar gyfer cyllidebau. Bydd gennyf ddiddordeb gweld sut y bydd asesiadau'r gyllideb o'r effaith ar gydraddoldeb y flwyddyn nesaf yn ymdrin â hyn. Yn ôl asesiadau eleni, teimlwyd yr effaith fwyaf ar doriadau i'r gyllideb treftadaeth, er enghraifft, gan blant a phobl ifanc, ond digwyddodd y toriadau beth bynnag. Tybed a fyddwn yn gweld dylanwad yr egwyddor sylw dyledus yn fwy clir yn asesiadau cydraddoldeb cyllideb y flwyddyn nesaf, a pha un a yw'r cynllun ei hun yn ddefnyddiol o ran cynorthwyo Gweinidogion i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng ystyriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd.

By then, of course, we will have the much improved access to the children's rights impact assessments, which other Members have referred to. I remember this subject coming up in the Children and Young People Committee, as it was then, in a scrutiny session with the children's commissioner. None of us were particularly clear on the subject of publication, so this is a definite improvement in the scheme. I am particularly interested to see the implication of the children's rights impact assessment changes on secondary legislation. Much of the detail of our legislation comes into existence via secondary regulations, many of which are introduced via the negative procedure. We are fortunate that the Constitutional and Legislative Affairs Committee is made aware of those regulations, but, even then, we depend to a great extent on legal advice as to whether those negative procedure regulations raise any issues. The suggestion in the revised scheme is that the new assessments will be published for all relevant secondary legislation. So, could you confirm, Minister, that this is the case? If so, it will contribute greatly to the scrutiny of a type of legislation that does not routinely come before all Members.

Erbyn hynny, wrth gwrs, bydd yn haws o lawer inni gael gafael ar yr asesiadau o'r effaith ar hawliau plant, fel y dywedodd Aelodau eraill. Rwyf yn cofio i hyn godi yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, fel yr oedd bryd hynny, mewn sesiwn graffu gyda'r comisiynydd plant. Nid oedd yr un ohonom yn arbennig o glir ynglŷn â chyhoeddi, felly mae hyn yn welliant pendant yn y cynllun. Mae gennyf ddiddordeb arbennig mewn gweld goblygiadau'r newidiadau i asesiadau o'r effaith ar hawliau plant i is-ddeddfwriaeth. Daw llawer o fanylion ein deddfwriaeth i fod trwy reoliadau eilaidd, a chyflwynir llawer ohonynt drwy'r weithdrefn negyddol. Rydym yn ffodus y caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wybod am y rheoliadau hynny, ond, hyd yn oed wedyn, rydym yn dibynnu i raddau helaeth ar gyngor cyfreithiol ynglŷn â pha un a yw rheoliadau'r weithdrefn negyddol yn peri unrhyw broblemau. Yr awgrym yn y cynllun diwygiedig yw y bydd yr asesiadau newydd yn cael eu cyhoeddi ar gyfer yr holl is-ddeddfwriaeth berthnasol. Felly, a allwch gadarnhau, Weinidog, fod hyn yn wir? Os felly, bydd yn cyfrannu'n fawr at graffu ar fath o ddeddfwriaeth nad yw'n dod gerbron yr holl Aelodau fel mater o drefn.

I appreciate the argument behind the second amendment, which also deals with legislation, but I am afraid that we will not be supporting it. I think that the argument was made by the Minister for education that the very existence of the 2011 Measure meant that Ministers have to give due regard to the UNCRC rights, and to state that on every piece of legislation was therefore unnecessary. Now that the Measure is going to be fully implemented in just a few days, I think that it is a point of view that I have come to accept, particularly as the new children's rights impact assessments will be published. Personally, I would like to see those impact assessments form a standard part of explanatory memoranda, or, where they are not included, they should be replaced by a statement saying that due regard is not relevant to that piece of legislation and why. The scheme only seems advisory on that last point, but I hope that it will be observed. Julie Morgan made the point that it is difficult to think of any legislation that at some point does not affect children.

Rwyf yn deall y ddadl y tu ôl i'r ail welliant, sydd hefyd yn ymdrin â deddfwriaeth, ond mae arnaf ofn na fyddwn yn ei gefnogi. Credaf fod y Gweinidog dros addysg wedi gwneud y pwynt fod bodolaeth Mesur 2011 ynddo'i hunan yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion roi sylw dyledus i hawliau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac nad oedd angen datgan hynny ar bob darn o ddeddfwriaeth felly. Yn awr y bydd y Mesur yn cael ei roi ar waith yn llawn ymhen ychydig ddyddiau, rwyf wedi dod i dderbyn y safbwynt hwnnw, yn enwedig gan y bydd yr asesiadau newydd o'r effaith ar hawliau plant yn cael eu cyhoeddi. Yn bersonol, hoffwn i'r asesiadau hyn fod yn rhan annatod o femoranda esboniadol, neu, lle nad ydynt yn cael eu cynnwys, dylid rhoi datganiad yn eu lle'n dweud nad yw sylw dyledus yn berthnasol i'r darn hwnnw o ddeddfwriaeth a pham. Ar y pwynt olaf hwnnw'n unig yr ymddengys fod y cynllun yn un cynghorol, ond rwyf yn gobeithio y bydd yn cael ei weithredu. Gwnaeth Julie Morgan y pwynt ei bod yn anodd meddwl am unrhyw ddeddfwriaeth nad yw mewn rhyw ffordd yn effeithio ar blant.

Finally, I just want to mention the role of children and young people in preparing this scheme. I feel much more confident for example that children will be safer in their walking and cycling to school now that they have helped identify what they see as dangers, which has informed the preparation of new guidance on that issue. However, in this case, whatever rights a child has, and whatever help they may get, it is still a big deal for a child to challenge a Minister. I hope that the inclusion of children's views in the preparation of this scheme will have made it easier for them to refer to that scheme, as well as it being easier for us.

Yn olaf, rwyf am sôn am rôl plant a phobl ifanc wrth baratoi'r cynllun hwn. Rwyf yn teimlo'n fwy ffyddiog o lawer er enghraifft y bydd plant yn fwy diogel wrth gerdded a beicio i'r ysgol yn awr eu bod wedi helpu i nodi'r hyn a welant fel peryglon, sydd wedi llywio'r gwaith o baratoi canllawiau newydd ar y mater hwnnw. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, ba hawliau bynnag sydd gan blant, a pha gymorth bynnag y byddant yn ei gael, mae'n dal i fod yn beth mawr i blentyn herio Gweinidog. Rwyf yn gobeithio y bydd cynnwys barn plant wrth baratoi'r cynllun hwn wedi ei gwneud yn haws iddynt gyfeirio at y cynllun hwnnw, yn ogystal â'i gwneud yn haws i ni.

15:35

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 embedded consideration of the United Nations Convention on the Rights of the Child, and the optional protocols, into Welsh law. It is the optional protocol on the sale of children, child prostitution, and child pornography that I want to focus my contribution on today. However, I would like to say, before I go any further, that I would really like the UN to revisit its language here, because, as far as I am concerned, there is no such thing as a child prostitute or child pornography—there is only child rape, child abuse, and child exploitation, and language is important, not only because it can affect the way in which we perceive these crimes, but also because it can affect the way in which victims see themselves, compounding the guilt and shame that many abused children and young people feel, and leading them to believe that, somehow, the abuse is their fault, and that they are somehow complicit in it, or that they are to blame. This can prevent children from reporting abuse.

Ymgorfforwyd ystyriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a'r protocolau dewisol, yng nghyfraith Cymru drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Rwyf am ganolbwyntio yn fy nghyfraniad heddiw ar y protocol dewisol ar werthu plant, puteindra plant, a phornograffi plant. Fodd bynnag, hoffwn ddweud, cyn imi fynd ymhellach, y byddai'n wirioneddol dda gennyf pe bai'r Cenhedloedd Unedig yn ailystyried eu hiaith yma, oherwydd, yn fy marn i, nid oes y fath beth â phutain sy'n blentyn na phornograffi plant—dim ond treisio plant, cam-drin plant, a chamfanteisio ar blant, ac mae iaith yn bwysig, nid yn unig oherwydd y gall effeithio ar y ffordd yr ydym yn meddwl am y troseddau hyn, ond hefyd oherwydd y gall effeithio ar y ffordd y mae dioddefwyr yn eu gweld eu hunain, gan waethygu'r euogrwydd a'r cywilydd y mae llawer o blant a phobl ifanc sy'n cael eu cam-drin yn eu teimlo, a gwneud iddynt feddwl rywsut mai eu bai hwy yw'r ffaith eu bod yn cael eu cam-drin, a'u bod rywsut yn cydgynllwynio ynddo. Gall hyn rwystro plant rhag dweud eu bod yn cael eu cam-drin.

A 2001 National Society for the Prevention of Cruelty to Children study found that more than a third of children aged 11 to 17 who experienced contact sexual abuse by an adult did not tell anyone. More than 80% of the children of the same age who experienced contact sexual abuse from a peer did not tell anyone. So, children and young people really have to know that they are not to blame and that they can seek help without fear of getting into trouble, or without fear of disappointing the people who care about them.

Canfu astudiaeth yn 2001 i'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant nad oedd mwy na thraean o blant 11 i 17 oed a oedd wedi dioddef cam-drin rhywiol â chyswllt gan oedolyn wedi dweud wrth neb. Nid oedd dros 80% o blant o'r un oedran a oedd wedi dioddef cam-drin rhywiol â chyswllt gan gymheiriaid wedi dweud wrth neb. Felly, mae'n rhaid i blant a phobl ifanc ddeall yn iawn nad hwy sydd ar fai ac y gallant ofyn am gymorth heb ofni mynd i drafferth, neu heb ofni siomi'r bobl sy'n gofalu amdanynt.

The protocol includes 17 articles, which are designed to achieve the purposes of the UNCRC, particularly those aspects that relate to child sexual abuse and the sale of children. While many of the articles of the protocol are the responsibility of the UK Government—for example, matters relating to non-devolved matters such as criminal law, extradition, and the international co-operation in this field—article 9 presents some very clear challenges to, and puts some very clear responsibilities on, the Welsh Government. It commits the Welsh Government to adopt or strengthen, implement and disseminate laws, administrative measures, social policies and programmes to prevent the offences of what the UN calls the sale of children, child prostitution, and child pornography. It states that particular attention should be given to protect children who are especially vulnerable to such practices. The NSPCC tells us that children from all backgrounds and communities suffer sexual abuse, but there are factors that seem to increase that risk, which include a history of previous sexual abuse, being disabled, a disruptive home life, or experiences of other forms of abuse, such as domestic violence, neglect, or physical abuse. We also know that very young children and disabled children are particularly vulnerable, because they may not have the words or the ability to communicate to someone whom they trust what is happening to them.

Mae'r protocol yn cynnwys 17 o erthyglau, sydd wedi'u cynllunio i gyflawni dibenion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn enwedig yr agweddau hynny sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol a gwerthu plant. Er mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am lawer o erthyglau'r protocol—er enghraifft, materion sy'n ymwneud â materion nad ydynt wedi'u datganoli megis cyfraith droseddol, estraddodi, a chydweithredu rhyngwladol yn y maes hwn—mae erthygl 9 yn cyflwyno rhai heriau clir iawn i, ac yn rhoi rhai cyfrifoldebau clir iawn i Lywodraeth Cymru. Mae'n rhwymo Llywodraeth Cymru i fabwysiadu neu gryfhau, gweithredu a lledaenu cyfreithiau, mesurau gweinyddol, polisïau a rhaglenni cymdeithasol i atal y troseddau a elwir gan y Cenhedloedd Unedig yn werthu plant, puteindra plant, a phornograffi plant. Mae'n nodi y dylid rhoi sylw arbennig i warchod plant sy'n arbennig o agored i arferion o'r fath. Mae'r NSPCC yn dweud wrthym fod plant o bob cefndir ac o bob cymuned yn dioddef cam-drin rhywiol, ond mae ffactorau sydd fel petaent yn cynyddu'r risg, ac yn eu plith mae hanes o gam-drin rhywiol blaenorol, bod yn anabl, bywyd trwblus gartref, neu brofiad o fathau eraill o gam-drin, er enghraifft trais yn y cartref, esgeulustod, neu gam-drin corfforol. Rydym hefyd yn gwybod bod plant ifanc iawn a phlant anabl yn arbennig o agored i niwed, oherwydd efallai nad oes ganddynt y geiriau neu'r gallu i ddweud wrth rywun y maent yn ymddiried ynddo am yr hyn sy'n digwydd iddynt.

So, I really hope that the children's rights scheme will deliver policies that actively and measurably prevent the sexual abuse and exploitation of children, in accordance with the protocol, ensuring that the voices of children, especially victims, are being heard. The development of that work must, obviously, be done in a sensitive way by people who are experienced and trained to do so.

Felly, rwyf yn gobeithio'n wir y bydd y cynllun hawliau plant yn cyflwyno polisïau a fydd yn atal cam-drin rhywiol a chamfanteisio ar blant mewn modd gweithredol a mesuradwy, yn unol â'r protocol, gan sicrhau bod lleisiau plant, yn enwedig dioddefwyr, yn cael eu clywed. Rhaid datblygu'r gwaith hwnnw, wrth gwrs, mewn modd sensitif gan bobl sy'n brofiadol ac wedi eu hyfforddi i wneud hynny.

The protocol also charges the Welsh Government with promoting awareness among the public at large, including children, through information by all appropriate means, education and training, about preventative measures and the harmful effects of child sexual abuse and exploitation. In terms of fulfilling the obligations under this article, the protocol encourages the participation of children and child victims.

Mae'r protocol hefyd yn rhoi cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd yn gyffredinol, gan gynnwys plant, drwy roi gwybodaeth ym mhob ffordd briodol, addysg a hyfforddiant, am fesurau ataliol ac effeithiau niweidiol cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio ar blant. O ran cyflawni'r rhwymedigaethau o dan yr erthygl hon, mae'r protocol yn annog cyfranogiad plant a dioddefwyr sy'n blant.

In his response to my short debate on child safety online, and in my subsequent discussions with him, the Deputy Minister for Skills and Technology committed to taking a strong personal interest in this subject, and he has been good to his word. I am delighted that, following my debate, and this year's Safer Internet Day, the Welsh Government, together with the South West Grid for Learning, has launched a 15-month project that promises to develop a variety of revolutionary online safety resources. I look forward to that work progressing, and I hope that the children's rights scheme provides a vehicle for the work to include children at every step.

Yn ei ymateb i'm dadl fer ar ddiogelwch plant ar-lein, a'm trafodaethau ag ef yn sgil hynny, ymrwymodd y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau a Thechnoleg i gymryd diddordeb personol cryf yn y pwnc hwn, ac mae wedi cadw at ei air. Rwyf yn falch iawn fod Llywodraeth Cymru, yn sgil fy nadl, a Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel eleni, ynghyd â'r South West Grid for Learning, wedi lansio prosiect 15 mis sy'n addo datblygu amrywiaeth o adnoddau diogelwch ar-lein chwyldroadol. Edrychaf ymlaen at weld y gwaith hwnnw'n mynd rhagddo, ac rwyf yn gobeithio y bydd y cynllun hawliau plant yn gyfrwng i'r gwaith gynnwys plant ar bob cam.

Finally, the protocol requires that the Welsh Government take all feasible measures, with the aim of ensuring all appropriate assistance to victims of child sexual abuse offences, including their full social reintegration and their full physical and psychological recovery. I hope that the children's rights scheme will provide a framework for delivering services, especially in health and social care, but also in education, which are person-centred and are appropriate to meet the very complex needs of some of the most vulnerable children and young people in Wales.

Yn olaf, mae'r protocol yn mynnu bod Llywodraeth Cymru'n cymryd pob cam dichonadwy, er mwyn sicrhau bod dioddefwyr troseddau cam-drin plant yn rhywiol yn derbyn pob cymorth priodol, gan gynnwys ailintegreiddio cymdeithasol llwyr ac adferiad corfforol a seicolegol llwyr. Rwyf yn gobeithio y bydd y cynllun hawliau plant yn darparu fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau, yn enwedig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ond hefyd ym maes addysg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n addas i fodloni anghenion cymhleth iawn rhai o'r plant a'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed yng Nghymru.

15:39

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

15:39

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

I would like to thank Members for their comments and continued cross-party support for the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 and the children's rights scheme 2014.

Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu sylwadau ac am barhad y gefnogaeth drawsbleidiol i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a chynllun hawliau plant 2014.

I will deal with the amendments. We are happy to support Elin Jones's amendment, as moved by Jocelyn Davies. The extended duty does indeed cover allocations of resources, which is why the CRIA process has been amended to reflect this. Difficult decisions will still have to be made, as we work within a shrinking budget, but the CRIA process should assist with decision-making processes when allocating resources.

Hoffwn ymdrin â'r gwelliannau. Rydym yn hapus i gefnogi gwelliant Elin Jones, fel y'i cynigiwyd gan Jocelyn Davies. Mae'r ddyletswydd estynedig yn wir yn cynnwys dyrannu adnoddau, a dyna pam y mae'r broses CRIA wedi ei diwygio i adlewyrchu hyn. Bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd o hyd, wrth inni weithio o fewn cyllideb sy'n crebachu, ond dylai'r broses CRIA gynorthwyo â phrosesau gwneud penderfyniadau wrth ddyrannu adnoddau.

May I also say that I appreciate Jocelyn Davies's and, indeed, Julie Morgan's passion about the issue of the smoking ban? The scheme itself does not deal with individual policies, but will enable, I trust, these matters to come forward and be debated in a rigorous way. Likewise, the comments of Rebecca Evans about helping to make sure that child abuse and exploitation are greatly minimised, if not eliminated, particularly in terms of vulnerable children and young people.

A gaf i hefyd ddweud fy mod yn gwerthfawrogi angerdd Jocelyn Davies, ac yn wir Julie Morgan, ynglŷn â'r gwaharddiad ar ysmygu? Nid yw'r cynllun ei hun yn ymdrin â pholisïau unigol, ond hyderaf y bydd yn caniatáu i'r materion hyn ddod gerbron a chael eu trafod yn drwyadl. Yn yr un modd, gwerthfawrogaf sylwadau Rebecca Evans ynglŷn â helpu i wneud yn siŵr bod nifer yr achosion o gam-drin a chamfanteisio ar blant yn lleihau'n sylweddol, os nad yn cael eu dileu, yn enwedig o safbwynt plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

In terms of the amendments from Aled Roberts, which he tabled, we oppose the amendment relating to referencing the UNCRC on the face of legislation. It is not usual practice to restate duties in legislation. The commitment we have made to undertaking and publishing a CIRA on all legislation affecting children does provide transparency and opportunity for scrutiny, thus leading to a more meaningful process.

O ran gwelliannau Aled Roberts, a gyflwynwyd ganddo, rydym yn gwrthwynebu'r gwelliant sy'n ymwneud â chyfeirio at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar wyneb pob deddfwriaeth. Nid yw'n arferol ailddatgan dyletswyddau mewn deddfwriaeth. Mae'r ymrwymiad a wnaethom i gynnal a chyhoeddi CIRA ar yr holl ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar blant yn darparu tryloywder a chyfle i graffu, a fydd yn arwain at broses fwy ystyrlon.

In terms of other comments that Aled Roberts made, he acknowledged, as did Suzy Davies, the importance of further training for civil servants, and, as I am someone who believes passionately in continuous professional development, it is something that I would want to see updated on a regular basis. Indeed, I would be quite happy to look at the issues of training for Assembly Members as well.

O ran sylwadau eraill a wnaed gan Aled Roberts, roedd yn cydnabod, fel y gwnaeth Suzy Davies, bwysigrwydd hyfforddiant pellach i weision sifil, a chan fy mod yn credu'n gryf mewn datblygu proffesiynol parhaus, mae hynny'n rhywbeth y byddwn am ei weld yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Yn wir, byddwn yn fwy na bodlon ystyried materion ynghylch hyfforddiant i Aelodau'r Cynulliad hefyd.

I was a little concerned to hear what Aled Roberts said about the website. I will ask my officials to look at that to make sure that it is as friendly as it possibly can be.

Roeddwn braidd yn bryderus o glywed yr hyn a ddywedodd Aled Roberts am y wefan. Byddaf yn gofyn i'm swyddogion edrych ar hynny i wneud yn siŵr ei bod mor gyfeillgar â phosibl.

In relation to the third element, the First Minister has made clear his focus on outcomes and delivery on the ground. The CRIA enables consideration of the realisation of children's rights and seeing impact and real outcomes. Therefore, we will accept that amendment.

O ran y drydedd elfen, mae'r Prif Weinidog wedi datgan yn glir ei ffocws ar ganlyniadau a chyflenwi ar lawr gwlad. Mae'r CRIA yn golygu y gellir rhoi ystyriaeth i wireddu hawliau plant a gweld effaith a chanlyniadau gwirioneddol. Felly, byddwn yn derbyn y gwelliant hwnnw.

The Measure has already clearly made a difference here in Wales, with Ministers explicitly referring to the UNCRC in making their decisions. In addition, Members are now using the convention as a rights-based scrutiny tool across a host of portfolios and legislation.

Mae'r Mesur eisoes wedi gwneud gwahaniaeth amlwg yma yng Nghymru, ac mae Gweinidogion yn cyfeirio'n benodol at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wneud eu penderfyniadau. Yn ogystal, mae'r Aelodau bellach yn defnyddio'r confensiwn ar draws llu o bortffolios a deddfwriaeth fel offeryn craffu sy'n seiliedig ar hawliau.

Considering the discussion that we have had today in this Chamber, and if the political commitment in Wales is an indication of the future success of the Measure, we are building on sound foundations.

Ac ystyried y drafodaeth yr ydym wedi'i chael heddiw yn y Siambr hon, os yw'r ymrwymiad gwleidyddol yng Nghymru'n arwydd o lwyddiant y Mesur yn y dyfodol, rydym yn adeiladu ar sylfeini cadarn.

Julie Morgan mentioned the issue of the six-step tool. I can confirm that it is part of an annex so that it can be amended relatively simply in the light of events. Although you did not refer to it, the whole process of consulting with young people is, I believe, enshrined within the future generations Bill and the national conversations that are still under way while we are actively trying to solicit the views of young people about the future Wales that they want to see.

Soniodd Julie Morgan am yr offeryn chwe cham. Gallaf gadarnhau ei fod yn rhan o atodiad er mwyn gallu ei ddiwygio'n gymharol hawdd yn sgil digwyddiadau. Er na chyfeiriasoch at hynny, credaf fod yr holl broses o ymgynghori â phobl ifanc wedi'i hymgorffori yn y Mesur, ynghyd â'r sgyrsiau cenedlaethol sy'n parhau wrth inni fynd ati i geisio barn pobl ifanc am y Gymru y maent am ei gweld yn y dyfodol.

There is clear commitment within this revised scheme towards transparency and constructive engagement. The approach to CRIAs is innovative and progressive, and allows stakeholders an ongoing opportunity to hold Ministers to account and to express their observations on the progress being made. I am immensely proud of the leadership that the Welsh Government is exhibiting on this agenda, and Governments from across the globe are looking in to learn how to effectively incorporate the UNCRC into legislation and the workings of Government. I am also acutely aware that with the privilege of leading comes responsibility to get it right. The big challenge for us is to translate the commitment that we have into the day-to-day experiences of children and young people living in Wales.

Mae ymrwymiad clir yn y cynllun diwygiedig hwn i dryloywder ac ymgysylltu adeiladol. Mae'r ymagwedd tuag at asesiadau CRIA yn arloesol ac yn flaengar, ac yn cynnig cyfleoedd parhaus i randdeiliaid i ddwyn Gweinidogion i gyfrif ac i leisio eu sylwadau am y cynnydd a wneir. Rwyf yn hynod falch o'r arweiniad y mae Llywodraeth Cymru'n ei ddangos ynglŷn â'r agenda hon, ac mae Llywodraethau o bob cwr o'r byd yn ein gwylio er mwyn dysgu sut i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn effeithiol mewn deddfwriaeth ac yng ngweithgarwch Llywodraethau. Rwyf hefyd yn ymwybodol iawn y daw cyfrifoldeb i wneud pethau'n iawn law yn llaw â'r fraint o arwain. Yr her fawr i ni yw trosglwyddo'r ymrwymiad yr ydym wedi'i wneud i brofiadau dydd i ddydd plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru.

To conclude, I believe that the revised scheme is an important tool to enable improved outcomes for children and young people in Wales and, on that basis, I hope that Members will today commend the children's rights scheme 2014 and approve the motion.

I gloi, credaf fod y cynllun diwygiedig yn arf pwysig i ganiatáu gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc yng Nghymru ac, ar sail hynny, gobeithiaf y bydd yr Aelodau heddiw yn derbyn cynllun hawliau plant 2014 ac yn cymeradwyo'r cynnig.

15:45

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There is no objection. Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw cytuno ar welliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 1, felly, wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:45

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? There is objection. Therefore, I defer all further voting until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar welliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Cynigion ar gyfer Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020

## Proposals for the Wales Rural Development Programme 2014-2020

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2, 3 a 4 yn enw Paul Davies, gwelliannau 5, 6, 7 ac 8 yn enw Elin Jones, a gwelliant 9 yn enw Aled Roberts.*

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2, 3 and 4 in the name of Paul Davies, amendments 5, 6, 7 and 8 in the name of Elin Jones, and amendment 9 in the name of Aled Roberts.*

15:45

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Natural Resources and Food to move the motion—Alun Davies.

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd i gynnig y cynnig—Alun Davies.

Cynnig NDM5490 Lesley Griffiths

Motion NDM5490 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi y bydd cynigion Llywodraeth Cymru yn Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn sbarduno ac yn cryfhau'r economi, yr amgylchedd a chydlyniant cymdeithasol yn y Gymru Wledig.

Notes that the Welsh Government's proposals for the Rural Development Programme 2014-2020 will stimulate and strengthen the economy, environment and social cohesion of rural Wales.

15:45 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

Senedd.tv
Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Members will be aware that, in February, I launched our final consultation on the next rural development programme, running to 2020. While the consultation has now concluded, I wanted to listen to the views of Members as I come to conclusions on the consequences of that consultation, and I wanted to listen to what Members have to say before taking any final decisions on the shape of the next rural development programme.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fy mod wedi lansio ein hymgynghoriad terfynol, ym mis Chwefror, ar y rhaglen datblygu gwledig nesaf, sy'n parhau hyd at 2020. Er bod yr ymgynghoriad bellach wedi dod i ben, roeddwn eisiau gwrando ar farn Aelodau wrth i mi ddod i gasgliadau am ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw, ac rwy'n awyddus i wrando ar yr hyn sydd gan Aelodau i'w ddweud cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol ar ffurf y rhaglen datblygu gwledig nesaf.

In terms of the amendments that have been tabled to today's motion, I will be accepting amendments 7 and 8 in the name of Elin Jones. Members will be aware that the Welsh Government has already prioritised support for young farmers through the young entrants support scheme proposal under the new RDP, and Members will also be aware that I have commissioned Malcolm Thomas to do some independent work on this, and I expect his report to be provided to me later this term. On amendment 8, I have been clear from the outset regarding the economic focus of the new RDP, and the new programme has been designed with a sharp emphasis on promoting the competitiveness of Welsh agriculture and rural industries, and creating sustainable jobs and sustainable growth for the people who work in rural Wales.

O ran y gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno i'r cynnig heddiw, byddaf yn derbyn gwelliannau 7 ac 8 yn enw Elin Jones. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi blaenoriaethu cefnogaeth i ffermwyr ifanc drwy'r cynnig cynllun cymorth i newydd-ddyfodiaid ifanc o dan y Cynllun Datblygu Gwledig newydd. Bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol fy mod wedi comisiynu Malcolm Thomas i wneud rhywfaint o waith annibynnol ar hyn, ac rwy'n disgwyl i'w adroddiad gael ei ddarparu i mi yn ddiweddarach y tymor hwn. O ran gwelliant 8, rwyf wedi bod yn glir o'r dechrau ynglŷn â ffocws economaidd y Cynllun Datblygu Gwledig newydd, ac mae'r rhaglen newydd wedi ei chynllunio gyda phwyslais manwl ar wneud amaethyddiaeth a diwydiannau gwledig yng Nghymru yn fwy cystadleuol, a chreu swyddi cynaliadwy a thwf cynaliadwy ar gyfer y bobl sy'n gweithio yn y Gymru wledig.

I will be opposing amendment 1, which I thought was somewhat churlish. We have the largest RDP in our history ahead of us. We have the opportunity to create very real growth and to stimulate economic activity in rural Wales, and I felt that the Conservatives were somewhat churlish in proposing amendment 1. I will also be opposing amendments 2 and 5. The transfer between pillars has been somewhat misunderstood by some people, but certainly the common agricultural programme pillar 1 and pillar 2 should be, and normally are, seen as a single programme that has different elements to it. If we are to invest in the future competitiveness of Welsh agriculture, we cannot simply do that with the funds that are available to us at the beginning of pillar 2. We will ensure that there is a relationship between both pillars. Most people who understand these matters will also accept that 80% of pillar 2 funds go to recipients of pillar 1.

Byddaf yn gwrthwynebu gwelliant 1. Roeddwn yn ystyried ei fod braidd yn grintachlyd. Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig mwyaf yn ein hanes o'n blaenau. Mae gennym y cyfle i greu twf gwirioneddol iawn ac i ysgogi gweithgarwch economaidd yng Nghymru wledig, ac rwy'n teimlo bod y Ceidwadwyr braidd yn grintachlyd wrth gynnig gwelliant 1. Byddaf hefyd yn gwrthwynebu gwelliannau 2 a 5. Mae rhai pobl wedi camddeall y trosglwyddo rhwng colofnau braidd, ond yn sicr dylid ystyried colofn 1 a cholofn 2 y rhaglen amaethyddol gyffredin, ac fel arfer maent yn cael eu hystyried, yn un rhaglen sydd ag elfennau gwahanol. Os ydym am fuddsoddi er mwyn i amaethyddiaeth Cymru fod yn gystadleuol yn y dyfodol, ni allwn wneud hynny dim ond gyda'r arian sydd ar gael i ni ar ddechrau colofn 2. Byddwn yn sicrhau bod perthynas rhwng y ddwy golofn. Bydd y rhan fwyaf o bobl sy'n deall y materion hyn hefyd yn derbyn bod 80% o arian colofn 2 yn mynd i bobl sy'n derbyn colofn 1.

In terms of amendments 3 and 6 on farm incomes, I will also oppose both these amendments. Any economist would explain that incomes, or in this case profits, are determined by a number of different variables and factors. To simply identify one element of funding for the agricultural industry as a determinant of farm incomes is to understand neither the economics of the industry nor the economics of the sector. So, we will oppose that as well.

O ran gwelliannau 3 a 6 ar incwm ffermydd, byddaf hefyd yn gwrthwynebu'r ddau welliant hyn. Byddai unrhyw economegydd yn esbonio bod incwm, neu yn yr achos hwn elw, yn cael ei benderfynu gan nifer o wahanol newidynnau a ffactorau. Nid yw'r sawl sy'n nodi bod un elfen o gyllid ar gyfer y diwydiant amaethyddol yn penderfynu incwm ffermydd yn deall economeg y diwydiant nac economeg y sector. Felly, byddwn yn gwrthwynebu hynny hefyd.

In terms of amendments 4 and 9 in relation to a dedicated scheme for less favourable areas, I will be opposing this. It is somewhat curious that we have a consultation and then we are asked to announce the results of that consultation in a debate that has been tabled in order to listen to people's views. It is somewhat curious for people to say, 'This is what we expect your consultation to end with'. I am listening to what people say, but it is also worth mentioning that the new system of payments, the new area-based system, will be of great benefit to people who would be in the areas of natural constraint. We do not yet understand the impact of that—and certainly, if you look at the moorland line and the nearly 300 farms in the moorland area, you will see that there will be more winners than losers in that area. So, it seems somewhat curious to create a scheme that gives more public money to people who are already benefiting from a change to the scheme. That does not seem to be a particularly good use of taxpayer resources.

O ran gwelliannau 4 a 9 mewn cysylltiad â chynllun penodol ar gyfer ardaloedd llai ffafriol, byddaf yn gwrthwynebu hyn. Mae braidd yn rhyfedd ein bod yn cael ymgynghoriad ac yna y gofynnir i ni gyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw mewn dadl a gyflwynwyd er mwyn gwrando ar farn pobl. Mae braidd yn rhyfedd i bobl ddweud, 'Dyma sut yr ydym yn disgwyl i'ch ymgynghoriad derfynu'. Rwy'n gwrando ar yr hyn mae pobl yn ei ddweud, ond mae hefyd yn werth nodi y bydd y system daliadau newydd, y system newydd seiliedig ar ardaloedd, o fudd mawr i bobl a fyddai yn yr ardaloedd â chyfyngiadau naturiol. Nid ydym yn deall effaith hynny eto—ac yn sicr, os ydych yn edrych ar y llinell rhostir a'r 300 o ffermydd bron yn yr ardal rhostir, byddwch yn gweld y bydd mwy o bobl ar eu hennill nac ar eu colled yn yr ardal honno. Felly, mae'n ymddangos braidd yn rhyfedd creu cynllun sy'n rhoi mwy o arian cyhoeddus i bobl sydd eisoes yn elwa o newid yn y cynllun. Nid yw'n ymddangos bod hynny'n ddefnydd arbennig o dda o adnoddau'r trethdalwyr.

In terms of where we are going on this, I was pleased to secure a fair distribution for Wales of the UK allocation of funding, which has resulted in us being able to deliver the biggest and most ambitious rural development plan in our history. Together with the co-financing above the level required by regulations from the Welsh Government, we now have a total projected budget for the Wales rural development programme of some £953 million over the programme period. It is critical that we do not simply, in spending this money, think about what we have done in the past and do it again. It is also critical that we invest this money in long-term sustainability and not short-term popularism. It is essential that anybody who wants to see a future for agriculture and a future for the economy of rural Wales that we invest in sustainability in the long term, and that we do not simply say, 'We will use the funding that we have available to us—nearly £1 billion—to pay our bills this year and next year'.

O ran ble'r ydym yn mynd yn hyn o beth, roeddwn yn falch o fod wedi sicrhau dosbarthiad teg i Gymru o ddyraniad cyllid y DU, ac o ganlyniad rydym wedi gallu cyflawni'r cynllun datblygu gwledig mwyaf a mwyaf uchelgeisiol yn ein hanes. Ynghyd â'r cyd-ariannu uwch na'r lefel sy'n ofynnol gan reoliadau gan Lywodraeth Cymru, mae cyfanswm y gyllideb ragamcanol ar gyfer rhaglen datblygu gwledig Cymru bellach rhyw £953 miliwn dros gyfnod y rhaglen. Mae'n hanfodol nad ydym, wrth wario'r arian hwn, yn gwneud dim mwy na meddwl am yr hyn yr ydym wedi ei wneud yn y gorffennol ac yna'i wneud eto. Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn buddsoddi'r arian hwn mewn cynaliadwyedd tymor hir ac nid poblogrwydd tymor byr. Mae'n hanfodol i unrhyw un sydd eisiau gweld dyfodol i amaethyddiaeth a dyfodol i economi cefn gwlad Cymru ein bod yn buddsoddi mewn cynaliadwyedd yn y tymor hir, ac nad ydym yn dweud yn syml, 'Byddwn yn defnyddio'r cyllid sydd ar gael inni—bron i £1 biliwn—i dalu ein biliau eleni a'r flwyddyn nesaf '.

In terms of the proposals that I have made, I have said that I want to see a much stronger emphasis on business skills, resource efficiency, strengthening supply chains, working with the grain of river catchments and ecosystems and the generation of renewable energy. There will be a focus on the effective support for our upland areas and on encouraging mobility within our land-based sectors. To achieve this, there are essentially four categories of investments: developing people; providing physical capital investment; land-based measures; and local economic interventions, including through the LEADER schemes. We will make available increased capital investment under the RDP for modernisation, improved animal health and welfare and resource efficiencies. This will only deliver the significant results I believe that it can deliver if people have the necessary skills and access to appropriate and effective training and advice.

O ran y cynigion yr wyf wedi'u gwneud, rwyf wedi dweud fy mod am weld pwyslais llawer cryfach ar sgiliau busnes, defnyddio adnoddau'n effeithlon, cryfhau cadwyni cyflenwi, gweithio gyda dalgylchoedd afonydd ac ecosystemau a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. Rhoddir pwyslais ar gymorth effeithiol ar gyfer ein hardaloedd ucheldir ac ar annog symudedd o fewn ein sectorau diwydiannau'r tir. I gyflawni hyn, yn y bôn mae pedwar categori o fuddsoddiadau: datblygu pobl; darparu cyfalaf ffisegol; mesurau seiliedig ar y tir; ac ymyriadau economaidd lleol, gan gynnwys drwy'r cynlluniau LEADER. Byddwn yn trefnu bod mwy o fuddsoddiad cyfalaf ar gael o dan y Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer moderneiddio, gwella iechyd a lles anifeiliaid a defnyddio adnoddau'n effeithlon. Ni fydd hyn ond yn cyflwyno'r canlyniadau sylweddol y credaf y gall eu darparu os oes gan bobl y sgiliau priodol ac os yw hyfforddiant a chyngor priodol ac effeithiol ar gael iddynt.

In terms of knowledge transfer information advisory services offered under the RDP, we will focus on promoting greater efficiency, improving resilience and increasing diversity in developing income streams. A number of core strategic contracts will be procured to deliver an approach that includes enhanced knowledge transfer and learning, a broadened and enhanced advisory service and support access to capital investments. There will be revenue support for industry projects that encourage co-operation and that undertake knowledge transfer activities, including the targeting of improved competitiveness.

O ran y gwasanaethau cynghori ym maes trosglwyddo gwybodaeth a gynigir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig, byddwn yn canolbwyntio ar hybu dulliau gwaith mwy effeithlon, gwella cydnerthedd a chynyddu amrywiaeth wrth ddatblygu ffrydiau incwm. Bydd nifer o gontractau strategol craidd yn cael eu caffael i ddarparu dull gweithredu sy'n cynnwys gwell trefn o drosglwyddo gwybodaeth a gwersi, gwasanaeth cynghori gwell ac ehangach a chefnogi mynediad at fuddsoddiadau cyfalaf. Darperir cymorth refeniw ar gyfer prosiectau'r diwydiant sy'n annog cyd-weithio ac sy'n ymgymryd â gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth, gan gynnwys targedu gwell cystadleurwydd.

15:52 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One of your colleagues has called for the repatriation of CAP and regional funds from Brussels to London in order to save money. Do you support that call?

Mae un o'ch cydweithwyr wedi galw am ddychwelyd cronfeydd rhanbarthol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin o Frwsel i Lundain er mwyn arbed arian. A ydych yn cefnogi'r alwad honno?

15:53 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I do not. There is a debate that takes place. We live in a free country where people are allowed to say whatever they like. That does not necessarily mean that they define Government policy, certainly not this Government's policy. The policy of this Government is absolutely clear. We support the current structures and we want to see the place of Wales being deepened and broadened in the European Union. We have done that. I have ensured that Welsh farmers have been represented whenever decisions were being taken on Welsh agriculture, which was not necessarily always the case, as you are well aware.

Nac ydw. Mae dadl yn cael ei chynnal. Rydym yn byw mewn gwlad rydd lle mae pobl yn cael dweud beth bynnag y maent yn ei ddymuno. Nid yw hynny o reidrwydd yn golygu eu bod yn diffinio polisi'r Llywodraeth, yn sicr nid polisi'r Llywodraeth hon. Mae'r polisi'r Llywodraeth hon yn hollol glir. Rydym yn cefnogi'r strwythurau presennol ac rydym am weld lle Cymru yn cael ei ddyfnhau a'i ehangu yn yr Undeb Ewropeaidd. Rydym wedi gwneud hynny. Rwyf wedi sicrhau bod ffermwyr Cymru wedi cael eu cynrychioli pryd bynnag yr oedd penderfyniadau yn cael eu gwneud ar amaethyddiaeth yng Nghymru, ac nid oedd hynny o reidrwydd yn wir bob amser yn y gorffennol, fel y gwyddoch yn dda.

In terms of the supply chain that we need to develop to meet the challenge of developing new products and for increasing sales at home and abroad, we will build on the existing supply chains efficiency scheme to support co-operation, activities to promote shorter supply chains and local markets, and also to ensure that we invest in supply chains for the sustainable production of energy and joint approaches to environmental projects.

O ran y gadwyn gyflenwi y mae angen inni ei datblygu i ymateb i'r her o ddatblygu cynhyrchion newydd ac ar gyfer cynyddu gwerthiannau gartref a thramor, byddwn yn adeiladu ar gynllun effeithlonrwydd y cadwyni cyflenwi presennol er mwyn cefnogi cydweithrediad, gweithgareddau i hyrwyddo cadwyni cyflenwi byrrach a marchnadoedd lleol, a hefyd i sicrhau ein bod yn buddsoddi mewn cadwyni cyflenwi ar gyfer cynhyrchu ynni mewn modd cynaliadwy a dulliau gweithredu ar y cyd o ran prosiectau amgylcheddol.

We will continue to look at how we can make additional investments in capital investment and grant support to farming businesses by integrating capital grants of existing schemes, such as Glastir efficiency grants and the young entrants support scheme, into a single scheme. We will develop a new sustainable production grant to give capital support for farm modernisation and for resource and production efficiencies. This work will improve the economic and environmental performance of supported holdings.

Byddwn yn parhau i ystyried sut y gallwn wneud buddsoddiadau ychwanegol mewn buddsoddiad cyfalaf a chymorth grant i fusnesau ffermio trwy integreiddio grantiau cyfalaf cynlluniau presennol, megis grantiau effeithlonrwydd Glastir a'r cynllun cefnogi newydd-ddyfodiaid ifanc, mewn un cynllun. Byddwn yn datblygu grant cynhyrchu cynaliadwy newydd i roi cymorth cyfalaf ar gyfer moderneiddio ffermydd ac ar gyfer defnyddio adnoddau'n effeithlon a chynhyrchu mewn modd effeithlon. Bydd y gwaith yn gwella perfformiad economaidd ac amgylcheddol daliadau a gefnogir.

We currently envisage four specific investment themes: production housing and handling; animal and plant welfare; crop storage and soil; and soil and crop management. Applicants will need to demonstrate how the investment will address the three cross-cutting areas of improved efficiency in their use of energy, water and nutrients.

Ar hyn o bryd rydym yn rhagweld pedair thema benodol o ran buddsoddi: systemau trin ac adeiladau ar gyfer y prosesau cynhyrchu; lles anifeiliaid a phlanhigion; storio cnydau a phridd; a rheoli pridd a chnydau. Bydd angen i ymgeiswyr ddangos sut y bydd y buddsoddiad yn mynd i'r afael â thri maes trawsbynciol defnyddio ynni, dŵr a maetholion yn fwy effeithlon.

We will ensure that we can build on the existing processes and marketing grant to offer expanded support for processing and marketing to the agricultural, forestry and food sectors. We will continue to provide specific support for investment by forestry businesses into the next programme, and this will enable contractors to obtain funding for equipment that will help bring woodland into productive management. Farmers will also be eligible for support for, for example, small-scale on-farm sawmilling, timber-milling, timber extraction and firewood processing. We will also continue to support renewable energy, and we will ensure that the Glastir scheme, which we have also consulted on over the past few months, is a scheme that is able to deliver the sort of support that we believe is necessary.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn gallu adeiladu ar y prosesau a'r grant marchnata presennol i gynnig cefnogaeth estynedig ar gyfer prosesu a marchnata i'r sectorau amaethyddol, coedwigaeth a bwyd. Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth penodol ar gyfer buddsoddi gan fusnesau coedwigaeth yn y rhaglen nesaf, a bydd hyn yn galluogi contractwyr i gael cyllid ar gyfer offer a fydd yn helpu i ddod â choetiroedd i reolaeth gynhyrchiol. Bydd ffermwyr hefyd yn gymwys i gael cymorth ar gyfer gweithgareddau ar y fferm ar raddfa fach fel melinau llifio, melinau coed, symud coed sydd wedi'u cwympo a phrosesu coed tân. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi ynni adnewyddadwy, a byddwn yn sicrhau bod y cynllun Glastir, yr ydym hefyd wedi ymgynghori arno dros y misoedd diwethaf, yn gynllun sy'n gallu darparu'r math o gefnogaeth sydd yn ein barn ni yn angenrheidiol.

I look forward to listening to what Members have to say, and I hope that Members will share my emphasis on investment for long-term sustainability for the Welsh agricultural industry and for the rural economy throughout the whole of rural Wales.

Edrychaf ymlaen at wrando ar yr hyn sydd gan Aelodau i'w ddweud, ac rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n rhannu fy mhwyslais ar fuddsoddi er mwyn sicrhau bod diwydiant amaethyddol Cymru ac economi cefn gwlad ledled Cymru wledig yn gynaliadwy yn y tymor hir.

15:55

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the nine amendments to the motion and I call on Russell George to move amendments 1, 2, 3 and 4, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y naw gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Russell George i gynnig gwelliannau 1, 2, 3 a 4, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Dileu popeth a rhoi yn ei le:*

*Delete all and replace with:*

*Yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.*

*Notes the Welsh Government's proposals for the Rural Development Programme 2014-2020.*

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu wrth benderfyniad Llywodraeth Cymru i ddewis trosglwyddo 15%, sef y lefel uchaf a ganiateir, i ffwrdd o daliadau uniongyrchol i ffermwyr yng Ngholofn 1 o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin i'r Rhaglen Datblygu Gwledig, gan wneud busnesau ffermio Cymru yn llai cystadleuol.*

*Regrets the Welsh Government's decision to opt for the maximum transfer of 15% away from direct payments to farmers in Pillar 1 of the Common Agricultural Policy to the Rural Development Programme, making Welsh farm businesses less competitive.*

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn ceisio sicrwydd y bydd mesurau sy'n cael eu darparu drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn cael effaith ddi-oed, amlwg a mesuradwy ar incwm ffermydd.*

*Seeks assurances that measures delivered through the Rural Development Programme will have an immediate, demonstrable and measureable impact on farm incomes.*

*Gwelliant 4—Paul Davies*

*Amendment 4—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*Calls on the Welsh Government to:*

*a) datblygu cynllun annibynnol ar gyfer Ardaloedd Llai Ffafriol i gefnogi'r rheini sy'n ffermio yn ardaloedd mwyaf heriol Cymru;*

*a) develop a stand-alone scheme for Less Favourable Areas to support those farming the most challenging areas of Wales;*

*b) annog rhagor o ffermwyr i fanteisio ar gynllun Glastir drwy ei symleiddio ac ehangu'r mynediad iddo.*

*b) encourage more farmers to take advantage of the Glastir scheme by simplifying and expanding access to it.*

15:56

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendments 1, 2, 3 and 4.

Cynigiaf welliannau 1, 2, 3 a 4.

I welcome the opportunity to take part in this important debate at this stage on the common agricultural policy this afternoon. In formally moving the Welsh Conservative amendments in the name of Paul Davies, I will say from the outset that we will be supporting all the amendments as the majority are versions of the themes that we have set out. Of course, I am disappointed that the Minister is not able to support our amendments.

Croesawaf y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon ar yr adeg hon ar y polisi amaethyddol cyffredin brynhawn heddiw. Wrth gynnig gwelliannau'r Ceidwadwyr Cymreig yn ffurfiol yn enw Paul Davies, byddaf yn dweud o'r dechrau y byddwn yn cefnogi'r gwelliannau i gyd gan fod y mwyafrif yn fersiynau o'r themâu yr ydym ni wedi'u cyflwyno. Wrth gwrs, rwy'n siomedig nad yw'r Gweinidog yn gallu cefnogi ein gwelliannau.

It has been an extremely busy and stressful few months for the Welsh agricultural industry. This time of year is demanding, and that is particularly so coupled with these demands. There has been a raft of consultations coming from the Welsh Government. That is not an overt criticism from me, Minister. It is a constructive comment to think about. You and your officials need to be mindful of the significant effort that you are asking individual farmers to contribute to the shaping of public policy at this time of year. You, of course, want the widest possible response—and not just from the unions and larger stakeholder organisations. You also ask at this time for input on the rural development plan as well as TB compensation, Glastir, the action plan for the food and drink industry, sheep electronic identification and the new strategy on water management among other things, so it is no wonder that they feel a little bit overwhelmed. I can hear you saying that you are damned if you do and damned if you don't. However, in relation to public consultation, planning and timing are crucial. I understand the tight timescales in relation to submitting your plans to the European Commission, but there could have been a more extensive consultation last year if both parts of the CAP implementation were taken together. This would also have had the benefit of the agricultural sector being able to examine your plans in the round and not separately as you have done. I hope, Minister, that you will be receptive to those points and mindful of wider policy consultations going forward.

Mae wedi bod yn ychydig fisoedd prysur ac anodd iawn i ddiwydiant amaethyddol Cymru. Mae'r adeg hon o'r flwyddyn yn anodd, ac mae hynny'n arbennig o wir o ystyried y galwadau hyn hefyd. Cafwyd llu o ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru. Sylw adeiladol i feddwl amdano yw hynny, Weinidog, yn hytrach na beirniadaeth. Mae angen i chi a'ch swyddogion fod yn ymwybodol o'r ymdrech sylweddol yr ydych yn gofyn i ffermwyr unigol ei chyfrannu at lunio polisi cyhoeddus ar yr adeg hon o'r flwyddyn. Rydych chi, wrth gwrs, am gael yr ymateb ehangaf bosibl—ac nid yn unig gan yr undebau a sefydliadau rhanddeiliaid mwy o faint. Rydych hefyd yn gofyn ar hyn o bryd am gyfraniadau ar y cynllun datblygu gwledig yn ogystal ag iawndal TB, Glastir, y cynllun gweithredu ar gyfer y diwydiant bwyd a diod, tagio electronig ar gyfer defaid a'r strategaeth newydd ar reoli dŵr ymhlith pethau eraill, felly nid yw'n syndod eu bod yn teimlo wedi'u llethu braidd. Gallaf eich clywed yn dweud y byddech yn cael eich damio beth bynnag y byddech wedi'i wneud. Fodd bynnag, mae cynllunio ac amseru yn hanfodol ar gyfer ymgynghoriadau cyhoeddus. Rwy'n deall bod yr amserlenni ar gyfer cyflwyno eich cynlluniau i'r Comisiwn Ewropeaidd yn dynn, ond gellid bod wedi cael ymgynghoriad mwy helaeth y llynedd trwy ystyried dwy ran gweithrediad y PAC gyda'i gilydd. Mantais arall i hyn fyddai galluogi'r sector amaethyddol i archwilio eich cynlluniau yn eu cyfanrwydd ac nid ar wahân fel yr ydych wedi ei wneud. Rwy'n gobeithio, Weinidog, y byddwch yn barod i dderbyn y pwyntiau hynny ac yn ystyried ymgynghoriadau polisi ehangach wrth symud ymlaen.

I think that we can all agree on the key outcomes we would like to see the RDP achieve. We all want a more productive, profitable and progressive agricultural sector that is not only the backbone of the rural Welsh economy but contributes to wider economic growth. The RDP can be the key enabler of that happening.

Rwy'n meddwl y gallwn i gyd gytuno ar y canlyniadau allweddol y byddem yn hoffi gweld y Cynllun Datblygu Gwledig yn eu cyflawni. Rydym i gyd am gael sector amaethyddol mwy cynhyrchiol, proffidiol a blaengar sy'n asgwrn cefn i economi cefn gwlad Cymru, ond sydd hefyd yn cyfrannu at dwf economaidd ehangach. Gall y Cynllun Datblygu Gwledig fod yn elfen allweddol er mwyn galluogi hynny i ddigwydd.

Many in the industry will agree with the Government's overall objective to move away from high levels of public subsidy to a situation where farm businesses are modern and commercially efficient. However, it is going to take time and, in some areas of Wales—particularly upland areas that are already facing serious cash flow issues—this is going to be even more of a significant challenge for farmers to achieve. So, to have modulated the full 15% from pillar 1 to pillar 2 when no other member state or sub-region has gone to the maximum puts Wales at a competitive disadvantage, and I think that that is the cause of great regret. It would have been far better to have set a level around the 2013 average of 9%—even up to the 12% as has been done in England—and then reviewed it in 2016 with the intention of moving to 15% at the back end of the programme if there were no negative effects. That would have been a sensible approach that would have represented the best balance between using rural development money to deliver public goods and meeting environmental obligations, as well as helping the Welsh farming industry to become more productive and competitive.

Bydd llawer yn y diwydiant yn cytuno ag amcan cyffredinol y Llywodraeth i symud oddi wrth lefelau cymhorthdal cyhoeddus uchel, i sefyllfa lle mae busnesau fferm yn fodern ac yn fasnachol effeithlon. Fodd bynnag, mae'n mynd i gymryd amser ac, mewn rhai ardaloedd yng Nghymru—yn enwedig ardaloedd ucheldir sydd eisoes yn wynebu problemau difrifol o ran llif arian—mae'n mynd i fod yn fwy fyth o her sylweddol i ffermwyr ei gyflawni. Felly, mae Cymru o dan anfantais gystadleuol o ganlyniad i fodiwleiddio'r 15% llawn o golofn 1 i golofn 2 pan nad oes yr un aelod-wladwriaeth nac isranbarth arall wedi mynd at yr uchafswm, ac rwy'n meddwl bod hynny'n achos gofid mawr. Byddai wedi bod yn llawer gwell gosod lefel o gwmpas cyfartaledd 2013, sef 9%—hyd yn oed hyd at y 12% fel a wnaed yn Lloegr—ac yna ei adolygu yn 2016 gyda'r bwriad o symud i 15% ar ddiwedd y rhaglen os nad oedd unrhyw effeithiau negyddol. Byddai hynny wedi bod yn ddull synhwyrol a fyddai wedi cynrychioli'r cydbwysedd gorau rhwng defnyddio arian datblygu gwledig i ddarparu nwyddau cyhoeddus a bodloni rhwymedigaethau amgylcheddol, yn ogystal â helpu diwydiant ffermio Cymru i fod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol.

Therefore, Minister, given that you are standing by your decision, what the industry wants assurance on, I believe, is that measures delivered through the RDP will have an immediate and measurable impact on Welsh farm incomes. While many farm businesses will be beneficiaries of the RDP's protected budget, they will want to know that access to the various intervention funding streams will be transparent, simple and straightforward—key aspects, of course, underpinned by the working smarter aims of reducing the regulatory burden, reducing costs and supporting business growth. The industry will also want assurances that the RDP funding is going to be focused on delivering tangible and measurable outcomes, not frittered away on unnecessary administration or on consultancy fees. Clearly, the redesign and implementation of Glastir as the agri-environment scheme within the RDP is going to be critical in order to encourage more farmers to enter Glastir. We believe that many of the elements must be simplified.

Felly, Weinidog, o gofio eich bod yn cadw at eich penderfyniad, yr hyn y mae'r diwydiant eisiau sicrwydd yn ei gylch, rwy'n credu, yw y bydd y mesurau a ddarperir drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig yn cael effaith uniongyrchol a mesuradwy ar incwm ffermydd Cymru. Er y bydd llawer o fusnesau fferm yn elwa ar gyllideb a ddiogelir y Cynllun Datblygu Gwledig, byddant am wybod bod trefniadau tryloyw, syml ac agored ar gael o fanteisio ar y gwahanol ffrydiau ariannu ymyriadau—agweddau allweddol, wrth gwrs, sy'n seiliedig ar amcanion hwyluso'r drefn sef lleihau'r baich rheoleiddio, lleihau costau a chefnogi twf busnesau. Bydd y diwydiant hefyd am gael sicrwydd bod cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig yn mynd i ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau pendant a mesuradwy, ac nid yn cael ei wastraffu ar weinyddiaeth ddiangen neu ar ffioedd ymgynghori. Yn amlwg, mae ail-gynllunio a gweithredu Glastir fel y cynllun amaeth-amgylchedd o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig yn mynd i fod yn hanfodol er mwyn annog mwy o ffermwyr i ymuno â Glastir. Rydym yn credu bod yn rhaid i lawer o'r elfennau gael eu symleiddio.

16:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Rhun ap Iorwerth to move amendments 5, 6, 7 and 8, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i gynnig gwelliannau 5, 6, 7 ac 8, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 5—Elin Jones*

*Amendment 5—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu wrth benderfyniad Llywodraeth Cymru i fodiwleiddio'r 15% llawn o Golofn 1 i Golofn 2.*

*Regrets the Welsh Government's decision to modulate the full 15% from Pillar 1 to Pillar 2.*

*Gwelliant 6—Elin Jones*

*Amendment 6—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn penderfynu y dylai Llywodraeth Cymru ddangos yn flynyddol effaith y Rhaglen Datblygu Gwledig ar incwm ffermydd.*

*Resolves that the Welsh Government should demonstrate annually the impact of the Rural Development Programme on farm incomes.*

*Gwelliant 7—Elin Jones*

*Amendment 7—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar y Llywodraeth i flaenoriaethu cymorth i ffermwyr ifanc er mwyn ysgogi'r sector ffermio.*

*Calls on the Government to prioritise support for young farmers in order to stimulate the farming sector.*

*Gwelliant 8—Elin Jones*

*Amendment 8—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi cyfraniad sylweddol yr economi wledig at economi ehangach Cymru ac yn cydnabod y potensial ar gyfer datblygu economaidd drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig.*

*Notes the significant contribution of the rural economy to the wider Welsh economy and recognises the potential for economic development through the Rural Development Programme.*

16:01

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliannau 5, 6, 7 ac 8.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendments 5, 6, 7 and 8.

A gaf i yn gyntaf ddiolch, Ddirprwy Lywydd, am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon ar y cynllun datblygu gwledig yn y blynyddoedd hyd at 2020? Mae hi'n rhaglen hollbwysig o ran datblygu economi cefn gwlad Cymru dros y cyfnod hwn. Mae'r pwysau, rwy'n meddwl, hefyd am ganlyniadau o dan y rhaglen nesaf hon yn fwy nag erioed—rwy'n gobeithio y byddai'r Gweinidog yn cytuno efo hynny—ac mae hynny oherwydd y cefndir ac, yn rhannol, y penderfyniad hwn i fodiwleiddio'r 15% llawn o biler 1 i biler 2 o dan y polisi amaethyddol cyffredin a'r effaith negyddol y gallai hynny ei golygu i un rhan o economi cefn gwlad, sef ein diwydiant amaeth. Mae hi'n eithaf hysbys ein bod ni ym Mhlaid Cymru wedi gwrthwynebu'r modiwleiddio llawn hwn, fel yr ydym ni'n ei gwneud yn glir yn ein gwelliant cyntaf, gwelliant 5. Roedd yn golygu tynnu bron £300 miliwn oddi ar gyfanswm y taliadau uniongyrchol i ffermwyr. Mae'r NFU a'r FUW yn cytuno â'n pryderon a'n gwrthwynebiad i'r cam a gafodd ei gymryd. Rwy'n nodi'r bwriad i roi 80% o'r arian sydd wedi ei symud o biler 1 i biler 2 yn ôl yn uniongyrchol i'r sawl sydd yn derbyn arian piler 1, ond roedd yna gyfle, fel yn y gwledydd eraill, gan gynnwys y gwledydd yn y Deyrnas Gyfunol, i beidio â gwneud hynny. Y perygl rŵan yw bod ein ffermwyr ni o dan anfantais o'u cymharu â ffermwyr mewn gwledydd eraill. Fodd bynnag, wrth gwrs, rydym yn gorfod delio â'r sefyllfa yr ydym ynddi hi.

May I first of all thank you, Deputy Presiding Officer, for the opportunity to speak in this important debate on the rural development plan for the years up to 2020? This is a crucially important programme in terms of developing the economy of rural Wales over this period. The pressures, I think, in terms of outcomes under the new programme are greater than ever—I hope that the Minister would agree with that—and that is because of the background and, in part, of this decision to modulate the full 15% from pillar 1 to pillar 2 under the common agricultural policy, and the negative impact that that could have on one part of the rural economy, namely our agricultural industry. It is relatively well known that we in Plaid Cymru opposed the full modulation, as we make clear in our first amendment, amendment 5. It meant withdrawing almost £300 million from the total of direct payments to farmers. The NFU and FUW agree with our concerns and our opposition to the step that was taken. I note the intention to give 80% of the money moved from pillar 1 to pillar 2 directly back to those who receive pillar 1 funding, but there was an opportunity, as in other nations, including nations within the United Kingdom, not to do so. The risk now is that our farmers will be at a disadvantage as compared with farmers in other nations. However, of course, we have to deal with the situation in which we find ourselves.

Yn ogystal â chymryd camau eang i gael impact go iawn ar yr economi wledig gyfan dros y chwe blynedd nesaf, mae'n ddyletswydd, rwy'n meddwl, ar y Llywodraeth i brofi bod yr RDP hwn yn gallu cael effaith mesuradwy yn syth ar incwm ffermydd. Dyna bwrpas gwelliant 6. Mae'r gwelliant yn gofyn am ddiweddariad blynyddol gan y Llywodraeth ar effaith y cynllun datblygu gwledig ar incwm ffermydd, ac nid wyf yn meddwl bod hynny yn ormod i'w ofyn, felly rwy'n edrych ymlaen at glywed bod y Llywodraeth yn gallu ymrwymo i wneud hynny.

In addition to taking broad steps in order to have a real impact on the rural economy as a whole over the next six years, it is a duty, I believe, on the Government to prove that the RDP can have a measurable impact immediately on farm incomes. That is the purpose of amendment 6. The amendment calls on the Government to provide an annual update on the impact of the rural development plan on farm incomes, and, as I do not think that that is too much to ask, I look forward to hearing the Government making a commitment to doing that.

Mae dyfodol ein heconomi wledig ni'n hanfodol i economi neu iechyd economi Cymru yn gyffredinol. Dyna ddiben gwelliant 8, mewn difrif. Rwy'n falch bod y Llywodraeth yn cefnogi'r gwelliant hwnnw. Mae'n deg dweud hefyd, mae'n siŵr, fod yr economi wledig yn rhan fwy canolog o'n heconomi ni nag ydy o yn achos y gwledydd eraill yn yr ynysoedd hyn. Gwnaf sôn am ddwy enghraifft o sut yr ydym yn sôn nid yn unig am amaeth ond am yr economi wledig yn gyffredinol. Mae'r sector bwyd a diod yn werth £4 biliwn yn flynyddol i Gymru. Wrth gwrs, byddem ni'n dymuno gweld cysylltiad cryfach rhwng y sector amaeth a'r sector manwerthu. Byddai hynny'n cryfhau'r dolenni cyflenwi mewnol yng Nghymru. Yn ail, mae'r sector twristiaeth hefyd yn amlwg â chysylltiadau clir efo'r economi wledig, efo'n harddwch naturiol eithriadol ni yn tynnu pobl i bob rhan o Gymru, a'r amcangyfrif yw bod twristiaeth yn werth rhyw £1.6 biliwn i'r economi yn flynyddol ac mae disgwyl i hynny dyfu dros y blynyddoedd nesaf. Felly, mae potensial yr economi wledig i greu cyfoeth yn genedlaethol yn sylweddol iawn, ac mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn gwireddu cymaint o'r potensial hwnnw ag sy'n bosibl.

The future of our rural economy is crucial to the economy or the health of the Welsh economy as a whole. That is the purpose of amendment 8, if truth be told. I am pleased that the Government will support that amendment. It is also fair to say, I am sure, that the rural economy forms a more central part of our economy than is the case in the other nations of these islands. I will mention two examples of how we are dealing here not only with agriculture, but with the wider rural economy. The food and drink sector is worth £4 billion annually to Wales. Of course, we would like to see a stronger link between the agricultural sector and the retail sector. That would strengthen the internal supply chains in Wales. Secondly, the tourism sector is also clearly linked to the rural economy, given that our exceptional natural beauty attracts people to all parts of Wales, and it is estimated that tourism is worth around £1.6 billion per annum to the Welsh economy, and that figure is expected to grow over the next few years. Therefore, the potential of the rural economy to generate wealth at a national level is very great indeed, and we must therefore ensure that we realise as much of that potential as possible.

Felly, datblygu'r economi wledig gyfan yw'r nod. Dyna'r hyn yr ydym yn ei drafod yma, ond fe wnaf i droi yn ôl at amaeth yn benodol am funud i gloi, wrth droi at welliant 7, sy'n galw am sicrhau dyfodol i'r sector amaethyddol drwy gefnogi ffermwyr ifanc. Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ei gefnogaeth i'r gwelliant hwnnw. Mae llawer o'r bobl ifanc sydd heddiw yn cael eu magu ar ffermydd ac yn dewis gadael y busnes yn dod i'r casgliad bod yn rhaid iddynt adael er mwyn cael unrhyw fath o ddyfodol. Mae angen cymorth mentora yn ogystal â chymorth ariannol ar ffermwyr ifanc ac ar ffermwyr newydd. Mae angen meddwl sut i hybu'r diwydiant fel gyrfa er mwyn denu mwy o bobl ac i sicrhau dyfodol ffyniannus i'r sector.

Therefore, developing the rural economy as a whole is the aim. That is what we are discussing here. However, I will now briefly return to agriculture, specifically, in concluding and in turning to amendment 7, which calls on the Government to safeguard the future of the agricultural sector by supporting young farmers. I am grateful to the Minister for his support to that amendment. Many of the young people who are brought up on farms today but choose to leave the family business come to the conclusion that they have to leave in order to have any sort of future. Young farmers, and new entrants alike, need mentoring support as well as financial support. We need to think how we can promote the industry as a career option in order to attract more people in and to ensure a prosperous future for the sector.

O ystyried nifer fawr o ffactorau, gan gynnwys rhai o'r rheini yr wyf i wedi'u crybwyll yn y munudau diwethaf, mae hwn yn fater o wir bwys. Rydym ni i gyd yn gytûn ar hynny, rwy'n siŵr. Dyna pam, fel dywedais, yr oeddwn yn falch o gael y cyfle i siarad heddiw, a pham mae'n rhaid i'r Llywodraeth ddelifro ar hyn.

Bearing in mind the many factors, including some of those that I have outlined over the past few minutes, this is an issue of great importance. We are all agreed on that, I am sure. That is why, as I said, I was pleased to have the opportunity to participate today and why the Government must deliver on this agenda.

16:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on William Powell to move amendment 9, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliant 9, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 9—Aled Roberts*

*Amendment 9—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cynllun Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol penodedig ar gyfer ffermydd mynydd.*

*Calls on the Welsh Government to deliver a dedicated Areas of Natural Constraint scheme for Upland farms.*

16:06

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer.

I am very pleased to have the opportunity to take part in this important debate today, and I rise to move amendment 9—a Welsh Liberal Democrat amendment—in the name of Aled Roberts.

Rwy’n falch iawn o gael y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon heddiw, ac rwy’n codi i gynnig gwelliant 9—gwelliant Democratiaid Rhyddfrydol Cymru—yn enw Aled Roberts.

We will be supporting all of the amendments today, but we will not be able to support the motion in its original form. The reason for this is simple: thus far, the jury is still out. The Government has offered us the two-month-old consultation document as a basis of its plans, but, as yet, we do not have a fuller picture upon which we can judge the actual consequences of the RDP going forward. Members here who have read and responded to that consultation—as indeed I have done—will be aware that it is far from final in that form, and rightly so. As such, it would be more than a little disingenuous to suggest that it would:

Byddwn yn cefnogi pob un o'r gwelliannau heddiw, ond ni fyddwn yn gallu cefnogi'r cynnig ar ei ffurf wreiddiol. Mae’r rheswm am hyn yn syml: hyd yn hyn, mae’r rheithgor yn dal i fod allan. Mae'r Llywodraeth wedi cynnig y ddogfen ymgynghori dau fis oed inni fel sail i’w chynlluniau, ond, hyd yn hyn, nid oes gennym ddarlun llawnach ar gyfer barnu canlyniadau gwirioneddol y Cynllun Datblygu Gwledig yn y dyfodol. Bydd yr Aelodau yma sydd wedi darllen ac wedi ymateb i’r ymgynghoriad hwnnw—fel yr wyf i wedi’i wneud—yn ymwybodol ei fod ymhell o fod ar ffurf derfynol, ac mae hynny'n briodol. Fel y cyfryw, byddai'n annidwyll braidd i awgrymu y byddai'n:

‘stimulate and strengthen the economy, environment and social cohesion of rural Wales.’

ysgogi a chryfhau’r economi, yr amgylchedd a chydlyniant cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru.

It is too early for us to make that judgment.

Mae'n rhy gynnar i ni wneud y dyfarniad hwnnw.

Turning to our own amendment, I have from the very beginning of the CAP reform process stressed the importance of sustaining the Welsh uplands—an area that remains central to the future of Welsh agriculture. In doing so, I have been critical of the Welsh Government’s decision unilaterally to cease dedicated support for the uplands and have shared the fears expressed by some farming leaders, some of them even in the public gallery today, that this decision will result in reduced farm incomes and indeed drive some long-standing farmers out of business. That is why I have continued to call upon the Welsh Government to make full use of the new areas of natural constraint—ANC—definition to introduce a dedicated support scheme for the uplands. I do so again here today. Such a scheme would help to offset the effects of farming in areas featuring permanent handicaps that result in higher operational costs. In our view, such a scheme remains vital to improve the resilience of upland farming, and it ensures that it is able to be sustained beyond the current RDP timescale. Such a scheme would also be widely supported across Welsh agriculture, and it is clear that the Welsh Government has not yet found the correct balance that will secure the future of our uplands.

Gan droi at ein gwelliant ein hunain, o gychwyn cyntaf y broses o ddiwygio'r PAC rwyf wedi pwysleisio pa mor bwysig yw cynnal yr ucheldir—ardal yng Nghymru sy'n parhau i fod yn ganolog i ddyfodol amaethyddiaeth Cymru. Wrth wneud hynny, rwyf wedi bod yn feirniadol o benderfyniad unochrog Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i gymorth penodedig ar gyfer yr ucheldiroedd ac wedi rhannu'r ofnau a fynegwyd gan rai arweinwyr ffermio, a rhai ohonynt hyd yn oed yn yr oriel gyhoeddus heddiw, y bydd y penderfyniad hwn yn arwain at lefelau incwm is ar gyfer ffermydd ac yn wir yn gyrru rhai ffermwyr hir-sefydlog allan o fusnes. Dyna pam yr wyf wedi parhau i alw ar Lywodraeth Cymru i wneud defnydd llawn o'r diffiniad o ardaloedd newydd â chyfyngiadau naturiol—ANC—i gyflwyno cynllun cymorth penodedig ar gyfer yr ucheldiroedd. Rwy’n gwneud hynny eto yma heddiw. Byddai cynllun o'r fath yn helpu i wrthbwyso effeithiau ffermio mewn ardaloedd lle y ceir anfanteision parhaol sy'n arwain at gostau gweithredu uwch. Yn ein barn ni, mae cynllun o'r fath yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn gwneud ffermio ucheldir yn fwy gwydn, ac mae'n sicrhau y gellir ei gynnal y tu hwnt i amserlen y Cynllun Datblygu Gwledig presennol. Byddai cynllun o'r fath hefyd yn cael cefnogaeth eang ar draws amaethyddiaeth yng Nghymru, ac mae'n amlwg nad yw Llywodraeth Cymru hyd yma wedi dod o hyd i'r cydbwysedd cywir a fydd yn sicrhau dyfodol ein hucheldiroedd.

I note from the consultation document itself that consideration is now finally being given to a limited scheme in the newly defined moorland areas in order to deal with the transition from historic to area-based payments. This is to be welcomed. While it will not be enough alone to undo the damage that has been wrought by other Government decisions in recent times, it will at least give some limited support and give farmers more time to adjust to the wider changes.

Nodaf o'r ddogfen ymgynghori ei hun fod ystyriaeth yn awr yn cael ei rhoi i gynllun cyfyngedig yn yr ardaloedd rhostir sydd newydd eu diffinio er mwyn ymdrin â'r newid o daliadau hanesyddol i daliadau ar sail ardal. Mae hyn i'w groesawu. Er na fydd yn ddigon ar ei ben ei hun i ddadwneud y difrod sydd wedi cael ei achosi gan benderfyniadau eraill y Llywodraeth yn ddiweddar, bydd o leiaf yn rhoi rhywfaint o gefnogaeth gyfyngedig ac yn rhoi mwy o amser i ffermwyr addasu i'r newidiadau ehangach.

In the context of improving upland resilience, the Government regularly highlights the statistic of efficiency variation between different farms in Wales. In doing so, however, it fails to recognise that a significant amount of this variation is due to the limitations placed on farmers whose farms are wholly or partly located in designated areas, such as SSSIs or, indeed, national parks. The unique circumstances of these areas can limit the types of farming practices available and reduce the options available to businesses in those locations. Linked to this, I am pleased to see that the Welsh Government is considering extending Glastir advanced contracts for all farms and commons in the new moorland zone. This would be of significant benefit to farmers within constrained zones, but will not, in and of itself, be sufficient to overcome—

Yng nghyd-destun gwneud yr ucheldir yn fwy gwydn, mae'r Llywodraeth yn tynnu sylw'n rheolaidd at yr ystadegyn sy'n dangos bod effeithlonrwydd yn amrywio rhwng gwahanol ffermydd yng Nghymru. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, nid yw'n cydnabod bod llawer iawn o'r amrywiad hwn yn deillio o'r cyfyngiadau a roddir ar ffermwyr y mae eu ffermydd wedi'u lleoli'n rhannol neu'n gyfan gwbl mewn ardaloedd dynodedig, megis SoDdGA neu, yn wir, mewn parciau cenedlaethol. Gall amgylchiadau unigryw'r ardaloedd hyn gyfyngu ar y mathau o arferion ffermio sydd ar gael a lleihau'r opsiynau sydd ar gael i fusnesau yn y lleoliadau hynny. Yn gysylltiedig â hyn, rwy'n falch o weld bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ymestyn contractau uwch Glastir ar gyfer pob fferm a thir comin yn y parth rhostir newydd. Byddai hyn o fudd sylweddol i ffermwyr o fewn parthau cyfyngedig, ond ni fydd, ynddo'i hun, yn ddigonol i oresgyn—

16:10 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would you agree with me that there are many farmers who have already signed Glastir contracts that they are already a part of, and would you not welcome an assurance by the Minister that such contracts could potentially be renegotiated should the scheme change?

A fyddech yn cytuno â mi bod llawer o ffermwyr sydd eisoes wedi llofnodi contractau Glastir y maent eisoes yn rhan ohonynt, ac oni fyddech yn croesawu sicrwydd gan y Gweinidog y gallai contractau o'r fath o bosibl gael eu hail-drafod pe byddai'r cynllun yn newid?

16:10 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Indeed. That would be an admirable statement from the Minister today to address this concern, which is shared by a number of farmers, some of whom have made representations to me.

Yn wir. Byddai hynny'n ddatganiad rhagorol gan y Gweinidog heddiw i fynd i'r afael â'r pryder hwn, sy'n cael ei rannu gan nifer o ffermwyr, y mae rhai ohonynt wedi cyflwyno sylwadau i mi.

In conclusion, the new RDP must be a key enabler for developing a resilient, sustainable and profitable rural economy here in Wales. It is only through a sensible, measured and deliverable programme that such an economy can be delivered. In conclusion, there are elements of the consultation that will work to promote this vision. However, it still requires the correct critical decisions to be made over the coming weeks, so that Wales is not left again at a competitive disadvantage to the rest of the UK and our partners within the wider European Union.

I gloi, rhaid i'r Cynllun Datblygu Gwledig newydd fod yn alluogwr allweddol ar gyfer datblygu economi wledig wydn, gynaliadwy a phroffidiol yma yng Nghymru. Dim ond trwy raglen synhwyrol, bwyllog a chyraeddadwy y gellir cyflawni economi o'r fath. I gloi, mae elfennau o'r ymgynghoriad a fydd yn gweithio i hyrwyddo'r weledigaeth hon. Fodd bynnag, mae'n dal yn ofynnol i'r penderfyniadau allweddol cywir gael eu gwneud dros yr wythnosau nesaf, fel nad yw Cymru'n cael ei gadael unwaith eto o dan anfantais gystadleuol o'i chymharu â gweddill y DU a'n partneriaid yn yr Undeb Ewropeaidd ehangach.

16:11 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I am delighted that you want to listen to our views again. I wrote in to the consultation, so you are giving me a second bite at the cherry, which I very much appreciate. As has been stated by most of the Assembly Members here today, the decision to modulate to 15% will definitely put Welsh farmers at a competitive disadvantage. There is going to be 0% modulation in Northern Ireland. There is 12% in England, which is one of the highest regions. However, when Welsh farmers are competing against French or Italian farmers, where modulation rates are at 3% and 5%, the reality is that your decision is distorting the marketplace and is, once again, placing barriers in the way of Welsh farming. By taking that money away from Welsh farmers, what you are doing is removing the decision of the individual farm business on how it can best invest the money to achieve that efficiency. Every farmer knows his land and knows his business, I would suggest, better than you or your officials do, Minister. No matter how well-meaning your intentions are, the farmers are best placed to decide how to improve the sustainability and future efficiency of their business.

Weinidog, rwyf wrth fy modd eich bod eisiau gwrando ar ein barn eto. Ysgrifennais mewn ymateb i'r ymgynghoriad, felly rydych yn rhoi ail gynnig i mi, ac rwy'n gwerthfawrogi hynny'n fawr iawn. Fel y mae'r rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad wedi'i nodi yma heddiw, bydd y penderfyniad i fodiwleiddio i 15% yn bendant yn rhoi ffermwyr Cymru o dan anfantais gystadleuol. Bydd 0% o fodiwleiddio yng Ngogledd Iwerddon. Ceir 12% yn Lloegr, sef un o'r rhanbarthau uchaf. Fodd bynnag, pan fydd ffermwyr Cymru yn cystadlu yn erbyn ffermwyr Ffrainc neu'r Eidal, lle y ceir cyfraddau modiwleiddio o 3% a 5%, y gwir amdani yw bod eich penderfyniad yn ystumio'r farchnad ac, unwaith eto, yn gosod rhwystrau yn ffordd ffermio yng Nghymru. Trwy gymryd yr arian hwnnw oddi wrth ffermwyr Cymru, yr hyn yr ydych yn ei wneud yw rhwystro busnesau fferm unigol rhag penderfynu sut y gallant fuddsoddi'r arian orau i gyflawni'r effeithlonrwydd hwnnw. Mae pob ffermwr yn adnabod ei dir a'i fusnes, byddwn yn awgrymu, yn well na chi neu eich swyddogion, Weinidog. Ni waeth pa mor llawn bwriadau da yr ydych, y ffermwyr sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut i wneud eu busnes yn fwy cynaliadwy ac effeithlon yn y dyfodol.

That said, I agree with William Powell that there are many aspects of this consultation that have the potential to impact positively on farm businesses. In particular, I would ask you to look at increasing the emphasis of the physical investment stream. You spoke about the improvements that could be made to farm buildings and to young entrants coming in. An expansion of that type of investment is welcome. I have some very real concerns, Minister, about the diversification and encouragement of energy efficiency on-farm. This is mainly because of my experience in north Wales, which indicates that it is the connection costs and problems with Scottish Power that are, in effect, causing the barrier to entry on-farm. It is not about an unwillingness to adopt the technology; it is about the very real difficulty of getting three-phase connection on-farm, and the enormously high costs. I ask your officials to look at that, because there seems to be no set criteria. Were that process to be much more transparent, I am sure that many more farms would adopt that technology, because that is the barrier to it.

Wedi dweud hynny, rwy'n cytuno â William Powell bod llawer o agweddau ar yr ymgynghoriad hwn sydd â'r potensial i gael effaith gadarnhaol ar fusnesau fferm. Yn benodol, byddwn yn gofyn i chi ystyried cynyddu pwyslais y ffrwd buddsoddiad ffisegol. Fe wnaethoch siarad am y gwelliannau y gellid eu gwneud i adeiladau fferm ac i newydd-ddyfodiaid ifanc sy'n dod i mewn. Mae croeso i ehangu'r math hwnnw o fuddsoddiad. Mae gennyf rai pryderon real iawn, Weinidog, ynglŷn ag arallgyfeirio ac annog effeithlonrwydd ynni ar y fferm. Mae hyn yn bennaf oherwydd fy mhrofiad yn y gogledd, sy'n dangos mai costau cysylltu a phroblemau gyda Scottish Power sydd, i bob pwrpas, yn achosi rhwystr ar y fferm. Nid yw'n ymwneud ag amharodrwydd i fabwysiadu'r dechnoleg; mae'n ymwneud â'r anhawster real iawn o gael cysylltiad teirgwedd ar y fferm, a'r costau aruthrol uchel. Rwy'n gofyn i'ch swyddogion edrych ar hynny, oherwydd ei bod yn ymddangos nad oes unrhyw feini prawf penodol. Pe byddai'r broses honno'n llawer mwy tryloyw, rwy'n siŵr y byddai llawer mwy o ffermydd yn mabwysiadu'r dechnoleg honno, oherwydd mai dyna'r rhwystr.

I am disappointed, Minister, that you did not release the Wales Rural Observatory reports in good time for them to be considered in relation to this consultation. They were released towards the end of it. However, what is clear from that is that the processing industry absolutely refused to co-operate in any way with the independent academic investigation. If you read the Wales Rural Observatory reports—it is no use shaking your head, Minister; it is there in black and white—you will see that it is quite clear that the industry absolutely refused to engage. There was one processor that agreed to engage. That is in the report, and I am very happy to write to you, Minister, and outline where that was.

Rwy'n siomedig, Weinidog, nad ydych wedi rhyddhau adroddiadau Arsyllfa Wledig Cymru mewn da bryd er mwyn iddynt gael eu hystyried mewn cysylltiad â'r ymgynghoriad hwn. Cawsant eu rhyddhau tua ei ddiwedd. Fodd bynnag, yr hyn sy'n amlwg o hynny yw bod y diwydiant prosesu wedi gwrthod yn llwyr â chydweithredu mewn unrhyw ffordd â'r ymchwiliad academaidd annibynnol. Os ydych yn darllen adroddiadau Arsyllfa Wledig Cymru—nid oes pwynt ysgwyd eich pen, Weinidog; mae yno mewn du a gwyn—byddwch yn gweld ei bod yn eithaf amlwg bod y diwydiant wedi gwrthod yn llwyr â chymryd rhan. Un prosesydd a gytunodd i gymryd rhan. Mae hynny yn yr adroddiad, ac rwy'n hapus iawn i ysgrifennu atoch, Weinidog, ac amlinellu lle'r oedd hynny.

16:15 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And I will correct you.

Ac fe wnaf innau eich cywiro.

16:15 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am glad, and then, perhaps, you can look into it.

Rwy'n falch, ac yna, efallai y gallwch edrych i mewn i'r mater.

It seems to me that there needs to be a bit of caution in putting a lot of money into the processing industry when it is refusing to have independent scrutiny and examination of the way in which those grants are being spent or how that sector can be improved. It is disappointing to have seen that in the Wales Rural Observatory reports on delivering the RDP.

Mae'n ymddangos i mi fod angen ychydig o ofal wrth roi llawer o arian i mewn i'r diwydiant prosesu, â'r diwydiant hwnnw'n gwrthod derbyn craffu ac archwilio annibynnol ar y ffordd y mae'r grantiau hynny'n cael eu gwario neu sut y gall y sector wella. Mae'n destun siom bod wedi gweld hynny yn adroddiadau Arsyllfa Wledig Cymru ar gyflwyno'r Cynllun Datblygu Gwledig.

I do support the suggestions in support of mobility in the farming industry, and you will know that I have been very supportive of the young farmers scheme. I wonder whether, in your response, you could talk about the mentoring. I would like to echo the points about mentoring and support in relation to succession planning on farms.

Rwyf yn cefnogi'r awgrymiadau i gefnogi symudedd yn y diwydiant ffermio, a byddwch yn gwybod fy mod wedi bod yn gefnogol iawn i'r cynllun ffermwyr ifanc. Tybed a allech chi, yn eich ymateb, siarad am y mentora. Hoffwn adleisio'r pwyntiau ynghylch mentora a chefnogaeth mewn cysylltiad â chynllunio olyniaeth ar ffermydd.

Finally, Russell George mentioned the concern that much of the RDP funding for knowledge transfer would end up going into the pockets of expensive consultants. There has been a complaint to me that many consultants charge unrealistically high fees and that farmers are not getting the kind of support and advice that they would like from those consultants. I would encourage you to look at where there is expertise on farm and in farmer-to-farmer knowledge transfer, which has been shown to be very effective in the industry.

Yn olaf, soniodd Russell George am y pryder y byddai llawer o arian y Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth yn y pen draw yn mynd i bocedi ymgynghorwyr drud. Cyflwynwyd cwyn imi bod llawer o ymgynghorwyr yn codi ffioedd afrealistig o uchel ac nad yw ffermwyr yn cael y math o gymorth a chyngor y byddent yn ei hoffi gan yr ymgynghorwyr hynny. Byddwn yn eich annog i edrych lle y ceir arbenigedd ar y fferm ac mewn trosglwyddo gwybodaeth rhwng ffermwyr—rhywbeth y dangoswyd ei fod yn effeithiol iawn yn y diwydiant.

16:16 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The one thing that I agree with the Tories on is not to use RDP money on expensive consultants. Certainly, the Welsh Government and the RDP team need to be providing that advice internally, and not using expensive consultants. That does not mean to say that there are not experts in the wider world, but I think that it is disappointing that the opposition is so opposed to the way in which the Minister has grasped the opportunities available from the RDP to bring Welsh agriculture into the twenty-first century. The CAP was set up many years ago, when the European programme was dominated by France and Germany, but the world has changed since then, and the CAP is always going to get much smaller, and, therefore, we need to support our rural communities to become sustainable as the CAP pillar 1 money reduces. The proposal is that the £300 million is not going into the agriculture industry, but that it is going into pillar 2 and somehow not ending up in the rural economy, but it is; it is going to be encouraging the rural economy and our farmers, male and female, that there have to be sustainable ways of developing the industry, and there are huge opportunities.

Yr un peth yr wyf yn cytuno â'r Toriaid yn ei gylch yw peidio â defnyddio arian y Cynllun Datblygu Gwledig ar ymgynghorwyr drud. Yn sicr, mae angen i Lywodraeth Cymru a'r tîm Cynllun Datblygu Gwledig fod yn darparu'r cyngor hwnnw'n fewnol, a pheidio â defnyddio ymgynghorwyr drud. Nid yw hynny'n golygu nad oes arbenigwyr yn y byd ehangach, ond rwy'n meddwl ei bod yn destun siom bod yr wrthblaid mor wrthwynebus i'r ffordd y mae'r Gweinidog wedi manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael yn sgil y Cynllun Datblygu Gwledig i ddod ag amaethyddiaeth Cymru i mewn i'r unfed ganrif ar hugain. Cafodd y PAC ei sefydlu flynyddoedd lawer yn ôl, pan oedd y rhaglen Ewropeaidd yn cael ei llywio gan Ffrainc a'r Almaen. Ond mae'r byd wedi newid ers hynny, ac mae'r PAC yn sicr o fynd yn llawer llai, ac, felly, mae angen inni gefnogi ein cymunedau gwledig i ddod yn gynaliadwy wrth i arian colofn 1 PAC leihau. Y cynnig yw bod y £300 miliwn yn mynd i mewn i golofn 2 yn hytrach na'r diwydiant amaeth, ac nad yw rhywsut yn diweddu yn yr economi wledig, ond nid felly y mae hi; mae'n mynd i fod yn annog yr economi wledig a'n ffermwyr, yn ddynion a menywod, bod rhaid cael ffyrdd cynaliadwy o ddatblygu'r diwydiant, ac mae cyfleoedd enfawr.

Last week, I visited—

Yr wythnos diwethaf, ymwelais â—

16:18 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

16:18 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Come on, then.

Dewch ymlaen, 'te.

16:18 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very grateful. I respect the Minister's right to do what he has done with the 15%, but do you not recognise the real problem, which is that, with the Republic of Ireland being a major competitor in the marketplace and having a zero rate of modulation, and with Welsh farmers facing 15% modulation, it nullifies the competitive argument that you are trying to put over?

Rwy'n ddiolchgar iawn. Rwy'n parchu hawl y Gweinidog i wneud yr hyn y mae wedi'i wneud gyda'r 15%, ond onid ydych yn cydnabod y broblem go iawn, sef bod y ddadl gystadleuol yr ydych yn ceisio ei chyfleu yn cael ei dirymu gan y ffaith fod gan Weriniaeth Iwerddon sy'n gystadleuydd mawr yn y farchnad gyfradd fodiwleiddio o sero, a bod ffermwyr Cymru yn wynebu modiwleiddio o 15%?

16:18 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I simply do not accept the proposal that people with a turnover of more than £0.25 million need to have subsidies, which is what is going on in England. I think that it is absolutely right that the Minister has capped subsidies for the wealthy farmers. However, I want to look at something much more basic than that, which is the way in which the RDP programme has been very successful in encouraging people to develop horticultural projects, which I think is an area that we are weak on in Wales, and there are opportunities to do much better. Last week, I visited the Brit Growers' project in Evanstown, which is in the Ogmore valley on the border between Bridgend and Rhondda Cynon Taf—Brit Growers because it is on the site of the old Britannic colliery. This is one of the most successful LEADER projects in the RDP, under the Community Foodie initiative. It has people in the local community involved in growing their own, increasing their consumption of fruit and veg, exercising more in the open air, getting more confident about being involved in the local community, and there is also anecdotal evidence of a reduction in prescriptions for depression. That is something that I think needs proper analysis, as it could be that this is a really important way of addressing many of the issues that face those who are economically inactive.

Nid wyf yn derbyn y cynnig bod angen i bobl sydd â throsiant o fwy na £0.25 miliwn gael cymorthdaliadau, sef yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Credaf ei bod yn hollol iawn bod y Gweinidog wedi capio cymorthdaliadau ar gyfer y ffermwyr cyfoethog. Fodd bynnag, rwyf am edrych ar rywbeth llawer mwy sylfaenol na hynny, sef y ffordd y mae'r rhaglen Cynllun Datblygu Gwledig wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran annog pobl i ddatblygu prosiectau garddwriaethol. Credaf fod hwn yn faes lle'r ydym yn wan yng Nghymru, a cheir cyfleoedd i wneud llawer yn well. Yr wythnos diwethaf, ymwelais â phrosiect Brit Growers yn Evanstown, sydd yng nghwm Ogwr ar y ffin rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf—Brit Growers oherwydd ei fod ar safle hen lofa Britannic. Dyma un o'r prosiectau LEADER mwyaf llwyddiannus yn y Cynllun Datblygu Gwledig, o dan y fenter Bwyd Cymunedol. Mae'n annog pobl yn y gymuned leol i gymryd rhan mewn tyfu eu bwyd eu hunain, bwyta mwy o ffrwythau a llysiau, ymarfer mwy yn yr awyr agored, dod yn fwy hyderus i gymryd rhan yn y gymuned leol, a cheir tystiolaeth anecdotaidd hefyd o ostyngiad mewn presgripsiynau ar gyfer iselder. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen ei ddadansoddi'n briodol, yn fy marn i, oherwydd y gallai hon fod yn ffordd bwysig iawn o fynd i'r afael â llawer o'r problemau sy'n wynebu pobl sy'n economaidd anweithgar.

I also visited another community foodie project in Treoes in the Vale of Glamorgan—a very different area, without the long-term unemployment issues present in Evanstown. Here, we have captured the energy and initiative of recently retired people who have transformed a disused tennis court into a thriving community garden in less than a year. Not only do they have more orders from local restaurants and pubs than they can possibly meet at the moment, their innovative irrigation schemes, based on the husbanding of rain water, offers learning for us all. Water is the new gold. Using the expertise of these retired engineers, keeping people healthy in the third age and reviving community spirit with events at the village hall—which I know the Member for the Vale of Glamorgan has attended—are some of the huge social benefits that we should be able to offer people across Wales.

Ymwelais hefyd â phrosiect bwyd cymunedol arall yn Nhreoes ym Mro Morgannwg—ardal wahanol iawn, heb y problemau diweithdra hirdymor sy'n bresennol yn Evanstown. Yma, rydym wedi harneisio egni a menter pobl sydd wedi ymddeol yn ddiweddar er mwyn gweddnewid cwrt tennis segur yn ardd gymunedol ffyniannus mewn llai na blwyddyn. Maent yn cael mwy o archebion gan fwytai a thafarndai lleol nag y gallant eu diwallu ar hyn o bryd, ac mae eu cynlluniau dyfrhau arloesol, sy'n seiliedig ar defnyddio dŵr glaw, yn cynnig gwers i ni i gyd. Dŵr yw'r aur newydd. Mae defnyddio arbenigedd y peirianwyr hyn sydd wedi ymddeol, cadw pobl yn iach yn y drydedd oes ac adfywio ysbryd cymunedol gyda digwyddiadau yn y neuadd bentref—rwy'n gwybod bod yr Aelod dros Fro Morgannwg wedi eu mynychu—yn rhai o'r manteision cymdeithasol enfawr y dylem fod yn gallu eu cynnig i bobl ledled Cymru.

Demand for locally produced fruit and veg is not being met at the moment and the RDP needs to continue to promote such initiatives, learning from the success of the community foodie scheme. In particular, I want to highlight the success—going back to Evanstown—of development into a sustainable social enterprise, selling rare species of Welsh fruit trees: the Denbigh plum, circa 1785, is the only native plum tree to have survived; the Bardsey island apple tree is hailed as the rarest tree in the world, discovered by chance in 1989; and the Cariad cherry tree is the last surviving Welsh species. This is a fantastic project, which I hope can be rolled out to communities across Wales, with community foodie champions in all of our local authorities, not just the three that are currently involved. I am delighted that that bottom-up approach has been endorsed by the RDP advisory group as the engine of innovation, supporting enterprise and providing the methodology by which community-led local development is delivered.

Nid yw'r galw am ffrwythau a llysiau a gynhyrchir yn lleol yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd ac mae angen i'r Cynllun Datblygu Gwledig barhau i hyrwyddo mentrau o'r fath, gan ddysgu yn sgil llwyddiant y cynllun bwyd cymunedol. Yn benodol, rwy'n awyddus i dynnu sylw at y lwyddiant—gan fynd yn ôl i Evanstown—o datblygu i fod yn fenter gymdeithasol gynaliadwy, yn gwerthu rhywogaethau prin o goed ffrwythau Cymreig: eirin Dinbych, tua 1785, yw'r unig goeden eirin frodorol sydd wedi goroesi; mae coeden afalau ynys Enlli yn cael ei galw'r goeden brinnaf yn y byd, a ddarganfuwyd drwy hap a damwain ym 1989; a'r goeden geirios Cariad yw'r rhywogaeth Gymreig olaf sydd wedi goroesi. Mae hwn yn brosiect gwych, ac rwy'n gobeithio y gellir ei gyflwyno i gymunedau ledled Cymru, gyda hyrwyddwyr bwyd cymunedol ym mhob un o'n hawdurdodau lleol, nid dim ond y tri sydd ynghlwm ar hyn o bryd. Rwy'n falch iawn bod grŵp cynghori'r Cynllun Datblygu Gwledig wedi cymeradwyo'r dull o'r gwaelod i fyny fel sbardun ar gyfer arloesi, cefnogi menter a darparu'r fethodoleg ar gyfer cyflawni datblygiad lleol dan arweiniad y gymuned.

16:22 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I draw Members' attention to my declaration in the register of Members' interests. I will begin by thanking the Minister for taking the time and trouble at the beginning of the Easter recess to meet with me and some of my constituents who farm in the Elan valley. His attendance at that meeting was very much appreciated by them. The challenges that they face have been rehearsed in this Chamber by me previously, but the Minister was able to see and listen first hand to the challenges of farming in that environment, under the new regimes that he proposes. At that meeting, and at that time, he appeared to accept that those farming predominantly in the moorlands were in need of additional assistance, although perhaps, given the Minister's comments this afternoon, I might have been wrong in reading the mood music. However, those who have holdings predominantly in the moorland will need additional assistance at this time. Although I welcome very much the suggestion by the Minister in his document and subsequently that he will bring forward a domestic scheme to assist a small number of farmers, it does not fully address the problems that are facing many of those who are farming in the wider uplands; hence, amendment 9 by my colleague this afternoon. Before the Minister leaps up to tell me that Glastir is the answer, he well knows that that scheme is based on income foregone and it is not—and never was—designed to help farmers to offset the effects of farming in areas of permanent handicap, which many of my constituents do. To do that, we need a comprehensive areas of natural constraint scheme.

Tynnaf sylw Aelodau at fy natganiad yng ngofrestr buddiannau'r Aelodau. Dechreuaf drwy ddiolch i'r Gweinidog am gymryd yr amser a'r drafferth ar ddechrau toriad y Pasg i gyfarfod â mi a rhai o'm hetholwyr sy'n ffermio yng nghwm Elan. Roeddent yn gwerthfawrogi'n fawr ei bresenoldeb yn y cyfarfod hwnnw. Rwyf wedi trafod o'r blaen yn y Siambr hon yr heriau y maent yn eu hwynebu, ond roedd y Gweinidog yn gallu gweld a gwrando'n bersonol ar heriau ffermio yn yr amgylchedd hwnnw, o dan y trefniadau newydd a gynigir ganddo. Yn y cyfarfod hwnnw, ac ar y pryd, roedd yn ymddangos fel pe bai'n derbyn bod ar y rhai sy'n ffermio yn bennaf yn y rhostiroedd angen cymorth ychwanegol, er y gallwn efallai, o ystyried sylwadau'r Gweinidog y prynhawn yma, fod wedi bod yn anghywir wrth ddarllen y sefyllfa. Fodd bynnag, bydd angen cymorth ychwanegol ar y rhai sydd â daliadau'n bennaf yn y rhostir ar hyn o bryd. Er fy mod yn croesawu'n fawr yr awgrym gan y Gweinidog yn ei ddogfen ac wedi hynny y bydd yn cyflwyno cynllun domestig i gynorthwyo nifer fach o ffermwyr, nid yw'n mynd i'r afael yn llawn â'r problemau sy'n wynebu llawer o'r rhai sy'n ffermio yn yr ucheldir ehangach; dyna pam y cyflwynwyd gwelliant 9 gan fy nghydweithiwr brynhawn heddiw. Cyn i'r Gweinidog neidio i fyny i ddweud wrthyf mai Glastir yw'r ateb, mae'n gwybod yn dda bod y cynllun yn seiliedig ar incwm a gollir ac nad yw wedi ei gynllunio —ac ni chafodd erioed ei gynllunio—i helpu ffermwyr i wneud iawn am effeithiau ffermio mewn ardaloedd o anfantais barhaol, fel y mae llawer o'm hetholwyr yn ei wneud. Er mwyn gwneud hynny, mae angen cynllun cynhwysfawr ar gyfer ardaloedd â chyfyngiadau naturiol.

The Minister said this afternoon that he wants to know what we think, so here is a starter for 10, Minister. Proposals for a part-farmed environmental scheme via the Glastir badge are to be very much welcomed. A Glastir entry-level scheme should be accessible to all. There is not a holding in Wales that does not have something to add to the environmental agenda. That has been part of the problem with the design of the Glastir scheme to date. Changes in that regard are very much to be welcomed. A reform scheme could deliver could deliver real gains for our environment as well as for our farmers. The Minister says that he wants to make the industry more resilient, profitable and sustainable—of course. It is not as if my constituents involved in the industry work seven days a week, 365 days of the year, to make a loss. Let the Minister put his money where his mouth is. Cuts to pillar 1 payments are going to have a detrimental effect on individual farm businesses' ability to invest to make that business more profitable, more sustainable, and to make it pay. The Minister could redress this by significantly increasing the budget allocated to the investment measure in the RDP. The ability to invest in performance recording equipment such as e-ID, the ability to invest in proper handling equipment, the ability to invest in new stock housing cubicle sheds, will make a real difference to a farm's profitability. Equipment to improve the quality of the soil and the land—liming, for instance—could make a real difference to the profitability of individual farm businesses, as well as measures such as energy efficiency schemes, which could cut farmers' costs.

Dywedodd y Gweinidog brynhawn heddiw ei fod am wybod beth yr ydym yn ei feddwl, felly dyma rywbeth gwerth 10 pwynt i ddechrau, Weinidog. Mae croeso mawr iawn i gynigion ar gyfer cynllun amgylcheddol ffermio rhannol trwy gyfrwng y bathodyn Glastir iawn. Dylai cynllun Glastir lefel mynediad fod ar gael i bawb. Nid oes daliad yng Nghymru nad oes ganddo rywbeth i'w ychwanegu at yr agenda amgylcheddol. Mae hynny wedi bod yn rhan o'r broblem gyda chynllun y cynllun Glastir hyd yma. Mae newidiadau yn hynny o beth i'w croesawu'n fawr iawn. Gallai cynllun diwygiedig gyflwyno manteision go iawn ar gyfer ein hamgylchedd, yn ogystal ag ar gyfer ein ffermwyr. Mae'r Gweinidog yn dweud ei fod am wneud y diwydiant yn fwy gwydn, proffidiol a chynaliadwy—wrth gwrs. Nid yw fy etholwyr sydd ynghlwm â'r diwydiant yn gweithio saith diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn, i wneud colled. Gadewch i'r Gweinidog roi ei arian ar ei air. Mae toriadau i daliadau colofn 1 yn mynd i gael effaith niweidiol ar allu busnesau fferm unigol i fuddsoddi i wneud y busnes yn fwy proffidiol, yn fwy cynaliadwy, ac i wneud iddo dalu. Gallai'r Gweinidog unioni hyn trwy gynyddu'n sylweddol y gyllideb a ddyrennir i'r mesur buddsoddiad yn y Cynllun Datblygu Gwledig. Mae'r gallu i fuddsoddi mewn offer cofnodi perfformiad megis e-adnabod, y gallu i fuddsoddi mewn offer trin priodol, y gallu i fuddsoddi mewn siediau ciwbicl cadw stoc newydd, yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i broffidioldeb y fferm. Gallai offer i wella ansawdd y pridd a'r tir—calchu, er enghraifft— wneud gwahaniaeth gwirioneddol i broffidioldeb busnesau fferm unigol, yn ogystal â mesurau megis cynlluniau arbed ynni, a allai leihau costau ffermwyr.

While I acknowledge that there may always be a place for external advice, it should not be a compulsory element of any application under such measures for support. We have all been there before with advisers who know less about farming and farmers than the people they are supposedly advising. We do not want to go there again. The same is true with regard to the human and social capital measures being proposed in the RDP. Minister, sometimes, the way you say things, you would swear that the industry does not know what it is doing. It does. It does know how to farm. However, support in this measure that looks to develop leadership, business management skills and beneficial new technologies into farming could make a real difference.

Er fy mod yn cydnabod y gall fod lle bob amser i gael cyngor allanol, ni ddylai fod yn elfen orfodol o unrhyw gais o dan fesurau o'r fath am gymorth. Rydym i gyd wedi bod yno o'r blaen gydag ymgynghorwyr sy'n gwybod llai am ffermio a ffermwyr na'r bobl y maent yn eu cynghori. Nid ydym am fod yn y sefyllfa honno eto. Mae'r un peth yn wir o ran y mesurau cyfalaf dynol a chymdeithasol sy'n cael eu cynnig yn y Cynllun Datblygu Gwledig. Weinidog, weithiau, byddech yn taeru o'r ffordd yr ydych yn dweud pethau, nad yw'r diwydiant yn gwybod beth y mae'n ei wneud. Mae'n gwybod. Mae'n gwybod sut i ffermio. Fodd bynnag, gallai cefnogaeth yn y mesur hwn sy'n bwriadu datblygu arweinyddiaeth, sgiliau rheoli busnes a thechnolegau newydd buddiol ym maes ffermio wneud gwahaniaeth go iawn.

16:26 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

I would like to thank all Members who have taken part in the debate today. I will single out Russell George, who seems to criticise me for doing too much and being too busy; that is certainly something I was glad to see on the record. It is not often that we thank our opposition spokespeople for their kindness, but I can do that this afternoon.

Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl heddiw. Byddaf yn sôn yn benodol am Russell George, sydd fel petai'n fy meirniadu am wneud gormod a bod yn rhy brysur; mae hynny'n sicr yn rhywbeth yr wyf yn falch o'i weld ar y cofnod. Nid ydym yn aml yn diolch i lefarwyr y gwrthbleidiau am eu caredigrwydd, ond gallaf wneud hynny brynhawn heddiw.

I broadly welcome the contributions that have been made by Members in their different ways this afternoon. The comments made by Kirsty Williams in her conclusion are absolutely correct, of course—we do need to work alongside the industry to make the investments that ensure that individual farm businesses are competitive. However, the key argument, and the key debate that we need to have this afternoon and as we go forward with the RDP, is about how we deliver that competitiveness for the future. You do not deliver efficiency and competitiveness by increased public subsidy, particularly at a time when that public subsidy is being reduced year on year, and particularly when you argue for increased public subsidy. I have spent two years listening to Liberal Democrats and Conservative Ministers in London and elsewhere say that they want to see significant reductions to pillar 1 in the CAP and significant reductions to the level of support for farmers. In the last month or so, the English Minister for farming argued for the abolition of pillar 1 in its entirety. So, when I listen to the Conservative leader telling me about competitiveness—[Interruption.] I will give way. I must say, 'Physician, heal thyself'.

Rwy'n croesawu'n fras y cyfraniadau a wnaed gan yr Aelodau yn eu gwahanol ffyrdd y prynhawn yma. Mae'r sylwadau a wnaed gan Kirsty Williams yn ei chasgliad yn hollol gywir, wrth gwrs—mae angen inni weithio ochr yn ochr â'r diwydiant i wneud y buddsoddiadau sy'n sicrhau bod busnesau ffermydd unigol yn gystadleuol. Fodd bynnag, y ddadl allweddol, a'r drafodaeth allweddol y mae angen inni ei chael brynhawn heddiw ac wrth inni symud ymlaen gyda'r Cynllun Datblygu Gwledig, yw sut yr ydym yn cyflawni'r sefyllfa gystadleuol honno ar gyfer y dyfodol. Nid ydych yn sicrhau diwydiant effeithlon a chystadleuol trwy gynyddu'r cymhorthdal cyhoeddus, yn enwedig ar adeg pan fydd y cymhorthdal cyhoeddus yn cael ei leihau o flwyddyn i flwyddyn, ac yn enwedig pan ydych yn dadlau am fwy o gymhorthdal cyhoeddus. Rwyf wedi treulio dwy flynedd yn gwrando ar y Democratiaid Rhyddfrydol a Gweinidogion Ceidwadol yn Llundain ac mewn mannau eraill yn dweud eu bod am weld gostyngiadau sylweddol i golofn 1 yn y PAC a gostyngiadau sylweddol yn lefel y gefnogaeth i ffermwyr. Yn y mis diwethaf, dadleuodd Gweinidog Lloegr dros ffermio y dylid diddymu colofn 1 yn ei chyfanrwydd. Felly, pan fyddaf yn gwrando ar arweinydd y Ceidwadwyr yn sôn wrthyf am yr angen i fod yn gystadleuol—[Torri ar draws.] Byddaf yn ildio. Rhaid i mi ddweud, 'Feddyg, iachâ dy hun'.

16:28 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you for taking the intervention, Minister. I take the point—you as Minister have the right to do what you think is right for the industry—but do you not recognise that, when you are talking about a competitive environment, one of your major competitors, just a few miles across the Irish sea, has a zero-based modulation rate? You are asking our farmers to compete in the same beef, sheep, arable and milk markets as farmers there, but we are at a massive handicap as an industry in competing in that field.

Diolch ichi am gymryd yr ymyriad, Weinidog. Rwy'n derbyn y pwynt—mae gennych chi fel Gweinidog yr hawl i wneud yr hyn yr ydych yn credu sy'n iawn ar gyfer y diwydiant—ond onid ydych yn cydnabod, pan fyddwch yn sôn am amgylchedd cystadleuol, bod gan un o'ch prif gystadleuwyr, dim ond ychydig filltiroedd ar draws môr Iwerddon, gyfradd fodiwleiddio o sero? Rydych yn gofyn i'n ffermwyr gystadlu yn yr un marchnadoedd cig eidion, defaid, tir âr a llaeth â ffermwyr yno, ond rydym dan anfantais enfawr fel diwydiant wrth gystadlu yn y maes hwnnw.

16:28 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

No, you are not, because what we are doing is making the investments to give you long-term sustainability and competitiveness. At a time when pillar 1 is being cut by your Government—which argued for greater cuts than we saw, if you remember—you will see significant reductions, and if you are reliant on that system, there will come a time when your competitiveness disappears and your business will no longer be viable. That is why I took the decision that I took, and I stand by it today. I would take exactly the same decision today. That is why we are putting in place the biggest single investment in the future of the agriculture industry that this country has ever seen. That investment will not just ensure competitiveness and the ability to pay the bills this year and next year, but that agriculture will be sustainable and competitive into the far-distant future. I think that that is what people want to hear.

Na, nid ydych chi, oherwydd mai'r hyn yr ydym ni'n ei wneud yw buddsoddi er mwyn bod yn gynaliadwy a chystadleuol yn y tymor hir. Ar adeg pan fo'ch Llywodraeth chi yn gwneud toriadau i golofn 1—Llywodraeth a oedd yn dadlau dros fwy o doriadau nag a welsom, os cofiwch—byddwch yn gweld gostyngiadau sylweddol, ac os ydych yn dibynnu ar y system honno, fe ddaw amser pan fydd eich gallu cystadleuol yn diflannu ac ni fydd eich busnes bellach yn hyfyw. Dyna pam y gwnes i'r penderfyniad a wnes, ac rwy'n cadw ato heddiw. Byddwn yn gwneud yn union yr un penderfyniad heddiw. Dyna pam yr ydym yn cyflwyno'r buddsoddiad sengl mwyaf y mae'r wlad hon wedi'i weld erioed yn nyfodol y diwydiant amaethyddol. Yn ogystal â sicrhau diwydiant cystadleuol a'r gallu i dalu'r biliau eleni a'r flwyddyn nesaf, bydd y buddsoddiad hwnnw'n sicrhau y bydd amaethyddiaeth yn gynaliadwy a chystadleuol yn y dyfodol pell. Rwy'n meddwl mai dyna beth mae pobl am ei glywed.

The other point that I will make, having listened to the debate this afternoon, is how different it is to the debates that I have up and down Wales, talking to farmers day in, day out, week in, week out. Kirsty Williams mentioned our conversation in the Elan valley; it was a very good conversation, of course, but we did not have the debate there that we have had this afternoon. What they were concerned about was how we work with the industry to deliver sustainability into the future. When I listen to people who simply say, 'We need additional levels of subsidy through an areas of natural constraint scheme that will give support to those who are winners from the changes that we are producing as well as those who are losing out', and who then argue for greater levels of public support, I say that we cannot, at a time of change that will see losers in some parts of the agriculture industry, say that we will introduce a new scheme that will reward people who have won anyway. That is simply not fair; it is not what those people wanted and it is not what the industry wants, either.

Y pwynt arall y byddaf yn ei wneud, ar ôl gwrando ar y ddadl y prynhawn yma, yw pa mor wahanol ydyw i'r dadleuon yr wyf yn eu cael ar hyd a lled Cymru, wrth siarad â ffermwyr ddydd ar ôl dydd, wythnos ar ôl wythnos. Soniodd Kirsty Williams am ein sgwrs yng nghwm Elan; roedd yn sgwrs dda iawn, wrth gwrs, ond ni chawsom y ddadl yno yr ydym wedi ei chael brynhawn heddiw. Yr hyn yr oeddent yn pryderu yn ei gylch oedd sut rydym yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol. Pan fyddaf yn gwrando ar bobl sy'n dweud yn syml, 'Mae angen lefelau cymhorthdal ychwanegol trwy gynllun ardaloedd â chyfyngiadau naturiol a fydd yn rhoi cymorth i'r rhai sydd ar eu hennill yn sgil y newidiadau yr ydym yn eu cynhyrchu yn ogystal ag i'r rhai sydd ar eu colled', ac sydd wedyn yn dadlau dros lefelau uwch o gefnogaeth gyhoeddus, dywedaf na allwn ni ddweud, ar adeg o newid a fydd yn gweld rhai rhannau o'r diwydiant amaethyddol ar eu colled, y byddwn yn cyflwyno cynllun newydd a fydd yn gwobrwyo pobl sydd wedi ennill beth bynnag. Nid yw hynny'n deg; nid dyma beth y mae'r bobl hynny ei eisiau ac nid dyma beth y mae'r diwydiant ei eisiau, chwaith.

16:30 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:30 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I will not take an intervention now, because I am running out of time. However, let me say that I am working for the long-term sustainable competitiveness of the industry and to deliver what Rhun ap Iorwerth described as investments in the wider integrated rural economy. What we need to ensure is that we can make investments that will sustain rural communities and the rural economy, now and into the long term.

Nid wyf am dderbyn ymyriad yn awr, gan fod fy amser yn dod i ben. Fodd bynnag, gadewch i mi ddweud fy mod yn gweithio i sicrhau cystadleurwydd cynaliadwy tymor hir y diwydiant ac i gyflwyno'r hyn a ddisgrifiodd Rhun ap Iorwerth fel buddsoddiadau yn economi integredig ehangach cefn gwlad. Yr hyn y mae angen ei sicrhau yw y gallwn wneud buddsoddiadau a fydd yn cynnal cymunedau gwledig ac economi cefn gwlad, yn awr ac yn y tymor hir.

We have the ability, over the next few years, to be spending nearly £1 billion making these investments, making investments in the processing industry, making investments in the wider food manufacturing and food production industries, making investments in protecting the sustainable land management and water management of Wales, making investments that will guarantee the future of rural communities for future generations, making investments that will change the face of this country, and making investments that will ensure that we can say that we took the difficult decisions and we made the investments when they needed to be made. What we have done is to secure the future of the agriculture industry and invest in the future of the whole rural economy.

Mae gennym y gallu, dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, i fod yn gwario bron i £1 biliwn yn gwneud y buddsoddiadau hyn, yn buddsoddi yn y diwydiant prosesu, yn buddsoddi yn y diwydiannau gweithgynhyrchu bwyd a chynhyrchu bwyd ehangach, yn buddsoddi er mwyn amddiffyn dulliau cynaliadwy o reoli tir a dŵr Cymru, yn gwneud buddsoddiadau a fydd yn gwarantu dyfodol cymunedau gwledig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, yn gwneud buddsoddiadau a fydd yn newid wyneb y wlad hon, ac yn gwneud buddsoddiadau a fydd yn sicrhau y gallwn ddweud ein bod wedi gwneud y penderfyniadau anodd ac wedi buddsoddi pan oedd angen gwneud hynny. Yr hyn yr ydym wedi ei wneud yw sicrhau dyfodol y diwydiant amaethyddol a buddsoddi yn nyfodol economi gyfan cefn gwlad.

16:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There is objection; therefore, I defer all voting under this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar welliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad; Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohirwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Dadl: Ail Adroddiad Comisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru

## Debate: The Second Report of the Silk Commission on Devolution in Wales

*Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts.*

*The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts.*

16:32

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Prif Weinidog.

I call on the First Minister.

Cynnig NDM5491 Lesley Griffiths

Motion NDM5491 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn croesawu cyhoeddi adroddiad diweddaraf Comisiwn Silk gan Lywodraeth y DU, y cytunwyd arno'n unfrydol, sef 'Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru', ac yn ystyried yr adroddiad fel sail i'r angen mawr am ddiwygio'r setliad datganoli i Gymru.

Welcomes the publication of the latest unanimously agreed report by the UK Government's Silk Commission—'Empowerment and Responsibility: Legislative Powers to Strengthen Wales' and views the report as the basis for much needed reform of the devolution settlement for Wales.

16:32

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Rydym ni, fel Llywodraeth, yn croesawu'r ail adroddiad gan gomisiwn Silk. Rydym yn credu ei fod yn rhoi sylfaen gadarn inni ynglŷn â symud ymlaen gyda'r setliad cyfansoddiadol hwn yng Nghymru. Rydym yn gobeithio, wrth gwrs, y gallwn ddod i ryw fath o gonsensws ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Byddwn ni, fel Llywodraeth, yn gwrando ar y pwyntiau sy'n cael eu gwneud heddiw cyn ystyried gwneud datganiad llawn cyn bod y Cynulliad yn codi am yr haf. Fodd bynnag, hoffwn i, mewn ffordd ymarferol, sicrhau bod y datganiad hwnnw yn dangos sefyllfa o gonsensws, mor bell ag sy'n bosibl, rhwng y pleidiau sydd yn y Cynulliad. Yn yr ysbryd hwnnw, felly, byddwn yn derbyn gwelliant 1 sy'n ychwanegu at y ddadl ei hun a'r cynnig.

We, as a Government, welcome the second report of the Silk commission. We believe that it gives us a firm foundation in terms of progressing with the constitutional settlement in Wales. We hope, of course, that we will be able to reach some sort of consensus on the way forward. We, as a Government, will listen to the points made today before considering making a full statement before the Assembly goes into summer recess. However, I would like, in a practical way, to ensure that that statement does demonstrate a situation of consensus, as far as possible, among the parties represented in the Assembly. In that spirit, therefore, we will accept amendment 1, which adds to the debate itself and the motion.

That consensus will be critical as we enter a period of fundamentally rethinking the constitution of the UK. Whatever the outcome of the Scottish referendum, there will undoubtedly be a major shift in that country's relationship with the rest of the UK. Let nobody think that, somehow, we can go back to where things were in the 1980s and 1990s in pre-devolution days; those days are long gone.

Bydd y consensws hwnnw'n hanfodol wrth inni symud i gyfnod o ailystyried cyfansoddiad y DU yn sylfaenol. Beth bynnag fydd canlyniad refferendwm yr Alban, byddwn yn sicr o weld newid mawr ym mherthynas y wlad honno â gweddill y DU. Peidied neb â meddwl y gallwn, rhywsut, fynd yn ôl i sut yr oedd pethau yn y 1980au a'r 1990au yn y dyddiau cyn datganoli; mae'r dyddiau hynny wedi hen fynd.

It is an opportunity for us to put Wales in a more sustainable position that reflects both our commitment to the UK and the central role of the devolved institutions in the governance of our country—a situation that I have, in the past, described as giving respect to multi-centres of elected democracy. If we are clear and broadly agreed on our future aspirations, we will be in the strongest possible position to negotiate with the UK Government as these debates unfold.

Mae'n gyfle i ni roi Cymru mewn sefyllfa fwy cynaliadwy sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i'r DU a rôl ganolog y sefydliadau datganoledig yn y broses o lywodraethu ein gwlad—sefyllfa yr wyf, yn y gorffennol, wedi'i disgrifio fel rhoi parch i sawl canolfan i ddemocratiaeth etholedig. Os ydym yn eglur ac yn gytûn yn fras ynglŷn â'n dyheadau at y dyfodol, byddwn yn y sefyllfa gryfaf bosibl i drafod gyda Llywodraeth y DU wrth i'r dadleuon hyn ddatblygu.

The commission's report gives us a platform to reform our governance arrangements that are out of date and out of step in terms of the people of Wales. We have come a very long way since 1999. There are many of us in the Chamber—Dirprwy Lywydd, you are one—who will recall having intensive debates on such exciting legislation as the Undersized Whiting (Revocation) (Wales) Order 2001 and the Potatoes Originating in Egypt (Amendment) (Wales) Regulations 2000. [Laughter.] Why? Such legislation was brought to the floor of the Assembly because we did not have the primary powers that we have now.

Mae adroddiad y comisiwn yn rhoi llwyfan inni ddiwygio ein trefniadau llywodraethu sydd wedi dyddio ac allan ohoni o ran pobl Cymru. Rydym wedi dod yn bell iawn ers 1999. Mae llawer ohonom yn y Siambr—Ddirprwy Lywydd, rydych chi yn un—sy'n cofio cael trafodaethau dwys ar ddeddfwriaeth gyffrous megis Gorchymyn Gwyniaid Môr Rhy Fach (Dirymu) (Cymru) 2001 a Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) 2000. [Chwerthin.] Pam? Daethpwyd â deddfwriaeth o'r fath i lawr y Cynulliad oherwydd nad oedd gennym y pwerau sylfaenol sydd gennym yn awr.

We have come a very long way in terms of our capability to govern, to legislate and to scrutinise and hold the Executive to account, although the latter is not a task that I have to carry out. The changes proposed by the commission are significant and will need careful planning, but viewed against the progress made since 1999, they are evolutionary rather than revolutionary.

Rydym wedi dod yn bell iawn o ran ein gallu i lywodraethu, i ddeddfu ac i graffu ar y Weithrediaeth a'i dwyn i gyfrif, er nad yw'r olaf yn dasg y mae'n rhaid i mi ei chyflawni. Mae'r newidiadau a gynigir gan y comisiwn yn arwyddocaol a bydd angen cynllunio gofalus, ond o'u hystyried yng ngoleuni'r datblygiadau a welwyd ers 1999, maent yn esblygol yn hytrach nag yn chwyldroadol.

However, I will be brief in mentioning the key elements of the report. First, on the reserved-powers model, there is very wide support that this is the right way to go. The arguments are familiar to Members. Given the commission's guiding principles, and the weight of evidence received, the conclusion, I believe, was inescapable.

Fodd bynnag, byddaf yn gryno wrth sôn am elfennau allweddol yr adroddiad. Yn gyntaf, o ran y model cadw pwerau yn ôl, ceir cefnogaeth eang iawn mai dyma'r ffordd gywir i fynd. Mae'r Aelodau'n gyfarwydd â'r dadleuon. O ystyried egwyddorion arweiniol y comisiwn, a phwysau'r dystiolaeth a dderbyniwyd, roedd y casgliad, yn fy marn i, yn anochel.

Secondly, where the commission recommends enhanced powers, many of these relate to areas that are already largely devolved, for example, water, transport, planning and teachers' pay. The commission made it clear that transfers of powers must be conditional— and this is a crucial point—on transfers of funding being fully agreed by the two Governments in each case. Again, that is fundamental to the transfer of further powers to this place.

Yn ail, pan fydd y comisiwn yn argymell pwerau uwch, mae llawer o'r rhain yn ymwneud â meysydd sydd eisoes wedi'u datganoli i raddau helaeth, er enghraifft, dŵr, trafnidiaeth, cynllunio a thâl athrawon. Roedd y comisiwn yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r ddwy Lywodraeth gytuno'n llawn ym mhob achos ar drosglwyddiadau cyllid—ac mae hyn yn hanfodol—cyn y gellir trosglwyddo pwerau. Unwaith eto, mae hynny'n sylfaenol i drosglwyddo rhagor o bwerau i'r lle hwn.

In other areas, the commission recommended extending devolution. The most significant area, perhaps, was policing and justice. The devolution of policing would build on the extensive operational collaboration that is already happening. The same is true of the youth justice system. Turning to the wider justice system, the commission's staged approach is helpful; it would allow us to keep up momentum for greater collaboration with devolved services, while enabling proper consideration of the practicalities of further devolution.

Mewn meysydd eraill, argymhellodd y comisiwn y dylid ymestyn datganoli. Y maes mwyaf arwyddocaol, efallai, oedd plismona a chyfiawnder. Trwy ddatganoli plismona, gellid datblygu'r cydweithio gweithredol helaeth sy'n digwydd yn barod. Mae'r un peth yn wir am y system cyfiawnder ieuenctid. Gan droi at y system gyfiawnder ehangach, mae dull graddol y comisiwn yn ddefnyddiol; byddai'n caniatáu inni gynnal y momentwm ar gyfer mwy o gydweithrediad â gwasanaethau datganoledig, yn ogystal â galluogi ystyriaeth briodol o ba mor ymarferol fyddai rhagor o ddatganoli.

Turning to energy, our evidence argued for full devolution of consenting powers, apart from nuclear. The commission proposed devolution up to a threshold of 350 MW. I do not think that it has made a persuasive case for this threshold, which does not exist in Scotland or Northern Ireland, and I would welcome Members' views on that.

Gan droi at ynni, roedd ein tystiolaeth yn dadlau o blaid datganoli pwerau cydsynio yn llawn, ar wahân i ynni niwclear. Cynigiodd y comisiwn y dylid datganoli hyd at drothwy o 350 MW. Nid wyf yn credu ei fod wedi cyflwyno achos cryf dros y trothwy hwn, nad yw'n bodoli yn yr Alban nac yng Ngogledd Iwerddon, a byddwn yn croesawu barn yr Aelodau ar hynny.

On transport, the commission has supported our proposals. Our evidence identified rail as an area where discussions on devolution are already under way. Let us bear in mind that the rail network is not devolved and neither do we hold a budget for it. The commission made the case for the devolution of rail franchising and rail infrastructure along the Scottish model, and that is something that we welcome. Our priority will be to move quickly on devolving franchising functions, subject to a fair funding settlement. That reflects the reality of the timetable for letting the next franchise. Therefore, the devolution of rail powers would need to happen to a more rapid timetable than that for the implementation of the Silk report as a whole.

O ran trafnidiaeth, mae'r comisiwn wedi cefnogi ein cynigion. Roedd ein tystiolaeth yn nodi rheilffyrdd fel maes lle mae trafodaethau ar ddatganoli eisoes ar y gweill. Gadewch inni gadw mewn cof nad yw'r rhwydwaith rheilffyrdd wedi'i ddatganoli ac nad oes gennym gyllideb ar ei gyfer. Cyflwynodd y comisiwn yr achos dros ddatganoli masnachfreintiau rheilffyrdd a seilwaith rheilffyrdd gan ddilyn model yr Alban, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei groesawu. Ein blaenoriaeth fydd symud yn gyflym ar ddatganoli swyddogaethau masnachfreinio, yn amodol ar setliad ariannu teg. Mae hynny'n adlewyrchu realiti'r amserlen ar gyfer gosod y fasnachfraint nesaf. Felly, byddai angen datganoli pwerau rheilffordd yn unol ag amserlen gyflymach na'r amserlen ar gyfer gweithredu adroddiad Silk yn ei gyfanrwydd.

16:37 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the First Minister give way?

A wnaiff y Prif Weinidog ildio?

16:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course.

Gwnaf, wrth gwrs.

16:37 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the First Minister for giving way, and I certainly agree with him that if this is going to happen, it needs to be timed with the new franchise. However, he talked about the infrastructure devolution as well. Should that not include a fair Barnett formula consequential from, for example, developments such as HS2, which are England-only developments, in the same way that we got a Barnett consequential from Crossrail, in the end, after fighting for it?

Rwy’n ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ildio, ac rwyf yn sicr yn cytuno ag ef bod angen amseru hyn i gyd-fynd â’r fasnachfraint newydd, os yw hyn yn mynd i ddigwydd. Fodd bynnag, soniodd am ddatganoli seilwaith hefyd. Oni ddylai hynny gynnwys swm canlyniadol teg yn unol â fformiwla Barnett, er enghraifft yn sgil datblygiadau megis HS2, sy’n ddatblygiadau yn Lloegr yn unig, yn yr un ffordd ag y cawsom arian canlyniadol Barnett yn sgil Crossrail, yn y diwedd, ar ôl ymladd amdano?

16:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

‘Yes’, is the answer. However, we know that rail infrastructure is not devolved, so we would not get a consequential. If it were devolved, we would, and I would certainly be arguing, as he would do, for a consequential with regard to HS2.

‘Dylai’, yw'r ateb. Fodd bynnag, gwyddom nad yw seilwaith rheilffyrdd wedi'i ddatganoli, felly ni fyddem yn cael arian canlyniadol. Byddem pe byddai’n cael ei ddatganoli, a byddwn yn sicr yn dadlau, fel y byddai ef yn ei wneud, am arian canlyniadol o ran HS2.

Turning to broadcasting, the commission supported our view that broadcasting should be a reserved matter as it is in Scotland, and we welcome its recommendations on broadcasting appointments and for scrutiny of the BBC in Wales.

Gan droi at ddarlledu, roedd y comisiwn yn cefnogi ein barn y dylai darlledu fod yn fater a gedwir yn ôl fel ag y mae yn yr Alban, ac rydym yn croesawu ei argymhellion ar benodiadau ym maes darlledu ac ar gyfer craffu ar y BBC yng Nghymru.

We have concerns about its proposal that the Department for Culture, Media and Sport element of the S4C budget should be devolved. That is not enough, bluntly. If there were to be—and it is a big 'if'—devolution of S4C, there would need to be a fundamental examination of the future financial basis for the funding of S4C. Simply transferring the DCMS element is not enough, because I suspect that there may be a possibility in the future of seeing the BBC further squeezed, and that, in turn, would squeeze the funding of S4C. That would need to be resolved before taking consideration of whether it should be devolved in principle. Therefore, there are risks with regard to the devolution of S4C, potentially as a result of the changes to the way the BBC is funded after 2017, following charter renewal. Therefore, any change on this would have to be conditional on very strong safeguards about the continued overall funding of S4C, and, in all of this, the priority has to be the wellbeing of the Welsh language and the Welsh media.

Mae gennym bryderon ynghylch ei gynnig y dylid datganoli elfen yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o gyllideb S4C. Nid yw hynny'n ddigon, yn blwmp ac yn blaen. Os byddai S4C yn cael ei datganoli—ac mae'n 'os' mawr—byddai angen cael archwiliad sylfaenol o'r sail ariannol yn y dyfodol ar gyfer cyllido S4C. Nid yw'n ddigon dim ond i drosglwyddo elfen yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, oherwydd rwy'n amau y gall fod posibilrwydd y bydd y BBC yn cael ei gwasgu ymhellach yn y dyfodol, a byddai hynny, yn ei dro, yn gwasgu ar arian S4C. Byddai angen datrys hynny cyn ystyried a ddylid ei datganoli mewn egwyddor. Felly, mae risgiau o ran datganoli S4C, o bosibl o ganlyniad i'r newidiadau yn y ffordd y caiff y BBC ei hariannu ar ôl 2017, yn dilyn adnewyddu'r siarter. Felly, byddai'n rhaid i unrhyw newid yn hyn o beth fod yn amodol ar fesurau diogelu cryf iawn i sicrhau bod cyllid cyffredinol S4C yn parhau, ac, yn hyn oll, mae'n rhaid rhoi'r flaenoriaeth i les yr iaith Gymraeg a chyfryngau Cymraeg.

Turning to teachers' pay, the Minister for Education and Skills has said that he sees merit in this recommendation. Were we to have these powers, we would have the option of using them to support our plans to develop the teaching profession. Again, it is crucial that there is a fair transfer of resources to administer teachers' pay and conditions, should that happen.

Gan droi at gyflog athrawon, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi dweud ei fod yn gweld rhinwedd yn yr argymhelliad hwn. Pe byddai'r pwerau hyn gennym, byddai'r dewis gennym i'w defnyddio i gefnogi ein cynlluniau i ddatblygu'r proffesiwn addysgu. Unwaith eto, mae'n hanfodol bod adnoddau teg yn cael eu trosglwyddo i weinyddu tâl ac amodau athrawon, pe byddai hynny'n digwydd.

I will mention some areas where the commission did not make a recommendation. We argued for alcohol licensing powers to support our policies in relation to health and community safety. The experience in Scotland shows clearly that licensing is a key tool in reducing alcohol-related harm. This should not be a reserved matter, and we will continue to make the case for the devolution of licensing. Equally, we remain convinced of the case for transferring emergency powers, in terms of Executive powers, and for strengthening equality powers.

Hoffwn sôn am rai meysydd lle na wnaeth y comisiwn argymhelliad. Fe wnaethom ddadlau dros bwerau trwyddedu alcohol i gefnogi ein polisïau ym maes iechyd a diogelwch cymunedol. Mae'r profiad yn yr Alban yn dangos yn glir bod trwyddedu yn arf allweddol o ran lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Ni ddylai hwn fod yn fater a gedwir yn ôl, a byddwn yn parhau i ddadlau'r achos dros ddatganoli pwerau trwyddedu. Yn yr un modd, rydym yn parhau yn argyhoeddedig o'r achos dros drosglwyddo pwerau argyfwng, o ran pwerau'r Weithrediaeth, a thros gryfhau pwerau cydraddoldeb.

Thirdly, on inter-governmental relations, the recommendations are sensible and constructive. They depend on collaboration by both sides, and the Welsh Government, of course, will play its part. The proposal for a Welsh inter-governmental committee would be a useful innovation, and we look forward to the UK Government's proposals.

Yn drydydd, mae'r argymhellion ym maes cysylltiadau rhynglywodraethol, yn synhwyrol ac adeiladol. Maent yn dibynnu ar gydweithredu gan y ddwy ochr, a bydd Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, yn chwarae ei rhan. Byddai'r cynnig i sefydlu pwyllgor rhynglywodraethol ar gyfer Cymru yn ddatblygiad newydd defnyddiol, ac rydym yn edrych ymlaen at gynigion Llywodraeth y DU.

The fourth element of the report relates to the Assembly itself. The case that more Members will be needed, according to the report, to scrutinise extended powers is well made and will need to be addressed, although it is not without its difficulties, as those of us in the Chamber will know.

Mae pedwaredd elfen yr adroddiad yn ymwneud â'r Cynulliad ei hun. Mae'r achos y bydd angen mwy o Aelodau, yn ôl yr adroddiad, i graffu ar bwerau estynedig yn cael ei wneud yn dda, a bydd angen mynd i'r afael â hwn, er bod anawsterau ynghlwm â hynny, fel y bydd y rhai ohonom yn y Siambr yn gwybod.

Finally, I will comment briefly on practicalities and timescale. The commission did support our view that the timescale and budget transfers must be agreed—and the key word here is 'agreed'—between the two Governments. On its timetable, we would have a draft Bill early in the next Parliament, with the reserved-powers model coming into effect in 2021. That would give clarity on the direction of travel and allow time for the planning of significant changes. Therefore, the commissioner's report does, as I mentioned earlier, provide a sound basis for taking forward devolution in Wales. With the caveats I have mentioned, we support the thrust of its recommendations and I now look forward to hearing the views of Members.

Yn olaf, byddaf yn sôn yn gryno am ymarferoldeb ac amserlenni. Mae'r comisiwn yn cefnogi ein barn bod yn rhaid i'r ddwy Lywodraeth gytuno ar yr amserlen a'r trosglwyddiadau cyllideb—a'r gair allweddol yma yw 'cytuno'. O ran yr amserlen, byddai gennym Fil drafft yn gynnar yn y Senedd nesaf, gyda'r model cadw pwerau yn ôl yn dod i rym yn 2021. Byddai hynny'n rhoi eglurder ynglŷn â'r cyfeiriad yr ydym yn mynd iddo, ac yn caniatáu amser ar gyfer cynllunio newidiadau sylweddol. Felly, mae adroddiad y comisiynydd, fel y soniais yn gynharach, yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu datganoli yng Nghymru. Gyda'r cafeatau yr wyf wedi'u crybwyll, rydym yn cefnogi byrdwn ei argymhellion ac rwyf yn awr yn edrych ymlaen at glywed barn yr Aelodau.

16:41

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I have selected the amendment to the motion and I call on Kirsty Williams to move amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi argymhellion Comisiwn Silk i gynnwys diwygiadau deddfwriaethol allweddol mewn maniffestos pleidiau, fel cyflwyno model cadw pwerau, trosglwyddo pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol, a chryfhau capasiti'r Cynulliad Cenedlaethol i graffu ar ddeddfwriaeth, ac yn annog pleidiau gwleidyddol Cymru i ddilyn y cynnig hwn.*

*Notes the Silk Commission's recommendations to include key legislative reforms within party manifestos, such as introducing a reserved powers model, transferring powers to the National Assembly, and strengthening the capacity of the National Assembly to scrutinise legislation, and encourages Welsh political parties to follow this proposal.*

16:41

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 1.

Cynigiaf welliant 1.

I thank the First Minister for his opening statement in this debate, much of which I agreed with. There is one thing that I think he has got wrong: we never had exciting debates about the potatoes emanating from Egypt. Debate them we had to, but exciting they never were. However, it is extraordinary to think about the journey that this institution has made since the days when, indeed, we did have to sit in the Business Committee of a Tuesday morning and all we had to worry about were the potatoes emanating from Egypt and whether the full stops and commas were in the right place in the subordinate legislation.

Diolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad agoriadol yn y ddadl hon, ac rwyf yn cytuno â llawer o'r hyn a ddywedodd. Rwy'n credu iddo gael un peth yn anghywir: ni chawsom erioed ddadleuon cyffrous am y tatws oedd yn tarddu o'r Aifft. Bu'n rhaid i ni ddadlau amdanynt, ond nid oedd y dadleuon erioed yn gyffrous. Fodd bynnag, mae'n anhygoel meddwl am daith y sefydliad hwn ers y dyddiau, yn wir, pan oedd rhaid inni eistedd yn y Pwyllgor Busnes ar fore dydd Mawrth a'r cyfan yr oedd gennym i boeni amdano oedd y tatws oedd yn tarddu o'r Aifft a pha un a oedd yr atalnodau llawn a'r comas yn y lle cywir yn yr is-ddeddfwriaeth.

I would like, once again, to put on record our thanks to Paul Silk and the members of the Silk commission for the dedication that they have shown in pursuing this particular project. I am sure that, when they all signed up to it, they could not have imagined the amount of work, the amount of evidence and the sheer slog that it would take to get to this position. Part of that slog has been to try to come up with reports that can harness general widespread support across the political divide in Wales. I am absolutely sure that, if we cannot continue to develop consensus on how we take the devolution project forward, there are those who remain sceptical about the project who would look to see it stop where it is. I believe that the Silk part 2 report sets out for us a pathway to a strong, secure and sustainable devolution settlement for our nation.

Hoffwn, unwaith eto, gofnodi ein diolch i Paul Silk ac aelodau comisiwn Silk am yr ymroddiad y maent wedi'i ddangos wrth fynd ar drywydd y prosiect penodol hwn. Pan wnaethant i gyd ymrwymo iddo, rwy'n siŵr na allent fod wedi dychmygu faint o waith, faint o dystiolaeth a'r gwaith caled iawn y byddai'n ei gymryd i gyrraedd y sefyllfa hon. Rhan o'r gwaith caled hwnnw fu ceisio paratoi adroddiadau sy'n gallu harneisio cefnogaeth eang cyffredinol ar draws y rhaniad gwleidyddol yng Nghymru. Os na allwn barhau i ddatblygu consensws ar sut y dylem symud y prosiect datganoli yn ei flaen, rwy'n gwbl sicr bod rhai pobl yn parhau i fod yn amheus ynglŷn â'r prosiect ac y byddent yn dymuno'i weld yn dod i ben lle y mae. Credaf fod adroddiad rhan 2 Silk yn pennu llwybr inni tuag at setliad datganoli cryf, diogel a chynaliadwy ar gyfer ein cenedl.

As Liberal Democrats, we have consistently argued for decades about the need to create a proper Welsh parliament, with the proper, commensurate powers that a parliament should have, and I think that Silk part 2 moves us even closer to that particular ideal and dream that we hold. I was particularly pleased that the Deputy Prime Minister was able to come to my party conference with a very clear message about how we want to use the Silk part 2 report as the cornerstone of our election manifesto, going into the next general election. I hope that other political parties will be able to respond in a similar fashion, because it is only in that way, by securing a mandate from the people of Wales around manifestos that have that clear commitment, that we will be able to drive this forward.

Fel Democratiaid Rhyddfrydol, rydym wedi dadlau'n gyson ers degawdau am yr angen i greu senedd briodol i Gymru, gyda'r pwerau priodol, cymesur y dylai senedd eu cael, a chredaf fod Silk rhan 2 yn ein symud hyd yn oed yn agosach at y ddelfryd a'r freuddwyd honno sydd gennym. Roeddwn yn arbennig o falch bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi gallu dod i gynhadledd fy mhlaid gyda neges glir iawn am sut yr ydym am ddefnyddio adroddiad Silk rhan 2 fel conglfaen ein maniffesto etholiadol, yn mynd i mewn i'r etholiad cyffredinol nesaf. Rwy'n gobeithio y bydd y pleidiau gwleidyddol eraill yn gallu ymateb mewn modd tebyg, oherwydd dim ond yn y ffordd honno, drwy sicrhau mandad gan bobl Cymru o gwmpas maniffestos sydd ag ymrwymiad clir, y byddwn yn gallu gyrru ymlaen â hyn .

With regard to the areas that the commission commented significantly on, the First Minister is right, perhaps, to say that policing and justice is one of the most significant areas, and we welcome that very much indeed. Although we may argue sometimes about the exact level of kilowatts that should be devolved or not devolved, the general thrust—and there is general acknowledgement of this—is that we should have greater power over energy consents, and that is right, as well as greater interests in broadcasting and transport.

O ran y meysydd y mae'r comisiwn wedi gwneud sylwadau sylweddol arnynt, mae'r Prif Weinidog yn iawn, efallai, i ddweud bod plismona a chyfiawnder yn un o'r meysydd mwyaf arwyddocaol, ac rydym yn croesawu hynny'n fawr iawn yn wir. Er y gallwn ddadlau weithiau am union lefel y cilowatau y dylid eu datganoli neu ddim eu datganoli, y byrdwn cyffredinol—ac mae cydnabyddiaeth gyffredinol o hyn—yw y dylem gael mwy o rym dros ganiatâd ynni, ac mae hynny'n iawn, yn ogystal â mwy o fuddiannau mewn darlledu a thrafnidiaeth.

I think the issue of how many Assembly Members are needed to do the job is a very complex and difficult one. There is never going to be a good time for politicians to argue the case for more politicians. I think that we are going to have to look at the issue of the number of Assembly Members in a greater debate around the issue of governance and levels of representation in Wales. However, you can only work out how many numbers you need once you have worked out what the functions of each particular institution are. We need to look at that in our ongoing relationship with Welsh MPs, the number of people that will be needed to do a proper job in this institution, as well as the issue of local government reorganisation and what local government is for. I think that we need to look at political representation in the whole if we are to make a case to the Welsh public about increasing the number of politicians that sit in this Chamber.

Rwy'n meddwl bod y mater o sawl Aelod o'r Cynulliad sydd eu hangen i wneud y swydd yn un cymhleth ac anodd iawn. Ni fydd byth amser da i wleidyddion ddadlau'r achos dros fwy o wleidyddion. Rwy'n meddwl ein bod yn mynd i orfod edrych ar y mater o nifer Aelodau'r Cynulliad mewn trafodaeth fwy am y mater o lywodraethu a lefelau o gynrychiolaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, ni allwch ond gweithio allan faint o niferoedd sydd eu hangen arnoch ar ôl i chi weithio allan beth yw swyddogaethau pob sefydliad penodol. Mae angen inni edrych ar hynny yn ein perthynas barhaus gydag Aelodau Seneddol Cymru, y nifer y bobl y bydd eu hangen i wneud y gwaith yn iawn yn y sefydliad hwn, yn ogystal â mater ad-drefnu llywodraeth leol ac ar gyfer beth y mae llywodraeth leol. Credaf fod angen inni edrych ar gynrychiolaeth wleidyddol yn y cyfan os ydym am gyflwyno achos i'r cyhoedd yng Nghymru am gynyddu nifer y gwleidyddion sy'n eistedd yn y Siambr hon.

I am grateful that the First Minister has indicated his support for the Liberal Democrat amendment this afternoon, and I hope that we can do what many people thought we could not do to date and move forward in a general consensus across this Chamber on how we can take devolution for our nation forward.

Rwy'n ddiolchgar bod y Prif Weinidog wedi nodi ei gefnogaeth i welliant y Democratiaid Rhyddfrydol y prynhawn yma, ac rwy'n gobeithio y gallwn wneud yr hyn yr oedd llawer o bobl yn meddwl na allem ei wneud hyd yn hyn a symud ymlaen mewn consensws cyffredinol ar draws y Siambr hon ar sut y gallwn ddatblygu datganoli ar gyfer ein cenedl.

16:46

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the opportunity to speak in the debate this afternoon. I would also like to thank Paul Silk and his commission for the excellent work that they have put in. Obviously, this is stage 2 of the two-part attack, shall we say, or proposals that they have put forward, to address some of the imbalances that have been seen in the devolution process to date.

Rwy'n croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl y prynhawn yma. Hoffwn hefyd ddiolch i Paul Silk a'i gomisiwn am y gwaith rhagorol y maent wedi'i wneud. Yn amlwg, dyma gam 2 yr ymosodiad dwy ran, byddwn yn dweud, neu'r cynigion sydd wedi eu cyflwyno, i fynd i'r afael â rhywfaint o'r anghydbwysedd a welwyd yn y broses ddatganoli hyd yn hyn.

I have to take issue with the First Minister saying that you cannot have a riveting debate on Egyptian early potatoes. As someone, as he pointed out earlier, who is not a career politician and who has lumped many a 55 pound bag of potatoes around the streets of Cardiff to filling stations and chip shops, I can assure you that the import of Egyptian potatoes caused me and the agricultural industry much concern. As my colleague sitting to my left here will know, the early market in Pembrokeshire was greatly undermined by the influx of such imports, but I take the spirit in which the First Minister tabled that.

Mae'n rhaid i mi anghytuno â'r Prif Weinidog pan ddywedodd na allwch gael dadl afaelgar ar datws cynnar yr Aifft. Fel rhywun nad yw'n wleidydd o ran gyrfa, fel y dywedodd yn gynharach, ac sydd wedi halio sawl bag 55 pwys o datws o gwmpas strydoedd Caerdydd i orsafoedd petrol a siopau sglodion, gallaf eich sicrhau bod tatws wedi'u mewnforio o'r Aifft wedi achosi llawer o bryder i mi a'r diwydiant amaethyddol. Fel y bydd fy nghydweithiwr sy'n eistedd ar y chwith imi yma yn gwybod, cafodd y farchnad tatws cynnar yn Sir Benfro ei thanseilio'n fawr gan fewnlifiad mewnforion o'r fath, ond rwy'n derbyn yr ysbryd y cyflwynwyd hynny ynddo gan y Prif Weinidog.

However, it is worth noting our thanks, which we put on record, for what Paul Silk has done, and particularly to our own party representative on that commission, Nick Bourne, who had a clear understanding of how devolution first came into being in 1999, with his membership of this institution, and how it developed over the years. His contribution I am sure was of great effect to the commission in its deliberations.

Fodd bynnag, mae'n werth nodi ein diolch, yr ydym yn ei gofnodi'n gyhoeddus, am yr hyn y mae Paul Silk wedi'i wneud, ac yn arbennig i gynrychiolydd ein plaid ein hun ar y comisiwn hwnnw, Nick Bourne, a oedd â dealltwriaeth glir o sut y daeth datganoli i fodolaeth yn wreiddiol ym 1999, gyda'i aelodaeth o'r sefydliad hwn, a sut y mae wedi datblygu dros y blynyddoedd. Roedd ei gyfraniad rwy'n siŵr o fudd mawr i'r comisiwn yn ei drafodaethau.

I do regret that today's motion is not a joint motion, which could have been tabled. I know that there was some understanding and discussion around that. For Silk part 1 we had a joint motion before us that we could all agree on, but we were told that today's motion was a 'take it or leave it' motion, and we chose to leave it. I think that is regrettable. I take the point that the First Minister talked about—[Interruption.] Well, that might be the case, but it is those in Government in Westminster you need to have the assistance of. I also take the point from the First Minister that whichever way the Scottish referendum goes—and I think on these benches and on the majority of benches in this Chamber we definitely want a 'no' vote, because Scotland would be a better place being part of the union—ultimately there will be change in the governance and the way that the United Kingdom goes forward after September 2014. I think that it is worth noting that Silk came out of the agreement in 2010, and in some respects has been taken over by the Scottish National Party forming a majority Government in Scotland and the referendum that will be held in September, because that has changed the dynamics. All the political parties are focused on what sort of arrangements they will have post that referendum, especially around taxation, which this Chamber has spent a lot of time talking about.

Rwy'n gresynu nad yw cynnig heddiw yn gynnig ar y cyd, a allai fod wedi cael ei gyflwyno. Gwn y cafwyd rhywfaint o ddealltwriaeth a thrafodaeth o amgylch hynny. Cyflwynwyd cynnig ar y cyd ger ein bron y gallem i gyd gytuno arno ar gyfer rhan 1 Silk, ond dywedwyd wrthym bod y cynnig heddiw yn gynnig i'w dderbyn neu ei wrthod, ac rydym yn dewis ei wrthod. Credaf fod hynny'n destun gofid. Rwy'n derbyn y pwynt y siaradodd y Prif Weinidog amdano—[Torri ar draws.] Wel, gallai hynny fod yn wir, ond cymorth y rheini sydd yn y Llywodraeth yn San Steffan y mae angen i chi ei gael. Rwyf hefyd yn derbyn y pwynt gan y Prif Weinidog y bydd y ffordd y mae'r Deyrnas Unedig yn cael ei llywodraethu ac yn symud yn ei blaen ar ôl Medi 2014 yn newid yn y pen draw, beth bynnag fydd canlyniad refferendwm yr Alban—ac rwy'n meddwl ein bod yn sicr ar y meinciau hyn ac ar y rhan fwyaf o feinciau yn y Siambr hon am weld pleidlais 'na', oherwydd y byddai'r Alban yn lle gwell yn rhan o'r undeb. Rwy'n meddwl ei bod yn werth nodi bod Silk wedi deillio o'r cytundeb yn 2010, ac mewn rhai ffyrdd wedi cael ei gymryd drosodd gan y ffaith bod Plaid Genedlaethol yr Alban wedi ffurfio Llywodraeth fwyafrifol yn yr Alban a gan y refferendwm a fydd yn cael ei gynnal ym mis Medi, gan fod hynny wedi newid y ddeinameg. Mae pob un o'r pleidiau gwleidyddol yn canolbwyntio ar ba fath o drefniadau a fydd yn eu lle ar ôl y refferendwm hwnnw, yn enwedig o ran trethi, ac mae'r Siambr hon wedi treulio llawer o amser yn siarad am hynny.

I think that it is important when you look at policy document, and in particular the Silk commission, that we do not get the policy of the Government mixed up with the function of the Assembly, which, very often, some people will try to use to try to obstruct perhaps a greater competence coming to this institution, and, by association, flowing out of the Government that comes out of it. We can have our arguments here about whether Labour policy is right, Conservative policy is right, Plaid policy is right, Liberal Democrat policy is right, or the independents' policy, if they are here, is right, but ultimately you do need the tools to do the job and you need the capacity to do the job.

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig wrth edrych ar ddogfen bolisi, ac yn arbennig ar gomisiwn Silk, nad ydym yn cymysgu polisi Llywodraeth â swyddogaeth y Cynulliad, rhywbeth y bydd rhai pobl, yn aml iawn, yn ceisio ei ddefnyddio i geisio rhwystro mwy o gymhwysedd efallai rhag dod i'r sefydliad hwn, a, thrwy gysylltiad, rhag llifo o'r Llywodraeth sy'n deillio ohono. Gallwn gael ein dadleuon yma ynghylch a yw polisi Llafur yn iawn, polisi'r Ceidwadwyr yn iawn, polisi Plaid Cymru yn iawn, polisi'r Democratiaid Rhyddfrydol yn iawn, neu bolisi'r pleidiau annibynnol, os ydynt yma, yn iawn, ond yn y pen draw mae angen yr offer i wneud y swydd ac mae angen y gallu arnoch i wneud y gwaith.

We, certainly, as a party, fully engaged with the Silk commission process by making sure that we had a party submission and a group submission. We are not persuaded by the recommendations around the devolution of the criminal justice system or policing. That was in our initial submission, and we maintain that position. We remain unconvinced by the arguments that have been put forward.

Fe wnaethom ni, yn sicr, fel plaid, ymgysylltu'n llawn â phroses comisiwn Silk trwy sicrhau ein bod yn gwneud cyflwyniad fel plaid a chyflwyniad fel grŵp. Nid ydym wedi ein darbwyllo gan yr argymhellion ynglŷn â datganoli'r system gyfiawnder troseddol na phlismona. Roedd hynny yn ein cyflwyniad cychwynnol, a dyna ein safbwynt o hyd. Nid yw'r dadleuon a gyflwynwyd wedi ein hargyhoeddi.

On broadcasting, there is certainly scope to explore the options that Silk has brought forward. In particular, I have spoken about the greater accountability that this institution could have in its role of scrutinising the media here in Wales. On the reserved-powers model versus conferred powers, I think that there is scope to have the discussion and to tidy up that area so that we do not end up going to the Supreme Court to deliberate on some of these positions. I do think that that discussion can go forward for consideration. The timetable, which the First Minister touched on, is important to reflect on, as Silk in Silk part 1 talked about, with a clear timetable mapped out for conferring or transferring some of those responsibilities. I agree entirely with the timetable as mapped out that the discussions need to be focused and not be a continuing bandwagon of discussion over constitutional change. We need to set the direction.

O ran darlledu, mae lle yn sicr i archwilio'r opsiynau y mae Silk wedi eu cyflwyno. Yn benodol, rwyf wedi siarad am yr atebolrwydd mwy y gallai'r sefydliad hwn ei gael yn ei rôl o graffu ar y cyfryngau yma yng Nghymru. O ran y model cadw pwerau yn ôl o'i gymharu â'r model rhoi pwerau, rwy'n meddwl bod lle i gael y drafodaeth ac i dacluso'r maes hwnnw fel nad ydym yn y pen draw yn mynd i'r Goruchaf Lys i benderfynu ar rai o'r safbwyntiau hyn. Rwy'n meddwl y gall y drafodaeth honno fynd yn ei blaen i gael ei hystyried. Mae'n bwysig myfyrio ar yr amserlen, y soniodd y Prif Weinidog amdani, fel y mae Silk yn rhan 1 Silk yn sôn amdano, gydag amserlen glir wedi'i mapio ar gyfer rhoi neu drosglwyddo rhai o'r cyfrifoldebau hynny. Cytunaf yn llwyr â'r amserlen fel y'i mapiwyd bod angen pwyslais penodol i'r trafodaethau ac na ddylid cael cyfres barhaus o drafodaethau ynglŷn â newid cyfansoddiadol. Mae angen i ni bennu'r cyfeiriad.

However, ultimately, all of this will be confirmed in the general election of 2015 when parties will have their manifestoes for people to look at and decide on. The people themselves will decide how they want the next Westminster Government to be shaped and what discussions the two Governments—here in the Assembly and at the other end of the M4—will have over the future journey of devolution. I welcome the proposal for the inter-governmental group that the Silk commission has talked about because I think that many Members have tired, shall we say, of us being at loggerheads as it constantly seems to be stopping good policy and improvement in public services here in Wales.

Fodd bynnag, yn y pen draw, bydd hyn oll yn cael ei gadarnhau yn etholiad cyffredinol 2015 pryd y bydd gan y pleidiau eu maniffestos i bobl edrych arnynt a phenderfynu yn eu cylch. Y bobl eu hunain fydd yn penderfynu sut y maent am i Lywodraeth nesaf San Steffan gael ei llunio a pha drafodaethau y bydd y ddwy Lywodraeth—yma yn y Cynulliad ac ar ben arall yr M4—yn eu cael ynglŷn â thaith datganoli yn y dyfodol. Rwy'n croesawu'r cynnig y mae comisiwn Silk wedi siarad amdano ar gyfer y grŵp rhynglywodraethol, oherwydd bod llawer o Aelodau wedi blino, byddwn yn dweud, ein gweld benben â'n gilydd gan fod hynny i'w weld yn gyson yn atal y gwaith o lunio polisïau da a gwella gwasanaethau cyhoeddus yma yng Nghymru.

16:51 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to welcome today's debate on the second report of the UK Government's commission on devolution in Wales. I also welcome the amendment tabled by the Liberal Democrats. I would like to place formally on record Plaid Cymru's thanks to all those involved in putting the report together under the leadership of Paul Silk. I remember the unanimity within this Chamber on part 1 of the Silk commission's work and the co-operation that was enjoyed between the four party leaders in the previous Assembly in support of the 'yes' campaign in our 2011 referendum. However, I have to say that, since that referendum in 2011 and since that stage on our national journey, the settlement we have in Wales has been found wanting. I will not go over every single example, but we all know that there have been problems with legislation, and the lack of clarity around what is devolved and what is not devolved seems to be a routine feature of some of our debates here.

Hoffwn groesawu dadl heddiw ar ail adroddiad comisiwn Llywodraeth y DU ar ddatganoli yng Nghymru. Rwyf innau hefyd yn croesawu'r gwelliant a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Hoffwn nodi'n ffurfiol ddiolch Plaid Cymru i bawb a fu'n ymwneud â rhoi'r adroddiad at ei gilydd o dan arweiniad Paul Silk. Rwy'n cofio'r unfrydedd yn y Siambr hon ar ran 1 gwaith comisiwn Silk a'r cydweithrediad a gafwyd rhwng arweinwyr y pedair plaid yn y Cynulliad blaenorol i gefnogi'r ymgyrch 'ie' yn ein refferendwm yn 2011. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud, ers y refferendwm yn 2011 ac ers y cam hwnnw ar ein taith genedlaethol, y cafwyd bod y setliad sydd gennym yng Nghymru wedi yn ddiffygiol. Nid wyf am drafod pob un enghraifft, ond rydym i gyd yn gwybod y bu problemau gyda deddfwriaeth, ac ymddengys bod y diffyg eglurder ynghylch yr hyn sydd wedi'i ddatganoli a'r hyn nad yw wedi'i ddatganoli yn nodwedd arferol o rai o'n dadleuon yma.

Plaid Cymru has participated fully in both stages of the Silk commission's work in good faith. We acknowledge that the commission was initiated by the UK Government, and we agreed to compromise in order to find a way forward for Wales. However, the political outcome of Silk part 1 has not been very encouraging. We have seen the package of financial reforms cherry-picked, and the result of that cherry-picking is that the package that is now on offer includes a so-called lockstep. There is a knock-on effect from that lockstep on the desirability of a referendum and, indeed, our ability to therefore borrow for much-needed infrastructure investment. We will end up getting something far short of what the commission recommended and I regret that. I see it as a missed opportunity that I hope we can come back to in future. We have to realise too that change is afoot in England and Scotland. The city regions in England are looking at more financial powers and more transport powers. They will be aiming to compete with our cities here in Wales. Scotland has its own process and, while Plaid Cymru's view on the independence referendum is pretty well known, there is a strong possibility of a more powerful Scotland in future. People will be asking, 'What does Wales want?' At the moment, the answer is unclear and quite limited.

Mae Plaid Cymru wedi cymryd rhan lawn yn nau gyfnod gwaith y comisiwn Silk, a hynny'n ddidwyll. Rydym yn cydnabod bod y comisiwn wedi'i gychwyn gan Lywodraeth y DU, ac roeddem yn cytuno i gyfaddawdu er mwyn dod o hyd i ffordd ymlaen i Gymru. Fodd bynnag, nid yw canlyniad gwleidyddol rhan 1 Silk wedi bod yn galonogol iawn. Rydym wedi gweld dewis a deethol o'r pecyn o ddiwygiadau ariannol, a chanlyniad y dewis a dethol hwnnw yw bod y pecyn sydd yn awr ar gael yn cynnwys camu clòs fel y'i gelwir. Mae'r camu clòs hwnnw yn cael effaith ar ba mor ddymunol yw refferendwm ac, yn wir, ar ein gallu felly i fenthyca ar gyfer buddsoddiad mawr ei angen mewn seilwaith. Byddwn yn y diwedd yn cael rhywbeth llawer llai na'r hyn a argymhellodd y comisiwn ac rwy'n gresynu hynny. Rwy'n ei weld yn gyfle a gollwyd ac rwyf yn gobeithio y gallwn ddod yn ôl ato yn y dyfodol. Mae'n rhaid inni sylweddoli hefyd bod newid ar y gweill yn Lloegr a'r Alban. Mae'r dinas-ranbarthau yn Lloegr yn edrych ar gael mwy o bwerau ariannol a mwy o bwerau trafnidiaeth. Eu nod fydd cystadlu â'n dinasoedd ni yma yng Nghymru. Mae gan yr Alban ei phroses ei hun ac, er bod barn Plaid Cymru ar y refferendwm annibyniaeth yn eithaf hysbys, mae posibilrwydd cryf y ceir Alban fwy pwerus yn y dyfodol. Bydd pobl yn gofyn, 'Beth mae ar Gymru ei eisiau?' Ar hyn o bryd, mae'r ateb yn aneglur ac yn eithaf cyfyngedig.

However, if I may temper my pessimism with some optimism, I do see the second Silk report as being positive and coherent. It sets out a viable set of responsibilities that could be transferred to Wales and exercised here. As I have said in a previous debate in this Chamber, Plaid Cymru believes in having as much self-government as possible in any scenario. Plaid Cymru in Government could make use of the powers that the Silk commission has recommended for devolution and, ultimately, we believe that decisions over policing, transport, energy and water supplies, which are all recommended for devolution by the Silk commission, should be taken in Wales. If that would lead to a larger National Assembly, then we should be bold and set out that power is shifting from Westminster to this place as part of a changing Britain and a more confident Wales. The next five years should be a period of Wales moving forward, rather than a period that sees Wales left behind.

Fodd bynnag, os caf dymheru fy mhesimistiaeth gyda rhywfaint o optimistiaeth, rwy'n ystyried ail adroddiad Silk yn gadarnhaol a chydlynol. Mae'n nodi cyfres ymarferol o gyfrifoldebau y gellid eu trosglwyddo i Gymru a'u harfer yma. Fel yr wyf wedi dweud mewn dadl flaenorol yn y Siambr hon, mae Plaid Cymru yn credu mewn cael cymaint o hunanlywodraeth ag y bo modd mewn unrhyw sefyllfa. Gallai Plaid Cymru mewn Llywodraeth wneud defnydd o'r pwerau y mae comisiwn Silk wedi argymell y dylid eu datganoli ac, yn y pen draw, rydym yn credu y dylai'r penderfyniadau ym meysydd plismona, trafnidiaeth, ynni a chyflenwadau dŵr, y mae comisiwn Silk yn argymell y dylent i gyd gael eu datganoli, gael eu gwneud yng Nghymru. Pe byddai hynny'n arwain at Gynulliad Cenedlaethol mwy, yna dylem fod yn feiddgar a nodi bod pŵer yn symud o San Steffan i'r lle hwn fel rhan o Brydain sy'n newid a Chymru fwy hyderus. Dylai'r pum mlynedd nesaf fod yn gyfnod pryd y mae Cymru'n symud ymlaen, yn hytrach na chyfnod sy'n gweld Cymru'n cael ei gadael ar ôl.

16:55

## Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am going to speak as an optimist. First, may I congratulate Paul Silk and his colleagues on the clarity and consistency of this report, just as I did with the first report, and also on how the conclusions and recommendations logically arise from the report and its discussions? I believe that the most important recommendation is that we move to a reserved-powers model. While this does not solve all the problems—Wayne David in a discussion held in the House of Commons identified a problem experienced regarding an Antarctic expedition including Scottish citizens. If that were the only problem that we had with the current model in Wales, I am sure that most people would be very pleased.

Rwy'n mynd i siarad fel optimist. Yn gyntaf, hoffwn longyfarch Paul Silk a'i gydweithwyr ar eglurder a chysondeb yr adroddiad hwn, yn union fel y gwneuthum gyda'r adroddiad cyntaf, a hefyd ar sut y mae'r casgliadau a'r argymhellion yn codi'n rhesymegol o'r adroddiad a'i drafodaethau. Rwy'n credu mai'r argymhelliad pwysicaf yw ein bod yn symud i fodel cadw pwerau yn ôl. Er nad yw hyn yn datrys yr holl broblemau—roedd Wayne David mewn trafodaeth a gynhaliwyd yn Nhŷ'r Cyffredin yn nodi problem a brofwyd ynglŷn â thaith i'r Antarctig oedd yn cynnwys dinasyddion o'r Alban. Os mai dyna fyddai'r unig broblem gyda'r model presennol yng Nghymru, rwy'n siŵr y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn falch iawn.

What we have seen in Wales, but not in Scotland or Northern Ireland, is the referral of legislation to court by the Westminster Government, including the Local Government Byelaws (Wales) Bill that was unanimously passed here and was, in the eyes of most people, non-contentious. In fact, one of the criticisms of it was that it was non-contentious and that there was not much in it, until we discovered that it was going to be referred.

Yr hyn yr ydym wedi'i weld yng Nghymru, ond nid yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon, yw cyfeirio deddfwriaeth i'r llys gan Lywodraeth San Steffan, gan gynnwys y Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) a basiwyd yn unfrydol yma ac a oedd, yng ngolwg y rhan fwyaf o bobl, yn annadleuol. Yn wir, un o'r beirniadaethau ohono oedd ei fod yn annadleuol ac nad oedd llawer ynddo, nes i ni ddarganfod ei fod yn mynd i gael ei gyfeirio.

The emphasis on clarity is all the more prescient when one considers the now almost routine referral of Welsh Bills to the Supreme Court. Since 2011, Bills affecting fields as diverse as agricultural payments, local government bye-laws and asbestos compensation have been referred to the Supreme Court, a process that only highlights the confusion over the boundaries of the current Welsh devolution settlement. To reiterate something that I have said several times before, the reserved-powers model is not about additional powers—that is a different argument that we also need to have—it is about clarity over the devolution settlement. I am one of those people who thought, when the last devolution vote took place in Wales, that, over those 20 areas that were in there, Wales would have full powers. I was soon disabused of that view, initially by the fact that the bye-laws Bill was referred and, since then, there has been a fear, if only by me, that almost everything that we pass is in danger of being referred to the Supreme Court. I do not think that that is a way to run any organisation, and I think it really is important that we have a reserved-powers model.

Mae'r pwyslais ar eglurder hyd yn oed yn fwy craff pan fydd rhywun yn ystyried y ffaith ei bod yn arferol bron erbyn hyn i Filiau Cymru gael eu cyfeirio at y Goruchaf Lys. Ers 2011, mae Biliau sy'n effeithio ar feysydd mor amrywiol â thaliadau amaethyddol, is-ddeddfau llywodraeth leol ac iawndal asbestos wedi cael eu cyfeirio at y Goruchaf Lys, proses sydd ddim ond yn tynnu sylw at y dryswch ynghylch ffiniau setliad datganoli presennol Cymru. I ailadrodd rhywbeth yr wyf wedi ei ddweud sawl gwaith o'r blaen, nid yw'r model cadw pwerau yn ôl yn ymwneud â phwerau ychwanegol—mae honno'n ddadl wahanol y mae angen inni hefyd ei chael—mae'n ymwneud ag eglurder ynghylch y setliad datganoli. Rwyf i'n un o'r bobl hynny a oedd o'r farn, pan gynhaliwyd y bleidlais ddatganoli ddiwethaf yng Nghymru, y byddai gan Gymru bwerau llawn dros yr 20 maes a oedd yn cael eu cynnwys. Cefais fy nadrithio'n fuan ynglŷn â'r farn honno, yn y lle cyntaf gan y ffaith bod y Bil is-ddeddfau wedi cael ei gyfeirio ac, ers hynny, mae ofn wedi bod, hyd yn oed os mai gennyf fi'n unig, bod bron popeth yr ydym yn ei basio mewn perygl o gael ei gyfeirio at y Goruchaf Lys. Nid wyf yn credu bod honno'n ffordd briodol o redeg unrhyw sefydliad, ac rwy'n credu ei bod yn wirioneddol bwysig bod gennym fodel cadw pwerau'n ôl.

Wales has a conferred powers model, which makes us different from Scotland, Northern Ireland and all the other European countries, which enjoy the reserved-powers model. Welsh devolution urgently needs changing to the reserved-powers model, which gives greater clarity over what is and what is not devolved. It is a telling point that this is the model used, as I said earlier, not just in Northern Ireland and Scotland, but across mainland Europe.

Mae gan Gymru fodel rhoi pwerau, sy'n ein gwneud yn wahanol i'r Alban, Gogledd Iwerddon a holl wledydd eraill Ewrop, sy'n mwynhau'r model cadw pwerau'n ôl. Mae angen newid y drefn datganoli yng Nghymru ar frys i'r model cadw pwerau'n ôl, sy'n ei gwneud yn fwy eglur beth sydd a beth nad yw wedi'i ddatganoli. Mae'n bwynt grymus mai hwn yw'r model a ddefnyddir, fel y dywedais yn gynharach, ledled tir mawr Ewrop yn ogystal ag yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban.

16:58 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very grateful to Mike Hedges for taking the intervention. It is also clear from the second Silk report that the Assembly enjoys much greater freedoms to spend the money that it is given compared to other international federal systems, where substantially more conditions are put on the block grant that is given. I know that you seek to make changes, but would you accept that, if there are changes in the model of the system, that those changes should be made too?

Rwy'n ddiolchgar iawn i Mike Hedges am dderbyn yr ymyriad. Mae hefyd yn amlwg o ail adroddiad Silk bod y Cynulliad yn mwynhau llawer mwy o ryddid i wario'r arian a roddir iddo o'i gymharu â systemau ffederal rhyngwladol eraill, lle mae llawer mwy o amodau'n cael eu rhoi ar y grant bloc a roddir. Rwy'n gwybod eich bod yn ceisio gwneud newidiadau, ond a fyddech yn derbyn y dylai'r newidiadau hynny gael eu gwneud hefyd, os bwriedir gwneud newidiadau ym model y system?

16:58 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is a different argument over a different issue and it probably would have been more useful to have had that discussion when we discussed Silk part 1. I think that this is about how we run Wales and how we pass laws in Wales. We need a system that works.

Mae honno'n ddadl wahanol ynglŷn â mater gwahanol, ac mae'n debyg y byddai wedi bod yn fwy defnyddiol cael y drafodaeth pan oeddem yn trafod rhan 1 Silk. Rwy'n credu bod hyn yn ymwneud â sut yr ydym yn rhedeg Cymru a sut yr ydym yn pasio deddfau yng Nghymru. Mae arnom angen system sy'n gweithio.

The big question now, if we support a reserved-powers model, is what powers should be reserved. The problem that we have with the current system is that we seem to have piecemeal devolution. Starting with the obvious ones, such as defence, foreign policy, criminal law, citizenship, currency and money, unity of custom and trading areas, benefits, including the state pension, and overseas aid, this leads to the questions of teachers' pay rates and policing. We have agreed that we do not want regional pay, so devolving teachers' pay will lead to one of two outcomes: we will follow the English pay rates, or have variable pay so that two teachers living in Wrexham will be paid different rates if one works in Wrexham and the other in Chester. I do not believe that either is the right solution. I am someone who believes in a national pay scheme. I worked in further education, where each college had its own pay scheme. I can tell you that every single person who has gone through that would say that a national pay scheme is a wonderful thing. On policing, the devolution of most policing is the preferred model across Europe and the USA, but with national security, terrorism and cross-border issues dealt with centrally. We really should be looking at what can be devolved and what needs to be held centrally rather than going through a piecemeal devolution process.

Y cwestiwn mawr yn awr, os ydym yn cefnogi model cadw pwerau yn ôl, yw pa bwerau y dylid eu cadw. Y broblem sydd gennym o ran y system bresennol yw bod yn ymddangos bod gennym ddatganoli tameidiog. Gan ddechrau gyda'r rhai amlwg, megis amddiffyn, polisi tramor, cyfraith droseddol, dinasyddiaeth, arian, undod meysydd busnes a masnachu, budd-daliadau, gan gynnwys pensiwn y wladwriaeth, a chymorth tramor, mae hyn yn arwain at y cwestiynau cyfraddau cyflogau athrawon a phlismona. Rydym wedi cytuno nad ydym yn awyddus i gael cyflogau rhanbarthol, felly bydd datganoli cyflogau athrawon yn arwain at un o ddau ganlyniad: byddwn yn dilyn cyfraddau cyflog Lloegr, neu'n cael tâl amrywiol fel y bydd dau athro yn byw yn Wrecsam yn cael eu talu ar gyfraddau gwahanol os oes un yn gweithio yn Wrecsam a'r llall yng Nghaer. Nid wyf yn credu bod y naill na'r llall yn ateb cywir. Rwyf fi'n rhywun sy'n credu mewn cynllun cyflog cenedlaethol. Roeddwn yn gweithio mewn addysg bellach, lle'r oedd gan bob coleg ei gynllun cyflog ei hun. Gallaf ddweud wrthych y byddai pob un person sydd wedi mynd drwy hynny'n dweud bod cynllun cyflog cenedlaethol yn beth gwych. Ar blismona, datganoli'r rhan fwyaf o blismona yw'r model a ffefrir ar draws Ewrop a'r Unol Daleithiau, ond gyda diogelwch cenedlaethol, terfysgaeth a materion traws-ffiniol yn cael eu trin yn ganolog. Dylem fod yn edrych ar yr hyn y gellir ei ddatganoli a beth sydd angen ei gynnal yn ganolog yn hytrach na mynd trwy broses ddatganoli dameidiog.

I welcome the Silk commission's part 2 report and I hope that the reserved-powers model can be implemented as soon as is practicable, but the next stage is to organise a further devolution of appropriate powers, possibly following the Northern Ireland model where they have agreed items to be devolved, but they get devolved when the Northern Ireland Assembly votes by two thirds or more to do so.

Rwy'n croesawu adroddiad rhan 2 comisiwn Silk ac rwy'n gobeithio y gellir rhoi ar waith y model cadw pwerau yn ôl cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ond y cam nesaf yw trefnu i ddatganoli mwy o bwerau priodol, o bosibl yn dilyn model Gogledd Iwerddon, lle maent wedi cytuno ar eitemau sydd i'w datganoli, ond maent yn cael eu datganoli pan fydd Cynulliad Gogledd Iwerddon yn pleidleisio o ddwy ran o dair neu fwy i wneud hynny.

17:00

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As we have heard, we cannot agree with the Silk commission that policing should be devolved, that there will not be substantial additional costs, or that this would fit well with principles of coherence, subsidiarity and accountability. As I said, in February 2006, in the debate on the then proposed Welsh police merger, the police authorities told us that the additional all-Wales annual cost of reorganisation would be up to £57 million, with the chief constables saying that it would be even more.

Fel yr ydym wedi clywed, ni allwn gytuno gyda chomisiwn Silk y dylai plismona gael ei ddatganoli, na fydd costau ychwanegol sylweddol, neu y byddai hyn yn cyd-fynd yn dda ag egwyddorion cydlyniad, datganoli ac atebolrwydd. Fel y dywedais, ym mis Chwefror 2006, yn y ddadl ar uno heddluoedd Cymru a oedd yn arfaethedig bryd hynny, dywedodd awdurdodau'r heddlu wrthym y byddai'r gost flynyddol ychwanegol ar gyfer Cymru gyfan o ad-drefnu yn hyd at £57 miliwn, gyda'r prif gwnstabliaid yn dweud y byddai hyd yn oed yn fwy.

We believe that the introduction of police and crime commissioners did mark an act of real devolution, empowering local communities to have their say on policing priorities and to hold an elected representative to account. We have not seen any evidence that leads us to support the devolution of policing or criminal justice, and we are concerned that the devolution of policing could compromise cross-border working between police forces. When the Assembly’s Social Justice and Regeneration Committee reviewed the structure of policing in 2005, our report noted that criminal activity does not recognise national or regional boundaries, and that cross-border partnerships must reflect operational reality. As I said in the debate on that committee report, almost all of the population of Wales lies along the M4 and A55 corridors, separated by a vast, expansive rural hinterland, geography, history, transport links and very different policing requirements. Some, I said, had suggested that the North Wales Police force should combine forces with the north-west of England; however, the only credible option that came from the police authorities called instead for the development of a closer partnership arrangement with Cheshire Constabulary.

Rydym yn credu bod cyflwyniad comisiynwyr heddlu a throseddu yn gam o ddatganoli gwirioneddol, gan rymuso cymunedau lleol i ddweud eu dweud ar flaenoriaethau plismona ac i ddwyn cynrychiolydd etholedig i gyfrif. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n ein harwain i gefnogi’r syniad o ddatganoli plismona na chyfiawnder troseddol, ac rydym yn pryderu y gellid peryglu gwaith traws-ffiniol rhwng heddluoedd trwy ddatganoli plismona. Pan adolygodd Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio’r Cynulliad strwythur plismona yn 2005, nododd ein hadroddiad nad yw gweithgarwch troseddol yn cydnabod ffiniau cenedlaethol na rhanbarthol, a bod yn rhaid i bartneriaethau traws-ffiniol adlewyrchu gwirionedd gweithredol. Fel y dywedais yn y ddadl ar adroddiad y pwyllgor hwnnw, mae holl boblogaeth Cymru bron yn byw ar hyd yr M4 a'r A55, wedi'u gwahanu gan berfeddwlad wledig helaeth, eang, daearyddiaeth, hanes, cysylltiadau trafnidiaeth a gofynion plismona gwahanol iawn. Roedd rhai, dywedais, wedi awgrymu y dylai Heddlu Gogledd Cymru gyfuno gyda gogledd-orllewin Lloegr; fodd bynnag, roedd yr unig ddewis credadwy a ddaeth oddi wrth yr awdurdodau heddlu yn galw yn lle hynny am ddatblygu trefniant partneriaeth agosach gyda Heddlu Swydd Gaer.

While we have reservations about the devolution of youth justice we will be giving further consideration to the Silk commission belief that the administrative responsibility for treatment and rehabilitation of young offenders should be devolved, particularly, it says, bearing in mind the close links existing with services provided by devolved authorities. The commission states that the number of young offenders who are sent to secure custody cannot currently be accommodated in Wales, and that there will need to be cross-border management of these offenders between England and Wales. However, that cross-border management is already in existence. The commission did acknowledge a £0.3 million cost to establishing a separate youth justice system in Wales.

Er bod gennym amheuon ynghylch datganoli cyfiawnder ieuenctid byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i gred comisiwn Silk y dylai'r cyfrifoldeb gweinyddol ar gyfer trin ac adsefydlu troseddwyr ifanc gael ei ddatganoli, yn arbennig, y mae'n dweud, gan gadw mewn cof y cysylltiadau agos sydd eisoes yn bodoli gyda gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau datganoledig. Mae'r comisiwn yn nodi na ellir lletya nifer y troseddwyr ifanc sy'n cael eu hanfon i ddalfa yng Nghymru ar hyn o bryd, ac y bydd angen rheolaeth draws-ffiniol o'r troseddwyr hyn rhwng Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae’r rheolaeth draws-ffiniol honno eisoes yn bodoli. Gwnaeth y comisiwn gydnabod cost o £0.3 miliwn i sefydlu system cyfiawnder ieuenctid ar wahân yng Nghymru.

Speaking in the 2010 debate on the Communities and Culture Committee report 'Youth Justice: The Experience of Welsh Children in the Secure Estate'—because we have looked at this—the Welsh Government, I said, only accepted in principle recommendations applying to the role of support agencies, contact with families and carers, care planning, access to treatment and mental health support, access to education, training and employment, speech and language therapy, guidance to local authorities, and housing and employment opportunities. It argued that future implementation would be affected by budget levels. In so doing I said that it appeared to fail to recognise that it should be bringing together the independent third sector and public sector, with the child at the centre, which would not be more expensive if we changed the way that we did things. As Action for Children stated, cycles of deprivation and neglect that trapped many vulnerable families for generations can be broken if families, and particularly children, are supported early enough by the right devolved services. However, when I visited Hillside Secure Centre for Welsh children in Neath, I was shocked to learn that the majority of young offenders were on medication when they arrived. There had been a devolved service failure to intervene earlier in order to address underlying issues of trauma and psychosis. Not until custodial sentencing did psychiatric re-evaluation sometimes show that medication had been used as a mask to underlying problems.

Wrth siarad yn y ddadl yn 2010 ar adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant 'Cyfiawnder Ieuenctid: Profiad Plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel'—oherwydd ein bod wedi edrych ar hyn—roedd Llywodraeth Cymru, dywedais, ond yn derbyn mewn egwyddor argymhellion sy'n berthnasol i swyddogaeth asiantaethau cymorth, cyswllt â theuluoedd a gofalwyr, cynllunio gofal, mynediad at driniaeth a chymorth iechyd meddwl, mynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, therapi lleferydd ac iaith, canllawiau i awdurdodau lleol, a chyfleoedd tai a chyflogaeth. Roedd yn dadlau y byddai gweithredu yn y dyfodol yn cael ei effeithio gan lefelau cyllideb. Wrth wneud hynny dywedodd ei fod yn ymddangos i fethu â chydnabod y dylai fod yn dwyn y trydydd sector annibynnol a'r sector cyhoeddus ynghyd, gyda'r plentyn yn y canol, na fyddai'n fwy costus pe byddem yn newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau. Fel y nododd Gweithredu dros Blant, gellir torri cylchoedd amddifadedd ac esgeulustod sy'n dal llawer o deuluoedd agored i niwed yn gaeth iddynt am genedlaethau os yw teuluoedd, ac yn enwedig plant, yn cael eu cefnogi'n ddigon cynnar gan y gwasanaethau datganoledig cywir. Fodd bynnag, pan ymwelais â Chanolfan Ddiogel Hillside i blant Cymru yng Nghastell-nedd, cefais fy synnu o gael gwybod bod mwyafrif y troseddwyr ifanc ar feddyginiaeth pan eu bod yn cyrraedd. Bu methiant yn y gwasanaeth datganoledig i ymyrryd yn gynharach er mwyn mynd i'r afael â materion sylfaenol trawma a seicosis. Nid tan y ddedfryd o garchar y gwnaeth ail-werthuso seiciatrig weithiau ddangos bod meddyginiaeth wedi ei defnyddio fel mwgwd i broblemau sylfaenol.

According to Youth Justice Board Cymru, the number of full-time entrants in Wales continues to fall. That is the good news. It is mainly due to existing partnership interventions by education and social services, and work between youth offending teams and the police. So, we have that already. However, r-offending by young people has increased and, as Youth Justice Board Cymru states, this may be due to a small group of young people with entrenched patterns of offending behaviour linked to complex needs remaining in the system, leading to this group being a priority, with a focus on improving resettlement and reintegration, following a community or custodial sentence. The Youth Justice Board remains an arm's-length public body, and nothing should be done that could compromise that.

Yn ôl Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, mae nifer y newydd-ddyfodiaid llawn amser yng Nghymru yn parhau i ostwng. Dyna'r newyddion da. Mae'n bennaf oherwydd ymyraethau partneriaeth presennol trwy adrannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol, a gwaith rhwng timau troseddau ieuenctid a'r heddlu. Felly, mae hynny gennym eisoes. Fodd bynnag, mae aildroseddu gan bobl ifanc wedi cynyddu ac, fel y dywed Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, gall hyn fod o ganlyniad i grŵp bach o bobl ifanc â phatrymau wedi'u hen sefydlu o ymddygiad troseddol yn gysylltiedig ag anghenion cymhleth sy'n aros yn y system, gan arwain at weld y grŵp hwn yn flaenoriaeth, gyda phwyslais ar wella adsefydlu ac ailintegreiddio, yn dilyn dedfryd gymunedol neu ddedfryd o garchar. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn parhau i fod yn gorff cyhoeddus hyd braich, ac ni ddylid gwneud unrhyw beth a allai beryglu hynny.

17:05 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome Silk part 2, especially the recommendation to move to a reserved-powers model. Mike Hedges has covered that fully in his speech, but I hope that this will end the continued debate about what the Assembly has the power to do or not to do. I welcome the proposal to devolve policing. I am particularly pleased with the proposal that the treatment and rehabilitation of young offenders should be devolved, bearing in mind that the factors linked to youth offending are often related to education, training, health, social services—all areas those that are devolved. Certainly, it is not a new idea to devolve youth justice. When I was on the Welsh Affairs Committee in Westminster, in 2004 we recommended that youth justice should be devolved to Wales because it is so integrally caught up with the services that are devolved. I would have hoped that this could be something that all parties would support, so I am pleased that Mark Isherwood has said that his party is going to look at these proposals carefully.

Rwy’n croesawu rhan 2 Silk, yn enwedig yr argymhelliad i symud i fodel cadw pwerau yn ôl. Mae Mike Hedges wedi ymdrin â hyn yn llawn yn ei araith, ond rwy’n gobeithio y bydd hyn yn dod â’r ddadl barhaus am yr hyn y mae gan y Cynulliad y pŵer i’w wneud neu ddim ei wneud i ben. Rwy’n croesawu'r cynnig i ddatganoli plismona. Rwy’n arbennig o falch gyda'r cynnig y dylai triniaeth ac adsefydlu troseddwyr ifanc gael eu datganoli, gan gadw mewn cof bod y ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu ieuenctid yn aml yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol—pob un ohonynt yn feysydd sydd wedi'u datganoli. Yn sicr, nid yw'n syniad newydd i ddatganoli cyfiawnder ieuenctid. Pan oeddwn i ar y Pwyllgor Materion Cymreig yn San Steffan, yn 2004, argymhellwyd gennym y dylai cyfiawnder ieuenctid gael ei ddatganoli i Gymru am ei fod wedi’i gysylltu mor annatod gyda'r gwasanaethau sydd wedi eu datganoli. Byddwn wedi gobeithio y gallai hyn fod yn rhywbeth y byddai pob plaid yn ei gefnogi, felly rwy’n falch bod Mark Isherwood wedi dweud bod ei blaid ef yn mynd i edrych ar y cynigion hyn yn ofalus.

Silk part 2 also raises the issue of the devolution of the probation service and the prison service, and it recommends a study of the feasibility of implementation by the UK and Welsh Governments. I hope that this will be done. I would certainly support the devolution of the probation service, if, indeed, there is any probation service left to devolve after privatisation has taken place. I know that the probation service is very strongly linked with the prison service, so it is very important that we have a careful review of those issues and that we see where we go on that.

Mae rhan 2 Silk hefyd yn codi'r mater o ddatganoli'r gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth carchardai, ac mae'n argymell astudiaeth o ddichonoldeb gweithredu gan Lywodraethau’r DU a Chymru. Rwy’n gobeithio y bydd hyn yn cael ei wneud. Byddwn yn sicr yn cefnogi’r syniad o ddatganoli'r gwasanaeth prawf, os, yn wir, y bydd unrhyw wasanaeth prawf ar ôl i’w ddatganoli ar ôl i breifateiddio ddigwydd. Gwn fod cysylltiad cryf iawn rhwng y gwasanaeth prawf â’r gwasanaeth carchardai, felly mae'n bwysig iawn ein bod yn cael adolygiad gofalus o'r materion hynny a'n bod yn gweld i ble’r ydym yn mynd ar hynny.

The point that I really want to make is that we must have an Assembly here that is competent to take on all of these new areas. Silk part 2 recommends that the size of the Assembly should be increased so that it can better perform its scrutiny role. It also recommends having more research staff and more flexible committees. I personally think that we should start planning ahead for this now. Perhaps we should set up a Richard-style commission to look at the capacity of the Assembly in future with more powers. It is not a simple matter. We cannot just say, ‘Oh, yes, we can have 20 more Members.’ We have to look at the proportionality issue, which obviously will come into play if we increase the number of Members. I think that it is very important to retain the proportionality element, so this needs a lot of thinking through. I would personally support the setting up of an all-party body now that could look at where we go when we get more powers.

Y pwynt yr wyf wir eisiau ei wneud yw bod yn rhaid inni gael Cynulliad yma sy'n gymwys i ymgymryd â phob un o’r meysydd newydd. Mae rhan 2 Silk yn argymell y dylai maint y Cynulliad gael ei gynyddu fel y gall gyflawni ei swyddogaeth craffu yn well. Mae hefyd yn argymell cael mwy o staff ymchwil a phwyllgorau mwy hyblyg. Yn bersonol, credaf y dylem ddechrau cynllunio ymlaen llaw ar gyfer hyn yn awr. Efallai y dylem sefydlu comisiwn dull Richard i edrych ar gynhwysedd y Cynulliad yn y dyfodol gyda mwy o bwerau. Nid yw'n fater syml. Ni allwn ddweud, 'O, ie, gallwn gael 20 o Aelodau ychwanegol.' Mae'n rhaid inni edrych ar y mater cymesuredd, a fydd yn amlwg yn berthnasol os byddwn yn cynyddu nifer yr Aelodau. Rwy’n meddwl ei bod yn bwysig iawn cadw'r elfen gymesuredd, ac felly mae angen llawer o feddwl. Byddwn i'n bersonol yn cefnogi sefydlu corff hollbleidiol yn awr a allai fod yn edrych ar ble y byddwn yn mynd pan fyddwn yn cael mwy o bwerau.

I also think that it is very important that we are not nervous about tackling this issue. We could say that devolution has been a success. We have been able to achieve things as a devolved body that would not have been achieved had the Assembly not been created. We need to have the confidence to say that we want more powers. However, in order to do that, it really goes without saying that we have to have more Members and we have to have an Assembly that can function and properly scrutinise. If you look at the size of the Scottish Assembly, you will see that it has 129 Members. Northern Ireland's Assembly has 108 Members. All of those Members represent far fewer people within the population than we represent in this Assembly. Therefore, we should grasp this nettle and, hopefully, on a cross-party basis, perhaps look at how we would function as an Assembly if we get all of these extra powers, which I strongly support. As Silk part 2 says, good scrutiny means good legislation, and good legislation pays for itself.

Rwyf hefyd yn credu ei bod yn bwysig iawn nad ydym yn nerfus am fynd i'r afael â'r mater hwn. Gallem ddweud bod datganoli wedi bod yn llwyddiant. Rydym wedi gallu cyflawni pethau fel corff datganoledig na fyddent wedi eu cyflawni pe na byddai'r Cynulliad wedi ei greu. Mae angen i ni gael yr hyder i ddweud ein bod yn dymuno cael mwy o bwerau. Fodd bynnag, er mwyn gwneud hynny, afraid dweud bod yn rhaid i ni gael mwy o Aelodau a rhaid inni gael Cynulliad a all weithredu a chraffu'n briodol. Os edrychwch chi ar faint Cynulliad yr Alban, fe welwch fod ganddo 129 o Aelodau. Mae gan Gynulliad Gogledd Iwerddon 108 o Aelodau. Mae pob un o'r Aelodau hynny'n cynrychioli llawer llai o bobl o fewn y boblogaeth nag yr ydym ni'n eu cynrychioli yn y Cynulliad hwn. Felly, dylem wynebu'r mater hwnnw a, gobeithio, ar sail drawsbleidiol, efallai edrych ar sut y byddem yn gweithredu fel Cynulliad pe byddem yn cael yr holl bwerau ychwanegol hyn, yr wyf yn eu cefnogi'n gryf. Fel y mae Silk rhan 2 yn ddweud, mae craffu da yn golygu deddfwriaeth dda, ac mae deddfwriaeth dda yn talu amdani hi ei hun.

17:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Galwaf ar y Prif Weinidog i ymateb i'r ddadl.

I call on the First Minister to respond to the debate.

17:09

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Thank you, Dirprwy Lywydd. I thought that I would deal with some of the substantive points that have been made and then perhaps put the Silk debate in some context. First of all, Kirsty Williams talked about the number of politicians. I think that she is right. If there were to be a suggestion that there should be more Members here, there would need to be fewer members somewhere else. I do not think that the public would simply accept more politicians, as they would see it, without there being a decrease at another level of government—I am not suggesting which one, but it would be another level of government. I think that that is the reality of the situation, and I think that she gauges that correctly.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Roeddwn i'n meddwl y byddwn yn ymdrin â rhai o'r pwyntiau o sylwedd sydd wedi eu gwneud ac yna efallai rhoi'r ddadl Silk mewn rhywfaint o gyd-destun. Yn gyntaf oll, soniodd Kirsty Williams am y nifer o wleidyddion. Rwy'n meddwl ei bod yn iawn. Pe byddai awgrym y dylai fod mwy o Aelodau yma, byddai angen bod llai o aelodau yn rhywle arall. Nid wyf yn credu y byddai'r cyhoedd yn syml yn derbyn mwy o wleidyddion, fel y byddent yn ei weld, heb fod gostyngiad ar lefel arall o lywodraeth—nid wyf yn awgrymu pa un, ond byddai'n lefel arall o lywodraeth. Rwy'n meddwl mai dyna wirionedd y sefyllfa, ac rwy'n meddwl ei bod hi'n mesur hynny yn gywir.

In terms of teachers' pay and conditions, of course, there is nothing national about pay and conditions for teachers; it is an England-and-Wales terms and conditions set-up, and they are two nations, to my knowledge. In any event, the pay and conditions that have existed nationally across England are being eroded, and I think that the time has come for us to consider the issue of Welsh national pay and conditions. I do not accept that the only possibilities are either the same pay and conditions as England or worse; I think that they can be better, but it all depends on the transfer of resources in terms of what might happen with pay and conditions, and that is a very big 'if' at this stage.

O ran cyflog ac amodau athrawon, wrth gwrs, nid oes unrhyw beth cenedlaethol am gyflog ac amodau i athrawon; mae'n sefydliad telerau ac amodau Cymru a Lloegr, ac maent yn ddwy genedl, hyd y gwn i. Beth bynnag, mae'r cyflog a'r amodau sydd wedi bodoli yn genedlaethol ar draws Lloegr yn cael eu herydu, ac rwy'n meddwl bod yr amser wedi dod i ni ystyried y mater o gyflog ac amodau cenedlaethol i Gymru. Nid wyf yn derbyn mai'r unig bosibiliadau yw naill ai'r un cyflog ac amodau fel ag yn Lloegr neu waeth; rwy'n meddwl y gallant fod yn well, ond mae'n dibynnu ar drosglwyddo adnoddau o ran yr hyn a allai ddigwydd gyda thâl ac amodau, ac mae hynny'n 'os' mawr iawn ar hyn o bryd.

In terms of policing, again, I do not accept this issue that somehow, if policing was devolved, there would be issues with cross-border co-operation. It seems to work fine between Scotland and England, and it seems to work very well between Northern Ireland and the Republic, where the border, although an international one, does not physically exist—you can drive across it on the motorway, if you want. There is no indication that you have crossed an international border. I think that cross-border working is perfectly possible, and it happens in the UK. If it is suggested that policing cannot operate except on a state level, then the argument must surely follow that policing should be removed from the Scottish Government and, indeed, from the Northern Ireland Executive, so I do not accept that it is an issue that we need to trouble ourselves with in Wales. I think that it is perfectly possible to transfer policing to Wales without jeopardising cross-border working in any way. Indeed, examples in the rest of the UK show that that is indeed the case.

O ran plismona, unwaith eto, nid wyf yn derbyn y mater hwn, pe byddai plismona wedi'i ddatganoli, y byddai problemau rywsut gyda chydweithrediad ar draws ffiniau. Mae'n ymddangos i weithio'n iawn rhwng yr Alban a Lloegr, ac mae'n ymddangos i weithio'n dda iawn rhwng Gogledd Iwerddon a'r Weriniaeth, lle nad yw'r ffin, er ei bod yn un rhyngwladol, yn bodoli'n gorfforol—gallwch yrru ar ei thraws ar y draffordd, os ydych yn dymuno. Nid oes unrhyw arwydd eich bod wedi croesi ffin ryngwladol. Rwy'n meddwl bod gweithio traws-ffiniol yn gwbl bosibl, ac mae'n digwydd yn y DU. Os awgrymir na all plismona weithredu ac eithrio ar lefel y wladwriaeth, yna mae'n rhaid i'r ddadl ddilyn y dylid tynnu plismona oddi ar Lywodraeth yr Alban ac, yn wir, oddi ar Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, felly nid wyf yn derbyn ei fod yn fater y mae angen i ni roi sylw iddo yng Nghymru. Rwy'n meddwl ei bod yn gwbl bosibl i drosglwyddo plismona i Gymru heb beryglu gweithio traws-ffiniol mewn unrhyw ffordd. Yn wir, mae enghreifftiau yng ngweddill y DU yn dangos bod hynny'n wir.

We have to remember that the UK Government delivers very little directly across the whole of the UK. We are talking about defence, security, general taxation and one or two other things. It does not even, for example, deliver vehicle licensing across the whole of the UK, or social security, or employment law. Bearing that in mind, we have to look at what the UK should look like in the next 10 or 20 years, and Silk is just part of the debate. We must not kid ourselves that, somehow, Silk part 2 is the end of the debate across the UK for the next few years. The reality is that, whatever the outcome of the referendum in Scotland, there is bound to be further debate on what the UK should look like in the future. If the people of Scotland vote in favour of independence, it is a fallacy to think that we can carry on as before, as if nothing had happened. There are fundamental issues that would need to be resolved with regard to what would be left of the UK, and they are not easy to resolve. If the people of Scotland, as I hope, vote 'no', well, again, we should not labour under the belief that that deals with the issue of devolution in Scotland, in terms of further devolution, or indeed here in Wales. Members will have heard me in the past talk about the need for a constitutional convention—it has become something of a hackneyed phrase now—but, certainly, we do need, after September, to look at what the shape of the UK should be in the future. It is incongruous, for example, that there is one level of government that can do whatever it wants, in effect—even abolish this place—without even consulting this place or the people of Wales. Unrealistic though that might be in practice, the fact that it is there in theory is, in my view, wrong. The fact that there is an intervention power on the part of the Secretary of State to prevent Bills that have been passed through this democratic Chamber becoming law is wrong, and I say that regardless of whichever party holds the position of Secretary of State.

Mae'n rhaid inni gofio mai ychydig iawn y mae Llywodraeth y DU yn ei gyflwyno yn uniongyrchol ar draws y DU gyfan. Rydym yn sôn am amddiffyn, diogelwch, trethiant cyffredinol ac un neu ddau o bethau eraill. Nid yw hyd yn oed, er enghraifft, yn cyflwyno trwyddedu cerbydau ar draws y DU gyfan, na nawdd cymdeithasol, na chyfraith cyflogaeth. Gan gadw hynny mewn cof, mae'n rhaid i ni edrych ar sut y dylai'r DU edrych yn y 10 neu 20 mlynedd nesaf, a dim ond rhan o'r ddadl yw Silk. Ni ddylem ein twyllo ein hunain mai Silk rhan 2, rhywsut, yw diwedd y ddadl ar draws y DU am yr ychydig flynyddoedd nesaf. Y gwirionedd yw, beth bynnag fydd canlyniad y refferendwm yn yr Alban, bydd trafodaeth bellach yn siwr o ddigwydd ar sut y dylai'r DU edrych yn y dyfodol. Os bydd pobl yr Alban yn pleidleisio o blaid annibyniaeth, mae'n gamsyniad i feddwl y gallwn barhau fel ag o'r blaen, fel pe na byddai dim wedi digwydd. Mae materion sylfaenol y byddai angen eu datrys o ran yr hyn a fyddai ar ôl o'r DU, ac nid ydynt yn hawdd i'w datrys. Os bydd pobl yr Alban, fel yr wyf yn gobeithio, yn pleidleisio 'na', wel, unwaith eto, ni ddylem ni gredu bod hynny'n rhoi diwedd ar y mater o ddatganoli yn yr Alban, o ran rhagor o ddatganoli, nac yn wir yma yng Nghymru. Bydd yr Aelodau wedi fy nghlywed yn siarad yn y gorffennol am yr angen am gonfensiwn cyfansoddiadol—mae wedi dod yn dipyn o ystrydeb erbyn hyn—ond, yn sicr, mae angen i ni, ar ôl mis Medi, edrych ar beth ddylai siâp y DU fod yn y dyfodol. Mae'n anghyson, er enghraifft, bod un lefel o lywodraeth a all wneud beth bynnag y mae'n dymuno ei wneud, mewn gwirionedd—hyd yn oed dileu'r lle hwn—heb hyd yn oed ymgynghori â'r lle hwn na phobl Cymru. Er mor afrealistig yw hynny'n ymarferol, nid yw'r ffaith ei fod yno mewn theori, yn iawn yn fy marn i. Nid yw'r ffaith fod gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i ymyrryd i atal Biliau sydd wedi cael eu pasio drwy'r Siambr ddemocratig hon rhag dod yn gyfraith ddemocrataidd yn iawn, ac rwy'n dweud hynny pa bynnag blaid sy'n dal y swydd Ysgrifennydd Gwladol.

17:13

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'r Prif Weinidog yn dweud ei fod yn siomedig, efallai, gyda'r ymateb i'w alwad am gonfensiwn cyfansoddiadol—onid efe sydd o flaen ei amser?

The First Minister says that he is disappointed, perhaps, with the response to his demand for a constitutional convention—is he not before his time in this regard?

17:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am hynny. Dywedwn fy mod i wedi sylwi bod y Dirprwy Brif Weinidog yn Llundain, a'r Prif Weinidog hefyd, yn sôn yn awr am gonfensiwn cyfansoddiadol ar ôl y syniad a godais i yn gyntaf. Mae'n bwysig dros ben yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod y Deyrnas Unedig, a siâp y Deyrnas Unedig, yn rhywbeth cadarn i'r dyfodol. Nid felly y bydd hi os gwelwn ni sefyllfa lle nad oes dim byd yn digwydd ar ôl y refferendwm yn yr Alban, ni waeth beth fo'r canlyniad.

Thank you for that. I would say that I have noticed that the Deputy Prime Minister in London, and the Prime Minister as well, now mention a constitutional convention after the idea that I suggested in the first place. It is very important in the future, in order to ensure that the United Kingdom, and the shape of the United Kingdom, is something that is firm and robust for the future. That would not be the case if we see a situation where nothing happens post the Scottish referendum, whatever the result may be.

It is clear to me, Dirprwy Lywydd, that we have entered a new phase of constitutional thinking in the UK. I was struck by the Prime Minister's words when talking about the Scottish referendum, in that he described the UK as a union of nations. It is not something that I ever thought I would hear a Conservative Prime Minister say, but I think that he is right in that regard. We are moving to a situation where we see ourselves as part of a union, but we should not be afraid of the nations that make up that union; we should celebrate that and, in my view, the fact that we are part of that union. As I say, there are some who will take the view that the clock can be reversed back to a time when the UK was a centralised state. Those days are long gone. The issue now is to make sure that the second part of the Silk commission's report forms part of a wider constitutional debate across the whole of the UK to ensure, in my view, that we have a stable, prosperous and equal UK in the years to come.

Mae'n amlwg i mi, Ddirprwy Lywydd, ein bod wedi dechrau ar gyfnod newydd o feddwl cyfansoddiadol yn y DU. Cefais fy nharo gan eiriau'r Prif Weinidog wrth sôn am refferendwm yr Alban, pryd y disgrifiodd y DU fel undeb o genhedloedd. Nid yw'n rhywbeth a feddyliais erioed y byddwn yn clywed Prif Weinidog Ceidwadol yn ei ddweud, ond rwy'n meddwl ei fod yn iawn yn hynny o beth. Rydym yn symud i sefyllfa lle'r ydym yn gweld ein hunain fel rhan o undeb, ond ni ddylem fod ofn y cenhedloedd sy'n rhan o'r undeb hwnnw; dylem ddathlu hynny ac, yn fy marn i, y ffaith ein bod yn rhan o'r undeb hwnnw. Fel y dywedais, mae rhai a fydd yn cymryd y farn y gellir troi'r cloc yn ôl i amser pan oedd y DU yn wladwriaeth ganolog. Mae'r dyddiau hynny wedi hen fynd. Y broblem yn awr yw gwneud yn siŵr bod ail ran adroddiad comisiwn Silk yn ffurfio rhan o ddadl gyfansoddiadol ehangach ar draws y cyfan o'r Deyrnas Unedig i sicrhau, yn fy marn i, fod gennym DU sefydlog, ffyniannus a chyfartal yn y blynyddoedd i ddod.

17:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw wrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad. Gohiriaf pob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that amendment 1 be agreed. Are there any objections? There is objection. I therefore defer all voting under this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

17:15

## Cyfnod Pleidleisio

## Voting Time

Senedd.tv Fideo Video

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Before I conduct the first set of votes, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Cyn i mi gynnal y gyfres gyntaf o bleidleisiau, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes.

We will have a short pause. We have a slight technical delay.

Fe gawn saib byr. Mae gennym oedi technegol bach.

Order. I am suspending this session until 5.30 p.m. The bell will not be rung, so can everyone be back at 5.30 p.m.? We anticipate that we will then be able to conduct the votes electronically. Thank you.

Trefn. Rwy'n atal y sesiwn hon tan 5.30 pm Ni fydd y gloch yn cael ei chanu, felly a all pawb fod yn ôl am 5.30 pm? Rydym yn rhagweld y byddwn wedyn yn gallu cynnal y pleidleisiau yn electronig. Diolch yn fawr.

*Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 17:19.*

*Plenary was suspended at 17:19.*

*Ailymgynullodd y Cynulliad am 17:30, gyda'r Dirprwy Lywydd yn y Gadair.*

*The Assembly reconvened at 17:30, with the Deputy Presiding Officer in the Chair.*

17:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I regret to say that our technical difficulties are continuing.

Mae'n ddrwg gennyf ddweud bod ein hanawsterau technegol yn parhau.

I propose to conduct voting time in accordance with Standing Order 12.43, which means that we will proceed by show of hands. Are there any objections to me proceeding in that manner? There are not. However, it takes us some time to prepare for this, as we have to record the vote, and there are quite a number of them. I anticipate that this may take up to 15 minutes. I will ring the bell five minutes before we are likely to be ready to conduct voting time. We will probably be back to vote by 5.45 p.m. I apologise.

Rwy'n bwriadu cynnal y cyfnod pleidleisio yn unol â Rheol Sefydlog 12.43, sy'n golygu y byddwn yn symud ymlaen drwy godi dwylo. A oes unrhyw wrthwynebiad i mi symud ymlaen yn y modd hwnnw? Nid oes. Fodd bynnag, mae'n cymryd peth amser i ni baratoi ar gyfer hyn, gan fod rhaid i ni gofnodi'r bleidlais, ac mae cryn nifer ohonynt. Rwy'n rhagweld y gallai hyn gymryd hyd at 15 munud. Byddaf yn canu'r gloch bum munud cyn i ni fod yn debygol o fod yn barod i gynnal y cyfnod pleidleisio. Mae'n debyg y byddwn yn ôl i bleidleisio erbyn 5:45 Rwy'n ymddiheuro.

*Ataliwyd y cyfarfod am 17:30.*

*Plenary was suspended at 17:30.*

*Ailymgynullodd y Cynulliad am 17:37, gyda'r Dirprwy Lywydd yn y Gadair.*

*The Assembly reconvened at 17:37, with the Deputy Presiding Officer in the Chair.*

17:37

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Order. The system now seems to be operational again, so we will conduct the votes electronically. [Interruption.] The bell has been rung, but I have to consult some papers, however, which will take about 30 seconds, by which time I hope that the Labour Chief Whip has been able to gather in the sheep.

Trefn. Mae'n ymddangos bod y system yn gweithio eto, felly byddwn yn cynnal y pleidleisiau yn electronig. [Torri ar draws.] Mae'r gloch wedi cael ei chanu, ond rhaid imi edrych ar rai papurau, fodd bynnag, a fydd yn cymryd tua 30 eiliad, ac erbyn hynny rwy'n gobeithio y bydd Prif Chwip Llafur wedi gallu casglu'r defaid.

We are voting on the draft children's rights scheme 2014. Amendment 1 to NDM5489 has already been agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Rydym yn pleidleisio ar y cynllun drafft hawliau plant 2014. Gwelliant 1 i NDM5489 sydd eisoes wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i NDM5489.

Result of the vote on amendment 2 to NDM5489.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 26, Ymatal 10.*

*Amendment not agreed: For 15, Against 26, Abstain 10.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5489.](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM548.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.*

Cynnig NDM5489 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5489 as amended:

1. Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 3(6) o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, yn cymeradwyo'r drafft o Gynllun Hawliau Plant 2014 a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 22 Ebrill 2014.

1. To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with section 3(6) of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, approves the draft Children's Rights Scheme 2014 laid before the Assembly on 22 April 2014.

2. Yn nodi datganiad y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, sydd wedi'i gynnwys yn atodiad 3 i Gynllun Hawliau Plant 2014, bod y rhwymedigaeth i roi'r brif ystyriaeth i fuddiannau gorau'r plentyn yn ymestyn hefyd at gymeradwyo cyllidebau, gan fod gofyn mabwysiadu safbwynt sy'n canolbwyntio ar fuddiannau gorau'r plentyn wrth eu paratoi a'u datblygu er mwyn iddynt fod yn sensitif i hawliau plant.

2. Notes the Committee on the Rights of the Child's statement, included in annex 3 to the Children's Rights Scheme 2014, that the obligation to take the child's best interests as a primary consideration 'extends also to the approval of budgets, the preparation and development of which require the adoption of a best-interests-of-the-child perspective for it to be child-rights sensitive'.

3. Yn nodi Adroddiad Interim Corff Anllywodraethol Cymru 2013 'Hawliau Nawr, Hawliau Heddiw: A yw Hawliau Plant yn Realaeth yng Nghymru?' ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod prosesau monitro effeithiol ar waith er mwyn sicrhau 'gweithredu unedig i leihau'r bwlch o ran gweithredu rhwng rhethreg polisi cenedlaethol a chyflenwi lleol'.

3. Notes the 2013 Wales NGO Interim Report 'Rights Here, Right Now: Are Children's Rights a Reality in Wales?' and calls on the Welsh Government to ensure effective monitoring mechanisms are in place in order to deliver 'concerted action in reducing the implementation gap between national policy rhetoric and local delivery'.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5489 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5489 as amended.

*Derbyniwyd cynnig NDM5489 fel y'i diwygiwyd: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM5489 as amended agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5490.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5490.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5490.

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5490.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 1.*

*Amendment not agreed: For 25, Against 26, Abstain 1.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5490.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5490.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig welliant 4 i gynnig NDM5490.

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5490.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 26, Ymatal 10.*

*Amendment not agreed: For 16, Against 26, Abstain 10.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig welliant 5 i gynnig NDM5490.

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5490.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5490.

Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5490.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 27, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 27, Against 25, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnig NDM5490.

Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5490.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i gynnig NDM5490.

Result of the vote on amendment 8 to motion NDM5490.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 9 i gynnig NDM5490.

Result of the vote on amendment 9 to motion NDM5490.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Cynnig NDM5490 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5490 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi y bydd cynigion Llywodraeth Cymru yn Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn sbarduno ac yn cryfhau'r economi, yr amgylchedd a chydlyniant cymdeithasol yn y Gymru Wledig.

1. Notes that the Welsh Government's proposals for the Rural Development Programme 2014-2020 will stimulate and strengthen the economy, environment and social cohesion of rural Wales.

2. Yn penderfynu y dylai Llywodraeth Cymru ddangos yn flynyddol effaith y Rhaglen Datblygu Gwledig ar incwm ffermydd.

2. Resolves that the Welsh Government should demonstrate annually the impact of the Rural Development Programme on farm incomes.

3. Yn galw ar y Llywodraeth i flaenoriaethu cymorth i ffermwyr ifanc er mwyn ysgogi'r sector ffermio.

3. Calls on the Government to prioritise support for young farmers in order to stimulate the farming sector.

4. Yn nodi cyfraniad sylweddol yr economi wledig at economi ehangach Cymru ac yn cydnabod y potensial ar gyfer datblygu economaidd drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig.

4. Notes the significant contribution of the rural economy to the wider Welsh economy and recognises the potential for economic development through the Rural Development Programme.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5490 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5490 as amended.

*Gwrthodwyd cynnig NDM5490 fel y'i diwygiwyd: O blaid 12, Yn erbyn 40, Ymatal 0.*

*Motion NDM5490 as amended not agreed: For 12, Against 40, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5491.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5491.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 41, Yn erbyn 0, Ymatal 11.*

*Amendment agreed: For 41, Against 0, Abstain 11.*

Cynnig NDM5491 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5491 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn croesawu cyhoeddi adroddiad diweddaraf Comisiwn Silk gan Lywodraeth y DU, y cytunwyd arno'n unfrydol, sef 'Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru', ac yn ystyried yr adroddiad fel sail i'r angen mawr am ddiwygio'r setliad datganoli i Gymru.

1. Welcomes the publication of the latest unanimously agreed report by the UK Government's Silk Commission —'Empowerment and Responsibility: Legislative Powers to Strengthen Wales' and views the report as the basis for much needed reform of the devolution settlement for Wales.

2. Yn nodi argymhellion Comisiwn Silk i gynnwys diwygiadau deddfwriaethol allweddol mewn maniffestos pleidiau, fel cyflwyno model cadw pwerau, trosglwyddo pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol, a chryfhau capasiti'r Cynulliad Cenedlaethol i graffu ar ddeddfwriaeth, ac yn annog pleidiau gwleidyddol Cymru i ddilyn y cynnig hwn.

2. Notes the Silk Commission's recommendations to include key legislative reforms within party manifestos, such as introducing a reserved powers model, transferring powers to the National Assembly, and strengthening the capacity of the National Assembly to scrutinise legislation, and encourages Welsh political parties to follow this proposal.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5491 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5491 as amended.

*Derbyniwyd cynnig NDM5491 fel y'i diwygiwyd: O blaid 41, Yn erbyn 0, Ymatal 11.*

*Motion NDM5491 as amended agreed: For 41, Against 0, Abstain 11.*

17:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That concludes today's business.

Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:44.*

*The meeting ended at 17:44.*